

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number: 01/2011



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru 2009

Arolwg Gofal Plant a'r Blynddoedd Cynnar yng Nghymru 2009

Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol

Awduron:

**Ruth Smith
Eloise Poole
Jane Perry
Ivonne Wollny
Alice Reeves
Cathay Coshall
John d'Souza**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rhannu'r farn honno o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Joanne Starkey

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6539

Ebost: joanne.starkey@cymru.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010

ISBN 978 0 7504 5955 6

© Hawlfraint y Goron 2010

Cynnwys

Cydnabyddiaethau	11
1 Cyflwyniad	12
1.1 Amcanion yr astudiaeth	12
1.2 Cefndir polisi	12
Canlyniadau i blant	13
Cyflogaeth.....	13
1.3 Golwg gyffredinol ar gynllun yr astudiaeth	14
Y cyfweiliadau.....	14
Diffinio gofal plant	15
1.4 Newidiadau dros amser yr arolwg.....	17
Y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant.....	17
Costau gofal plant.....	18
1.5 Yr adroddiad	18
Dehongli canlyniadau yn yr adroddiad.....	19
Pwysoli.....	19
Seiliau	19
Canrannau	20
Arwyddocâd ystadegol.....	20
Symbolau mewn tablau.....	20
2 Defnyddio gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar	21
2.1 Cyflwyniad	21
2.2 Defnydd teuluoedd o ofal plant	21
2.3 Defnydd teuluoedd o ofal plant: tueddiadau dros amser.....	24
2.4 Amcangyfrifon cenedlaethol o ddefnydd gofal plant.....	26
2.5 Defnydd o ofal plant, yn ôl oedran y plant.....	27
2.6 Defnydd o ofal plant yn ôl nodweddion y teulu.....	30
2.7 Defnydd o ofal plant yn ôl rhanbarth ac amddifadedd ardaloedd.....	32
2.8 Defnydd o'r hawl gan blant 3-4 blwydd oed i addysg y blynyddoedd cynnar am ddim	34
2.9 Crynodeb	35
3 Pecynnau gofal plant a'u dibenion	37
3.1 Cyflwyniad	37
3.2 Defnydd o ofal plant, yn ôl oedran y plentyn	38
3.3 Nifer y darparwyr a ddefnyddiwyd.....	41
3.4 Patrymau defnydd gofal plant	43
3.5 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant.....	45
3.6 Crynodeb	50
4 Talu am ofal plant.....	52
4.1 Cyflwyniad	52
4.2 Taliadau teuluoedd am ofal plant.....	52
Faint o deuluoedd a dalodd am ofal plant ac am beth yr oeddent yn talau?	53
Faint yr oedd teuluoedd yn ei dalu yr wythnos?.....	54
A oedd taliadau am ofal plant yn amrywio yn ôl incwm teuluoedd? ..	56
Faint o deuluoedd a oedd yn gwneud taliadau ar wahân i arian?	57
4.3 Cymorth ariannol gyda chostau gofal plant.....	58
Faint o deuluoedd oedd yn derbyn cymorth tuag at gostau gofal plant?.....	58

4.4	Credydau Treth.....	59
	Faint o deuluoedd a ddywedodd eu bod yn derbyn credydau treth?	59
	Faint o gredyd treth yr oedd teuluoedd yn ei dderbyn?.....	60
	Faint o deuluoedd nad oeddent yn hawlio a oedd yn ymwybodol o elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith?.....	61
	Pam nad oedd teuluoedd yn hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith?.....	61
4.5	Anawsterau gyda chostau gofal plant.....	62
4.6	Crynodeb	63
5	Ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau am ofal plant.....	65
5.1	Cyflwyniad	65
5.2	Cael gwybodaeth am ofal plant.....	65
	O ble mae rhieni'n cael gwybodaeth?.....	65
	A oedd y ffynonellau gwybodaeth yn ddefnyddiol?	68
	Ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a'r defnydd a wneir ohono.....	69
	A yw rhieni'n cael digon o wybodaeth?	70
	Pa wybodaeth arall yr hoffai rhieni ei chael?.....	71
5.3	Canfyddiadau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	72
5.4	Y galw am ofal plant y tu allan i oriau ysgol	74
	Pam nad oedd teuluoedd yn defnyddio clybiau y tu allan i'r ysgol? ..	74
	A fyddai rhieni'n defnyddio clybiau y tu allan i'r ysgol pe baent ar gael?	75
5.5	Rhesymau dros beidio â defnyddio unrhyw ofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf	75
5.6	Rhesymau dros beidio â defnyddio addysg feithrin ar gyfer plant 0-2 flwydd oed.....	78
5.7	Crynodeb	78
6	Barn rhieni am eu gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar.....	80
6.1	Cyflwyniad	80
6.2	Y prif reswm dros ddewis darparwyr ffurfiol	80
6.3	Barn rhieni am y sgiliau a anogir gan eu prif ddarparwr ffurfiol	82
	Sgiliau Academaidd	82
	Sgiliau cymdeithasol	84
6.4	Barn rhieni am yr adborth y mae eu darparwr yn ei gynnig.....	85
6.5	Gweithgareddau y mae plant wedi cymryd rhan ynddynt a gweithgareddau dysgu gartref	87
6.6	Gwasanaethau eraill sydd ar gael gan ddarparwyr gofal plant	88
6.7	Crynodeb	91
7	Defnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol	93
7.1	Cyflwyniad	93
7.2	Defnydd teuluoedd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.....	93
7.3	Defnydd plant o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol.....	95
	Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau yn ôl oedran y plant.....	98
	Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau yn ôl amgylchiadau teuluoedd	99
	Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau yn ôl rhanbarth ac amddifadedd ardal	100
7.4	Rhesymau am ddefnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau.....	101
7.5	Talu am ofal plant yn ystod y gwyliau	103
7.6	Gofal plant a oedd ar gael yn ystod y gwyliau.....	104

Pa mor hawdd oedd hi i rieni sy'n gweithio ddod o hyd i ofal yn ystod y gwyliau	104
A oedd digon o oriau ar gael gyda darparwyr ffurfiol ai peidio	105
Tybiaethau o ba mor hawdd y byddai dod o hyd i ddarpariaeth arall yn ystod y gwyliau.....	105
7.7 Barn rhieni am y gofal plant a ddefnyddiwyd yn ystod gwyliau'r ysgol	105
7.8 Teuluoedd nad oeddent yn defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau.....	109
7.9 Crynodeb	109
8 Mamau, gofal plant a gwaith	111
8.1 Cyflwyniad	111
8.2 Darlun cyffredinol o batrymau gwaith mamau	111
8.3 Symud i weithio ac o oriau rhan-amser i oriau amser llawn	114
8.4 Dylanwadau ar benderfyniadau mamau i fynd allan i weithio	115
8.5 Trefniadau gweithio delfrydol	120
8.6 Mamau sy'n astudio	121
8.7 Mamau nad oeddent mewn swyddi cyflogedig	123
8.8 Crynodeb	126
9 Casgliadau	127
9.1 Cyflwyniad	127
9.2 Addysg y blynyddoedd cynnar i blant tair a phedair blwydd oed.....	127
9.3 Gofal plant y tu allan i'r ysgol i blant oedran ysgol	128
9.4 Defnydd o ofal plant anffurfiol	129
9.5 Gofal plant yn ystod y gwyliau i blant oedran ysgol	130
9.6 Cyflogaeth mamau.....	131
9.7 Teuluoedd sy'n profi anfantais	132
Cyfeiriadau	134
Atodiad A Proffil Cymdeithasol-ddemograffig.....	136
Nodweddion yr ymatebwyr	136
Nodweddion teuluoedd.....	137
Nodweddion y plant a ddewiswyd	140
Amddifadedd ardal	142
Atodiad B Atodiad technegol	143
B.1 Cynnwys yr holiadur a'r cyfweliad	143
B.2 Samplu.....	144
Dethol derbynwyr	144
Dewis plant	145
B.3 Cysylltu ag ymatebwyr	145
B.4 Cyfarwyddyd	146
B.5 Cyfraddau ymateb y gwaith maes.....	146
B.6 Neilltuo codau a golygu data.....	148
B.7 Dilysu darparwyr	149
B.8 Pwysoli.....	150
Rhesymau dros bwysoli	150
Pwysoliadau dethol	151
Calibradu	152
Maint sampl effeithiol	154
B.9 Deunyddiau gwaith maes.....	155
Atodiad C Tablau ychwanegol	156

Tablau

Tabl 2.1	Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl gwlad	23
Tabl 2.2	Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl blwyddyn yr arolwg	25
Tabl 2.3	Amcangyfrifon cenedlaethol o ddefnydd gofal plant	27
Tabl 2.4	Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl oedran y plentyn	29
Tabl 2.5	Defnydd o ofal plant, yn ôl rhanbarth	33
Tabl 2.6	Defnydd o ofal plant, yn ôl amddifadedd ardaloedd	34
Tabl 3.1	Defnydd o ofal plant i blant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn	39
Tabl 3.2	Defnydd o ofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn	40
Tabl 3.3	Nifer y darparwyr i blant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn	41
Tabl 3.4	Nifer y darparwyr i blant cyn ysgol, yn ôl y Pecyn gofal	42
Tabl 3.5	Nifer y darparwyr i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn	42
Tabl 3.6	Nifer y darparwyr i blant oedran ysgol, yn ôl y Pecyn gofal	43
Tabl 3.7	Patrymau defnydd gofal plant i blant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn	44
Tabl 3.8	Patrymau defnydd gofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn	45
Tabl 3.9	Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant cyn ysgol, yn ôl y pecyn gofal	48
Tabl 3.10	Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl y pecyn gofal	49
Tabl 4.1	Taliadau teuluoedd am ofal plant, yn ôl y math o ofal plant	53
Tabl 4.2	Taliadau wythnosol am ofal plant, yn ôl y math o ofal plant	55
Tabl 4.3	Symiau a dalwyd gan deuluoedd fesul awr, yn ôl y math o ofal plant	56
Tabl 4.4	Taliadau wythnosol am ofal plant, yn ôl incwm	57
Tabl 4.5	Cymorth ariannol gan eraill, yn ôl nodweddion y teulu	59
Tabl 4.6	Credyd Treth Plant ac elfen gofal plant a dderbynnir gan deuluoedd sy'n gweithio	60
Tabl 4.7	Rhesymau pam nad oedd teuluoedd yn hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith	62
Tabl 5.1	Ffynonellau gwybodaeth am ofal plant a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl mathau o ofal plant a ddefnyddiwyd	67
Tabl 5.2	Pa mor ddefnyddiol yw'r prif ffynonellau gwybodaeth am ofal plant	69
Tabl 5.3	Lefelau gwybodaeth am ofal plant yn yr ardal leol, 2004-09	70
Tabl 5.4	Yr wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen	72
Tabl 5.5	Digon o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ôl oedran y plant	74
Tabl 5.6	Rhesymau dros beidio â defnyddio clybiau cyn/ar ôl ysgol	75
Tabl 5.7	Rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf	76
Tabl 5.8	Y gofal anffurfiol a oedd ar gael	77
Tabl 5.9	Newidiadau a fyddai'n ei gwneud yn haws i deuluoedd ddefnyddio gofal ffurfiol	77
Tabl 5.10	Rhesymau dros beidio â defnyddio addysg feithrin ar gyfer plant 0-2 oed	78
Tabl 6.1	Y prif reswm dros ddewis prif ddarparwr ffurfiol, yn ôl oedran y plentyn	82
Tabl 6.3	Pa mor aml y mae plant yn dod â llyfrau gan y darparwr gartref i edrych arnynt/eu darllen gyda'u rhieni	84

Tabl 6.4	Sgiliau cymdeithasol a anogir gan y prif ddarparwr, yn ôl oedran y plentyn	85
Tabl 6.5	Dulliau a ddefnyddir gan ddarparwyr ffurfiol i roi adborth i rieni, yn ôl oedran y plentyn	86
Tabl 6.6	Pa mor aml y mae rhieni yn siarad ag aelodau staff y darparwr am ddatblygiad eu plant, yn ôl oedran y plentyn.....	87
Tabl 6.9	Gwasanaethau gan eu prif ddarparwr ffurfiol a ddefnyddiwyd gan rieni, yn ôl y math o ddarparwr.....	90
Tabl 7.1	Defnydd o ofal plant yn ystod tymor yr ysgol o gymharu â gwyliau'r ysgol	95
Tabl 7.2	Defnydd o ofal plant yn ystod tymor yr ysgol a gwyliau'r ysgol.....	96
Tabl 7.3	Defnydd o ddarparwyr gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ôl oedran y plentyn	98
Tabl 7.4	Defnydd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol yn 2009, yn ôl nodweddion teuluoedd.....	99
Tabl 7.5	Defnydd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ôl rhanbarth ...	100
Tabl 7.6	Defnydd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ôl amddifadedd ardal.....	101
Tabl 7.7	Rhesymau manwl rhieni dros ddefnyddio darparwyr gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ôl y math o ofal plant a ddefnyddiwyd.....	103
Tabl 7.8	Pa un a oedd y darparwyr ffurfiol a ddefnyddiwyd gan deuluoedd ar gael am ddigon o amser yn ystod gwyliau'r ysgol.....	105
Tabl 7.9	Barn rhieni am ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ôl defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau	107
Tabl 7.10	Barn rhieni sy'n gweithio am oriau gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ôl y defnydd o ofal plant	108
Tabl 8.1	Cyflogaeth mamau, yn ôl y math o deulu	112
Tabl 8.2	Oriau gwaith annodweddiadol, yn ôl y math o deulu	113
Tabl 8.3	Rhesymau dros ddechrau swydd gyflogedig neu symud i weithio'n amser llawn, yn ôl y math o deulu.....	115
Tabl 8.4	Trefniadau gofal plant a wnaeth gynorthwy mamau i fynd allan i weithio, yn ôl y math o deulu.....	117
Tabl 8.5	Dylanwadau ar benderfyniadau mamau i fynd allan i weithio, yn ôl y math o deulu	119
Tabl 8.6	Sylwadau ar drefniadau gweithio delfrydol, yn ôl strwythur y teulu	121
Tabl 8.7	Trefniadau gofal plant sy'n cynorthwyo mamau i astudio	122
Tabl 8.8	Rhesymau'n ymwneud â gofal plant dros beidio â gweithio, yn ôl y math o deulu.....	124
Tabl 8.9	Rhesymau dros beidio â gweithio, yn ôl y math o deulu.....	125
Tabl A.1	Oedran yr ymatebwr, yn ôl y math o deulu.....	136
Tabl A.2	Statws priodasol.....	136
Tabl A.3	Cymwysterau, yn ôl y math o deulu	137
Tabl A.4	Nifer y plant y plant yn yr aelwyd, yn ôl y math o deulu.....	138
Tabl A.5	Presenoldeb plant cyn ysgol a phlant oedran ysgol yn yr aelwyd, yn ôl y math o deulu.....	138
Tabl A.6	Incwm blynyddol teuluoedd, yn ôl y math o deulu	139
Tabl A.7	Statws gwaith teuluoedd	139
Tabl A.8	Statws deiliadaeth, yn ôl y math o deulu	140
Tabl A.9	Oedran y plentyn a ddewiswyd, yn ôl y math o deulu	141
Tabl A.10	Ethnigrwydd y plentyn a ddewiswyd, yn ôl y math o deulu.....	141
Tabl A.11	Anghenion addysgol arbennig neu anabledau'r plentyn a ddewiswyd, yn ôl y math o deulu	142

Tabl A.12	Amddifadedd ardal yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog.....	142
Tabl B.1	Ffigurau ymateb yr arolwg.....	147
Tabl B.2	Ffigurau ymateb y gwaith maes	148
Tabl B.3	Dosbarthiad darparwyr cyn ac ar ôl eu dilysu.....	150
Tabl B.4	Cymharu ffigurau lefel poblogaeth derbynwyr â'r sampl wedi ei bwysoli.....	153
Tabl B.5	Cymharu ffigurau poblogaeth lefel plant â'r sampl wedi ei bwysoli.....	154
Tabl B.6	Lleihad mewn maint sampl effeithiol oherwydd pwysoli ac effeithiolrwydd sampl	155
Tabl C2.1	Defnydd o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol, yn ôl blwyddyn yr arolwg	156
Tabl C2.2	Defnydd o ofal plant, yn ôl nodweddion teuluoedd.....	157
Tabl C2.3	Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl y math o deulu a statws gwaith	158
Tabl C2.4	Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl incwm.....	159
Tabl C2.5	Modelau atchweliad logistaidd ar gyfer defnydd o ofal plant ffurfiol.....	160
Tabl C2.6	Derbyn gofal am ddim.....	160
Tabl C3.1	Patrymau defnydd gofal ar gyfer plant cyn ysgol, yn ôl y math o ofal plant.....	161
Tabl C3.2	Patrymau defnydd gofal plant ar gyfer plant oedran ysgol, yn ôl y math o ofal plant.....	161
Tabl C3.3	Cyfuniadau o resymau a roddwyd dros ddefnyddio darparwyr gofal plant ar gyfer plant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn.....	162
Tabl C3.4	Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant ar gyfer plant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn.....	162
Tabl C3.5	Cyfuniadau o resymau a roddwyd dros ddefnyddio darparwyr gofal plant ar gyfer plant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn.....	163
Tabl C3.6	Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant ar gyfer plant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn	163
Tabl C3.7	Nifer y darparwyr ar gyfer plant cyn ysgol, yn ôl y rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant.....	163
Tabl C3.8	Nifer y darparwyr ar gyfer plant oedran ysgol, yn ôl y rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant.....	164
Tabl C3.9	Patrymau defnydd gofal plant ar gyfer plant cyn ysgol, yn ôl y rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant.....	164
Tabl C3.10	Patrymau defnydd gofal plant ar gyfer plant oedran ysgol, yn ôl y rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant.....	165
Tabl C4.1	Gwasanaethau y talwyd amdanynt	165
Tabl C4.2	Taliadau ar wahân i arian yn ystod yr wythnos gyfeirio.....	165
Tabl C4.3	Trafferth talu am ofal plant	166
Tabl C5.1a	Prif ffynonellau gwybodaeth, yn ôl nodweddion teuluoedd.....	167
Tabl C5.1b	Prif ffynonellau gwybodaeth, yn ôl nodweddion teuluoedd.....	168
Tabl C5.2	Ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a defnydd ohono, 2004-09.....	169
Tabl C5.3	Lefel y wybodaeth am ofal plant, yn ôl nodweddion teuluoedd .	170
Tabl C5.4	Defnydd o ddarparwyr Cymraeg a dwyieithog	171
Tabl C6.1	Y prif reswm dros ddewis prif ddarparwr ffurfiol ar gyfer plant oedran ysgol, yn ôl statws gwaith	171
Tabl C6.2	Y prif reswm dros ddewis y prif ddarparwr ffurfiol, yn ôl oedran y plentyn.....	172

Tabl C6.3	Pa mor aml y mae rhieni'n derbyn gwybodaeth am y gweithgareddau y bu eu plant yn cymryd rhan ynddynt, yn ôl oedran y plentyn	172
Tabl C6.4	Pa un a oedd darparwyr teuluoedd yn gysylltiedig â Chanolfannau Plant Integredig/ Dechrau'n Deg/ Ysgolion Bro	173
Tabl C7.1	Pa mor hawdd/ anodd oedd trefnu gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol	173
Tabl C7.2	Rhesymau rhieni dros ddefnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ôl y math o ofal plant a ddefnyddiwyd	173
Tabl C7.3	Rhesymau manwl rhieni dros ddefnyddio darparwyr, yn ôl y math o ofal plant a ddefnyddiwyd	174
Tabl C7.4	Pa mor hawdd/anodd oedd trefnu gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol	175
Tabl C7.5	Barn rhieni am ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ôl statws gwaith	176
Tabl C8.1	Newidiadau i gyflogaeth mamau, 2004 - 2009	177
Tabl C8.2	Pa un a oedd oriau gwaith annodweddiadol yn achosi problemau gyda gofal plant.....	177
Tabl C8.3	Trefniadau gofal plant a wnaeth gynorthwyo mamau i fynd allan i weithio, yn ôl cymhwyster uchaf y fam	178
Tabl C8.4	Trefniadau gofal plant a gynorthwyodd famau i fynd allan i weithio, yn ôl dosbarthiad NS-SEC y fam	179
Tabl C8.5	Dylanwadau a wnaeth gynorthwy penderfyniadau mamau i fynd allan i weithio, yn ôl cymhwyster uchaf y fam.....	180
Tabl C8.6	Dylanwadau a wnaeth gynorthwyo penderfyniadau mamau i fynd allan i weithio, yn ôl dosbarthiad NS-SEC y fam	181
Tabl C8.7	Barn am drefniadau gweithio delfrydol, yn ôl lefel cymhwyster uchaf y fam	182
Tabl C8.8	Barn am drefniadau gweithio delfrydol, yn ôl dosbarthiad NS-SEC y fam	183
Tabl C8.9	Rhesymau'n ymwneud â gofal plant dros beidio â gweithio, yn ôl cymhwyster uchaf y fam.....	184
Tabl C8.10	Rhesymau dros beidio â gweithio, yn ôl cymhwyster uchaf y fam.....	185

Ffigurau

Ffigur 2.1	Defnydd o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol	22
Ffigur 2.2	Defnydd o ofal plant, yn ôl y math o deulu a statws gwaith	31
Ffigur 2.3	Defnydd o ofal plant, yn ôl incwm.....	32
Ffigur 2.4	Derbyn yr hawl am ddim.....	35
Ffigur 3.	Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn	47
Ffigur 4.1	Taliadau ar wahân i arian i ddarparwyr anffurfiol.....	57
Ffigur 4.3	Anhawster wrth dalu am ofal plant	63
Ffigur 5.1	Ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a'r defnydd a wneir ohono.....	70
Ffigur 7.1	Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau yn ôl y math o ddarpariaeth.....	94
Ffigur 7.2	Rhesymau rhieni dros ddefnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ôl y math o ofal plant.....	102
Ffigur 7.3	Pa mor hawdd/anodd yw trefnu gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol	104

Ffigur 8.1 Newidiadau i gyflogaeth mamau, 2004-2009	112
Ffigur 8.2 Pa un a oedd oriau gwaith annodweddiadol yn achosi problemau gyda gofal plant	114

Cydnabyddiaethau

Hoffem ddiolch i'r holl rieni a gymerodd ran yn yr arolwg, am eu hamser a'u hatebion didwyll. Ni fyddem wedi gallu cynnal yr arolwg heb eu parodrwydd i roi gwybodaeth fanwl iawn i'n cyfwelwyr am eu trefniadau gofal plant, am eu rhesymau dros ddefnyddio gofal plant neu beidio, a'u barn am ddarparwyr gofal plant penodol ac am ofal plant yn gyffredinol.

Rydym hefyd yn ddiolchgar i Joanne Starkey yn Llywodraeth y Cynulliad am ei chefnogaeth i'r arolwg a'i hadborth gwerthfawr ar yr adroddiad.

Mae nifer o gydweithwyr yn NatCen wedi cyfrannu at yr astudiaeth, a hoffem ddiolch i'r canlynol: Sandra Laver, Sue Hobbs, Sharon Evans a Louise Humphreys yn yr Adran Gweithrediadau; Sue Corbett a Peyman Damestani yn yr adran Cyfrifiadura Prosiectau; Chris Massett, Sonia Shirvington a'u tîm yn yr Uned Ffonau; Andy Scott a gynorthwyodd i baratoi'r adroddiad; a holl gyfwelwyr NatCen a fu'n gweithio ar yr arolwg.

1 Cyflwyniad

1.1 Amcanion yr astudiaeth

Mae'r adroddiad hwn yn darparu prif ganfyddiadau Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2009. Yr astudiaeth bresennol yw'r ail mewn cyfres a ddechreuodd yn 2004 (Bryson et al. 2006a)¹. Fe'i hariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i cynhaliwyd gan y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen). Nod yr astudiaeth yw darparu gwybodaeth berthnasol a chyfredol am ddefnydd rhieni o ofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar, ac am eu safbwyntiau a'u profiadau o ofal plant. Yr amcan cyffredinol oedd casglu data cywir i gynorthwyo'r gwaith o werthuso ymyriadau polisi diweddar ym maes gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar i deuluoedd yng Nghymru.

1.2 Cefndir polisi

Mae gofal plant wedi bod yn nodwedd allweddol o weledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru well. Ers datganoli, mae nifer o gynlluniau a strategaethau gofal plant wedi'u sefydlu sydd wedi cydnabod y buddiannau y gall gofal plant eu rhoi i rieni, i blant ac i'r economi. Strategaeth Gofal Plant Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005) yw'r ddogfen ddiweddaraf sy'n nodi'n fanwl sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r amcanion cydberthnasol canlynol:

- Sicrhau bod pob gofal plant yn cefnogi anghenion plant yng Nghymru o ran eu datblygiad (gan wella canlyniadau plant);
- Sicrhau bod gofal plant ar gael yn eang am bris y gellir ei fforddio fel bod rhieni'n gallu hyfforddi neu weithio, gan godi lefelau gweithgarwch economaidd yng Nghymru (a fydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar dlodi plant a chanlyniadau plant);
- Darparu gofal plant sy'n rhoi hyblygrwydd a dewis i rieni ynglŷn â sut i gydbwyso teulu, gwaith ac ymrwymadau eraill yn eu bywydau, gan hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol yn y gweithlu.

Ers cyhoeddi'r Strategaeth Gofal Plant, fe fu rhai datblygiadau sylweddol ym maes gofal plant, gan gynnwys Deddf Gofal Plant 2006 a Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2009. Mae Deddf Gofal Plant 2006 yn sail i strategaeth gofal plant Llywodraeth y Cynulliad ac yn cynnwys y canlynol yn y ddeddf:

- Disgwyliad dilys rhieni y bydd gofal plant o ansawdd uchel ar gael yn rhwydd i blant a'u teuluoedd;
- Cyfrifoldebau Awdurdodau Lleol i roi gwybodaeth i rieni a darpar rieni i'w cefnogi yn eu swyddogaeth rianta.

Mae'r Ddeddf Gofal Plant yn rhoi'r dyletswyddau canlynol ar awdurdodau lleol yng Nghymru:

¹ Hefyd, ceir cyfres gyfocrog o Arolygon Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar wedi eu cynnal gyda rhieni yn Lloegr yn 2004, 2007, 2008 a 2009.

- Sicrhau y darperir gofal plant digonol i fodloni gofynion rhieni yn eu hardal pan mae angen gofal plant arnynt er mwyn gweithio neu gael hyfforddiant neu addysg i baratoi ar gyfer gwaith;
- Sicrhau bod yr ystod lawn o wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar gael i rieni.

Mae'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn adeiladu ar sylfeini Cymorth a Dechrau'n Deg i fynd i'r afael â thlodi plant a chryfhau'r ddeddfwriaeth gwarchod plant a gofal dydd sy'n bod eisoes. Atgyfnerthir hyn gan ddrafft Strategaeth Tlodi Plant Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2010) sy'n cynnwys blaenoriaeth i hybu gofal plant hygyrch, fforddiadwy o ansawdd uchel – sy'n creu buddiannau o ran cyflogaeth ac o ran datblygiad y blynyddoedd cynnar.

Canlyniadau i blant

Mae nifer o astudiaethau ymchwil wedi dangos bod addysg y blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel, a hwnnw wedi'i ddarparu gan staff â chymwysterau da, yn gallu chwarae rhan bwysig o safbwynt gwella canlyniadau plant, yn enwedig i blant difreintiedig (Sammons et al. 2004, Sylva et al. 2004, CMPO 2006, Melhuish et al. 2008, Smith et al. 2009). Felly, un o'r mentrau allweddol a sefydlwyd â'r nod o wella canlyniadau i blant yng Nghymru fu cyflwyno addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar am ddim i blant 3 a 4 blwydd oed, a darparu gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel am ddim i blant dwy flwydd oed sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, fel rhan o'r rhaglen Dechrau'n Deg. Un arall o feysydd Dechrau'n Deg (hefyd â'r nod o wella canlyniadau i blant) yw darparu mwy o gefnogaeth ymwelwyr iechyd a rhaglenni magu plant wedi'u gwerthuso'n dda, gan dargedu'r cyllid yn bendant at deuluoedd â phlant 0-3 oed. Mae Canolfannau Plant Integredig yn ategu'r gwasanaethau hyn, a'u nod yw darparu gwasanaethau addysg, gofal plant, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau iechyd integredig.

Cydnabyddir pwysigrwydd ansawdd gofal plant, ac o ganlyniad i hyn un o nodau Strategaeth Gofal Plant Cymru yw cefnogi datblygiad methodoleg gyson i sicrhau ansawdd ar draws gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar. Canlyniad arall yw gweledigaeth hirdymor y strategaeth o sicrhau gweithlu gofal plant cwbl gymwysedig a chofrestredig. Cymerwyd camau tuag at wireddu'r weledigaeth o sicrhau gweithlu gofal plant cwbl gymwysedig trwy ymrwymo rhan o gyllid Dechrau'n Deg i ddatblygu'r gweithlu a thrwy weithredu Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Dydd yn 2002.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymroddedig i gefnogi perthynas lawer agosach rhwng ysgolion a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Mae cysylltiadau o'r fath yn cael eu meithrin yn bennaf drwy Ysgolion Bro sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Cyflogaeth

Mae nifer o fentrau Llywodraeth y DU yn cefnogi nod Strategaeth Gofal Plant Cymru o gynyddu gweithgarwch economaidd yng Nghymru a hybu cydraddoldeb

rhywiol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno cymhorthdal gofal plant allweddol sy'n gysylltiedig â gwaith – elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith – sydd ar gael i rieni incwm isel a chanolig sy'n gweithio dros 16 awr yr wythnos. Cafwyd ymgyrch i annog cyflogwyr i ddarparu cymorth gofal plant e.e. drwy eithriadau treth i ofal plant a gefnogir gan gyflogwyr megis talebau gofal plant a meithrinfeydd yn y gweithle. Hefyd, cafodd absenoldeb mamolaeth ei wella yn 2007 ac mae gan rieni bellach hawl i wneud cais am gael gweithio'n hyblyg.

Yn ystod y degawd diwethaf, cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y lleoedd gofal plant yng Nghymru, gan gynnwys lleoedd y tu allan i'r ysgol (wedi'u hariannu gan y Gronfa Loteri Fawr – y Gronfa Cyfleoedd Newydd gynt) a lleoedd gofal plant cofrestredig i blant dan 8 oed. Fodd bynnag, roedd Strategaeth Gofal Plant Cymru'n cydnabod bod gofal plant yn dal i wynebu nifer o heriau, er i nifer o gamau cadarnhaol gael eu cymryd. Mae rhwystrau o ran cost a'r hyn sydd ar gael yn dal i gyfyngu ar allu teuluoedd i ddefnyddio gofal plant (ac ar gyflogaeth mamau o ganlyniad i hynny). Hefyd, ers cyhoeddi'r adroddiad Arolwg Gofal Plant Cymru diwethaf yn 2004 (Bryson et al. 2006a) mae'r hinsawdd economaidd wedi newid yn sylweddol gan arwain at gynnydd mewn diweithdra (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2010) a allai, yn ei dro, ddylanwadu ar ofynion gofal plant teuluoedd.

Er gwaethaf amrywiol fentrau'n ymwneud â gofal plant ffurfiol, mae nifer o deuluoedd yn dewis defnyddio gofalwyr anffurfiol, yn enwedig neiniau a theidiau, i ofalu am eu plant. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchu materion yn ymwneud â pha mor fforddiadwy a hygyrch yw gofal ffurfiol; ond mae hefyd yn adlewyrchiad o ddewis rhieni (Bryson et al. 2006b; Kazimirski et al. 2008; Speight et al. 2009).

1.3 Golwg gyffredinol ar gynllun yr astudiaeth

Y cyfweiliadau

Cyfwelwyd â bron i 600 o rieni yng Nghymru â phlant dan 15 ar gyfer yr astudiaeth hon, rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2009. Cawsant eu dewis ar hap o gofnodion Budd-dal Plant, sydd, o ystyried bod pawb bron yn eu derbyn, yn rhoi ffrâm samplu gynhwysfawr ar gyfer teuluoedd â phlant dibynnol. I gael manylion am sut y dewiswyd y sampl, gweler Atodiad B.

Cyfwelwyd 67% o'r rhieni a oedd yn gymwys i gael eu cyfweld (e.e. gan eithrio teuluoedd heb blentyn dan 15 oed)². I gael mwy o fanylion am yr ymateb, gweler Atodiad B.

Cyfyngwyd amrediad oedran y plant i dan 15 er mwyn gallu cymharu'r arolwg â'r Arolwg Gofal Plant Cymru blaenorol ac â chyfres Lloegr o Arolygon Gofal Plant, ac er mwyn canolbwyntio ar y grŵp oedran a gynhwysir amlaf ym mholisiâu gofal plant y Llywodraeth.

Cynhaliwyd cyfweiliadau yng nghartrefi pobl, ac roeddent yn cymryd tri chwarter awr ar gyfartaledd. Roedd pob prif ymatebwr i'r arolwg yn rhiant neu'n warcheidwad a oedd yn bennaf gyfrifol neu'n gyfrifol ar y cyd am wneud penderfyniadau am ofal plant. Mam y plant oedd y rhain fel arfer (gweler Atodiad A am ddadansoddiad o ryw'r atebwyr). Hefyd, gofynnwyd yn bersonol i unrhyw

² Adroddir am y gyfradd ymateb yn wahanol i arolwg 2004 er mwyn cydymffurfio â dull safonol a ddatblygwyd yn ddiweddar o adrodd am gyfraddau ymateb.

bartneriaid a oedd gartref yn ystod y cyfweiliad am eu cyflogaeth a nodweddion demograffig a chymdeithasol eraill. Os nad oedd hyn yn bosibl, gofynnwyd i'r prif ymatebwr roi gwybodaeth am ei gymar ef neu hi.

Roedd y cyfweiliad yn canolbwyntio ar sut yr oedd y teuluoedd yn defnyddio gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau amser, nid oedd modd casglu gwybodaeth fanwl am anghenion holl blant y teulu na'r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt. Yn hytrach, mewn teuluoedd â dau neu fwy o blant, cawsom ddarlun cyffredinol o'r holl blant i ddechrau, ac yna gofynnwyd cwestiynau manwl am un plentyn a ddewiswyd ar hap. Yn yr un modd, os oedd y plentyn a ddewiswyd wedi cael gofal gan fwy nag un ddarparwr gofal plant neu flynyddoedd cynnar, casglwyd rhywfaint o wybodaeth am yr holl ddarparwyr, ond canolbwyntiwyd ar y prif ddarparwr.

Gan y gall trefniadau gofal plant amrywio rhwng tymor yr ysgol a'r gwyliau, roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau'n canolbwyntio ar un wythnos gyfeirio yn ystod y tymor (sef yr wythnos ddiweddaraf yn ystod y tymor). Fodd bynnag, gofynnwyd cyfres arall o gwestiynau am ddefnydd gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Dim ond i deuluoedd â phlant oedran ysgol y gofynnwyd y cwestiynau hyn.

Roedd y cyfweiliad yn ymwneud yn gyffredinol â'r pynciau canlynol:

I bob teulu:

- Gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar a ddefnyddiwyd yn yr wythnos gyfeirio yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol;
- Taliadau a wnaethpwyd am ofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar, a'r defnydd o gredydau treth a chymorthdaliadau;
- Ffynonellau gwybodaeth am ddarparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn yr ardal leol, a'r ddarpariaeth sydd ar gael.

Ar gyfer un plentyn a ddewiswyd ar hap:

- Cofnod manwl o bresenoldeb gofal plant yn ystod yr wythnos gyfeirio;
- Rhesymau dros ddefnyddio'r prif ddarparwr ffurfiol a barn amdano.

Manylion dosbarthiad:

- Strwythur y teulu;
- Nodweddion demograffig a chymdeithasol (e.e. incwm);
- Manylion addysg a gwaith y rhieni.

Gellir canfod manylion llawn am gynllun yr astudiaeth a'r modd y cafodd ei gweithredu yn Atodiad B.

Diffinio gofal plant

Gan ddilyn model arolygon blaenorol y gyfres, mae'r astudiaeth yn defnyddio diffiniad cynhwysol iawn o 'ofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar'. Gofynnwyd i rieni gynhwys unrhyw adeg pan nad oedd y plentyn gyda rhiant yr oedd yn byw gydag ef/hi neu ei gymar/chymar presennol, neu yn yr ysgol. Felly, mae'r diffiniad yn llawer ehangach nag mewn astudiaethau eraill sy'n canolbwyntio ar y gofal plant a ddefnyddir pan mae rhieni'n gweithio neu'n astudio, neu ar

addysg y blynyddoedd cynnar. Er mwyn atgoffa rhieni i gynnwys pob unigolyn neu sefydliad a allai fod wedi gofalu am eu plant, dangoswyd y rhestr ganlynol iddynt:

Darparwyr ffurfiol

- Ysgol feithrin;
- Dosbarth meithrin sy'n gysylltiedig ag ysgol gynradd neu ysgol fabanod;
- Dosbarth derbyn;
- Ysgol ddydd neu feithrinfa neu uned arbennig;
- Meithrinfa ddydd;
- Cylch chwarae neu gylch cyn oed ysgol (gan gynnwys rhai cyfrwng Cymraeg);
- Gwarchodwr plant;
- Nani neu 'au pair';
- Gwarchodwr plant a oedd yn dod i'w cartref;
- Clwb neu weithgaredd brecwast/ar ôl ysgol³;
- Clwb/cynllun gwyliau.

Darparwyr anffurfiol

- Fy nghyn-ŵr/wraig/gymar/rhiant arall y plentyn (nad yw'n byw yn y teulu hwn);
- Neiniau a theidiau'r plentyn;
- Brawd/chwaer hŷn y plentyn;
- Perthynas arall;
- Ffrind neu gymydog.

Arall⁴

- Darparwr addysg feithrin arall;
- Darparwr gofal plant arall.

Mae'n werth nodi ein bod wedi dosbarthu darparwyr yn ôl y gwasanaeth y'u defnyddiwyd ar ei gyfer, e.e. gofal dydd neu addysg y blynyddoedd cynnar. Felly rydym wedi parhau i ddefnyddio terminoleg megis 'ysgolion meithrin' a 'meithrinfeydd dydd' a dosbarthu yn unol â hynny, yn hytrach na chynnwys mathau o ddarpariaeth integredig megis Canolfannau Plant Integredig. O ran dosbarthiadau derbyn, dim ond os nad oedd yn orfodol y dylid bod wedi cynnwys y math hwn o ddarparwr fel *gofal plant*, hynny yw os oedd y plentyn dan 5 oed. Ceir mwy o fanylion am ddiffiniadau'r categorïau uchod o ddarparwyr yn Atodiad B.

Mae'r diffiniad cynhwysol hwn o ofal plant yn golygu y bydd rhieni wedi cynnwys amser pan roedd eu plentyn yn ymweld â ffrindiau neu deulu, mewn gweithgaredd chwaraeon neu hamdden, ac ati.

Gall fod yn anodd i rieni benderfynu beth yw dosbarthiad cywir y 'math' o ddarparwr, yn enwedig o ystyried bod marchnad gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar yn newid. Felly, rydym wedi dilysu'r dosbarthiadau a roddwyd

³ Gofynnwyd ar wahân i'r rhieni a ddefnyddiodd y math hwn o ddarpariaeth, pa un a oedd wedi'i leoli ar yr un safle â'r ysgol/ysgol feithrin ynteu ar safle arall.

⁴ Rhoddwyd dewis 'arall' hefyd i rieni y gallent ei ddefnyddio petaent yn teimlo nad oedd dim o'r mathau o ddarparwyr a restrwyd yn rhoi disgrifiad cywir o'r math o ddarparwr a ddefnyddiwyd ganddynt. Os oedd modd, cafodd y cofnodion 'arall' hyn eu hailddosbarthu yn ystod gwaith golygu yn y swyddfa i un o'r categorïau ffurfiol neu anffurfiol penodol, neu i god newydd "hamdden/chwaraeon".

gan rieni gyda'r darparwyr eu hunain, mewn arolwg ar wahân dros y ffôn. Gweler Atodiad B i gael mwy o fanylion am y broses o ddilysu manylion y darparwyr.

1.4 Newidiadau dros amser yr arolwg

Er bod y rhan fwyaf o'r holiadur wedi aros yr un fath rhwng 2004 a 2009, bu newidiadau eglur i'r ffordd y mesurwyd defnydd gofal plant dros y cyfnod hwnnw. Mae'r adran hon yn disgrifio natur y newidiadau hyn yn fanylach⁵.

Y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant

Cyflwynwyd y newidiadau hyn er mwyn sicrhau bod amcangyfrifon y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol yn fwy cywir.

Roedd y newid cyntaf yn ymwneud â chlybiau y tu allan i'r ysgol. Y nod oedd sicrhau bod yr arolwg yn cynnwys yr amrediad llawn o weithgareddau y tu allan i'r ysgol yr oedd plant yn eu gwneud, ac roedd yn cynnwys:

- 1) Ychwanegu cwestiynau at y cyfweiliad i annog rhieni i sôn am weithgareddau y tu allan i'r ysgol y gallent fod wedi anghofio amdanynt fel arall;
- 2) Newid y ffordd y cyflwynwyd yr arolwg i rieni. Yn benodol, yn 2009, cyflwynwyd yr arolwg yn y llythyr ymlaen llaw i rieni fel bod yn ymwneud â "Gofal Plant a Gweithgareddau y Tu Allan i'r Ysgol" er mwyn ei wneud yn fwy perthnasol ac eglur i rieni â phlant o oedran ysgol (yn flaenorol, fe'i galwyd yn "Astudiaeth Ymchwil Gofal Plant"). Hefyd, addaswyd y cerdyn sy'n rhestru gwahanol ddarparwyr gofal plant yn 2009 i ychwanegu'r gair "gweithgareddau" at "clwb brechwast neu glwb ar ôl ysgol".

Llwyddodd y nodweddion newydd hyn i annog mwy o rieni i ddweud bod eu plant yn derbyn darpariaeth y tu allan i'r ysgol (yn 2004, efallai na fyddent wedi sôn am y gweithgareddau hyn dan yr argraff eu bod yn amherthnasol i astudiaeth am ofal plant).

Roedd yr ail newid yn ymwneud â'r niferoedd sy'n defnyddio dosbarthiadau derbyn. Roedd yr arolwg blaenorol yn rhoi amcangyfrif rhy isel o ddosbarthiadau derbyn fel math o addysg y blynyddoedd cynnar i blant 4 oed, gan fod cyfran o rieni oedd â phlant 4 oed yn yr ysgol heb ddewis dosbarth derbyn o'r rhestr o ddarparwyr gofal plant. Yn 2009, os dywedodd rhiant fod ei blentyn/ei phlentyn yn yr ysgol, ac nad oedd yn sôn am unrhyw addysg y blynyddoedd cynnar, gofynnwyd cwestiwn i ddarganfod a oedd y plentyn yn mynychu dosbarth derbyn, gan ein bod yn cynnwys hynny yn ein diffiniad o addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae hyn yn golygu nad oes modd cymharu'n uniongyrchol yr amcangyfrifon o'r niferoedd sy'n defnyddio gofal plant yn 2009 â ffigurau blynyddoedd blaenorol (a lle mae adrannau o'r adroddiad yn canolbwyntio ar deuluoedd a ddefnyddiodd ofal plant – bydd y bobl sydd yn y grŵp hwnnw ychydig yn wahanol i flynyddoedd blaenorol e.e. ymysg teuluoedd a ddefnyddiodd ofal plant, 40% o deuluoedd yn unig oedd â phlant 6-14 oed yn 2004 o gymharu â 44% yn 2009 – nid yw'r gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol ond mae'n codi o ganlyniad i annog

⁵ Gwnaethpwyd y newidiadau hyn yn 2008 ar gyfer cyfres Arolygon Gofal Plant Lloegr, ond ni chynhaliwyd Arolwg Gofal Plant Cymru y flwyddyn honno.

mwy o rieni i ddweud bod eu plant yn derbyn darpariaeth y tu allan i'r ysgol). Fodd bynnag, er mwyn hwyluso cymariaethau, rydym wedi cynhyrchu cyfres o fesurau sydd mor agos â phosibl at fod yn gymaradwy â 2004. Deilliwyd y mesurau cymaradwy trwy hepgor unrhyw ddarparwyr gofal plant y soniodd yr atebydd amdanynt ar ôl cael ei annog/ei hannog. Gan fod cwestiynau'r arolwg a ofynnwyd cyn yr anogaeth yr un fath yn 2004 ag yn 2009, dylai'r amcangyfrifon a ddeilliwyd gyfrif yn llwyr am effaith yr anogaeth. Fodd bynnag, ni allant ddileu effaith newid y ffordd y cyflwynwyd yr arolwg i rieni.

Cyflwynir y mesurau cymaradwy hyn ym Mhennod 2, wrth drafod tueddiadau dros amser yn y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant. Fodd bynnag, mewn manau eraill yn yr adroddiad, defnyddiwn amcangyfrifon o ddefnydd gofal plant a ddeilliwyd ar sail methodoleg arolwg 2009 (h.y. y ffigurau nad oes modd eu cymharu), gan mai'r rhain sy'n rhoi'r adlewyrchiad cywiraf o batrymau defnydd gofal plant.

Costau gofal plant

Mae ymchwil wedi dangos bod rhieni i'w gweld yn gallu siarad yn hyderus am yr arian y maent hwy eu hunain wedi'i dalu o'u pocedi eu hunain, ond eu bod yn llai pendant ynglŷn â manylion taliadau a wnaethpwyd ar eu rhan gan sefydliadau neu unigolion eraill, megis yr Awdurdod Lleol (Kazimirski et al. 2008). O ganlyniad i'r profiad hwn, cafodd adran costau holiadur yr Arolwg Gofal Plant a'r Blynnyddoedd Cynnar ei diwygio'n sylweddol rhwng 2004 a 2009 i'w gwneud yn haws ei hateb ac i sicrhau bod yr wybodaeth a gasglwyd yn fwy cywir a dibynadwy.

Yn 2004, gofynnwyd i rieni faint oedd *cyfanswm* cost eu gofal plant, gan gynnwys unrhyw gostau a dalwyd gan bobl eraill a sefydliadau megis yr Awdurdod Lleol. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhieni'n gallu ateb yr adran costau o gwbl pan nad oeddynt yn bendant ynglŷn â'r costau a dalwyd gan bobl eraill a sefydliadau. Yn 2009, diwygiwyd yr adran costau fel ei bod yn gofyn yn gyntaf i rieni am unrhyw arian yr oeddent hwy (neu aelodau eraill eu haelwyd) wedi'i dalu i bob darparwr, ac yna'n ail a oeddent wedi cael cymorth ariannol gan unrhyw un oddi ar restr o ffynonellau a enwyd (e.e. yr Awdurdod Lleol, eu cyflogwyr, cyn-bartneriaid).

Mae'r newidiadau hyn yn golygu y casglwyd gwybodaeth o ansawdd gwell am gostau yn 2009, ond nad oes modd ei chymharu â'r wybodaeth am gostau gofal plant yn 2004.

1.5 Yr adroddiad

Yma, y nod yw rhoi golwg gyffredinol ar y canfyddiadau. Byddwn yn sôn am yr holl brif bynciau a gafodd sylw yn y cyfweiliad â rhieni ac yn edrych ar wahanol fathau o deuluoedd a phlant.

Hyd yn oed trwy gyfyngu'r dadansoddiad i ddarlun cyffredinol o'r canfyddiadau, ni lwyddwyd i fyrhau'r adroddiad hwn yn ddigonol. Felly, os yw'r tablau y cyfeirir atynt yn hir iawn neu'n fanwl iawn, fe'u cynhwyswyd yn Atodiad C.

Mae nifer o faterion methodolegol i'w hystyried wrth ddehongli'r gwaith dadansoddi yn yr adroddiad. Trafodir y rhain yn eu tro yng ngweddill yr adran.

Dehongli canlyniadau yn yr adroddiad

Yn ystod yr adroddiad, defnyddiwn ddata ar y ddwy lefel ganlynol gan fwyaf:

- Lefel y teulu (e.e. cyfrannau'r teuluoedd sy'n talu am ofal plant, barn rhieni am ofal plant yn ystod gwyliau);
- Lefel y plentyn (a ddewiswyd) (e.e. faint o amser y bydd plant yn ei dreulio mewn gofal plant).

Mae manteision pendant i'r gwahanol seiliau hyn. Yn gyntaf, mae defnydd teuluoedd o ofal plant yn bennaf gysylltiedig ag agweddau pwysig eraill ar ddefnydd gofal plant, e.e. gwariant wythnosol teuluoedd ar ofal plant, ac ar benderfyniadau cyflogaeth. Ac yn ail, os cynhaliwyd dadansoddiad penodol ar lefel y teulu yn 2004, mae'n fwy priodol dadansoddi ar yr un lefel wrth edrych ar dueddiadau dros amser. Un o fanteision dadansoddi ar lefel y plentyn, ar y llaw arall, yw bod hyn yn ein galluogi i reoli ar gyfer maint y teulu (gyda phob teulu'n cael ei gynrychioli gan un plentyn yn unig) wrth edrych ar y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant. Golyga hyn ei bod yn haws gweld effeithiau nodweddiol eraill y teulu a'r plentyn⁶. Mewn achosion eraill, mae angen dadansoddi ar lefel y plentyn, gan mai dim ond ynglŷn ag un plentyn y gofynnwyd rhai adrannau penodol o'r holiadur (er mwyn byrhau'r cyfweliad).

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r dadansoddi ym Mhennod 3, fodd bynnag, defnyddiwn drydedd sail lle byddwn yn ailstrwythuro'r data er mwyn gallu edrych ar 'bob plentyn yn yr aelwyd (yn hytrach nag ar 'bob teulu' yn yr arolwg, er enghraifft). Gwnaethpwyd hyn i gynyddu maint y sampl er mwyn gallu archwilio'n fanylach y pecynnau gofal plant a dderbynnir gan blant mewn gwahanol grwpiau oedran. Nid ydym yn defnyddio'r dull hwn yng ngweddill yr adroddiad, gan ein bod yn gwybod cymaint mwy am y plentyn a ddewiswyd nag am yr holl blant yn yr aelwyd.

Pwysoli

Defnyddir pwysoliad 'lefel teuluoedd' yn y dadansoddiad ar lefel teuluoedd. Mae'r pwysoliad hwn yn sicrhau bod canfyddiadau'r ymchwil yn cynrychioli poblogaeth y teuluoedd yng Nghymru sy'n derbyn Budd-dal Plant⁷. Defnyddir pwysoliad 'lefel plant' yn y dadansoddiad a gynhaliwyd ar lefel y plant (a ddewiswyd). Mae'r pwysoliad hwn yn cyfuno pwysoliad lefel teuluoedd ag addasiad am y tebygolrwydd y caiff y plentyn ei ddewis ar gyfer y cwestiynau manylach. Darperir manylion llawn y pwysoliad yn Atodiad B.

Seiliau

Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn yn cynnwys cyfanswm yr achosion yn y sampl cyfan neu yn yr is-grŵp penodol sy'n cael ei ddadansoddi (e.e. gwahanol fathau o deuluoedd, grwpiau incwm). Mae ffigur cyfanswm y seiliau'n cynnwys pob achos cymwys (h.y. yr holl ymatebwyr neu'r holl ymatebwyr y gofynnwyd cwestiwn

⁶ Pan gynhelir dadansoddiad ar lefel y teulu, mae maint y teulu'n effeithio ar y dadansoddiad, oherwydd nad yw teuluoedd ag un plentyn yn unig ond yn cael un cyfle i "sgorio" fel defnyddwyr gofal plant ar lefel y teulu, ond bod teuluoedd â mwy nag un plentyn yn cael yr un nifer o gyfleoedd i sgorio â nifer y plant yn y teulu. Gan fod cysylltiad rhwng maint teulu a nodweddiol eraill y teulu a'r plentyn (e.e. incwm), mae'n dylanwadu ar y berthynas rhwng nodweddiol eraill teuluoedd neu blant, a'r niferoedd sy'n defnyddio gofal plant.

⁷ Defnyddir y pwysoliad hwn hefyd yn y dadansoddiadau ym Mhennodau 3 a 4.

penodol iddynt) ac eithrio achosion â data coll (codau 'ddim yn gwybod' neu 'heb ei ateb'). Felly, er y gallai'r disgrifiad o'r sail fod yr un fath mewn nifer o dablau (e.e. 'pob teulu a ddefnyddiodd ofal plant yn yr wythnos gyfeirio'), gall maint y seiliau newid ychydig o ganlyniad i eithrio'r rhai â chodau 'ddim yn gwybod' neu 'heb ei ateb'.⁸

Cyflwynir y seiliau wedi'u pwysoli a heb eu pwysoli drwy gydol yr adroddiad – mae'r seiliau heb eu pwysoli'n cynrychioli niferoedd crai'r bobl yn y sampl, a'r seiliau wedi'u pwysoli'n cynrychioli nifer y bobl *ar ôl ystyried pa mor gyffredin ydynt yn y boblogaeth, trwy bwysoli*.

Mewn rhai tablau, nid yw seiliau'r colofnau neu'r rhesi'n adio i roi cyfanswm y seiliau. Y rheswm am hyn yw na chynhwyswyd rhai categorïau yn y tabl, o bosibl, naill ai am eu bod yn rhy fach neu am nad ydynt yn ddefnyddiol at ddiben y dadansoddiad.

Canrannau

Oherwydd talgrynnu, efallai na fydd ffigurau canrannol yn adio i 100% yn union. Hefyd, os yw'r wybodaeth mewn tablau'n seiliedig ar gwestiynau aml-god, gall y canrannau yn y tabl adio i fwy na 100%.

Arwyddocâd ystadegol

Drwy gydol yr adroddiad, pryd bynnag y mae'r testun yn rhoi sylwadau am wahaniaethau rhwng is-grwpiau'r sampl, mae'r gwahaniaethau hyn wedi'u profi am arwyddocâd gan ddefnyddio'r gorchmynion arolwg yn SPSS 15.0 neu STATA 10.0, a chanfuwyd eu bod yn ystadegol arwyddocaol o fewn y cyfwng hyder 95% neu uwch.

Symbolau mewn tablau

Defnyddiwyd y symbolau isod yn y tablau ac maent yn dynodi'r canlynol:

amh mae'r categori hwn yn amherthnasol (o ystyried sail y tabl)

[] canran yn seiliedig ar lai na 50 atebydd (heb bwysoli)

- gwerth canrannol llai na 0.5

0 gwerth canrannol o sero.

⁸ Yn achlysurol, roedd cyfran y bobl a ddywedodd 'ddim yn gwybod' yn ddigon uchel i fod yn werth eu dangos yn y tabl (ac felly cânt eu cynnwys yn y sail).

2 Defnyddio gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar

2.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn archwilio defnydd teuluoedd o ofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar a sut y mae'r patrymau'n amrywio yn ôl oedran y plant, nodweddion y teuluoedd (e.e. incwm yr aelwyd a statws gwaith), a lefelau amddifadedd yr ardal. Mae'r diffiniad o ofal plant yn eang iawn, sef unrhyw adeg pan nad yw'r plentyn gyda rhiant y mae'n byw gydag ef/hi (neu gymar presennol y rhiant hwnnw/honno), nac yn yr ysgol. Mae'n cynnwys unrhyw ddiwrnod yn yr wythnos ac unrhyw adeg o'r dydd heb ystyried y rheswm pam nad yw'r plentyn gyda'r rhiant y mae'n byw gydag ef/hi (gan gynnwys cyfnodau pan fydd plentyn gyda rhiant nad yw'n byw gydag ef/hi). Mae'r bennod yn cynnwys darpariaeth ffurfiol a gofal plant a ddarperir gan neiniau a theidiau a darparwyr anffurfiol eraill.

Yn y bennod hon, byddwn yn disgrifio sut y defnyddir gofal plant yn ystod tymor yr ysgol, gan ganolbwyntio'n benodol ar un wythnos gyfeirio yn ystod y tymor (sef yr wythnos ddiwethaf cyn y cyfweiliad fel rheol). Trafodir gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol ym Mhennod 7.

Mae rhan gyntaf y bennod (adrannau 2.2 a 2.3) yn dangos sut y mae cyfrannau'r teuluoedd sy'n defnyddio gwahanol fathau o ofal plant wedi newid dros amser, ac yn rhoi amcangyfrifon o niferoedd y teuluoedd sy'n defnyddio gwahanol fathau o ofal plant. Mae'r adrannau ar ôl hynny'n disgrifio:


- Sut y mae gwahanol fathau o deuluoedd mewn gwahanol ardaloedd yn defnyddio darparwyr ffurfiol ac anffurfiol (adrannau 2.4 – 2.6);
- Addysg y blynyddoedd cynnar i blant 3 a 4 blwydd oed (adran 2.8).

2.2 Defnydd teuluoedd o ofal plant

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y bu i deuluoedd ddefnyddio gwahanol ddarparwyr gofal plant mewn wythnos gyfeirio yn ystod tymor yr ysgol yn 2009. Gallwn weld o Ffigur 2.1 bod 80% o deuluoedd yng Nghymru wedi defnyddio gofal plant yn yr wythnos dan sylw yn ystod tymor yr ysgol. Defnyddiodd 30% ofal plant ffurfiol yn unig, defnyddiodd 31% ofal plant ffurfiol ac anffurfiol, a defnyddiodd 16% ofalwyr anffurfiol yn unig (defnyddiodd 3% fathau o ofal plant nad oedd modd eu dosbarthu'n ffurfiol nac yn anffurfiol, gweler adran 1.3 ym Mhennod 1).

Ffigur 2.1 Defnydd o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol

Sail: Yr holl deuluoedd



Ffynhonnell: Tabl C2.1 yn Atodiad C.

Gallwn weld yn

Tabl 2.1 Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl gwlad bod 61% o deuluoedd yng Nghymru wedi defnyddio darpariaeth ffurfiol, a bod 46% wedi defnyddio darparwyr anffurfiol⁹. Y ddarpariaeth ffurfiol a ddefnyddiwyd amlaf oedd clybiau brecwast ac ar ôl ysgol neu weithgareddau ar safle ysgol (29%) a'r gofalwyr anffurfiol a ddefnyddiwyd amlaf oedd neiniau a theidiau (32%). I gael manylion am sut y defnyddir gofal plant yn wahanol ar gyfer plant o wahanol oedrannau, gweler adran 2.5.

Tabl 2.1 Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl gwlad

Sail: Yr holl deuluoedd

Sut y defnyddir gofal plant	Gwlad	
	Lloegr %	Cymru %
Unrhyw ofal plant	73	80
Gofal plant ffurfiol ac addysg y blynyddoedd cynnar	55	61
Ysgol feithrin	4	3
Dosbarth meithrin sy'n rhan o ysgol gynradd neu ysgol fabanod	5	9
Dosbarth derbyn ¹⁰	8	9

⁹ Os na chynhwysir cyn-bartneriaid, defnyddiodd 42% o deuluoedd ofal anffurfiol yn yr wythnos gyfeirio yn ystod y tymor.

¹⁰ Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y data ar ddefnyddio dosbarthiadau derbyn, gan nad yw'r wybodaeth a roddir am y math hwn o ofal plant yn gywir bob amser. Nid oes digon o rieni'n cyfeirio ato yng nghyswllt plant 4 blwydd oed, gan nad oeddent ar adegau'n ystyried bod dosbarth derbyn yn fath o ofal plant, hyd yn oed os oedd eu plant 4 blwydd oed yn mynychu'r ysgol (ac felly'n debygol o fod yn y dosbarth derbyn). Ceir rhieni eraill sy'n cyfeirio ato ar gam yng nghyswllt plant 5

Ysgol ddydd / meithrinfa / uned arbennig i blant ag AAA	1	-
Meithrinfa ddydd	8	9
Cylch chwarae neu gylch cyn oed ysgol	6	6
Darparwr addysg feithrin arall	-	0
Ciwb neu weithgaredd brecwast/ar ôl ysgol, ar safle'r ysgol	27	29
Ciwb neu weithgaredd brecwast/ar ôl ysgol, nid ar safle'r ysgol	6	4
Gwarchodwr plant	5	4
Nani neu 'au pair'	1	0
Gwarchodwr plant a oedd yn dod i'w cartref	2	2
Gofal plant anffurfiol	41	46
Cyn-bartner	7	8
Taid neu nain	26	32
Brawd neu chwaer hŷn	5	6
Perthynas arall	6	6
Ffrind neu gymydog	7	6
Arall¹¹		
Hamdden/chwaraeon	9	11
Darparwr gofal plant arall	4	4
Dim gofal plant wedi'i ddefnyddio	27	20
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	6708	592
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	6708	592

DS: Ffynhonnell data Lloegr – Smith et al. (2010)

O ran sut y mae'r niferoedd sy'n defnyddio gofal plant yn cymharu â Lloegr – roedd teuluoedd yng Nghymru ychydig yn fwy tebygol o ddefnyddio gofal plant ffurfiol na theuluoedd yn Lloegr (61% o'i gymharu â 55%). Mae hyn yn bennaf oherwydd bod teuluoedd yng Nghymru'n fwy tebygol o ddefnyddio dosbarthiadau meithrin (9% o'i gymharu â 5% yn Lloegr). Nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ddwy wlad yn niferoedd y bobl sy'n defnyddio gofal plant anffurfiol na gofal plant yn gyffredinol.

2.3 Defnydd teuluoedd o ofal plant: tueddiadau dros amser

Mae'r adran hon yn rhoi gwybod am y newidiadau yn y modd y mae teuluoedd yn defnyddio gofal plant ers 2004 (gan ganolbwyntio ar ganfyddiadau'r llinell uchaf ac edrych ar y gofal plant a ddefnyddiwyd gan deuluoedd am unrhyw reswm).

Fel y trafodwyd ym Mhennod 1, bu newidiadau amlwg yn y fethodoleg yn 2009 ar gyfer mesur y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant. Cyflwynwyd y newidiadau methodolegol er mwyn sicrhau amcangyfrifon mwy cywir o'r niferoedd sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol. Yn benodol, cyflwynwyd datganiadau i annog rhieni i

mlwydd oed sy'n mynychu dosbarth derbyn fel ysgol orfodol yn hytrach na fel gofal plant, ond lle maent wedi'i restru fel math o ofal plant.

¹¹ Mae defnyddio mathau eraill o ofal plant yn cyfrif tuag at unrhyw ofal plant ond nid tuag at ddarpariaeth ffurfiol nac anffurfiol.

gynnwys y clybiau brechwast ac ar ôl ysgol y maent yn eu defnyddio gyda phlant o oedran ysgol, ac ailenwyd yr arolwg i sôn yn benodol am weithgareddau y tu allan i'r ysgol a phwysleisio i rieni bod gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn berthnasol i'r astudiaeth. Hefyd, cyflwynwyd datganiadau i annog rhieni plant 4 blwydd oed i sôn am ddsbarth derbyn eu plentyn (os yn berthnasol). Effaith y newidiadau hyn yw cynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol yn 2009 o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae'r newidiadau hyn i'r fethodoleg yn golygu nad oes modd cymharu ffigurau 2004 a 2009 yn uniongyrchol. Felly, yn yr adran hon, rydym wedi darparu dwy gyfres o ffigurau ar gyfer 2009 – y rhai na ddylid eu cymharu â ffigurau 2004 a'r rhai y gellir eu cymharu. Cynhyrchwyd y mesurau cymaradwy trwy hepgor unrhyw ddarparwyr gofal plant y soniodd yr atebydd amdanynt ar ôl cael anogaeth. Gan fod cwestiynau'r arolwg a ofynnwyd cyn yr anogaeth yr un fath yn 2004 ag yn 2009, dylai'r amcangyfrifon a ddeilliwyd gyfrif yn llwyr am effaith yr anogaeth. Fodd bynnag, ni allant ddileu effaith newid y ffordd y cyflwynwyd yr arolwg i rieni. Dangosir y ddwy gyfres o fesurau ar gyfer 2009 – y rhai y gellir eu cymharu a'r rhai na ellir eu cymharu – yn

Tabl 2.2 Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl blwyddyn yr arolwg.

O ran sut y mae'r cyfraddau hyn wedi newid dros amser, mae'r canfyddiadau'n awgrymu na fu newid ystadegol arwyddocaol yn y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant yn gyffredinol ers 2004 (66% yn 2004 a 71% yn ôl mesur 'cymaradwy' 2009). Fodd bynnag, bu cynnydd yn y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol dros y cyfnod hwnnw. Dim ond 38% o deuluoedd oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol yn 2004, ond mae hyn wedi cynyddu i 50% yn 2009 yn ôl y mesur 'cymaradwy', ac i 61% yn ôl y mesur na ellir ei gymharu. Mae hyn yn gyson â data am nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael yng Nghymru, sy'n dangos y bu cynnydd o bron i 4,000 yn nifer y lleoedd gofal plant ers 2003 (Ystadegau ar gyfer Cymru 2010).

Tabl 2.2 Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl blwyddyn yr arolwg

Sail: Yr holl deuluoedd

Sut y defnyddir gofal plant	Blwyddyn yr arolwg		
	2004 % (cymaradwy)	2009 %	2009 %
Unrhyw ofal plant	66	71	80
Gofal plant ffurfiol ac addysg y blynyddoedd cynnar	38	50	61
Ysgol feithrin	2	3	3
Dosbarth meithrin sy'n rhan o ysgol gynradd neu ysgol fabanod	7	8	9
Dosbarth derbyn ¹²	9	7	9
Ysgol ddydd / meithrinfa / uned arbennig i blant ag AAA	-	0	-
Meithrinfa ddydd	7	9	9
Cylch chwarae neu gylch cyn oed ysgol	8	6	6
Darparwr addysg feithrin arall	0	0	0
Clwb neu weithgaredd brechwast/ar ôl ysgol, ar safle'r ysgol	8	19	29
Clwb neu weithgaredd brechwast/ar ôl ysgol, nid ar safle'r ysgol	2	3	4
Gwarchodwr plant	3	4	4
Nani neu 'au pair'	-	0	0
Gwarchodwr plant a oedd yn dod i'w cartref	2	2	2

¹² Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y data ar ddefnyddio dosbarthiadau derbyn, gan nad yw'r wybodaeth a roddir am y math hwn o ofal plant yn gywir bob amser. Nid oes digon o rieni'n cyfeirio ato yng nghyswllt plant 4 blwydd oed, gan nad oeddent ar adegau'n ystyried bod dosbarth derbyn yn fath o ofal plant, hyd yn oed os oedd eu plant 4 blwydd oed yn mynychu'r ysgol (ac felly'n debygol o fod yn y dosbarth derbyn). Ceir rhieni eraill sy'n cyfeirio ato ar gam yng nghyswllt plant 5 mlwydd oed sy'n mynychu dosbarth derbyn fel ysgol orfodol yn hytrach na fel gofal plant, ond lle mae eu rhieni wedi'i restru fel math o ofal plant.

Gofal plant anffurfiol	47	43	46
Cyn-bartner	6	6	8
Taid neu nain	36	31	32
Brawd neu chwaer hŷn	4	5	6
Perthynas arall	7	6	6
Ffrind neu gymydog	7	5	6
Arall¹³			
Hamdden/chwaraeon	4	8	11
Darparwr gofal plant arall	2	3	4
Dim gofal plant wedi'i ddefnyddio	34	29	20
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>561</i>	<i>592</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>561</i>	<i>592</i>	<i>592</i>

Mae ffigurau gwahanol ddarparwyr yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn yn deillio o'r ffaith fod mwy o deuluoedd yn defnyddio clybiau y tu allan i'r ysgol a gweithgareddau sydd wedi'u lleoli ar safle ysgol (o 8% yn 2004 i 19% yn 2009 drwy ddefnyddio'r mesur 'cymaradwy', neu i 29% drwy ddefnyddio'r mesur na ellir ei gymharu). Dylid nodi, fodd bynnag, y gallai newid methodolegol hefyd fod wedi effeithio ar y ffigurau cymaradwy (h.y. ailenwi'r arolwg), felly ni allwn fod yn gwbl sicr bod y newid yn newid 'gwirioneddol'. Fodd bynnag, mae maint y gwahaniaeth yn awgrymu ei bod yn debygol y cafwyd newid gwirioneddol yn y niferoedd sy'n defnyddio clybiau a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol rhwng 2004 a 2009.

Ni fu patrwm clir o newid yn y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant anffurfiol ers 2004 gan nad yw'r amcangyfrif 'cymaradwy' o 43% ar gyfer 2009 yn arwyddocaol wahanol i amcangyfrif 2004 (47%).

2.4 Amcangyfrifon cenedlaethol o ddefnydd gofal plant

Os ydym yn grosio ffigurau 2009 a nodwyd yn adran 2.2 at amcangyfrifon cenedlaethol¹⁴, roedd 239,000 o deuluoedd yng Nghymru'n defnyddio gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar yn ystod tymor yr ysgol, gyda 182,000 ohonynt yn defnyddio darpariaeth ffurfiol a 139,000 yn defnyddio darparwyr anffurfiol (gweler Tabl 2.3 Amcangyfrifon cenedlaethol o ddefnydd gofal plant). Yn nhermau nifer y *plant*, mae hyn yn gyfwerth â chyfanswm o 326,000 o blant mewn gofal plant, â 219,000 ohonynt mewn darpariaeth ffurfiol a 299,000 gyda darparwyr anffurfiol (trafodir cyfran y plant sy'n derbyn gofal plant yn adran 2.5). Ymysg y 299,000 a oedd gyda darparwyr anffurfiol, roedd 130,000 o blant yn derbyn gofal gan eu neiniau a'u teidiau yn yr wythnos gyfeirio yn ystod tymor yr ysgol.

¹³ Mae defnyddio mathau eraill o ofal plant yn cyfrif tuag at unrhyw ofal plant ond nid tuag at ddarpariaeth ffurfiol nac anffurfiol.

¹⁴ Mae amcangyfrifon cenedlaethol yn seiliedig ar nifer y teuluoedd â phlant 0-14 oed (300,000) a nifer y plant yn y grŵp oedran hwn (490,000) a oedd yn cael Budd-dal Plant ym mis Hydref 2009. Darparwyd yr wybodaeth hon gan Gyllid a Thollau EM adeg samplu'r arolwg.

Tabl 2.3 Amcangyfrifon cenedlaethol o ddefnydd gofal plant

Sut y defnyddir gofal plant	Nifer y teuluoedd	Nifer y plant
Unrhyw ofal plant	239,000	326,000
Gofal plant ffurfiol ac addysg y blynyddoedd cynnar	182,000	219,000
Ysgol feithrin	8,000	7,000
Dosbarth meithrin sy'n rhan o ysgol gynradd neu ysgol fabanod	27,000	23,000
Meithrinfa ddydd	28,000	24,000
Cylch chwarae neu gylch cyn oed ysgol	18,000	16,000
Clwb neu weithgaredd brechwast/ar ôl ysgol, ar safle'r ysgol	87,000	111,000
Clwb neu weithgaredd brechwast/ar ôl ysgol, nid ar safle'r ysgol	13,000	16,000
Gwarchodwr plant	11,000	13,000
Gofal plant anffurfiol	139,000	299,000
Cyn-bartner	23,000	34,000
Taid neu nain	95,000	130,000
Brawd neu chwaer hŷn	19,000	22,000
Perthynas arall	19,000	18,000
Ffrind neu gymydog	18,000	18,000

DS: mae pob ffigur wedi'i dalgrynnu at y 1,000 agosaf.

2.5 Defnydd o ofal plant, yn ôl oedran y plant

Yn yr adran hon, byddwn yn archwilio sut y mae'r gofal plant a dderbynnir gan blant yn amrywio gan ddibynnu ar eu hoedran. Yna, mae'r ddwy adran ganlynol yn

canolbwyntio ar wahaniaethau ar draws nodweddion teuluoedd (e.e. incwm yr aelwyd a statws gwaith), ac ar amddifadedd yr ardal. Wrth gwrs, mae nifer o'r ffactorau hyn yn perthyn i'w gilydd, a gall fod yn anodd canfod a oes cysylltiad uniongyrchol rhwng nodweddion penodol a defnydd gofal plant, ynteu ai nodwedd arall berthynol sy'n gyfrifol am y cysylltiad. Felly, byddwn hefyd yn trafod canlyniadau dadansoddiad atchweliad sy'n canfod pa nodweddion sy'n gysylltiedig â defnydd gofal plant pan gedwir ffactorau eraill yn gyson.

Yn adrannau 2.2 a 2.3 roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar niferoedd y teuluoedd sy'n defnyddio gofal plant gan fod hynny'n ei gwneud yn haws cymharu'r canlyniadau ag adroddiad 2004 (lle y cyflwynwyd data ar lefel teuluoedd yn bennaf) a chan fod nifer y teuluoedd sy'n defnyddio gofal plant yn uniongyrchol gysylltiedig â'r dadansoddiadau mewn nifer o benodau eraill e.e. gwariant wythnosol teuluoedd ar ofal plant (gweler Pennod 4). Fodd bynnag, yn yr adran hon byddwn yn canolbwyntio ar gyfran y *plant* sy'n derbyn gofal plant, gan fod hynny'n ein galluogi i reoli yn ôl maint y teulu (gyda phob teulu'n cael ei gynrychioli gan un plentyn yn unig) sy'n golygu ei bod yn haws i ni weld effeithiau nodweddion eraill y teulu a'r plentyn¹⁵.

Gallwn weld yn Tabl 2.4 Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl oedran y plentyn bod plant o wahanol oeddrannau'n amrywio o ran eu tuedd i dderbyn gofal plant, ac yn eu tuedd i fynychu gwahanol fathau o ddarparwyr. Roedd plant tair a phedair blwydd oed yn fwy tebygol nag unrhyw grŵp oedran arall o dderbyn gofal plant ffurfiol (e.e. mynychodd 86% rywfaint o ofal plant ffurfiol o gymharu â 45% o'r holl blant). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar ar gael am ddim i'r grŵp oedran hwn, a bod mwy o angen yn gyffredinol am ofal plant i blant cyn oedran ysgol o gymharu â phlant hŷn, sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u dydd yn yr ysgol. (Archwilir y niferoedd sy'n manteisio ar yr hawl am ddim yn fanylach yn adran 2.8). Plant 12 i 14 oed oedd y lleiaf tebygol o dderbyn gofal plant ffurfiol (26% o gymharu â 45% o bob plentyn), sy'n debygol o fod yn adlewyrchiad o'u gallu i dreulio rhywfaint o amser yn y dydd ar eu pennau eu hunain, ond a allai hefyd fod yn gysylltiedig ag anawsterau wrth geisio darbwyllo plant yn eu harddegau i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol (Cummings et al. 2007). Mae dadansoddiad atchweliad yn cadarnhau bod y canfyddiadau hyn yn parhau i fod yn wir hyd yn oed pan ystyrir ffactorau eraill megis math o deulu, statws gwaith ac incwm (gweler Tabl C2.5, Atodiad C).

¹⁵ Pan gynhelir dadansoddiad ar lefel y teulu, mae maint y teulu'n effeithio ar y dadansoddiad, oherwydd nad oedd teuluoedd ag un plentyn yn unig ond yn cael un cyfle i "sgorio" fel defnyddwyr gofal plant, ond bod teuluoedd â mwy nag un plentyn yn cael yr un nifer o gyfleoedd i sgorio â nifer y plant yn y teulu. Gan fod cydberthynas rhwng maint teulu a nodweddion eraill y teulu a'r plentyn (e.e. incwm), mae'n dylanwadu ar y berthynas rhwng nodweddion eraill teuluoedd neu blant, a'r niferoedd sy'n defnyddio gofal plant.

Tabl 2.4 Defnydd o ddarparwyr gofal plant, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant

	Oedran y plentyn a ddewiswyd					Cyfanswm
	0-2	3-4	5-7	8-11	12-14	
Sut y defnyddir gofal plant	%	%	%	%	%	%
Unrhyw ofal plant	57	87	71	68	56	67
Gofal plant ffurfiol ac addysg y blynyddoedd cynnar						
Ysgol feithrin	2	7	0	0	0	1
Dosbarth meithrin sy'n rhan o ysgol gynradd neu ysgol fabanod	0	35	0	0	0	5
Dosbarth derbyn	0	30	6	0	0	5
Meithrinfa ddydd	22	8	0	0	0	5
Cylch chwarae neu gylch cyn oed ysgol	10	12	0	0	0	3
Clwb neu weithgaredd brechwast/ar ôl ysgol, ar safle'r ysgol	0	7	30	42	19	23
Clwb neu weithgaredd brechwast/ar ôl ysgol, nid ar safle'r ysgol	0	0	2	6	6	3
Gwarchodwr plant	5	3	4	2	0	3
Nani neu 'au pair'	0	0	0	0	0	0
Gofal plant anffurfiol	36	55	41	35	35	39
Cyn-bartner	4	6	9	6	9	7
Taid neu nain	31	43	27	20	21	27
Brawd neu chwaer hŷn	1	6	2	6	8	5
Perthynas arall	3	4	4	6	2	4
Ffrind neu gymydog	2	2	3	5	5	4
Dim gofal plant wedi'i ddefnyddio	43	13	29	32	44	33
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>103</i>	<i>81</i>	<i>115</i>	<i>161</i>	<i>131</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>106</i>	<i>85</i>	<i>124</i>	<i>148</i>	<i>129</i>	<i>592</i>

Gan edrych yn fanylach ar y gofal ffurfiol a ddefnyddir ar draws y grwpiau oedran, roedd gwahaniaethau yng nghyfrannau cyffredinol y plant sy'n cael darpariaeth ffurfiol ac yn y mathau o ddarparwyr a ddefnyddiwyd. Y darparwr ffurfiol mwyaf cyffredin ar gyfer plant 0-2 oed oedd meithrinfa ddydd (22%) a dim ond cyfran fach o'r grŵp oedran hwn oedd yn defnyddio mathau eraill o ofal ffurfiol (e.e. roedd 10% yn mynd i gylch chwarae a 5% at warchodwr plant). Roedd plant tair a phedair blwydd oed yn llai tebygol na phlant 0-2 flwydd oed o ddefnyddio meithrinfa ddydd (8% o gymharu â 22%). Yn lle hynny, roeddent yn llawer mwy tebygol o fynychu dosbarthiadau meithrin a dosbarthiadau derbyn (35% yn mynychu dosbarth meithrin a 30% yn mynychu dosbarth derbyn). Hefyd, dim ond 12% o blant 3-4 blwydd oed oedd yn mynd i gylch chwarae, a 3% yn mynd at warchodwr plant. I blant oedran ysgol, clybiau brecwast neu ar ôl ysgol ar safle'r ysgol oedd y math mwyaf poblogaidd o ofal plant – fe'i defnyddiwyd gan 30% o blant 5-7 mlwydd oed, 42% o blant 8-11 mlwydd oed a 19% o blant 12-14 mlwydd oed.

Nid oedd niferoedd y plant sy'n defnyddio gofal anffurfiol yn amrywio yn ôl oedran (roedd 39% o blant yn derbyn gofal anffurfiol¹⁶). Fodd bynnag, gan edrych ar fathau penodol o ddarparwyr gofal plant, roedd plant iau'n llawer mwy tebygol o dderbyn gofal gan eu neiniau a theidiau na phlant hŷn. Roedd 31% o blant 0-2 flwydd oed a 43% o blant 3-4 blwydd oed wedi derbyn gofal gan eu neiniau a'u teidiau yn yr wythnos gyfeirio yn ystod y tymor; fodd bynnag, dim ond 21% o blant 12-14 mlwydd oed oedd wedi derbyn y math hwn o ofal.

2.6 Defnydd o ofal plant yn ôl nodweddion y teulu

Mae'r gofal plant a dderbynnir gan blant yn gysylltiedig ag amrywiaeth o nodweddion teuluoedd (gweler Tabl C2.2 yn Atodiad C). Os edrychwn yn gyntaf ar y math o aelwyd (h.y. a yw plant yn perthyn i gwpl ynteu i deulu unig riant), nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn niferoedd y plant o wahanol fathau o aelwydydd sy'n derbyn gofal plant ffurfiol (cadarnhawyd hyn gan ddadansoddiad atchweliad, gweler Tabl C2.5 yn Atodiad C). Fodd bynnag, roedd plant o gartrefi unig riant yn fwy tebygol o dderbyn gofal anffurfiol na phlant mewn teuluoedd cyplau (47% o'i gymharu â 36%). Mae'n debygol bod y canfyddiad olaf hwn yn gysylltiedig â'r ffaith bod plant mewn cartrefi unig riant yn fwy tebygol o dreulio amser gyda'r rhiant nad yw'n byw gyda hwy (gofynnwyd i ymatebwyr a oedd eu cyn-bartner yn darparu gofal plant gan mai'r cyn-bartner fel rheol (ond nid bob tro) yw rhiant arall y plentyn; bydd yr adran hon yn cyfeirio at 'gyn-bartneriaid' fel y rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn) (gweler Tabl C2.3 yn Atodiad C).


Gan fod unig rieni'n llai tebygol o fod yn gweithio na rhieni mewn aelwydydd cyplau (gweler Atodiad A, Tabl A7), mae'n ddefnyddiol ystyried statws gwaith a math o aelwyd gyda'i gilydd wrth edrych ar batrymau defnydd gofal plant. Felly, ystyrir y ddau ffactor hyn gyda'i gilydd yn Ffigur 2.2 Defnydd o ofal plant, yn ôl y math o deulu a statws gwaith. Plant o deuluoedd unig riant sy'n gweithio (74%) a theuluoedd cyplau sydd ill dau'n gweithio (73%) oedd y mwyaf tebygol o dderbyn gofal plant. Yn wir, mae hyn yn wir am ofal plant ffurfiol ac anffurfiol. Ymysg plant mewn teuluoedd cyplau sydd ill dau'n ennill incwm, roedd 53% yn derbyn gofal plant ffurfiol, o gymharu â 40% mewn teuluoedd cyplau ble mae un yn ennill incwm a 24% o deuluoedd cyplau nad ydynt yn gweithio. Yn yr un modd, roedd

¹⁶ Os na chynhwysir cyn-bartneriaid, treuliodd 34% o blant amser gyda gofalwyr anffurfiol.

44% o blant mewn teuluoedd cyplau sydd ill dau'n ennill incwm yn derbyn gofal gan ofalwyr anffurfiol, o gymharu â 25% o blant mewn teuluoedd cyplau lle mae un yn ennill incwm a 17% o blant mewn teuluoedd cyplau nad ydynt yn gweithio. Gellir gweld yr un patrwm ar gyfer plant mewn teuluoedd unig riant sy'n gweithio a rhai nad ydynt yn gweithio (i gael mwy o fanylion am y rhesymau dros ddefnyddio gofal plant, e.e. am resymau economaidd, neu oherwydd datblygiad neu fwynhad y plant, gweler Pennod 3).

Ffigur 2.2 Defnydd o ofal plant, yn ôl y math o deulu a statws gwaith

Sail: Yr holl blant




Ffynhonnell: Tabl C2.2 yn Atodiad C.

Roedd plant mewn teuluoedd sy'n gweithio'n fwy tebygol na'r rheiny mewn teuluoedd nad ydynt yn gweithio o fynd i glybiau brecwast ac ar ôl ysgol ar safle ysgol, ac roeddent hefyd yn fwy tebygol o dderbyn gofal gan eu neiniau a'u teidiau (gweler Tabl C2.3 yn Atodiad C). Dangosodd Arolwg Gofal Plant Lloegr (Smith et al. 2010) fod plant mewn teuluoedd sy'n gweithio hefyd yn fwy tebygol o fynd i feithrinfeydd dydd, at warchodwyr plant, i glybiau brecwast ac ar ôl ysgol oddi ar safle ysgol, at ffrindiau a chymdogion, ac at rieni nad ydynt yn byw gyda hwy. Mae tueddiadau tebyg yn amlwg yma ond nid ydynt yn arwyddocaol (yn rhannol oherwydd bod y sampl yn llai).

Hefyd, roedd y defnydd yr oedd teuluoedd yn ei wneud o ofal plant ffurfiol yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar eu hincwm (gweler Ffigur 2.3 Defnydd o ofal plant, yn ôl incwm). Er enghraifft, mynychodd 41% o blant yn y grŵp incwm isaf ryw ddarpariaeth ffurfiol (incwm yr aelwyd dan £10,000) o gymharu â 63% o blant yn y grŵp incwm uchaf (incwm yr aelwyd yn £45,000 neu fwy). Nid yw'r cysylltiad ymddangosiadol rhwng defnydd gofal anffurfiol ac incwm yn arwyddocaol, er bod y berthynas yn arwyddocaol yn arolwg Lloegr (Smith et al. 2010). Awgryma hyn y gallai'r diffyg arwyddocâd yma fod yn gysylltiedig â'r ffaith fod y sampl yn llai.

Ffigur 2.3 Defnydd o ofal plant, yn ôl incwm

Sail: Yr holl blant



Ffynhonnell: Tabl C2.2 yn Atodiad C.

Efallai fod y cysylltiad rhwng incwm a defnydd gofal plant ffurfiol i'w ddisgwyl o ystyried y cysylltiad cryf rhwng incwm a statws gwaith (29% o deuluoedd ag incwm dan £10,000 oedd yn gweithio o gymharu â 99% o'r rheini a oedd yn ennill £30,000 neu fwy – tabl heb ei ddangos). Mae'r dadansoddiad atchweliad yn Nhabl C2.5 (Atodiad C) yn dadansoddi dylanwad cymharol y ffactorau hyn ar gyfer plant cyn oedran ysgol a phlant oedran ysgol ar wahân, ac mae'n dangos mai dim ond statws gwaith a oedd yn dylanwadu'n annibynnol ar y tebygolrwydd y byddai plant cyn oedran ysgol yn mynychu gofal plant ffurfiol. Ar y llaw arall, i blant oedran ysgol, dim ond incwm a oedd yn dylanwadu'n annibynnol ar y tebygolrwydd eu bod yn mynychu gofal plant.

Roedd plant â dau neu fwy o frodyr neu chwiorydd 0-14 oed yn llai tebygol o dderbyn gofal plant (56%) na'r rheiny a chanddynt ddim ond un brawd neu chwaer (67%) a'r rhai heb frawd na chwaer (76%), (gweler Tabl C2.2 yn Atodiad C)¹⁷.

2.7 Defnydd o ofal plant yn ôl rhanbarth ac amddifadedd ardaloedd

Yn Tabl 2.5 Defnydd o ofal plant, yn ôl rhanbarth gallwn weld sut y mae'r gofal plant a dderbynnir gan blant yn amrywio rhwng Cymru a gwahanol ranbarthau yn Lloegr. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y gofal plant a dderbynnir gan blant yng Nghymru a Lloegr ar y cyfan. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n defnyddio gofal plant yng Nghymru'n gyfwerth â lefel yn hanner uchaf rhanbarthau Lloegr.

¹⁷ Nid oedd nifer y plant yn y cartref wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad atchweliad gan nad oedd y sampl yn ddigon mawr i allu ymdopi â mwy o newidynnau heb beryglu cadernid y dadansoddiad.

Tabl 2.5 Defnydd o ofal plant, yn ôl rhanbarth

Sail: Yr holl blant

Rhanbarth Swyddfa'r Llywodraeth	Sut y defnyddir gofal plant			Sail wedi'i phwysoli	Sail heb ei phwysoli
	Unrhyw ofal plant %	Gofal plant ffurfiol %	Gofal plant anffurfiol %		
Cymru	67	45	39	592	592
Lloegr	63	43	33	6708	6708
- Gogledd-orllewin	63	35	44	322	356
- Gogledd-ddwyrain	63	40	37	914	934
- Swydd Efrog a'r Humber	63	40	35	674	720
- Dwyrain Canolbarth Lloegr	64	43	33	567	598
- Gorllewin Canolbarth Lloegr	70	46	39	727	750
- Dwyrain	62	42	32	740	760
- Llundain	55	41	20	1067	866
- De-ddwyrain	66	47	33	1064	1058
- De-orllewin	68	48	38	633	666

DS: Canrannau rhes. Ffynhonnell data Lloegr – Smith et al. (2010)

Mae Tabl 2.6 Defnydd o ofal plant, yn ôl amddifadedd ardaloedd yn dangos y berthynas rhwng y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant ac amddifadedd ardaloedd. Mae'n dangos bod plant sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad yn llai tebygol o dderbyn gofal plant ffurfiol na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (er nad oedd y berthynas yn llinol – plant yr 2^{il} gwintel lleiaf difreintiedig oedd y mwyaf tebygol o ddefnyddio gofal plant ffurfiol). Un ffactor a allai egluro'r berthynas hon yw'r cyfraddau cyflogaeth is ymysg teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig (roedd 64% o deuluoedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gweithio o gymharu â 90% o'r rheini yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig – tabl heb ei ddangos) a bod llai o angen gofal plant arnynt o ganlyniad¹⁸. (Nid yw'r berthynas ymddangosiadol rhwng y niferoedd sy'n defnyddio gofal plant yn gyffredinol ac amddifadedd yn ystadegol arwyddocaol. Fodd bynnag, roedd y berthynas hon yn arwyddocaol yn arolwg Lloegr sy'n awgrymu y gallai'r diffyg arwyddocâd yma fod yn gysylltiedig â'r ffaith fod y sampl yn llai.)

¹⁸ Ni chafodd amddifadedd ardaloedd ei gynnwys yn y dadansoddiad atchweliad gan nad oedd y sampl yn ddigon mawr i allu ymdopi â mwy o newidynnau heb beryglu cadernid y dadansoddiad.

Tabl 2.6 Defnydd o ofal plant, yn ôl amddifadedd ardaloedd

Sail: Yr holl blant

Amddifadedd yr ardal	Sut y defnyddir gofal plant			<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>Sail heb ei phwysoli</i>
	Unrhyw ofal plant %	Gofal plant ffurfiol %	Gofal plant anffurfiol %		
Pob ardal	67	45	39	592	592
Cwintel cyntaf – amddifadedd lleiaf	74	46	40	98	100
2il gwintel	72	55	36	111	118
3ydd cwintel	65	45	41	120	118
4ydd cwintel	62	41	37	110	114
5ed cwintel – amddifadedd mwyaf	63	40	40	153	142

DS: Canrannau rhes.

2.8 Defnydd o'r hawl gan blant 3-4 blwydd oed i addysg y blynyddoedd cynnar am ddim

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr hawl sydd gan blant 3 a 4 blwydd oed cymwys i gael addysg y blynyddoedd cynnar am ddim (10 awr yr wythnos ar adeg y gwaith maes).¹⁹ Mae'r ffigurau'n seiliedig ar ba un a ddywedodd y rhiant fod y plentyn wedi cael unrhyw addysg y blynyddoedd cynnar, ac ar gwestiwn arall penodol yn gofyn a dderbyniwyd yr 'oriau am ddim' fel rhan o'r addysg gynnar hon.


Mae Ffigur 2.4 Derbyn yr hawl am ddim yn dangos bod 95% o'r plant 3 a 4 blwydd oed (a oedd yn gymwys i dderbyn yr hawl am ddim) mewn addysg y blynyddoedd cynnar²⁰. Mae hyn yn cynnwys 80% y dywedodd eu rhieni eu bod yn derbyn yr oriau am ddim, 14% a ddywedodd eu bod yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar ond nid yr oriau am ddim, ac 1% yr oedd eu rhieni'n ansicr a oeddent wedi derbyn yr oriau am ddim ai peidio. Hefyd, dywedodd 5% o rieni plant 3-4 blwydd oed cymwys nad oedd eu plentyn wedi derbyn dim addysg y blynyddoedd cynnar yr wythnos honno. Fodd bynnag, gan ein bod yn dibynnu yma ar adroddiadau rhieni ac nid ar wybodaeth gan ddarparwyr gofal plant eu hunain, efallai fod mwy o blant yn derbyn yr oriau am ddim na'r nifer a nodir yma, oherwydd diffyg ymwybyddiaeth gan rieni.

¹⁹ Mae plant yn gymwys i gael y ddarpariaeth am ddim o 1 Ebrill, 1 Medi neu 1 Ionawr ar ôl eu 3ydd pen-blwydd, ac mae ganddynt hawl i gael hyd at chwe thymor o ddarpariaeth cyn cyrraedd oedran ysgol statudol, sef y tymor cyntaf ar ôl eu 5ed pen-blwydd. Fodd bynnag, er nad oes rhaid i blant fynychu'r ysgol nes y tymor cyntaf ar ôl eu 5ed pen-blwydd, mae mwy na hanner plant 4 blwydd oed yn mynychu'r ysgol yn amser llawn neu'n rhan-amser (fel rheol mewn dosbarth derbyn). Sail y ffigurau ar yr hawl am ddim yw pob plentyn sy'n gymwys. I sicrhau nad yw'r nifer sy'n defnyddio'r hawl am ddim yn ymddangos yn artiffisial o isel, caiff plant sy'n mynychu'r ysgol eu cynnwys yma yng nghyfran y plant sy'n cael y ddarpariaeth am ddim (er na ofynnwyd y cwestiwn am yr oriau am ddim iddynt).

²⁰ Diffinnir addysg y blynyddoedd cynnar fel: ysgol feithrin, dosbarth meithrin, dosbarth derbyn, meithrinfa ddydd, ysgol/meithrinfa ddydd arbennig, cylch chwarae, gwarchodwr plant a darparwr addysg feithrin arall. Ystyrir hefyd bod plant 3 a 4 oed sy'n mynychu'r ysgol (amser llawn neu ran-amser) yn derbyn addysg y blynyddoedd cynnar.

Ffigur 2.4 Derbyn yr hawl am ddim

Sail: Yr holl blant 3 a 4 mlwydd oed cymwys



Ffynhonnell: Tabl C2.6 yn Atodiad C.

2.9 Crynodeb

Defnyddiodd 80% o deuluoedd yng Nghymru ofal plant yn yr wythnos gyfeirio yn ystod y tymor. Defnyddiodd 30% ofal plant ffurfiol yn unig, defnyddiodd 31% ofal plant ffurfiol ac anffurfiol, a defnyddiodd 16% ofalwyr anffurfiol yn unig (defnyddiodd 3% fathau o ofal plant nad oedd modd eu dosbarthu'n ffurfiol nac yn anffurfiol).

Cynyddodd y defnydd o ofal plant ffurfiol ac addysg y blynyddoedd cynnar yn ystod y tymor rhwng 2004 a 2009. Roedd y rhan fwyaf o'r newid hwn yn deillio o'r ffaith bod mwy o deuluoedd yn defnyddio gwasanaethau y tu allan i'r ysgol (megis clybiau brechwast a chlybiau ar ôl ysgol – er enghraifft, gwelwyd cynnydd yn nifer y teuluoedd a oedd yn defnyddio clybiau a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ar safle ysgol, o 8% yn 2004 i 19% yn 2009). Gellir esbonio'r cynnydd hwn yn rhannol oherwydd newidiadau ym methodoleg yr arolwg, ond mae'n debyg ei fod yn dangos newid gwirioneddol hefyd. Mae'r ganran sy'n defnyddio gofal plant anffurfiol (megis neiniau a theidiau) wedi aros yn sefydlog rhwng 2004 a 2009.

Roedd y defnydd o wahanol ffurfiau ar ofal plant yn amrywio yn ôl oedran eu plentyn a'u hamgylchiadau. Plant 3 a 4 oed a oedd yn fwyaf tebygol o fod mewn gofal plant, yn bennaf oherwydd yr hawl i oriau addysg y blynyddoedd cynnar am ddim. Yn wir, roedd 95% o'r rhai 3-4 oed a oedd yn gymwys i dderbyn yr oriau am ddim, mewn addysg y blynyddoedd cynnar. Y rhai rhwng 12 ac 14 oed oedd leiaf tebygol o dderbyn gofal plant (56%), sy'n debygol o fod yn adlewyrchiad o'u gallu i dreulio rhywfaint o amser yn y dydd ar eu pennau eu hunain. Gallai hefyd fod yn gysylltiedig ag anawsterau wrth geisio darbwyllo plant yn eu harddegau i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol (Cummings et al. 2007).

Roedd plant o deuluoedd a oedd yn gweithio a theuluoedd incwm uwch yn fwy tebygol o fod mewn gofal plant ffurfiol na'r rhai o deuluoedd nad oeddent yn gweithio neu o deuluoedd incwm is. Dangosodd dadansoddiad atchweliad fod cyswllt annibynnol rhwng statws gwaith a defnydd gofal plant ffurfiol ymhlith plant

cyn oedran ysgol, a bod cyswllt annibynnol hefyd rhwng incwm a defnydd gofal plant ymhlith plant oedran ysgol.

Roedd plant mewn teuluoedd mwy (h.y. y rhai â thri neu fwy o blant) yn llai tebygol o ddefnyddio gofal plant na'r rhai mewn teuluoedd llai. Hefyd, roedd plant a oedd yn byw yn yr ardaloedd gyda'r lefelau amddifadedd uchaf yn llai tebygol o ddefnyddio gofal plant ffurfiol na'r rhai a rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd lle'r oedd y lefelau amddifadedd ar eu hisaf (er nad oedd y berthynas yn llinol - gyda phlant yn yr ail gwintel lleiaf amddifad y mwyaf tebygol o ddefnyddio gofal plant ffurfiol).

3 Pecynnau gofal plant a'u dibenion

3.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn ystyried sut y bydd rhieni'n defnyddio gofal plant ar gyfer plant cyn ysgol (0-4 oed) ac ar gyfer plant oedran ysgol (5-14 oed) yn ystod tymor yr ysgol ond y tu allan i oriau'r ysgol. Rydym yn rhannu plant cyn oedran ysgol yn ddau grŵp oedran: plant 0-2 flwydd oed a phlant 3-4 blwydd oed – gan fod plant yn dod yn gymwys i gael addysg y blynyddoedd cynnar am ddim pan fyddant yn dair oed. Rydym yn rhannu plant oedran ysgol yn dri grŵp oedran: plant 5-7 mlwydd oed, plant 8-11 mlwydd oed a phlant 12-14 mlwydd oed. Mae'r categorïau hyn yn fras yn cynrychioli cyfnodau babanod, iau ac uwchradd cynnar yn yr ysgol.

Ym Mhennod 2, dywedwyd bod 67% o blant yn cael rhyw fath o ofal plant. Y plant ieuengaf, sef 0-2 flwydd oed, oedd y mwyaf tebygol o dderbyn gofal gan nain neu daid neu feithrinfa ddydd. Roedd y darlun i blant 3-4 blwydd oed ychydig yn fwy amrywiol, gyda thraean yn mynychu dosbarth meithrin, traean arall yn mynychu dosbarth derbyn a 12% yn mynychu cylch chwarae. Y darparwr ffurfiol a ddefnyddiwyd amlaf ar gyfer plant oedran ysgol oedd clwb brecwast neu glwb ar ôl ysgol wedi'i leoli ar safle'r ysgol, a neiniau a theidiau oedd y darparwr anffurfiol a ddefnyddiwyd amlaf ar gyfer plant oedran ysgol hefyd.

Ym Mhennod 2, roeddem yn dosbarthu darparwyr gofal plant gan fwyaf naill ai'n 'ffurfiol' neu'n 'anffurfiol'; yn y bennod hon, byddwn yn dosbarthu darparwyr ffurfiol yn fanylach fel a ganlyn:

Ffurfiol: mewn Canolfan

- Ysgol feithrin;
- Dosbarth meithrin sy'n gysylltiedig ag ysgol gynradd neu ysgol fabanod;
- Dosbarth derbyn sy'n gysylltiedig ag ysgol gynradd neu ysgol fabanod;
- Meithrinfa ddydd;
- Cylch chwarae neu gylch cyn oed ysgol;
- Ysgol ddydd neu feithrinfa neu uned arbennig i blant ag anghenion addysgol arbennig;
- Darparwr addysg feithrin arall.

Ffurfiol: Unigol

- Gwarchodwr plant;
- Nani neu 'au pair';
- Gwarchodwr sy'n dod i'r cartref.

Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol

- Clwb Brecwast neu Glwb Ar Ôl Ysgol, ar safle'r ysgol/ysgol feithrin;
- Clwb Brecwast neu Glwb Ar Ôl Ysgol, nid ar safle'r ysgol/ysgol feithrin;
- Clwb/cynllun gwyliau.²¹

Ffurfiol: Hamdden/Arall

²¹ Er bod y bennod hon yn canolbwyntio ar y gofal plant a ddefnyddiwyd gan blant yn yr wythnos gyfeirio yn ystod y tymor, dywedodd nifer fach iawn o rieni eu bod wedi defnyddio clwb gwyliau yn ystod y cyfnod hwnnw.

- Darparwr gofal plant arall;
- Gweithgaredd hamdden/chwaraeon.

Fel ym Mhennod 2, mae'r categori 'Darparwyr Anffurfiol' yn cynnwys: rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn;²² neiniau a theidiau; brodyr a chwiorydd hŷn; perthnasau eraill; a ffrindiau a chymdogion.

Mae'n ddefnyddiol dosbarthu darparwyr ffurfiol yn fanylach fel hyn gan ei fod yn dangos y gwahaniaethau allweddol rhwng y gwahanol fathau o ddarparwyr. Hefyd, rydym yn gwybod bod rhai plant yn derbyn gofal gan fwy nag un math o ddarparwr ffurfiol, a bod rhai teuluoedd yn cyfuno darpariaeth ffurfiol â gofal anffurfiol. Bydd y dosbarthiad newydd o ddarparwyr ffurfiol yn ein helpu i archwilio'r 'pecynnau' gofal y bydd rhieni'n eu llunio ar gyfer eu plant, e.e. cyfran y rhieni sy'n cyfuno gofal plant mewn canolfan â gofal anffurfiol. Mae'r bennod hon hefyd yn ymchwilio i'r cysylltiad rhwng y mathau a'r pecynnau gofal plant a ddefnyddir ar gyfer plant cyn ysgol ac: oedrannau'r plant (gweler adran 3.2); nifer y darparwyr a ddefnyddir (adran 3.3); patrymau defnydd o ran dyddiau ac oriau (adran 0); a rhesymau rhieni dros ddefnyddio darparwyr penodol (adran 3.5).

Mae'r holl ganfyddiadau a gyflwynir yn y bennod hon yn ymwneud â gofal plant a ddefnyddiwyd yn yr wythnos gyfeirio yn ystod y tymor, a'r uned ddadansoddi yw plentyn yn hytrach na theulu. Fodd bynnag, yn wahanol i'r rhan fwyaf o benodau eraill yr adroddiad, mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddiadau'n defnyddio gwybodaeth am yr holl blant yn yr aelwyd yn hytrach na'r plentyn a ddewiswyd yn unig (gweler Atodiad B am fwy o wybodaeth am y plentyn a ddewiswyd). Defnyddiwyd y dull hwn gan fod y rhan fwyaf o'r wybodaeth berthnasol ar gael ar gyfer yr holl blant yn yr aelwyd, a gallwn archwilio'n fanylach y defnydd a wneir o wahanol fathau o ofal plant trwy edrych ar sampl mwy o blant. Yr unig ganfyddiadau yn y bennod hon sy'n defnyddio gwybodaeth am y plentyn a ddewiswyd yn unig yw'r rheiny sy'n ymwneud â phatrymau defnydd (dyddiau ac oriau), gan fod y data hyn yn rhan o'r cofnod manwl a gasglwyd am y plentyn a ddewiswyd yn unig (gweler Pennod 1).

3.2 Defnydd o ofal plant, yn ôl oedran y plentyn

Mae'n amlwg o Tabl 3.1 Defnydd o ofal plant i blant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn bod tri math neu becyn gofal plant yn cael ei ddefnyddio amlaf ar gyfer plant cyn ysgol: gofal plant ffurfiol mewn canolfan yn unig (27%); cyfuniad o ofal plant ffurfiol mewn canolfan a gofal anffurfiol (23%); a gofal anffurfiol yn unig (13%). Nid oedd dim mwy na 2% o blant cyn ysgol yn derbyn unrhyw un o'r mathau neu becynnau gofal eraill, ac roedd 26% nad oeddent yn derbyn gofal plant o gwbl.

²² Gofynnwyd i'r atebwyr a oedd cyn-bartner yn darparu gofal plant, gan mai'r rhiant nad yw'r plentyn yn byw gydag ef/hi fydd y cyn-bartner fel arfer (ond nid bob tro); bydd y bennod hon yn cyfeirio at 'gyn-bartneriaid' fel y rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn.

Tabl 3.1 Defnydd o ofal plant i blant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn*Sail: Yr holl blant cyn ysgol*

	Oedran y plentyn		
	0-2	3-4	Cyfansw m
Pecyn gofal	%	%	%
Ffurfiol: mewn Canolfan yn unig	21	35	27
Ffurfiol: mewn Canolfan ac Anffurfiol	15	33	23
Anffurfiol yn unig	22	2	13
Ffurfiol: mewn Canolfan a Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol ac Anffurfiol	0	5	2
Ffurfiol: mewn Canolfan a Ffurfiol: Unigol ac Anffurfiol	1	2	2
Ffurfiol: Unigol yn unig	3	-	2
Ffurfiol: mewn Canolfan a Ffurfiol: Unigol	-	3	2
Ffurfiol: mewn Canolfan a Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol	0	2	1
Ffurfiol: mewn Canolfan a Hamdden/Arall ac Anffurfiol	0	2	1
Ffurfiol: Unigol ac Anffurfiol	1	-	1
Arall	1	2	1
Dim	37	12	26
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>187</i>	<i>152</i>	<i>340</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>205</i>	<i>177</i>	<i>382</i>

Ceir gwahaniaeth clir rhwng y mathau a'r pecynnau gofal plant a ddefnyddir gyda phlant iau a hŷn cyn ysgol, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod llawer yn manteisio ar yr hawl i addysg y blynyddoedd cynnar am ddim i blant 3-4 blwydd oed. Er enghraifft, roedd 35% o blant 3-4 blwydd oed yn mynychu gofal plant mewn canolfan yn unig, ac roedd 33% yn mynychu'r math hwn o ofal ar y cyd â darpariaeth anffurfiol. Y ffigurau cyfatebol i blant 0-2 flwydd oed yw 21% a 15% yn unig. Ar y llaw arall, roedd 22% o blant 0-2 flwydd oed yn cael gofal gan ddarparwyr anffurfiol yn unig, o gymharu â dim ond 2% o blant 3-4 blwydd oed.

Roedd cyfanswm o 2% o blant cyn ysgol yn mynd at ddarparwr unigol ffurfiol yn unig (er enghraifft, gwarchodwr plant) ac roedd 2% arall yn mynd at ddarparwr unigol ffurfiol ac at ddarparwr gofal plant mewn canolfan. Yn bennaf, plant 3-4 blwydd oed a oedd yn cael gofal plant gan ddarparwr unigol ffurfiol ac mewn canolfan (3% o gymharu â llai nag 1% o blant 0-2 flwydd oed). Mae'r data hefyd yn awgrymu bod plant 0-2 flwydd oed yn fwy tebygol, yn gymharol, o ddefnyddio darparwr ffurfiol unigol yn unig (3% o gymharu â llai nag 1% o blant 3-4 blwydd oed) – fodd bynnag, nid oedd y berthynas hon yn ystadegol arwyddocaol²³.

Mae

²³ Roedd y berthynas hon yn arwyddocaol yn arolwg Lloegr (Smith et al. 2010) sy'n awgrymu y gallai'r diffyg arwyddocâd yma fod yn rhannol oherwydd bod y sampl yn llai yn arolwg Cymru.

Tabl 3.2 Defnydd o ofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn yn dangos bod 35% o blant oedran ysgol ddim mewn gofal plant a bod 17% mewn gofal anffurfiol yn unig. Roedd 15% mewn gofal plant ffurfiol y tu allan i'r ysgol yn unig (h.y. clwb brecwast a/neu glwb ar ôl ysgol, ar safle'r ysgol neu oddi ar y safle), ac roedd 13% mewn cyfuniad o ofal y tu allan i'r ysgol a gofal anffurfiol. Nid oedd mwy na 5% o blant oedran ysgol yn derbyn unrhyw becyn gofal plant penodol arall.

Tabl 3.2 Defnydd o ofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant oedran ysgol

Pecyn gofal	Oedran y plentyn			
	5-7	8-11	12-14	Cyfansw m
	%	%	%	%
Anffurfiol yn unig	17	15	18	17
Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol yn unig	9	22	13	15
Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol ac Anffurfiol	12	16	9	13
Ffurfiol: Hamdden/Arall yn unig	4	6	7	5
Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol a Ffurfiol: Hamdden/Arall	4	5	1	4
Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol a Ffurfiol: Hamdden/Arall ac Anffurfiol	3	3	5	3
Ffurfiol: Hamdden/Arall ac Anffurfiol	2	2	3	2
Ffurfiol: mewn Canolfan yn unig	5	0	1	2
Ffurfiol: Unigol yn unig	3	1	0	1
Ffurfiol: Unigol a Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol ac Anffurfiol	1	1	0	1
Ffurfiol: Unigol ac Anffurfiol	2	0	-	1
Ffurfiol: mewn Canolfan ac Anffurfiol	2	0	0	1
Ffurfiol: Unigol a Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol	1	1	0	1
Arall	2	1	-	1
Dim	34	29	43	35
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>202</i>	<i>255</i>	<i>204</i>	<i>661</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>264</i>	<i>328</i>	<i>228</i>	<i>820</i>

Roedd plant 8-11 oed yn llawer mwy tebygol na phlant hŷn ac iau o oedran ysgol o fynychu gofal y tu allan i'r ysgol yn unig (22% o gymharu â 13% a 9%). Y prif wahaniaeth arall rhwng plant oedran ysgol o wahanol oeddrannau yw bod plant 5-7 mlwydd oed yn defnyddio amrywiaeth ehangach o becynnau gofal plant na phlant hŷn o oedran ysgol. Defnyddiodd 29% o blant 5-7 mlwydd oed becyn gofal plant nad oedd yn un o'r tri phecyn mwyaf cyffredin, o gymharu â 19% y cant o blant 8-11 mlwydd oed a 17% o blant 12-14 mlwydd oed²⁴. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai plant 5-7 mlwydd oed yn defnyddio gofal mewn canolfannau (gan gynnwys rhai plant 5 oed a oedd mewn dosbarth derbyn). Er bod y canrannau dan sylw'n gymharol fach, roedd cyfran sylweddol fwy o blant 5-7 mlwydd oed hefyd yn derbyn gofal gan unigolion ffurfiol²⁵ (defnyddiodd 7% o blant 5-7 mlwydd oed

²⁴ Gall y cyfanswm fod yn wahanol i swm y rhifau unigol yn y tabl oherwydd talgrynnu.

²⁵ Gwarchodwyr plant gan fwyaf, gweler Tabl 2.3 ym Mhennod 2.

becyn gofal plant sy'n cynnwys unigolion ffurfiol o gymharu â 2% o blant 8-11 mlwydd oed a llai na hanner un y cant o blant 12-14 mlwydd oed)²⁶.

3.3 Nifer y darparwyr a ddefnyddiwyd

Gall pecynnau gofal gynnwys mwy nag un math o ddarpariaeth yn ogystal â mwy nag un darparwr o'r un math (er enghraifft, gallai plant sy'n defnyddio gofal anffurfiol yn unig fynd at nifer o wahanol ddarparwyr anffurfiol megis neiniau a theidiau a pherthnasau eraill). Felly, er mwyn datblygu dealltwriaeth dda o sut y bydd rhieni'n defnyddio gofal plant, mae'n ddefnyddiol edrych ar nifer y darparwyr a ddefnyddir, yn ogystal â'r math o ddarpariaeth.

Mae Tabl 3.3 Nifer y darparwyr i blant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn yn dangos bod plant iau cyn ysgol yn tueddu i fynd at nifer lai o ddarparwyr gofal plant na rhai hŷn. Er enghraifft, roedd 64% o blant 0-2 flwydd oed yn cael gofal gan un darparwr yn unig, o gymharu â 35% o blant 3-4 blwydd oed. Roedd 25% o blant 3-4 blwydd oed yn mynd at dri neu fwy o ddarparwyr²⁷, ond dim ond 11% o'r plant iau oedd yn gwneud hyn.

Tabl 3.3 Nifer y darparwyr i blant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant cyn ysgol a dderbyniodd ofal plant

Nifer y darparwyr	Oedran y plentyn		Cyfanswm
	0-2	3-4	
	%	%	%
1	64	35	49
2	26	40	33
3	8	16	12
4+	3	8	6
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>119</i>	<i>134</i>	<i>252</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>120</i>	<i>151</i>	<i>271</i>

Edrychwyd hefyd ar nifer y darparwyr a ddefnyddiwyd ar gyfer plant cyn ysgol gyda phob un o'r tri phecon gofal mwyaf cyffredin (h.y. mewn canolfan yn unig; anffurfiol yn unig; a chyfuniad o ofal mewn canolfan a gofal anffurfiol, gweler Tabl 3.4 Nifer y darparwyr i blant cyn ysgol, yn ôl y Pecyn gofal). Roedd mwy na thri chwarter y plant hynny a oedd yn derbyn un math o ofal yn unig wedi mynd at un darparwr yn unig (90% o'r rhai sy'n cael gofal mewn canolfan yn unig a 76% o'r rhai sy'n cael gofal anffurfiol yn unig). Fodd bynnag, roedd dros chwarter y plant a oedd yn derbyn cyfuniad o ofal yn mynd at dri neu fwy o ddarparwyr (26%). Gall fod yn fater cymhleth i'r teuluoedd hyn adeiladu a chynnal pecyn gofal, ac mae'n debygol bod y plant hyn yn profi amrywiaeth o wahanol amgylcheddau gofal.

²⁶ Gall y cyfanswm fod yn wahanol i swm y rhifau unigol yn y tabl oherwydd talgrynnu.

²⁷ Gall y cyfanswm fod yn wahanol i swm y rhifau unigol yn y tabl oherwydd talgrynnu.

Tabl 3.4 Nifer y darparwyr i blant cyn ysgol, yn ôl y Pecyn gofal*Sail: Yr holl blant cyn ysgol a dderbyniodd ofal plant*

Nifer y darparwyr	Pecyn gofal		
	Ffurfiol: mewn Canolfan yn unig %	Anffurfiol yn unig %	Ffurfiol: mewn Canolfan ac Anffurfiol %
1	90	[76]	0
2	10	[12]	74
3	0	[8]	16
4+	0	[4]	10
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	91	45	78
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	99	44	81

Gan droi at blant oedran ysgol, aeth ychydig dros hanner at ddau neu fwy o ddarparwyr (53%, gweler Tabl 3.5 Nifer y darparwyr i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn)²⁸, gan gynnwys ychydig dros chwarter a oedd yn mynd at dri neu fwy (27%). Nid oedd gwahaniaeth rhwng plant oedran ysgol o wahanol oeddrannau.

Tabl 3.5 Nifer y darparwyr i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn*Sail: Yr holl blant oedran ysgol a dderbyniodd ofal plant*

Nifer y darparwyr	Oedran y plentyn			Cyfanswm %
	5-7 %	8-11 %	12-14 %	
1	44	45	53	47
2	34	24	22	27
3	13	17	14	15
4+	9	14	12	12
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	134	182	117	433
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	173	232	128	533

Edrychwyd hefyd ar nifer y darparwyr a ddefnyddiwyd ar gyfer plant oedran ysgol gyda phob un o'r pecynnau gofal mwyaf cyffredin (h.y. y tu allan i'r ysgol yn unig; anffurfiol yn unig; a chyfuniad o ofal y tu allan i'r ysgol a gofal anffurfiol, gweler Tabl 3.6 Nifer y darparwyr i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn r y darparwyr i blant oedran ysgol, yn ôl y Pecyn gofal). Roedd 73% o'r rhai sy'n cael gofal y tu allan i'r ysgol yn unig ac 80% o'r rhai sy'n cael gofal anffurfiol yn unig yn defnyddio un darparwr gofal plant yn unig. Roedd plant oedran ysgol sy'n cael

²⁸ Gall y cyfanswm fod yn wahanol i swm y rhifau unigol yn y tabl oherwydd talgrynnu.

cyfuniad o ofal y tu allan i'r ysgol a gofal anffurfiol yn fwy tebygol o fod yn mynd at dri darparwr neu fwy (44%) na'r rhai sy'n cael gofal y tu allan i'r ysgol yn unig (6%) neu ofal anffurfiol yn unig (5%).

3.6 Nifer y darparwyr i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant oedran ysgol a dderbyniodd ofal plant

Nifer y darparwyr	Pecyn gofal		
	Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol yn unig %	Anffurfiol yn unig %	Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol ac Anffurfiol %
1	73	80	0
2	21	15	56
3	5	2	33
4+	1	3	11
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>99</i>	<i>110</i>	<i>84</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>126</i>	<i>126</i>	<i>102</i>

3.4 Patrymau defnydd gofal plant

Yn yr adran hon, byddwn yn archwilio patrymau defnydd gofal plant, h.y. nifer y dyddiau o ofal plant a ddefnyddir mewn wythnos, a nifer yr oriau a ddefnyddir mewn wythnos ac mewn diwrnod. Byddwn yn rhoi sylwadau yn y testun am y canolrifau (cyfeirir atynt fel cyfartaledd).

Mae Tabl 3.7 Patrymau defnydd gofal plant i blant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn yn dangos, ar gyfartaledd, bod plant cyn ysgol yn treulio 6.2 awr y dydd mewn gofal plant (ar y dyddiau pan ddefnyddiwyd gofal plant), a 27.9 awr yr wythnos. Treuliodd plant hŷn cyn ysgol fwy o amser mewn gofal plant mewn wythnos ar gyfartaledd na rhai iau (31.3 awr o gymharu â 20.8). Roedd plant 3-4 oed hefyd yn fwy tebygol na'r rhai iau o fynychu gofal plant am fwy o ddyddiau'r wythnos (e.e. roedd 66% o blant 3-4 blwydd oed yn mynychu gofal plant bum diwrnod yr wythnos, o gymharu â 23% o blant 0-2 flwydd oed). Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar am ddim yn tueddu i gael ei darparu ar draws sawl diwrnod yn yr wythnos.

Roedd 16% o blant 3-4 blwydd oed yn mynychu gofal plant chwe neu saith diwrnod yr wythnos. Mae'n debygol mai'r rheswm am hyn yw bod traean (33%) o blant 3-4 blwydd oed yn cael cyfuniad o ofal mewn canolfan a gofal anffurfiol.

Tabl 3.7 Patrymau defnydd gofal plant i blant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant cyn ysgol a dderbyniodd ofal plant

Dyddiau ac oriau'r gofal plant a dderbyniwyd	Oedran y plentyn		Cyfanswm %
	0-2 %	3-4 %	
Dyddiau mewn wythnos:			
1	19	0	9
2	19	2	10
3	19	3	11
4	18	11	15
5	23	66	46
6	2	13	8
7	0	3	2
Canolrif yr oriau mewn diwrnod	6.7	6.0	6.2
Canolrif yr oriau mewn wythnos	20.8	31.3	27.9
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	58	64	122
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	65	67	132

Pan oedd plant cyn ysgol yn mynychu gofal plant mewn canolfan, roeddent yn treulio cyfartaledd o 20.0 awr yr wythnos a 6.0 awr y diwrnod yno (gweler Tabl C3.1 yn Atodiad C). Roedd dros hanner y plant cyn ysgol yn treulio pum diwrnod yr wythnos gyda darparwyr mewn canolfannau, ond nid oedd yr un plentyn cyn ysgol yn mynd am fwy na phum diwrnod yr wythnos. Mae'n debygol mai'r rheswm am hyn yw nad yw'r math hwn o ddarpariaeth ar gael ar benwythnosau fel rheol.

Roedd plant cyn ysgol a oedd yn derbyn gofal gan ddarparwyr anffurfiol yn treulio cyfartaledd o 11.0 awr yr wythnos a 5.0 awr y diwrnod yn y gofal hwn (gweler Tabl C3.1 yn Atodiad C). Roedd dros hanner y plant hyn yn cael eu gofal anffurfiol ar un neu ddau ddiwrnod yr wythnos yn unig (54%).

Mae Tabl 3.8 Patrymau defnydd gofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn yn dangos bod 43% o blant oedran ysgol a oedd yn mynychu gofal plant yn mynd ar ddim ond un neu ddau ddiwrnod yr wythnos, a bod 19% yn mynd bum diwrnod yr wythnos. Fel y gallm ei ddisgwyl, o ystyried bod y plant hyn i gyd yn mynd i'r ysgol yn amser llawn, nid oeddent yn treulio rhyw lawer iawn o amser mewn gofal plant – 5.3 awr yr wythnos a 2.0 awr y dydd ar gyfartaledd.

Tabl 3.8 Patrymau defnydd gofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant oedran ysgol a dderbyniodd ofal plant

Dyddiau ac oriau'r gofal plant a dderbyniwyd	Oedran y plentyn			Cyfanswm
	5-7 %	8-11 %	12-14 %	
Dyddiau mewn wythnos:				
1	23	18	30	23
2	28	19	14	20
3	13	15	11	13
4	8	13	19	13
5	22	22	11	19
6	3	6	12	7
7	3	7	4	5
Canolrif yr oriau mewn diwrnod	1.8	1.7	2.5	2.0
Canolrif yr oriau mewn wythnos	4.8	5.2	7.3	5.3
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>74</i>	<i>101</i>	<i>65</i>	<i>240</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>83</i>	<i>94</i>	<i>66</i>	<i>243</i>

Roedd plant oedran ysgol a oedd yn mynychu gofal plant y tu allan i'r ysgol yn treulio cyfartaledd o 2.2 awr yr wythnos ac 1.0 awr y diwrnod yno (gweler Tabl C3.2 yn Atodiad C), tra bod y rhai mewn gofal anffurfiol yn treulio cyfartaledd o 7.0 awr yr wythnos a 3.0 awr y diwrnod yno (gweler Tabl C3.2 yn Atodiad C).

3.5 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant

Gofynnwyd i rieni pam eu bod wedi defnyddio pob darparwr gofal plant yn yr wythnos gyfeirio yn ystod y tymor (roeddent yn cael rhoi cynifer o resymau ag y dymument o restr â chod ar gyfer pob eitem). Mae'r rhesymau hyn wedi'u grwpio'n dri chategori:

- 'Rhesymau economaidd', e.e. fel y gallai rhieni weithio, chwilio am waith neu astudio;
- 'Rhesymau'n ymwneud â'r plentyn', e.e. oherwydd bod darparwr yn helpu â datblygiad addysgol neu gymdeithasol plentyn, neu am fod y plentyn yn mwynhau mynd yno;
- 'Rhesymau'n ymwneud ag amser y rhieni', e.e. fel y gallai rhieni wneud gweithgareddau domestig, cymdeithasu neu ofalu am blant eraill.


Mae **Error! Reference source not found.** yn dangos bod 59% o'r plant cyn ysgol a oedd yn cael gofal plant yn gwneud hynny am resymau economaidd; 72% am resymau'n ymwneud â'r plentyn; a 25% am resymau'n ymwneud ag amser y rhieni.²⁹ Roedd 66% o blant 0-2 flwydd oed yn mynd at ddarparwyr gofal plant am

²⁹ Dangosir canrannau'r rhieni a roddodd wahanol gyfuniadau o resymau dros ddefnyddio eu darparwr/darparwyr (e.e. economaidd ac yn ymwneud â'r plentyn; yn ymwneud â'r plentyn ac amser y rhieni) yn Atodiad C, Tabl C3.3.

resymau economaidd, ac roedd yr un peth yn wir am 53% o blant 3-4 blwydd oed. Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol, ond mae'n adlewyrchu canfyddiadau arolwg Lloegr sy'n awgrymu mai'r rheswm am y diffyg arwyddocâd hwn yw bod y sampl yn fach (gweler Ffigur 3.2 yn adroddiad Lloegr, Smith et al. 2010).

Er bod 51% o'r plant 0-2 flwydd oed a oedd yn mynychu gofal plant yn gwneud hynny am resymau'n ymwneud â'r plentyn, roedd hyn yn wir am 91% o blant 3-4 blwydd oed. Mae'n debygol bod y gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod gan blant 3-4 blwydd oed hawl i gael addysg y blynyddoedd cynnar am ddim. Gall y gwahaniaeth hefyd fod yn fwy oherwydd bod rhai plant 4 oed mewn dosbarth derbyn, ac y byddai rhieni fel rheol yn ystyried eu bod yn gwneud hynny er budd i'r plentyn (er nad yw ysgol yn orfodol tan y tymor ar ôl i blant fod yn bump oed).

Ffigur 3.1 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant ar gyfer plant cyn ysgol, yn ôl oedran y plentyn




Ffynhonnell: Tabl C3.4 yn Atodiad C.

Mae Ffigur 3.1 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn yn dangos bod 50% o'r plant oedran ysgol hynny a oedd yn derbyn gofal plant yn mynychu am resymau economaidd; 70% am resymau'n ymwneud â'r plentyn; ac 16% am resymau'n ymwneud ag amser y rhieni.³⁰ Roedd y plant ieuengaf o oedran ysgol yn fwy tebygol na'r rhai hŷn o fod mewn gofal plant am resymau'n ymwneud ag amser y rhieni (23% o blant 5-7 mlwydd oed o gymharu â 12% o blant 8-11 mlwydd oed a 15% o blant 12-14 mlwydd oed). Nid oedd gwahaniaethau eraill rhwng y grwpiau oed.

³⁰ Dangosir canrannau'r rhieni a roddodd wahanol gyfuniadau o resymau dros ddefnyddio eu darparwr/darparwyr (e.e. economaidd ac yn ymwneud â'r plentyn; yn ymwneud â'r plentyn ac amser y rhieni) yn Atodiad C, Tabl C3.5.

Ffigur 3.1 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl oedran y plentyn



Ffynhonnell: Tabl C3.6 yn Atodiad C.

Mae Tabl 3.9 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant cyn ysgol, yn ôl y pecyn gofal yn dangos rhesymau rhieni dros ddefnyddio gwahanol becynnau gofal plant i'w plant cyn oed ysgol.³¹ Roedd 77% o blant mewn cyfuniad o ofal mewn canolfan a gofal anffurfiol yn mynd at y darparwr am resymau economaidd, o gymharu â 34% o'r rhai a oedd yn cael gofal mewn canolfan yn unig a 53% o'r rhai a oedd yn cael gofal anffurfiol yn unig. Mae hyn yn dangos y gall fod angen cyfuniad o ofal er mwyn darparu ar gyfer oriau gwaith rhieni.

Roedd plant a oedd yn cael gofal gan ddarparwyr anffurfiol yn unig yn llai tebygol na phlant eraill o fod yn derbyn gofal am resymau'n ymwneud â'r plentyn (51% o gymharu â 78% o'r rhai a oedd yn cael gofal mewn canolfan yn unig a 75% o'r rhai a oedd yn cael cyfuniad o ofal mewn canolfan a gofal anffurfiol). Gellir gweld patrwm tebyg os edrychwn ar y gwahanol resymau dros fynd at y darparwr mewn canolfan ac at y gofalwr anffurfiol, ymysg plant sy'n cael cyfuniad o ofal. Pedwar deg un y cant o'r plant a oedd yn cael cyfuniad o ofal a oedd yn mynd at eu gofalwr anffurfiol am resymau sy'n ymwneud â'r plentyn, o gymharu â 65% a oedd yn mynd at eu gofalwr mewn canolfan am resymau'n ymwneud â'r plentyn.

³¹ Byddwn yn edrych yn fanylach ar resymau rhieni dros ddewis un math o ddarparwr yn hytrach nag un arall ym Mhennod 6.

Tabl 3.9 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant cyn ysgol, yn ôl y pecyn gofal

Sail: Yr holl blant cyn ysgol a dderbyniodd ofal plant

Rhesymau dros ei ddefnyddio	Pecyn gofal		Ffurfiol: mewn Canolfan ac Anffurfiol		
	Ffurfiol: mewn Canolfan yn unig	Anffurfiol yn unig	Cyfanswm	Mewn Canolfan	Anffurfiol
	%	%	%	%	%
Economaidd	34	[53]	77	51	68
Ymwneud â'r plentyn	78	[51]	75	65	41
Amser y rhieni	21	[38]	27	8	25
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	91	45	78	78	78
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	99	44	81	81	81

Mae Tabl 3.10 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl y pecyn gofal yn dangos y rhesymau pam roedd plant oedran ysgol yn derbyn pecynnau gofal penodol.³² Y plant hynny sy'n cael gofal y tu allan i'r ysgol yn unig oedd y lleiaf tebygol o fod yn mynd at y darparwr am resymau economaidd (26%, o gymharu â 58% o'r rhai sy'n cael gofal anffurfiol yn unig a 79% o'r rhai sy'n cael cyfuniad o ofal y tu allan i'r ysgol a gofal anffurfiol). Mae hyn yn adlewyrchu nifer isel yr oriau cyfartalog o ofal y tu allan i'r ysgol a ddefnyddir mewn wythnos (gweler Tabl C3.2 yn Atodiad C), gan fod cwpl o oriau o ofal yr wythnos yn annhebygol o wneud cyfraniad pwysig o ran helpu rhieni i weithio. Y plant hynny sy'n cael cyfuniad o ofal y tu allan i'r ysgol a gofal anffurfiol oedd y mwyaf tebygol o fod yn derbyn gofal plant am resymau economaidd, ac mae hyn yn awgrymu y gall fod angen pecyn gofal o hyd i ddarparu ar gyfer oriau gwaith rhieni, hyd yn oed wedi i blant ddechrau mynd i'r ysgol yn amser llawn.

Fel y gwelwyd gyda phlant cyn ysgol (gweler Tabl 3.9 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant cyn ysgol, yn ôl y pecyn gofal), y plant oedran ysgol hynny a oedd yn cael gofal anffurfiol yn unig oedd y lleiaf tebygol o fod yn derbyn gofal am resymau sy'n ymwneud â'r plentyn (44%, o gymharu â 79% o'r rhai sy'n cael gofal y tu allan i'r ysgol yn unig a 75% o'r rhai sy'n cael cyfuniad o ofal y tu allan i'r ysgol a gofal anffurfiol) (gweler Tabl 3.10 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl y pecyn gofal). Gellir gweld patrwm tebyg os edrychwn ar y gwahanol resymau pam mae plant sy'n cael cyfuniad o ofal yn mynd at eu darparwr y tu allan i'r ysgol o gymharu â'u gofalwr anffurfiol. Dim ond 28% o blant sy'n cael cyfuniad o ofal oedd yn mynd at eu gofalwr anffurfiol am resymau sy'n ymwneud â'r plentyn, o gymharu â 67% a

³² Byddwn yn edrych yn fanylach ar resymau rhieni dros ddewis un math o ddarparwr yn hytrach nag un arall ym Mhennod 6.

oedd yn mynd at eu darparwr y tu allan i'r ysgol am resymau'n ymwneud â'r plentyn.

Roedd plant sy'n cael gofal y tu allan i'r ysgol yn unig yn llai tebygol na phlant yn y grwpiau eraill o fod yn mynd at ddarparwr am resymau'n ymwneud ag amser y rhieni (6% o gymharu â 15% o'r rhai sy'n cael gofal anffurfiol yn unig a 21% o'r rhai sy'n cael cyfuniad o ofal y tu allan i'r ysgol a gofal anffurfiol). Yn unol â hyn, roedd y plant sy'n cael cyfuniad o ofal yn llai tebygol o fod yn derbyn eu gofal y tu allan i'r ysgol am resymau'n ymwneud ag amser y rhieni (5%) na'u gofal anffurfiol (19%).

Tabl 3.10 Rhesymau dros ddefnyddio darparwyr gofal plant i blant oedran ysgol, yn ôl y pecyn gofal

Sail: Yr holl blant oedran ysgol a dderbyniodd ofal plant

	Pecyn gofal		Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol ac Anffurfiol		
	Ffurfiol: Y tu allan i'r ysgol yn unig	Anffurfiol yn unig	Cyfanswm	Y tu allan i'r ysgol	Anffurfiol
Rhesymau dros ei ddefnyddio	%	%	%	%	%
Economaidd	26	58	79	39	72
Ymwneud â'r plentyn	79	44	75	67	28
Amser y rhieni	6	15	21	5	19
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	99	110	84	84	84
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	126	126	102	102	102

Roedd plant cyn ysgol sydd mewn gofal plant am resymau economaidd yn mynd at fwy o ddarparwyr na'r rhai sy'n cael gofal plant am resymau'n ymwneud â'r plentyn neu amser y rhieni. Er enghraifft, roedd 66% yn mynd at ddau neu fwy o ddarparwyr o gymharu â 55% o'r rhai sy'n defnyddio gofal plant am resymau'n ymwneud â datblygiad/mwynhad y plentyn neu amser y rhieni (gweler Tabl C3.7 yn Atodiad C). Mae hyn eto'n dangos y gall fod angen pecyn cymharol gymhleth o ofal plant er mwyn ymdopi ag oriau gwaith rhieni. Nid oedd gwahaniaethau ymysg plant oedran ysgol a oedd yn derbyn gofal am wahanol resymau, o ran nifer y darparwyr (gweler Tabl C3.8 yn Atodiad C).

Roedd plant cyn ysgol sy'n mynychu gofal plant am resymau economaidd yn treulio mwy o amser yno na'r rhai sy'n mynychu am resymau'n ymwneud â'r plentyn (gweler Tabl C3.9 yn Atodlen C). Roedd eu horiau wythnosol yn 32.0 ar gyfartaledd o gymharu â 27.9, ac roedd eu horiau dyddiol yn 7.3 ar gyfartaledd o gymharu â 5.9. Unwaith eto, mae hyn yn atgyfnerthu'r darlun o rieni sy'n gweithio'n defnyddio swm cymharol fawr o ofal plant. Nid oedd gwahaniaethau ymysg plant cyn ysgol a oedd yn derbyn gofal am wahanol resymau, o ran nifer y dyddiau'r wythnos.

Roedd plant oedran ysgol sy'n derbyn gofal plant gan ddarparwr a ddefnyddir am resymau economaidd yn tueddu i fynychu ar fwy o ddyddiau mewn wythnos na'r rhai sy'n derbyn gofal am resymau'n ymwneud â'r plentyn (gweler Tabl C3.10 yn Atodlen C). Er enghraifft, dim ond 7% a oedd yn mynychu am un diwrnod yn yr wythnos, o gymharu â 21% o'r rhai sy'n mynychu am resymau'n ymwneud â'r plentyn. Ar y llaw arall, roedd 30% o'r plant oedran ysgol sy'n mynd at ddarparwyr am resymau economaidd yn mynd ar bum diwrnod mewn wythnos, o gymharu â 15% o'r rhai sy'n mynychu am resymau'n ymwneud â'r plentyn. Nid oedd gwahaniaethau ymysg plant oedran ysgol a oedd yn derbyn gofal am wahanol resymau, o ran nifer yr oriau o ofal plant a dderbynnir.

3.6 Crynodeb

Roedd y bennod hon yn edrych ar sut y bydd rhieni'n defnyddio gofal plant i blant cyn ysgol ac i blant oedran ysgol yn ystod tymor yr ysgol.

Roedd 74% o blant cyn ysgol (0-4 oed) a 65% o blant oedran ysgol (5-14 oed) yn derbyn rhyw fath o ofal plant. Ymysg plant cyn ysgol, y tri phhecyn gofal plant mwyaf cyffredin oedd gofal plant mewn canolfan yn unig (27%); cyfuniad o ofal plant mewn canolfan a gofal anffurfiol (23%); a gofal anffurfiol yn unig (13%). Ymysg plant oedran ysgol, y tri phhecyn mwyaf cyffredin oedd gofal anffurfiol yn unig (17%); gofal plant ffurfiol y tu allan i'r ysgol yn unig (h.y. clwb brecwast neu ar ôl ysgol, 15%); a chyfuniad o'r ddau (13%). Dim ond canrannau bach o blant a oedd yn cael unrhyw becyn gofal arall.

Roedd plant 3-4 oed yn llawer mwy tebygol na phlant 0-2 oed o fod yn mynychu gofal plant mewn canolfan, sy'n adlewyrchu'r niferoedd uchel ymysg y grŵp oedran hwn sy'n defnyddio addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar am ddim (roedd 35% yn mynychu gofal plant mewn canolfan yn unig o gymharu â 21% o blant 0-2 flwydd oed, a 33% yn mynychu cyfuniad o ofal mewn canolfan a gofal anffurfiol, o gymharu â 15% o blant 0-2 flwydd oed). Ar y llaw arall, roedd plant 0-2 flwydd oed yn llawer mwy tebygol o dderbyn gofal gan ddarparwyr anffurfiol yn unig (22% o gymharu â 2% o blant 3-4 blwydd oed).

Roedd plant 8-11 oed yn llawer mwy tebygol na phlant hŷn ac iau o oedran ysgol o fynychu gofal y tu allan i'r ysgol yn unig (22% o gymharu â 13% a 9%). Y prif wahaniaeth arall rhwng plant oedran ysgol o wahanol oedrannau yw bod plant 5-7 mlwydd oed yn defnyddio amrywiaeth ehangach o becynnau gofal plant na phlant hŷn o oedran ysgol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai plant 5-7 mlwydd oed yn defnyddio gofal mewn canolfannau (er enghraifft, mae rhai plant 5 oed yn mynychu dosbarth derbyn) a bod mwy o blant yn y grŵp oedran hwn yn derbyn gofal gan unigolion ffurfiol, h.y. gan warchodwyr plant.

Roedd ychydig llai na hanner y plant cyn ysgol (49%) a'r plant oedran ysgol (47%) sy'n derbyn gofal plant yn mynd at un darparwr yn unig. Roedd plant cyn ysgol 3-4 blwydd oed yn fwy tebygol o fynd at ddau neu fwy o ddarparwyr na phlant 0-2 flwydd oed (65% o gymharu â 36%), ond nid oedd gwahaniaethau rhwng y grwpiau oedran ymysg plant oedran ysgol. Roedd 26% o blant cyn ysgol sy'n cael cyfuniad o ofal mewn canolfan a gofal anffurfiol, a 44% o'r plant oedran ysgol sy'n cael cyfuniad o ofal y tu allan i'r ysgol a gofal anffurfiol yn mynd at dri neu fwy o ddarparwyr. I'r teuluoedd hyn, gall fod yn fater cymhleth adeiladu a chynnal pecyn gofal, ac mae'n debygol bod y plant hyn yn profi amrywiaeth o wahanol amgylcheddau gofal.

Roedd plant cyn ysgol sy'n mynychu gofal plant yn treulio 27.9 awr yno mewn wythnos ar gyfartaledd. Treuliodd plant 3-4 oed fwy o oriau yr wythnos mewn gofal plant na rhai 0-2 oed (31.3 awr ar gyfartaledd, o gymharu â 20.8). Roeddent hefyd yn tueddu i fod mewn gofal plant ar fwy o ddyddiau mewn wythnos; mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar am ddim fel rheol yn cael ei darparu ar draws sawl diwrnod yn yr wythnos. Roedd plant oedran ysgol, ar gyfartaledd, yn treulio 2.0 awr y diwrnod a 5.3 awr yr wythnos mewn gofal plant y tu allan i oriau'r ysgol.

Roedd 59% o blant cyn ysgol a oedd yn mynd i ofal plant yn gwneud hynny am resymau economaidd (e.e. i alluogi rhieni i weithio, chwilio am waith neu astudio); 72% am resymau'n ymwneud â'r plentyn (e.e. datblygiad addysgol neu gymdeithasol, neu am fod y plentyn yn mwynhau mynd yno); a 25% am resymau'n ymwneud ag amser y rhieni (e.e. fel y gallai rhieni wneud gweithgareddau domestig, cymdeithasu neu ofalu am blant eraill). Roedd plant hŷn cyn ysgol yn fwy tebygol na'r rhai iau o fynd at ddarparwr gofal plant am resymau'n ymwneud â'r plentyn (91% o gymharu â 51%). Mae'n debygol mai'r rheswm am hyn yw fod llawer o'r plant hyn yn cael addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar am ddim, a bod rhai plant 4 blwydd oed mewn dosbarth derbyn.

Roedd 50% o blant oedran ysgol yn mynychu gofal plant am resymau economaidd; 70% am resymau'n ymwneud â'r plentyn; ac 16% am resymau'n ymwneud ag amser y rhieni. Roedd y rhai 5-7 oed yn fwy tebygol na'r rhai hŷn o fod yn mynychu am resymau'n ymwneud ag amser y rhieni (23% o gymharu â 12% o blant 8-11 mlwydd oed a 15% o blant 12-14 mlwydd oed).

Ar draws plant cyn ysgol a phlant oedran ysgol, y rhai sy'n cael cyfuniad o ofal oedd y mwyaf tebygol o fod yn mynd at ddarparwr am resymau economaidd, sy'n dangos y gall fod angen pecyn gofal i ymdopi ag oriau gwaith rhieni. Roedd rhai canfyddiadau hefyd yn awgrymu bod plant sy'n mynychu am resymau economaidd yn defnyddio mwy o ofal plant. Hefyd, ar draws pob grŵp oedran, defnyddiwyd gofal plant anffurfiol yn llai aml na gofal plant mewn canolfannau a thu allan i'r ysgol ar gyfer datblygiad a mwynhad y plant.

4 Talu am ofal plant

4.1 Cyflwyniad

Un o themâu allweddol polisiâu gofal plant diweddar (e.e. Strategaeth Plant Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005) fu sicrhau bod pob teulu'n gallu cael y gofal plant sydd ei angen arnynt, am bris y gallant ei fforddio,. Dros y degawd diwethaf, ceisiwyd sicrhau gofal plant fforddiadwy i bawb yn bennaf drwy gymysgedd o gymorthdaliadau ar ochrau'r galw a'r cyflenwad:

- Llwyddwyd i gynyddu cyfranogiad mewn addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar, gan fwyaf, trwy ddarparu lleoedd am ddim i bob plentyn 3 a 4 blwydd oed, yn ogystal â'r plant 2 flwydd oed mwyaf difreintiedig, drwy'r cynllun Dechrau'n Deg – dau fesur ar ochr y cyflenwad lle mae'r Llywodraeth yn talu'r darparwyr yn uniongyrchol;
- Rhoddwyd sylw i wneud gofal plant yn fwy fforddiadwy, yn enwedig i rieni sy'n gweithio, yn bennaf trwy amrywiaeth o daliadau i rieni'n seiliedig ar brawf modd, megis elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith, ac eithriadau treth ar gyfer gofal plant a gefnogir gan gyflogwyr. Bwriad y cymorthdaliadau hyn ar ochr y galw oedd cynyddu pŵer prynu rhieni a allai, fel arall, fod mewn sefyllfa lle na allant fforddio pris gofal plant ar y farchnad, yn ogystal â galluogi rhieni i ddewis a dethol y gwasanaethau sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

I ddilyn y drafodaeth am y niferoedd sy'n defnyddio'r lleoedd am ddim ym Mhennod 2, mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar ba mor fforddiadwy yw gofal plant. Mae'n dechrau trwy ddisgrifio: faint o deuluoedd a dalodd am eu gofal plant, faint yr oeddent yn ei dalu amdano a faint yr oeddent yn ei dalu am yr holl ofal a dderbyniwyd ganddynt dros yr wythnos gyfeirio, fel cyfanswm a fesul awr (adran 5.2). Yna, mae'n edrych ar y cymorth ariannol a gafodd teuluoedd gan eraill (adran 5.3), a thrwy Gredydau Treth (adran 5.4). Mae'r bennod yn diweddu â disgrifiad byr o'r hyn a ddywedodd rhieni a oedd yn talu am ofal plant am ba mor fforddiadwy yw eu trefniadau gofal plant hwy (adran 5.5).

Pan yn bosibl, gwneir cymariaethau ag arolwg blaenorol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru a gynhaliwyd yn 2004. Fodd bynnag, mewn sawl maes, yn enwedig manylion am daliadau gofal plant teuluoedd, mae cynllun yr holiadur wedi'i addasu'n sylweddol rhwng 2004 a 2009. Roedd y newidiadau'n ei gwneud yn haws i rieni ateb yr arolwg ac felly'n gwella ansawdd yr wybodaeth a gasglwyd. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r newidiadau hyn i'r holiadur, nid oes modd cymharu rhai canfyddiadau â rhai'r gorffennol.

4.2 Taliadau teuluoedd am ofal plant

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar faint yr oedd teuluoedd yn ei dalu am y gofal plant a ddefnyddiwyd ganddynt yn yr wythnos gyfeirio. Am bob darparwr a ddefnyddiwyd, gofynnwyd i rieni a oeddent hwy, eu partner neu unrhyw un arall yn yr aelwyd, wedi talu unrhyw beth i'r darparwr hwnnw am amrywiaeth o wasanaethau, lluniaeth a/neu weithgareddau. Dim ond arian a dalwyd gan aelodau'r teulu eu hunain oedd yn cael ei gynnwys: dywedwyd wrth atebwyr na ddylent gynnwys arian a dalwyd gan sefydliadau eraill, cyflogwyr, Awdurdodau Lleol na'r llywodraeth.

Faint o deuluoedd a dalodd am ofal plant ac am beth yr oeddent yn talu?

Yng Nghymru yn 2009, dywedodd 53% o'r teuluoedd a ddefnyddiodd ofal plant yn yr wythnos gyfeirio eu bod wedi talu am y gofal hwnnw i gyd neu am rywffaint ohono (gweler Tabl 4.1 Taliadau teuluoedd am ofal plant, yn ôl y math o ofal plant).

Roedd teuluoedd yn llawer mwy tebygol o dalu darparwyr ffurfiol na darparwyr anffurfiol: roedd 58% o deuluoedd a oedd yn defnyddio darparwyr ffurfiol wedi talu am ofal gan y darparwyr hyn o gymharu â dim ond 4% o deuluoedd a oedd yn defnyddio darparwyr anffurfiol (Tabl 4.1 Taliadau teuluoedd am ofal plant, yn ôl y math o ofal plant). Roedd yr hyn y talodd rhieni amdano, os o gwbl, i ddarparwyr ffurfiol, yn amrywio gan ddibynnu ar y math o ofal plant. Teuluoedd sy'n defnyddio gofal mewn canolfannau neu ddarparwyr unigol³³ oedd y mwyaf tebygol o dalu am eu gofal plant. Roedd y mathau o ddarparwyr a ddefnyddir yn fwy cyffredin gan blant oedran ysgol yn llai tebygol o fod yn cael eu talu: roedd llai na hanner (43%) o deuluoedd a oedd yn defnyddio gofal y tu allan i'r ysgol yn talu am y gofal, a dim ond 23% o deuluoedd a oedd yn defnyddio darparwyr hamdden/eraill (Tabl 4.1

Taliadau teuluoedd am ofal plant, yn ôl y math o ofal plant). Y rheswm am hyn o bosibl yw bod nifer o glybiau chwaraeon, celfyddydau neu gerddoriaeth a gynhelir gan yr ysgol (er enghraifft drwy Ysgolion Bro) yn cael eu darparu am ddim.

Tabl 4.1 Taliadau teuluoedd am ofal plant, yn ôl y math o ofal plant

Sail: Teuluoedd sy'n defnyddio'r math o ofal plant yn yr wythnos gyfeirio

	Teulu wedi talu darparwr %	Sail wedi'i phwysoli	Sail heb ei phwysoli
Sut y defnyddir gofal plant			
Unrhyw ddarparwr gofal plant	53	471	475
Darparwr ffurfiol gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar	58	359	383
Mewn Canolfan	80	148	156
Unigol	[92]	31	35
Y tu allan i'r ysgol	43	190	214
Darparwr gofal plant anffurfiol	4	252	247
Hamdden/arall	23	268	271


DS: Canrannau rhes

Mae Ffigur 4.1 Yr hyn yr oedd teuluoedd yn talu amdano i ddarparwyr yn dangos y mathau o bethau yr oedd teuluoedd yn talu amdanynt. Ar y cyfan, roedd teuluoedd a oedd yn talu darparwyr yn talu'n bennaf am ffioedd gofal plant/cyflogau (50%), yna am luniaeth (37%) ac addysg (29%). Roedd 10% o'r teuluoedd yn talu am ddefnyddio cyfarpar, ac roedd 7% yn talu am dripiâu/teithiau a 3% am gostau teithio.

³³ Mae gofal mewn canolfan yn cynnwys ysgol feithrin; dosbarth meithrin; dosbarth derbyn; meithrinfa ddydd; cylch chwarae; ysgol arbennig neu ddarparwr addysg feithrin arall. Darparwyr unigol yw gwarchodwyr plant (yn nhŷ'r gwarchodwr neu yn nhŷ'r teulu), nanis ac 'au pairs' (gweler Pennod 3, adran 3.1).

Ffigur 4.1 Yr hyn yr oedd teuluoedd yn talu amdano i ddarparwyr

Sail: Teuluoedd a dalodd am ofal plant yn yr wythnos gyfeirio



Ffynhonnell: Tabl C4.1 yn Atodiad C

Faint yr oedd teuluoedd yn ei dalu yr wythnos?

Gofynnwyd cwestiynau manwl i deuluoedd a oedd wedi talu am ofal plant am y symiau yr oeddent wedi'u talu i bob darparwr a ddefnyddiwyd ganddynt. Roedd y cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar y swm a dalwyd gan deuluoedd eu hunain, heb gynnwys cymorth ariannol gan sefydliadau/unigolion eraill.

Mae angen egluro sawl agwedd ar y data:

- Gan mai'r symiau a dalodd teuluoedd 'o'u pocedi eu hunain' yw'r rhai a nodir yn yr adroddiad, mae'n debygol y byddant yn cynnwys arian a dderbyniwyd (ac a dalwyd allan eto) ar ffurf credydau treth, ond mae'n debygol na fyddant yn cynnwys taliadau a wnaethpwyd yn uniongyrchol gan ffynonellau/sefydliadau eraill i ddarparwyr megis yr hawl i gael addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar am ddim. Felly, mae'r amcangyfrifon yn adlewyrchu'r gost i deuluoedd, nid cyfanswm cost gofal plant, ac felly gallent fod yn is na'r cyfanswm a godir gan y darparwr;
- Nid oedd yr holiadur yn nodi'n benodol sut y dylai teuluoedd drin cymorth ariannol gan gyflogwyr (e.e. talebau gofal plant), felly nid oes modd dweud a oedd rhieni'n cynnwys y rhain ai peidio yn y symiau a nodwyd ganddynt. Fodd bynnag, mae'n debygol bod y ffigurau a roddwyd yn cynnwys gwerth y cymorth a gânt gan eu cyflogwr;
- Mae'r amcangyfrifon yma'n seiliedig ar y symiau y dywedodd teuluoedd eu bod yn eu talu am y gofal plant a ddefnyddiwyd ganddynt, ar gyfer eu holl blant, yn yr wythnos gyfeirio. Felly, maent yn cynrychioli cyfartaledd cyffredinol, ac nid ydynt yn ystyried nifer yr oriau a ddefnyddiwyd na nifer y plant. O ran y teuluoedd a ddywedodd eu bod wedi talu am ofal yn yr wythnos gyfeirio ond a ddywedodd nad oedd y cyfanswm a roddwyd yn 'arferol', y gost a gynhwyswyd yn y dadansoddiad oedd 'cost arferol' teuluoedd gan yr ystyriwyd mai dyma'r ffigur mwyaf dibynadwy.

Ar y cyfan, canolrif y swm a dalwyd gan deuluoedd oedd £16 yr wythnos (gweler Tabl 4.2 Taliadau wythnosol am ofal plant, yn ôl y math o ofal plant), sef ffigur tebyg i'r canolrif heb gymorthdaliadau a nodwyd yn 2004 (£14). Roedd cymedr y taliad wythnosol yn llawer uwch (£38), ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai

teuluoedd yn talu swm mawr iawn am ofal plant (gan fod gwerthoedd ar eithafion yr amrediad yn effeithio mwy ar y cymedr nag ar y canolrif). Roedd y costau cyfartalog hyn i Gymru'n is na chost gyfartalog Lloegr, ble roedd canolrif taliadau teuluoedd yn £21.

Wrth gwrs, ceir gwahaniaethau mawr rhwng y symiau canolrif a dalwyd i wahanol fathau o ddarparwyr. Canolrif y taliad a wnaethpwyd gan deuluoedd i ddarparwyr mewn canolfannau oedd £23 yr wythnos³⁴. Roedd hyn yn llawer uwch na chost clybiau y tu allan i'r ysgol (£6) a gweithgareddau hamdden (£10). Ymddengys mai darparwyr unigol (nanis/'au pairs' a gwarchodwyr plant) sy'n cael y taliad uchaf yr wythnos, ond mae sampl Cymru'n rhy fach i ni allu bod yn hyderus ynglŷn â'r ffigurau hyn. Fodd bynnag, roedd arolwg Lloegr yn ategu'r canfyddiad hwn, gan roi ffigur canolrif o £55 yr wythnos i warchodwyr plant a £180 yr wythnos i nanis/'au pairs' (Smith et al 2010). Defnyddir mwy o ddarparwyr mewn canolfan a darparwyr unigol ar gyfer plant cyn ysgol, gan gynnwys plant 0-2 flwydd oed nad ydynt, gan fwyaf, yn gymwys i gael addysg blynyddoedd cynnar am ddim. Mae nifer o'r darparwyr hyn hefyd yn cynnig gofal am y diwrnod cyfan sy'n golygu y gall rhieni fod yn talu am nifer fwy o oriau i blant cyn ysgol o gymharu â'r llai o oriau sydd eu hangen ar gyfer plant oedran ysgol³⁵.

Tabl 4.2 Taliadau wythnosol am ofal plant, yn ôl y math o ofal plant

Sail: Teuluoedd sy'n talu am y math o ofal plant

Sut y defnyddir gofal plant	Canolrif £	Cymedr £	Gwall Safonol	Sail	
				wedi'i phwysoli	Sail heb ei i phwysoli
Unrhyw ddarparwr gofal plant	16	38	2.29	249	269
Darparwr ffurfiol gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar					
Mewn Canolfan	23	47	6.99	119	121
Unigol	[50]	[62]	[13.96]	28	33
Y tu allan i'r ysgol	6	12	6.38	82	91
Hamdden/arall	10	22	3.90	61	77

I ddadansoddi'r gwahaniaethau rhwng costau gwahanol fathau o ofal plant, gallwn edrych ar y symiau yr oedd rhieni'n eu talu fesul awr³⁶. Mae'r canfyddiadau yn

³⁴ Dyma'r swm a dalwyd gan y rhieni 'o'u poced eu hunain' ac felly nid yw'n cynnwys gwerth yr 'oriau am ddim' y talodd yr Awdurdod Lleol amdanynt.

³⁵ Mae trafodaeth lawn am y gwahaniaethau yn ôl y math o ddarparwr i'w chael yn adroddiad Lloegr (Smith et al. 2010). Roedd y seiliau'n rhy fach i roi adroddiad ar wahân i Gymru.

³⁶ Cyfrifwyd taliad cyfartalog teuluoedd fesul awr drwy rannu cyfanswm y gost a dalwyd gan y teulu i'r math o ddarparwr (ar draws pob awr o ofal i bob plentyn, heb gynnwys cymorthdaliadau) â chyfanswm yr oriau a ddefnyddiodd y teulu gyda'r math hwnnw o ddarparwr (gall hyn gynnwys oriau 'am ddim' y telir amdanynt gan yr Awdurdod Lleol, neu gymorthdaliadau eraill). Felly, gall taliad cyfartalog y teulu fesul awr fod yn wahanol i gost wirioneddol y gofal plant fesul awr, yn enwedig gan y byddai unrhyw oriau 'am ddim' y telir amdanynt gan yr Awdurdod Lleol, neu

Tabl 4.3 Symiau a dalwyd gan deuluoedd fesul awr, yn ôl y math o ofal plant yn cadarnhau'r dadansoddiad a gyflwynir uchod: ar ôl ystyried nifer yr oriau y talwyd amdanynt, ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng costau fesul awr gofal mewn canolfan (£2.20 yr awr), gofal y tu allan i'r ysgol (£2.00) a gweithgareddau hamdden/gofal plant arall (£2.58). O gymharu â'r taliadau wythnosol a ddangosir yn Tabl 4.2 Taliadau wythnosol am ofal plant, yn ôl y math o ofal plant, mae'r gwahaniaeth cymharol rhwng taliadau fesul awr am ofal mewn canolfannau a gofal y tu allan i'r ysgol wedi lleihau gan fod gofal mewn canolfannau i blant cyn ysgol yn cael ei ddefnyddio am fwy o oriau mewn wythnos na chlybiau y tu allan i'r ysgol (gweler Pennod 3)³⁷.

Tabl 4.3 Symiau a dalwyd gan deuluoedd fesul awr, yn ôl y math o ofal plant

Sail: Teuluoedd sy'n talu am y math o ofal plant

Sut y defnyddir gofal plant	Canolri	Cymed	Gwall	Sail	Sail heb
	f	r	Safono	wedi'i	ei
	£	£	l	phwysol	phwysoli
Darparwr ffurfiol gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar					
Mewn Canolfan	2.20	2.58	2.21	118	120
Unigol	[4.00]	[5.02]	[0.53]	[28]	[33]
Y tu allan i'r ysgol	2.00	2.88	0.28	82	91
Hamdden/arall	2.58	4.38	0.41	58	74

A oedd taliadau am ofal plant yn amrywio yn ôl incwm teuluoedd?

Roedd teuluoedd ag incwm islaw 60% o'r canolrif yn llawer llai tebygol o ddefnyddio gofal plant ffurfiol neu dalu am ofal plant (37% o gymharu â 61%, tabl heb ei ddangos). Ymysg y rhai a oedd yn talu, roedd gwahaniaethau ym maint y taliadau hefyd: mae Tabl 4.4 Taliadau wythnosol am ofal plant, yn ôl incwm yn canolbwyntio ar deuluoedd sy'n talu am ofal³⁸. Mae hwn yn dangos mai canolrif taliad wythnosol teuluoedd ag incwm islaw 60% o'r canolrif oedd £5 yr wythnos yn unig, o gymharu â £25 i deuluoedd ag incwm uwch. Mae'n bosibl bod y gwahaniaeth hwn yn deillio o'r ffaith y ceir nifer o wahanol batrymau defnydd gofal plant. Yn gyntaf, efallai bod teuluoedd ag incwm uwch yn fwy tebygol o ddefnyddio darparwyr mwy costus (er enghraifft, roedd teuluoedd ag incwm uwch yn fwy tebygol o ddefnyddio meithrinfeydd dydd, y math o ddarparwr y gwyddys ei fod yn codi mwy fesul wythnos a fesul awr na nifer o ddarparwyr eraill, gweler Tabl C2.4 a Smith et al. 2010). Yn ail, fel rheol, bydd teuluoedd ag incwm uwch yn talu am fwy o oriau na theuluoedd ag incwm is (tabl heb ei ddangos). Yn olaf, o ganlyniad,

gymorthdaliadau eraill, yn cael eu cynnwys (h.y. yn yr enwadur) ond ni fyddent yn cael eu cynnwys yn y gost a delir gan rieni (h.y. yn y rhifiadur).

³⁷ Eto, ymddengys mai darparwyr unigol sy'n cael y taliad uchaf, ond mae maint y sail yn rhy fach i allu bod yn hyderus ynglŷn â'r ffigurau. Roedd arolwg Lloegr yn nodi taliad o £6 yr awr i nanis/au pairs' a £4 yr awr i warchodwyr plant yn eu tai eu hunain. Roedd gwarchodwyr plant a oedd yn dod i gartref y teulu fel rheol yn cael £3 yr awr (Smith et al 2010)

³⁸ Bydd y mwyafrif llethol o'r rhain yn talu am ddarparwyr ffurfiol, gan mai dim ond 4% o deuluoedd a dalodd am ofal anffurfiol.

efallai y bydd teuluoedd ag incwm uwch hefyd yn fwy tebygol o dalu am ofal plant/addysg ychwanegol yn hytrach na dim ond am eitemau ychwanegol ar ben yr oriau am ddim a geir i blant 2-4 blwydd oed neu ofal a dderbynnir yn yr ysgol.

Tabl 4.4 Taliadau wythnosol am ofal plant, yn ôl incwm

Sail: Teuluoedd sy'n talu am ofal plant


Incwm	Canolrif	Cymedr	Gwall Safonol	Sail wedi'i phwyso li	Sail heb ei phwysoli
	£	£			
Uwchlaw 60% o'r canolrif	25	45	4.94	197	199
Islaw 60% o'r canolrif	5	18	5.80	55	61

Faint o deuluoedd a oedd yn gwneud taliadau ar wahân i arian?

Gwelsom yn Tabl 4.1 Taliadau teuluoedd am ofal plant, yn ôl y math o ofal plant mai dim ond 4% o deuluoedd a oedd yn defnyddio ddarparwyr anffurfiol ac wedi talu'r gofalu hyn am eu cymorth â gofal plant. Fodd bynnag, dywedodd 38% o rieni a oedd yn defnyddio gofal anffurfiol eu bod wedi rhoi taliad ar ffurf arall i ofalwyr anffurfiol: roedd 23% wedi rhoi anrheg neu rodd am y gofal plant, roedd 16% wedi gofalu am blant y gofalwr ac roedd 10% wedi gwneud ffafr (Ffigur 4.1 Taliadau ar wahân i arian i ddarparwyr anffurfiol).

Ffigur 4.1 Taliadau ar wahân i arian i ddarparwyr anffurfiol

Sail: Teuluoedd a ddefnyddiodd ofal anffurfiol yn yr wythnos gyfeirio



Ffynhonnell: Tabl C4.2 yn Atodiad C

Yn anffodus, nid oedd digon o achosion yng Nghymru i allu dadansoddi pa fathau o ddarparwr anffurfiol oedd y mwyaf tebygol o gael taliad ar wahân i arian. Fodd bynnag, dangosodd dadansoddiad data Lloegr fod taliad ar wahân i arian yn fwyaf cyffredin i ffrindiau/cymdogion, yna i berthnasau eraill a brodyr a chwiorydd hŷn, ac yn lleiaf cyffredin i neiniau a theidiau (Smith et al. 2010). Dangosodd data Lloegr hefyd fod anrhegion a rhoddion yn fwyaf cyffredin ymysg neiniau a theidiau a brodyr a chwiorydd hŷn, a dyma'r mathau o daliadau sy'n fwyaf cyffredin yn nata Cymru. Mae'n debygol felly fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod neiniau a theidiau'n cael eu defnyddio'n llawer amlach yng Nghymru na mathau eraill o ddarparwyr gofal anffurfiol (gweler Pennod 2).

4.3 Cymorth ariannol gyda chostau gofal plant

Faint o deuluoedd oedd yn derbyn cymorth tuag at gostau gofal plant?

Gofynnwyd i deuluoedd a oeddent yn derbyn unrhyw gymorth ariannol tuag at gostau gofal plant, gan gynnig rhestr o ffynonellau, megis: yr Awdurdod Addysg Lleol (e.e. yr oriau am ddim i blant 3 a 4 blwydd oed); cyflogwr (ar ffurf talebau gofal plant, meithrinfa yn y gweithle a/neu daliadau a wneir yn uniongyrchol i ddarparwr gofal plant); neu gyn-bartner³⁹.

Ar y cyfan, dywedodd 12% o'r teuluoedd a ddefnyddiodd ofal plant ffurfiol yn yr wythnos gyfeirio eu bod wedi cael cymorth ariannol gan un neu fwy o ffynonellau allanol. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigurau hyn oherwydd y dywedodd cyfran sylweddol o atebwyr eu bod yn defnyddio darparwyr ffurfiol, ond na wnaethpwyd taliad ganddynt hwy na chan sefydliad nac unigolyn arall. Mae hyn yn awgrymu nad yw nifer o rieni'n ystyried bod neb yn 'talu' am addysg y blynyddoedd cynnar, neu nad ydynt yn gwybod pwy sy'n ariannu'r gofal plant y byddant yn ei ddefnyddio⁴⁰.

Mae Tabl 4.5 Cymorth ariannol gan eraill, yn ôl nodweddion y teulu yn canolbwyntio'n unig ar deuluoedd a ddefnyddiodd ofal plant ffurfiol, ac mae'n dangos mai'r ffynhonnell fwyaf cyffredin o gymorth ariannol oedd yr Awdurdod Addysg Lleol (7% – y lleoedd am ddim i blant 3 a 4 blwydd oed gan fwyaf). Roedd 4% arall o deuluoedd a ddefnyddiodd ofal ffurfiol yn cael cymorth gan eu cyflogwyr. Dim ond teuluoedd sy'n gweithio ac sy'n derbyn incwm dros 60% o'r canolrif a gafodd gymorth gan eu cyflogwyr. Nid yw'r gwahaniaeth ymddangosiadol yng nghyfran y teuluoedd sy'n cael cymorth gan bobl eraill yn ôl statws gwaith yn ystadegol arwyddocaol, er y gallai hyn fod oherwydd y nifer gymharol fach o deuluoedd nad ydynt yn gweithio.

Roedd teuluoedd â phlant cyn ysgol yn llawer mwy tebygol o dderbyn cymorth tuag at gost gofal plant na theuluoedd â phlant oedran ysgol yn unig (gweler Tabl 4.5 Cymorth ariannol gan eraill, yn ôl nodweddion y teulu). Dim ond teuluoedd â phlant cyn ysgol oedd yn cael cymorth gan yr Awdurdod Addysg Lleol, ac roeddent yn llawer mwy tebygol o gael cymorth gan gyflogwyr na theuluoedd â phlant oedran ysgol (efallai gan fod canolrif cost wythnosol gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn llawer is na chostau gofal plant i blant cyn ysgol, sy'n golygu ei bod yn llai gwerth chweil i deuluoedd dreulio amser yn trefnu talebau gofal plant ac ati).

³⁹ Gofynnwyd ar wahân ynglŷn â chymorth ariannol drwy'r system credydau treth, a thrafodir hyn yn adran 4.4.

⁴⁰ Mae'r ffaith bod y ffigurau hyn yn rhy isel yn golygu nad yw'n syniad da cyfuno cyfrannau'r teuluoedd a'r sefydliadau/unigolion eraill sy'n talu am ofal er mwyn rhoi cyfradd gyffredinol ar gyfer 'unrhyw ofal plant a ddefnyddiwyd ac y talwyd amdano'. Mae newidiadau i'r holiadur yn 2009 hefyd yn golygu nad oes modd cymharu'r cyfraddau hyn â'r ffigurau a roddwyd yn 2004.

Tabl 4.5 Cymorth ariannol gan eraill, yn ôl nodweddion y teulu*Sail: Teuluoedd sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol yn yr wythnos gyfeirio*

	Cymorth ariannol gan eraill					Sail wedi'i phwysoli	Sail heb ei phwysoli
	Dim %	AAL %	Gwasan aethau Cymdeithasol %	Cyflogwr %	Cyn-bartneriaid %		
Y cyfan	88	7	-	4	1	349	373
Statws gwaith							
Gweithio	87	7	0	5	1	294	309
Ddim yn gweithio	93	2	1	0	1	65	74
Incwm							
Uwchlaw 60% o'r canolrif	85	8	-	6	1	242	252
Islaw 60% o'r canolrif	94	3	-	0	0	107	121
Oed y plant							
Cyn ysgol yn unig	76	12	0	10	2	113	89
Cyn ysgol ac oedran ysgol	87	9	1	2	1	89	131
Oedran ysgol yn unig	97	0	0	-	-	158	163

4.4 Credydau Treth

Faint o deuluoedd a ddywedodd eu bod yn derbyn credydau treth?

Mae nifer o deuluoedd yn gymwys i gael Credyd Treth Plant a gall rhai ag incwm is fod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith hefyd⁴¹. Mae teuluoedd yn gymwys i gael Credyd Treth Plant os oes ganddynt o leiaf un plentyn ac incwm llai na £50,000 y flwyddyn. Mae teuluoedd yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith os oes ganddynt blant a bod o leiaf un partner yn gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos a'u bod ar incwm isel. Gall y teuluoedd hyn hefyd dderbyn yr elfen gofal plant os ydynt yn defnyddio darparwyr gofal plant ffurfiol (cofrestredig).

Dywedodd 73% o bob teulu a gyfwelwyd eu bod yn derbyn Credyd Treth Plant, naill ai ar ei ben ei hun (42%) neu ynghyd â Chredyd Treth Gwaith (31% - tabl heb ei ddangos)⁴². Nid yw hyn yn dangos newid ystadegol arwyddocaol o'i gymharu â 2004, pan oedd y ffigur yn 29%.

⁴¹ Mae Cyllid a Thollau EM yn amcangyfrif bod naw o bob deg teulu â phlant yn gymwys i gael credydau treth (ffynhonnell: gwefan Cyllid a Thollau EM - <http://www.hmrc.gov.uk/taxcredits/start/who-qualifies/what-are-taxcredits.htm>)

⁴² Ni fyddai'r holl deuluoedd a gyfwelwyd wedi bod yn gymwys i gael credydau treth, felly mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu cyfanswm y gyfran o'r boblogaeth gyfan o deuluoedd â phlant 0-14 oed

Mae Tabl 4.6 Credyd Treth Plant ac elfen gofal plant a dderbynnir gan deuluoedd sy'n gweithio, sy'n edrych ar deuluoedd sy'n gweithio'n unig, yn dangos bod 39% o deuluoedd ag un neu fwy o rieni'n gweithio'n cael Credyd Treth Gwaith (75% o unig rieni sy'n gweithio, 25% o deuluoedd cyplau lle mae un rhiant yn gweithio a 45% o deuluoedd cyplau lle mae'r ddau riant yn gweithio).

Tabl 4.6 Credyd Treth Plant ac elfen gofal plant a dderbynnir gan deuluoedd sy'n gweithio

Sail: Teuluoedd sy'n gweithio

	Cwpl – y ddau'n gweithio	Cwpl – un yn gweithio	Unig riant – yn gweithio	Pob teulu sy'n gweithio
Credydau treth a dderbynnir	%	%	%	%
Credyd Treth Gwaith	25	45	75	39
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	273	105	89	467
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	272	116	75	463

Gofynnwyd i deuluoedd sy'n hawlio Credyd Treth Gwaith a oeddent yn derbyn arian ychwanegol yn benodol i dalu costau gofal plant (h.y. yr elfen gofal plant). Dywedodd cyfanswm o 11% o'r holl deuluoedd a oedd yn derbyn Credyd Treth Gwaith eu bod yn cael yr elfen gofal plant (tabl heb ei ddangos)⁴³. (Nid oedd y cynnydd o 6% yn 2004 yn ystadegol arwyddocaol.) Roedd y niferoedd sy'n derbyn yr elfen gofal plant yn amrywio yn ôl y math o deulu: roedd 17% o unig rieni sy'n gweithio ac yn cael Credyd Treth Gwaith hefyd yn cael yr elfen gofal plant, o gymharu â 12% o gyplau lle mae'r ddau'n ennill incwm a 2% o gyplau lle mae un yn ennill incwm – tabl heb ei ddangos.

Faint o gredyd treth yr oedd teuluoedd yn ei dderbyn?

Roedd y rhan fwyaf o deuluoedd (91%) yn gallu dweud faint o Gredyd Treth Gwaith a/neu Gredyd Treth Plant yr oeddent yn ei dderbyn. Roedd datganiad Cyllid a Thollau EM ar gael i oddeutu traean (35%) yr ymatebwyr i'w ddarllen wrth ateb cwestiynau'r holiadur, ac arweiniodd hyn at atebion cywirach: roedd 98% o'r rhai a lwyddodd i ddod o hyd i hysbysiad yn gallu dweud faint o Gredyd Treth Gwaith a/neu Gredyd Treth Plant yr oeddent yn ei dderbyn, o gymharu ag 87% o'r rhai na wnaeth gyfeirio at hysbysiad (tabl heb ei ddangos).

Roedd y teuluoedd a oedd yn cael Credyd Treth Gwaith a Chredyd Treth Plant yn derbyn cyfartaledd o £114 yr wythnos (canolrif). Y swm cyfartalog a dderbyniwyd gan y rhai a oedd yn derbyn Credyd Treth Plant yn unig oedd £51 (canolrif).

a oedd yn derbyn credydau treth, nid y niferoedd sy'n hawlio Credydau Treth ymysg y boblogaeth gymwys.

⁴³ Nid yw'r ffigurau hyn yn adlewyrchu cyfran y rhai hynny a allai hawlio'r elfen gofal plant sy'n gwneud hynny mewn gwirionedd. I dderbyn yr elfen gofal plant, rhaid i deuluoedd ddefnyddio gofal plant cofrestredig neu gymeradwy, yn ogystal â bodloni'r gofynion o ran nifer yr oriau a weithir (fel rheol, dim ond i gyplau lle mae'r ddau bartner yn gweithio 16 awr neu fwy yr wythnos y mae'r elfen gofal plant ar gael) ac incwm yr aelwyd.

Faint o deuluoedd nad oeddent yn hawlio a oedd yn ymwybodol o elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith?

Gofynnwyd i deuluoedd nad oeddent yn derbyn elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith a oeddent yn ymwybodol bod y Llywodraeth yn cynnig cymorth ychwanegol gyda chostau rhai mathau penodol o ofal plant drwy'r system credydau treth. Dywedodd 66% eu bod yn ymwybodol o'r elfen gofal plant (tabl heb ei ddangos).

Pam nad oedd teuluoedd yn hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith?

Gofynnwyd i deuluoedd a oedd yn ymwybodol o'r elfen gofal plant (ond nad oeddent yn ei dderbyn eisoes) ac a oedd wedi defnyddio gofal plant yn yr wythnos flaenorol pam nad oeddent yn hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith (Tabl 4.7 Rhesymau pam nad oedd teuluoedd yn hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith):

- Dywedodd dau o bob tri (65%) o'r rhai nad oeddent yn ei hawlio nad oeddent yn gymwys i gael credydau treth, neu nad oeddent yn credu eu bod yn gymwys, yn bennaf gan nad oeddent yn defnyddio gofal plant ffurfiol (26%) neu gan eu bod yn ennill gormod o arian (21%);
- Dywedodd 25% nad oeddent yn credu ei bod yn werth hawlio credydau treth, yn bennaf gan fod eu costau gofal plant yn rhy isel (15%);
- Roedd yn ymddangos bod cymhlethdod y system credydau treth yn rhwystro 12% o bobl nad oeddent yn hawlio – dywedodd 7% nad oeddent yn deall credydau treth, dywedodd 4% y byddai'n cymryd gormod o amser i hawlio, a dywedodd 2% ei bod yn ormod o drafferth rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EM am newidiadau i'w hamgylchiadau. Dywedodd 4% nad oeddent yn hawlio erbyn hyn gan eu bod wedi cael problemau yn y gorffennol â thaliadau rhy uchel wrth hawlio credydau treth.

Tabl 4.7 Rhesymau pam nad oedd teuluoedd yn hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith

<i>Sail: Teuluoedd nad ydynt yn derbyn yr elfen gofal plant, ond a oedd yn gwybod amdani (ac a oedd wedi defnyddio gofal plant yn yr wythnos flaenorol)</i>	
Rheswm dros beidio â hawlio credydau treth	%
Ddim yn gymwys (neu'n credu nad ydynt yn gymwys) i gael credydau treth	65
Dim gofal ffurfiol/ Dewis defnyddio gofal anffurfiol	26
Ennill gormod i fod yn gymwys	21
Ymatebwr/ Partner ddim yn gweithio (felly ddim yn gymwys)	6
Ddim yn gymwys / dim hawl	5
Dim darparwyr addas yn yr ardal	4
Credu nad yw'n werth hawlio	25
Costau gofal plant yn rhy isel i'w gwneud yn werth chweil	15
Dim ond angen gofal plant yn y gwyliau, felly ddim yn werth hawlio	5
Oriau gwaith yn ei gwneud yn anodd defnyddio digon o ofal plant ffurfiol i'w gwneud yn werth chweil	2
Byddai gofal plant yn dal yn rhy ddrud hyd yn oed gyda chredydau treth	4
Gwell defnyddio mathau eraill o gymorth ariannol	1
Cymhlethdod yn rhwystr	12
Ddim yn deall credydau treth	7
Gormod o waith/ cymryd gormod o amser i hawlio	4
Wedi cael problemau â thaliadau rhy uchel yn y gorffennol wrth hawlio credydau treth	4
Gormod o drafferth rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EM am newidiadau	2
Rheswm arall	9
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	303
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	295

4.5 Anawsterau gyda chostau gofal plant


Gofynnwyd i deuluoedd a oedd wedi talu am ofal plant yn yr wythnos ddiwethaf, "O ystyried incwm eich teulu, pa mor hawdd neu anodd ydyw i chi dalu'r swm hwn bob wythnos am ofal plant?" gyda chodau atebion yn amrywio o 'hawdd iawn' i 'anodd iawn' ar raddfa â phum pwynt.

Dywedodd ychydig dros dri chwarter y teuluoedd a oedd wedi talu am ofal plant nad oedd ganddynt broblemau sylweddol o ran talu eu costau gofal plant: dywedodd 47% ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'hawdd' talu am eu gofal plant, a dywedodd 28% ei bod 'ddim yn hawdd nac yn anodd'. Dywedodd chwarter (25%) ei bod yn 'anodd' neu'n 'anodd iawn' talu eu costau gofal plant (Ffigur 4.2

Anhawster wrth dalu am ofal plant). Nid yw'r ffigurau hyn yn dangos newid arwyddocaol er 2004 (pan ddywedodd 52% ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'hawdd' talu eu costau gofal plant a 22% ei bod yn 'anodd' neu'n 'anodd iawn').

Ffigur 4.2 Anhawster wrth dalu am ofal plant

Sail: Teuluoedd a dalodd am ofal plant yn yr wythnos flaenorol



Ffynhonnell: Tabl C4.3 yn Atodiad C

4.6 Crynodeb

Mae gofyn i rieni am gostau gofal plant a chofnodi'r wybodaeth fel data arolwg yn waith cymhleth. Mae'r ymchwil flaenorol yn y gyfres Gofal Plant ac Addysg y Blynyddoedd Cynnar wedi dangos y gall y rhan fwyaf o rieni, os nad pob rhiant, siarad yn hyderus am yr arian y maent hwy eu hunain wedi'i dalu 'o'u pocedi eu hunain', ond eu bod yn aml yn llai pendant ynglŷn â manylion y cymorth ariannol a gawsant gan eraill neu drwy gredydau treth (Speight et al. 2009). Mae'r bennod hon wedi amlinellu'r wybodaeth yr oedd rhieni'n gallu ei darparu, ond mae hefyd wedi trafod arwyddocâd posibl y bylchau yn ymwybyddiaeth rhieni o'r cymorth a gânt neu sydd ar gael iddynt.

Ar y cyfan, dywedodd 53% o'r teuluoedd a ddefnyddiodd ofal plant yn yr wythnos gyfeirio eu bod wedi talu am y gofal hwnnw i gyd neu rywfaint ohono. Roedd mwy o rieni wedi talu i ddarparwyr ffurfiol na darparwyr anffurfiol, ond rhoddodd cyfran fach o deuluoedd a ddefnyddiodd berthnasau a ffrindiau ryw dâl am y gofal (4%), ac roedd taliad ar wahân i arian (e.e. gwneud ffafrau, prynu anrhegion) yn eithaf cyffredin: roedd 38% o rieni a oedd yn defnyddio gofal anffurfiol wedi gwneud rhyw fath o daliad ar wahân i arian yn yr wythnos flaenorol.

Mae canolrif y cyfanswm a dalwyd gan rieni 'o'u pocedi eu hunain' (£16)⁴⁴ yn cuddio amrywiaeth eang mewn costau rhwng teuluoedd mewn gwahanol amgylchiadau sy'n defnyddio gwahanol ddarparwyr. Roedd teuluoedd yn talu'r symiau mwyaf am ddarparwyr mewn canolfannau a darparwyr unigol, a chaiff y rhain eu defnyddio gan fwyaf ar gyfer plant cyn ysgol (plant 0-2 flwydd oed yn arbennig) ac sy'n cynnig gofal am ddiwrnod llawn (e.e. meithrinfeydd dydd). Roedd teuluoedd ag incwm islaw 60% o'r canolrif yn llai tebygol o dalu am ofal plant, ac roedd y rhai a oedd yn gwneud hynny fel rheol yn talu llai am eu gofal.

⁴⁴ Dim ond yr arian a dalwyd gan y teuluoedd eu hunain yw hwn; dywedwyd wrth yr ymatebwyr na ddylent gynnwys arian a dalwyd gan bobl neu sefydliadau eraill. Felly, y canolrif hwn yw'r gost a amcangyfrifir i deuluoedd, nid cyfanswm cost gofal plant, ac felly gall fod yn is na'r cyfanswm a godir gan y darparwr.

Roedd 12% o deuluoedd sy'n defnyddio gofal ffurfiol yn dweud eu bod wedi cael cymorth ariannol gan bobl eraill, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, eu cyflogwr neu gyn-bartner. Mae'n debygol bod hyn yn amcangyfrif rhy isel o faint y cyfraniadau gan ffynonellau eraill, gan nad yw nifer o rieni i'w gweld yn ystyried bod neb yn talu am eu lle mewn addysg y blynyddoedd cynnar. Dywedodd rhieni eu bod yn cael cymorth ariannol gan Awdurdodau Lleol gan amlaf, yna gan gyflogwyr. Roedd teuluoedd â phlant cyn ysgol yn llawer mwy tebygol o dderbyn cymorth na theuluoedd â phlant hŷn, gan yr AALI a chan gyflogwyr.

Dywedodd 73% o deuluoedd eu bod yn derbyn Credyd Treth Plant, 42% ar ei ben ei hun a 31% gyda'r Credyd Treth Gwaith. Roedd y credyd treth a dderbyniwyd ar gyfartaledd (canolrif) yn £114 yr wythnos ar gyfer y Credyd Treth Gwaith a £51 ar gyfer y Credyd Treth Plant.

Mae rhai teuluoedd, ond nid pob un, sy'n cael Credyd Treth Gwaith yn gymwys i gael credydau treth ychwanegol i helpu â chostau gofal plant: dywedodd 11 y cant o deuluoedd sy'n derbyn y Credyd Treth Gwaith eu bod yn derbyn elfen gofal plant y credyd treth. Dywedodd 66% o deuluoedd sy'n derbyn y Credyd Treth Gwaith ond nid yr elfen gofal plant eu bod yn ymwybodol o'r arian ychwanegol sydd ar gael ar gyfer gofal plant. Y rheswm mwyaf cyffredin dros beidio â hawlio'r elfennau gofal plant oedd naill ai am nad oedd teuluoedd yn gymwys (neu am nad oeddent yn credu eu bod yn gymwys), am nad oeddent yn defnyddio gofal plant priodol neu am eu bod yn ennill gormod o arian.

Ar y cyfan, dywedodd 25% o deuluoedd sy'n talu am ofal plant eu bod yn ei chael yn 'anodd' neu'n 'anodd iawn' talu eu costau gofal plant.

5 Ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau am ofal plant

5.1 Cyflwyniad

Mae Strategaeth Gofal Plant Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005) yn cydnabod, er mwyn i ofal plant fod yn hygyrch, bod angen i rieni wybod sut i ddod o hyd i ofal plant a bod â'r wybodaeth angenrheidiol i allu dewis o blith darparwyr.

Mae'r bennod hon yn dechrau trwy archwilio sut y bydd rhieni'n cael gwybodaeth am ofal plant (adran 5.2): o ble y cânt eu gwybodaeth? Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau hyn? A yw rhieni'n teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth am ofal plant yn eu hardal leol? Yn adran 5.3, trown ein sylw at y syniad sydd gan rieni am y darparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael yn lleol: a oes digon o ddarparwyr o'r fath ar gael yn eu hardal leol?

Yna, bydd gweddill y bennod yn canolbwyntio ar is-grwpiau penodol nad ydynt yn defnyddio gofal plant, gan archwilio eu rhesymau dros beidio â gwneud hynny. Mae'r is-grwpiau hyn yn cynnwys teuluoedd a chanddynt blant oedran ysgol ond nad ydynt yn defnyddio gofal cyn nac ar ôl ysgol (adran 5.4); teuluoedd nad ydynt wedi defnyddio unrhyw ofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf (adran 5.5); a theuluoedd nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer eu plant 0-2 flwydd oed (adran 5.6).

Mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddiadau yn y bennod hon yn archwilio barn a phrofiadau teuluoedd, ac eithrio'r adran olaf (y rhai nad ydynt yn defnyddio addysg y blynyddoedd cynnar) sy'n canolbwyntio ar un plentyn yn y teulu (y plentyn a ddewiswyd – gweler Pennod 1).

5.2 Cael gwybodaeth am ofal plant

Mae wedi bod yn un o amcanion allweddol strategaeth y llywodraeth i wella ansawdd gwybodaeth am ofal plant a'i gwneud yn fwy hygyrch (e.e. drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a ddarperir gan Awdurdodau Lleol a llwybrau eraill a gefnogir gan y llywodraeth) (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005).

O ble mae rhieni'n cael gwybodaeth?

Roedd cyfanswm o 68% o rieni yng Nghymru wedi defnyddio un neu fwy o ffynonellau gwybodaeth am ofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf (Tabl 5.1

Ffynonellau gwybodaeth am ofal plant a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl mathau o ofal plant a ddefnyddiwyd)⁴⁵. Roedd rhieni'n tueddu i ddibynnu ar wybodaeth sydd ar gael yn lleol, yn bennaf gan bobl / sefydliadau yr oeddent yn ymwneud â hwy'n rheolaidd wrth eu bywydau bob dydd. Roeddent yn dweud eu bod wedi cael gwybod amlaf am ofal plant drwy siarad â ffrindiau a pherthnasau (ar lafar – 43%), yna drwy wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol (23% - efallai'n gysylltiedig â'r gyfran uchel o deuluoedd a ddefnyddiodd glybiau cyn / ar ôl ysgol wedi'u lleoli ar safle'r ysgol, gweler adran 2.2).

⁴⁵ Dangoswyd rhestr i rieni o'r ffynonellau mwyaf cyffredin o wybodaeth am ofal plant, a gofynnwyd iddynt pa rai yr oeddent wedi'u defnyddio yn y flwyddyn ddiwethaf. Roeddent hefyd yn gallu defnyddio'r dewis 'arall' i ddweud a oeddent wedi cael gwybodaeth o ffynonellau nad oeddent wedi'u rhestru ar y cerdyn.

Roedd lleiafrif arwyddocaol o rieni wedi defnyddio ffynonellau llywodraeth leol neu genedlaethol: soniodd 10% o rieni am Awdurdodau Lleol ac am Ymwelwyr Iechyd Ill dau, a soniodd 8% am y Ganolfan Byd Gwaith. Soniodd 6% am Cychwyn Cadarn / Dechrau'n Deg / Canolfannau Plant Integredig. Soniodd 10% o rieni hefyd am hysbysebu lleol (e.e. hysbysebion mewn ffenestri siopau neu bapurau newydd lleol) a dywedodd 6% eu bod wedi cael gwybodaeth gan eu darparwr gofal plant (Tabl 5.1 Ffynonellau gwybodaeth am ofal plant a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl mathau o ofal plant a ddefnyddiwyd).

O gymharu â 2004, roedd rhieni'n llawer mwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio un neu fwy o ffynonellau gwybodaeth, a dangoswyd y cynnydd mwyaf gan deuluoedd yn defnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol (23%, o gymharu â 10% yn 2004, tabl heb ei ddangos), efallai oherwydd bod ysgolion yn darparu mwy o ofal y tu allan i'r ysgol.

Tabl 5.1 Ffynonellau gwybodaeth am ofal plant a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl mathau o ofal plant a ddefnyddiwyd

Sail: Yr holl deuluoedd

Ffynhonnell yr wybodaeth	Gofal plant a ddefnyddiwyd yn yr wythnos gyfeirio			
	Defnyd d-iwyd gofal ffurfiol %	Gofal plant anffurfiol (neu arall) yn unig %	Dim gofal plant wedi'i ddefnyddi o %	Y cyfan %
Ar lafar (e.e. ffrindiau neu berthnasau)				
Ysgol	50	31	33	43
	27	17	18	23
Awdurdod Lleol / GIG				
Awdurdod Lleol	12	11	5	10
Ymwelydd iechyd / clinig	11	8	7	10
Cychwyn Cadarn / Dechrau'n Deg / Canolfan Blant Integredig	6	5	5	6
Meddygfa	4	5	1	4
Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd	4	3	4	3
Ffynonellau Eraill y Llywodraeth Genedlaethol				
Swyddfa Canolfan Byd				
Gwaith/Swyddfa Budd-daliadau	6	8	12	8
Gwefan Direct Gov	4	4	6	4
ChildcareLink (llinell gymorth/gwefan genedlaethol)	1	0	1	1
Ffynonellau Lleol Eraill				
Hysbysebu lleol	10	10	9	10
Darparwr gofal plant	8	0	4	6
Llyfrgell leol	2	3	3	3
Cyflogwr	4	0	4	3
Yellow Pages	1	2	0	1
Gwefan arall	3	3	1	3
Arall	1	1	2	1
Dim	28	38	39	32
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>359</i>	<i>112</i>	<i>121</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>383</i>	<i>92</i>	<i>117</i>	<i>592</i>

Roedd y rhai a oedd wedi defnyddio darparwyr gofal plant ffurfiol yn yr wythnos gyfeirio yn fwy tebygol o fod wedi ceisio gwybodaeth na'r rhai a oedd wedi defnyddio gofal anffurfiol yn unig neu ddim gofal o gwbl (72% o gymharu â 62% a 61% – Tabl 5.1 Ffynonellau gwybodaeth am ofal plant a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl mathau o ofal plant a ddefnyddiwyd). Yn benodol, roeddent yn fwy tebygol o fod wedi cael yr wybodaeth ar lafar, o ysgol eu plentyn

neu gan eu darparwr gofal plant (Tabl 5.1 Ffynonellau gwybodaeth am ofal plant a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl mathau o ofal plant a ddefnyddiwyd).

Mae'n debygol bod gwahaniaethau eraill yn ôl nodweddion teuluol (gweler Tabl C5.1a a Tabl C5.1b yn Atodiad C) yn gysylltiedig â phatrymau defnydd gofal ffurfiol. Er enghraifft, dangosodd adran 2.4 fod teuluoedd â phlant 3-4 blwydd oed yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio gofal plant na theuluoedd â phlant hŷn. Mae'n dilyn, felly, bod rhieni â phlant cyn ysgol yn llawer mwy tebygol o fod wedi defnyddio unrhyw ffynhonnell wybodaeth ac yn fwy tebygol o fod wedi cael gwybodaeth ar lafar, gan yr Awdurdod Lleol, gan ymwelwyr iechyd, o hysbysebion lleol a chan Gychwyn Cadarn / Dechrau'n Deg / Canolfannau Plant Integredig. Roedd rhieni plant oedran ysgol yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio ysgol fel ffynhonnell wybodaeth am ofal plant, sydd i'w ddisgwyl gan y bydd rhieni plant oedran ysgol yn cael mwy o gysylltiad â'r ysgol, ac yn benodol, mae'n debygol y cânt wybodaeth am glybiau cyn ac ar ôl ysgol yn uniongyrchol gan yr ysgol (Tabl C5.1b yn Atodiad C).

Gan droi at statws gwaith ac incwm teuluoedd – mae Tabl C5.1a a Tabl C5.1b yn dangos bod teuluoedd sydd ar incwm isel iawn (llai na £10,000 y flwyddyn), ac yn enwedig unig rieni nad ydynt yn gweithio, yn fwy tebygol nag eraill o fod wedi cael gwybodaeth am ofal plant o Ganolfan Byd Gwaith (Tabl C6.1 yn Atodiad C).

A oedd y ffynonellau gwybodaeth yn ddefnyddiol?

Mae Tabl 5.2 Pa mor ddefnyddiol yw'r prif ffynonellau gwybodaeth am ofal plant yn canolbwyntio ar y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd amlaf, ac yn dangos barn rhieni am ba mor ddefnyddiol yr oeddent. Dywedodd dros 80% o'r rhieni fod gwybodaeth a gafwyd ar lafar a chan ysgolion, Awdurdodau Lleol ac ymwelwyr iechyd i gyd yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol (Tabl 5.2 Pa mor ddefnyddiol yw'r prif ffynonellau gwybodaeth am ofal plant).

Roedd pobl yn llawer llai bodlon ar y wybodaeth a gafwyd o hysbysebion lleol ac o Ganolfan Byd Gwaith. Dywedodd 68% o deuluoedd fod hysbysebion lleol yn ddefnyddiol iawn neu'n eithaf defnyddiol, ac roedd 66% o deuluoedd o'r un farn am y Ganolfan Byd Gwaith. Fodd bynnag, dywedodd 18% o deuluoedd a oedd wedi defnyddio'r Ganolfan Byd Gwaith i gael gwybodaeth am ofal plant nad oedd yn ddefnyddiol iawn neu nad oedd yn ddefnyddiol o gwbl (Tabl 5.2 Pa mor ddefnyddiol yw'r prif ffynonellau gwybodaeth am ofal plant). Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau o Loegr (Smith et al. 2010) ac mae'n destun pryder arbennig gan mai Canolfannau Byd Gwaith oedd y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd amlaf gan deuluoedd ag incwm isel.

Tabl 5.2 Pa mor ddefnyddiol yw'r prif ffynonellau gwybodaeth am ofal plant

Sail: Teuluoedd a ddefnyddiodd y ffynhonnell wybodaeth dan sylw

	Defnyddi ol iawn/eith af defnyddio %	Ddim yn ddefnyddio I nac yn annefnyddi ol %	Ddim yn ddefnyddio I iawn/o gwbl %	<i>Sail wedi'i phwys oli</i>	<i>Sail heb ei phwys li</i>
Ffynhonnell yr wybodaeth					
Ar lafar	84	12	4	255	262
Ysgol	87	8	5	136	155
Awdurdod Lleol	82	7	11	59	60
Hysbysebu lleol	68	15	16	57	60
Ymwelydd iechyd Canolfan Byd Gwaith	88 [66]	10 [16]	2 [18]	57 47	59 43

DS: Canrannau rhes

Ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a'r defnydd a wneir ohono

Ers mis Ebrill 2008, mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru a Lloegr wedi cael mwy o ddyletswydd i ddarparu amrywiaeth o wybodaeth y gallai fod ei hangen ar rieni er mwyn cynnal eu plant nes eu bod yn 20 mlwydd oed. Fel arfer, cyflawnir y ddyletswydd hon drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol⁴⁶. Ariennir Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd gan Awdurdodau Lleol ac fe'u darperir naill ai'n uniongyrchol ganddynt hwy neu gan sefydliadau eraill dan gontract (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008).


Mae Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn gweithredu fel man gwybodaeth canolog sy'n cefnogi rhieni a gofalwyr trwy ddarparu gwybodaeth am ofal plant a gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn yr ardal leol, yr hawl i gael addysg y blynyddoedd cynnar am ddim, a lleoliadau gofal plant sy'n addas i blant ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig. Maent hefyd yn sefydlu a chynnal gwasanaethau broceriaeth i rieni sy'n ei chael yn anodd cael gafael ar y gofal plant sydd ei angen arnynt; yn darparu gwybodaeth leol am wasanaethau eraill y gallai fod eu hangen ar deuluoedd; ac yn cael y dasg o gysylltu â theuluoedd difreintiedig a allai, fel arall, ei chael yn anodd canfod y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Dim ond 3% o deuluoedd a ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn y 12 mis diwethaf (Tabl 5.1 Ffynonellau gwybodaeth am ofal plant a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl mathau o

⁴⁶ Mae enw'r gwasanaeth yn amrywio mewn gwahanol ardaloedd, ac fe'i gelwir yn Wasanaeth Gwybodaeth Plant mewn rhai rhannau o Gymru. Yn yr holiadur, cyfeiriwyd at y gwasanaeth fel "Gwasanaethau Gwybodaeth Plant / Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd / Gwybodaeth Rhieni / Gwybodaeth i Rieni".

ofal plant a ddefnyddiwyd). Roedd tuag un o bob pump (21%) o'r teuluoedd wedi clywed am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, ac roedd ychydig llai na hanner y rhain (9%) wedi'i ddefnyddio *erioed* (Ffigur 5.1 Ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a'r defnydd a wneir ohono). Mae hyn yn dangos cynnydd ystadegol arwyddocaol mewn ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth, a'r defnydd a wneir ohono, o gymharu â 2004 (Tabl C5.2 yn Atodiad C).

Ffigur 5.1 Ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, a'r defnydd a wneir ohono



Ffynhonnell: Tabl C5.2 yn Atodiad C

A yw rhieni'n cael digon o wybodaeth?

Roedd oddeutu un o bob tri (33%) o'r rhieni'n teimlo eu bod wedi cael digon o wybodaeth am ofal plant yn eu hardal leol. Roedd 53% o rieni'n teimlo nad oeddent wedi cael digon o wybodaeth, a 14% arall yn ansicr. Mae hyn yn welliant o gymharu â 2004, gan fod mwy o rieni'n dweud bod ganddynt ddigon o wybodaeth a llai'n dweud nad ydynt yn siŵr neu nad ydynt yn gwybod a oes digon o wybodaeth ganddynt (Tabl 5.3 Lefelau gwybodaeth am ofal plant yn yr ardal leol, 2004-09).

Tabl 5.3 Lefelau gwybodaeth am ofal plant yn yr ardal leol, 2004-09

Sail: Yr holl deuluoedd

Lefel yr wybodaeth	Blwyddyn yr arolwg	
	2004 %	2009 %
Digon	26	33
Gormod	1	1
Rhy ychydig	49	53
Ddim yn siŵr neu ddim yn gwybod	24	14
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>561</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>561</i>	<i>592</i>

Roedd rhieni a oedd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol yn fwy tebygol o fod â barn ynglŷn â faint o wybodaeth a oedd ar gael iddynt (dim ond 11% oedd yn ansicr a oedd ganddynt ddigon o wybodaeth o gymharu â 14%-22% o'r grwpiau eraill). Roeddent hefyd yn fwy fodlon ar lefel yr wybodaeth a oedd ar gael – dywedodd 37% fod digon o wybodaeth ar gael iddynt, o gymharu â 21% o rieni a ddefnyddiodd ofal anffurfiol (neu arall) yn unig a 33% o rieni nad oeddent wedi defnyddio unrhyw ofal plant yn yr wythnos gyfeirio (Tabl C5.3 yn Atodiad C).

O ran nodweddion eraill y teulu, roedd cyfrannau'r gwahanol fathau o deuluoedd a ddywedodd eu bod yn cael digon o wybodaeth yn cyd-fynd â'r rhai sy'n fwy tebygol o ddefnyddio gofal ffurfiol (Tabl C5.3 yn Atodiad C). Fodd bynnag, yr unig berthynas ystadegol arwyddocaol oedd bod teuluoedd â phlant cyn ysgol yn fwy tebygol o feddwl bod ganddynt ddigon o wybodaeth na theuluoedd â phlant oedran ysgol yn unig.

Pa wybodaeth arall yr hoffai rhieni ei chael?

Gofynnwyd i rieni a oedd yn meddwl eu bod yn cael rhy ychydig o wybodaeth am ofal plant, a'r rhai a oedd yn ansicr, pa wybodaeth ychwanegol yr hoffent ei chael. Roedd y rhieni a oedd yn teimlo eu bod yn cael rhy ychydig o wybodaeth yn fwyaf tebygol o ddweud yr hoffent gael mwy o wybodaeth gyffredinol am ofal plant yn yr ardal leol, am gostau gofal plant ac am ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol (soniodd dros 40% am y rhain i gyd). Soniodd rhwng 23% a 34% hefyd am oriau gofal plant, ansawdd gofal plant, gofal plant i blant hŷn, gofal plant cyn neu ar ôl y diwrnod ysgol, a gofal plant i blant cyn ysgol (gweler Tabl 5.4 Yr wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen).

Roedd yr atebion gan y rheini nad oeddent yn siŵr a oedd ganddynt ddigon o wybodaeth yn dilyn patrwm tebyg, ond roeddent yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oedd angen gwybodaeth arnynt (34% o gymharu â 4%, gweler Tabl 5.4 Yr wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen).

Tabl 5.4 Yr wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen

Sail: Pob teulu â rhy ychydig o wybodaeth am ofal plant neu a oedd yn ansicr

Yr wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen	Lefel yr wybodaeth	
	Rhy ychydig %	Ddim yn siŵr %
Costau'r gofal plant sydd ar gael	49	12
Yn ystod gwyliau'r ysgol	41	10
Oriau'r gofal plant sydd ar gael	34	6
Ansawdd y gofal plant sydd ar gael	32	7
Gofal plant i blant hŷn	28	14
Cyn/ar ôl y diwrnod ysgol	25	8
Gofal plant i blant cyn ysgol	23	7
Ysgolion	11	10
Gwarchodwyr plant, nanis, 'au pairs'	11	1
Gofal plant i blant ag anghenion arbennig/anabledau	1	1
Gwybodaeth gyffredinol am ofal plant yn yr ardal leol	43	25
Gwybodaeth arall	4	1
Dim angen gwybodaeth	4	34
Dim angen gofal plant	0	3
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>306</i>	<i>72</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>294</i>	<i>74</i>

5.3 Canfyddiadau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Mae Strategaeth Gofal Plant Cymru'n cydnabod swyddogaeth allweddol darparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg o ran sicrhau cenedlaethau newydd o siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol. Mae cefnogaeth gan Lywodraeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cynnwys gwaith i ddarparu digonedd o gylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, hyfforddiant i gynorthwyo i sefydlu dwyieithrwydd yn y cwricwlwm Cyfnod Sylfaen newydd a mwy o fonitro ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005).

Ar y cyfan, dywedodd 8% o deuluoedd mai Cymraeg oedd yr iaith yr oeddent yn ei siarad amlaf yn y cartref (dywedodd 88% Saesneg ac enwodd 5% iaith arall – tabl heb ei ddangos).

Gofynnwyd i deuluoedd a oedd yn defnyddio darparwr grŵp ffurfiol (e.e. dosbarthiadau meithrin, cylchoedd chwarae, meithrinfeydd dydd a chlybiau y tu allan i'r ysgol) neu warchodwr plant pa un a oedd eu darparwr yn defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gofal plant neu addysg y blynyddoedd cynnar – ac os oedd, a oeddent yn defnyddio'r Gymraeg yn unig (neu bron yn unig) ynteu ddim ond ar adegau. Roedd cyfanswm o 22% o deuluoedd yn defnyddio darparwr a oedd yn siarad Cymraeg yn unig neu bron yn unig; roedd 46% yn defnyddio darparwr a oedd yn siarad Cymraeg ar adegau; ac roedd 49% yn defnyddio darparwr nad oedd yn defnyddio'r Gymraeg o gwbl (gweler Tabl C6.4 yn Atodiad

C)⁴⁷. Roedd teuluoedd â phlant cyn ysgol yn arbennig o debygol o ddefnyddio darparwr a oedd yn siarad Cymraeg ar adegau (61%) ac roedd teuluoedd â phlant oedran ysgol yn arbennig o debygol o ddefnyddio darparwr nad oedd yn siarad Cymraeg o gwbl (64%). Nid oedd gwahaniaeth rhwng cyfran y teuluoedd a ddefnyddiodd ddarparwr a oedd yn siarad Cymraeg yn unig yn ôl oedran y plant yn yr aelwyd.

Gofynnwyd i rieni hefyd a oedd digon o ddarparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn eu hardal leol. Y peth cyntaf i'w nodi yw mai ychydig dros hanner y rhieni oedd yn gallu ateb y cwestiwn hwn: ar gyfer y ddau fath o ddarpariaeth, dywedodd bron hanner y rhieni (47%) nad oeddent yn siŵr⁴⁸. Eto i'r ddau gwestiwn, roedd rhieni â phlant cyn ysgol yn fwy tebygol o allu rhoi ateb na rhieni â phlant oedran ysgol yn unig (gweler Tabl 5.5 Digon o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ôl oedran y plant).

Mae'r hanner a oedd yn gallu rhoi ateb yn cynnwys:

- 23% o rieni a oedd yn credu bod digon o ddarparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol, a 30% yn credu nad oedd digon;
- 25% o rieni a oedd yn credu bod digon o ddarparwyr dwyieithog, a 28% yn credu nad oedd digon (Tabl 5.5 Digon o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ôl oedran y plant).

O gymharu â rhieni â phlant oedran ysgol yn unig, roedd rhieni â phlant cyn ysgol yn fwy tebygol o allu rhoi ateb ynglŷn â faint o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg a oedd ar gael⁴⁹. Hefyd, roedd teuluoedd â phlant cyn ysgol ac oedran ysgol yn arbennig o debygol o ddweud eu bod yn credu nad oedd digon o leoedd cyfrwng Cymraeg yn eu hardal leol (Tabl 5.5 Digon o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ôl oedran y plant).

⁴⁷ Nid yw'r canrannau hyn yn adio i 100% oherwydd y defnyddiodd rhai teuluoedd fwy nag un darparwr grŵp ffurfiol neu warchodwr plant.

⁴⁸ Roedd codau ateb "ddim yn siŵr" yn ddigymell – hynny yw, nid oedd y cyfweilydd yn eu cynnig

⁴⁹ Nid oedd y gwahaniaeth ymysg darparwyr dwyieithog yn ystadegol arwyddocaol.

Tabl 5.5 Digion o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn ôl oedran y plant

Sail: Pob teulu

	Oedran y plant			
	Cyn ysgol yn unig %	Cyn ysgol ac oedran ysgol %	Oedran ysgol yn unig %	Y cyfan %
	Digion o ddarparwyr gofal plant cyfrwng Cymraeg			
Oes	32	23	20	23
Nac oes	32	40	25	30
Ddim yn siŵr	36	37	56	47
Digion o ddarparwyr dwyieithog				
Oes	29	29	23	25
Nac oes	30	32	25	28
Ddim yn siŵr	42	39	52	47
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>147</i>	<i>122</i>	<i>323</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>112</i>	<i>173</i>	<i>307</i>	<i>592</i>

5.4 Y galw am ofal plant y tu allan i oriau ysgol

Yn ystod y degawd diwethaf, cafwyd cynnydd sylweddol mewn lleoedd gofal plant yng Nghymru, gan gynnwys lleoedd y tu allan i'r ysgol (wedi'u hariannu gan y Gronfa Loteri Fawr – y Gronfa Cyfleoedd Newydd gynt) a lleoedd gofal plant cofrestredig i blant dan 8 oed. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymroddedig i gefnogi datblygiad perthynas lawer agosach rhwng ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae cysylltiadau o'r fath yn cael eu meithrin yn bennaf drwy Ysgolion Bro sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu i ddiwallu anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach (Pennod 1).

I helpu i gyfrannu at ddatblygiad y fenter hon, gofynnwyd cyfres o gwestiynau i rieni â phlant oedran ysgol a ddywedodd nad oedd gofal cyn neu ar ôl ysgol ar gael yn ysgol eu plentyn, er mwyn mesur eu galw am ofal o'r fath.

Pam nad oedd teuluoedd yn defnyddio clybiau y tu allan i'r ysgol?

Ymysg y teuluoedd â phlant 5-14 oed *nad oeddent* wedi defnyddio clwb cyn/ar ôl ysgol yn yr wythnos gyfeirio, dywedodd 21% nad oedd eu hysgol yn cynnig clybiau y tu allan i'r ysgol (tabl heb ei ddangos).

Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai nad oeddent yn defnyddio clybiau cyn/ar ôl ysgol fod yr ysgol yn cynnig darpariaeth o'r fath ar safle'r ysgol (73%) a dywedodd 3% fod yr ysgol yn cynnig clybiau yn rhywle arall. (Dywedodd 4% arall fod yr ysgol yn cynnig gweithgareddau o'r fath ond nad oeddent yn siŵr ymhle – tabl heb ei ddangos.)

Gofynnwyd i deuluoedd a ddywedodd fod clybiau y tu allan i'r ysgol ar gael yn ysgol eu plentyn, ond nad oeddent wedi'u defnyddio yn yr wythnos gyfeirio, pam nad oeddent yn defnyddio'r ddarpariaeth. Roedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â defnyddio'r ddarpariaeth honno'n ymwneud â dewis personol: y plant ddim eisiau mynd (36%), dim angen i'r ymatebwr fod oddi wrth y plant (15%) neu fod yn well ganddynt ofalu am y plant gartref (15%). Roedd yn ymddangos nad oedd cost ac amseriad y ddarpariaeth, na'r ffaith nad oedd ar gael yn gyfleus yn effeithio ar gymaint o deuluoedd: dywedodd 9% nad oeddent yn defnyddio darpariaeth y tu allan i'r ysgol oherwydd anawsterau trafndiaeth, 7% am nad oedd y gweithgareddau'n addas i oedran y plentyn, 7% am nad oedd yr amseroedd yn addas a 6% am ei fod yn rhy ddrud (Tabl 5.6 Rhesymau dros beidio â defnyddio clybiau cyn/ar ôl ysgol).

Tabl 5.6 Rhesymau dros beidio â defnyddio clybiau cyn/ar ôl ysgol

Sail: Teuluoedd â phlentyn/plant 5-14 oed a ddywedodd fod clwb cyn/ar ôl ysgol ar gael yn ysgol eu plentyn, ond nad oeddent wedi'i ddefnyddio yn yr wythnos gyfeirio

	%
Dewis y plentyn neu'r rhieni	
Plentyn/plant ddim eisiau mynd/ddim yn hoff ohono	36
Dim angen bod oddi wrth y plant	15
Dewis gofalu am y plant gartref	15
Cyfyngiadau'n ymwneud â natur y gofal	
Anawsterau trafndiaeth	9
Anaddas i oedran y plentyn	7
Amseroedd ar gael ddim yn addas i'r ymatebwr	7
Rhy ddrud/methu ei fforddio	6
Anodd cyfuno gweithgareddau â gwaith	2
Llawn/methu cael lle	1
Arall/rheswm untro	28
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>258</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>280</i>

A fyddai rhieni'n defnyddio clybiau y tu allan i'r ysgol pe baent ar gael?

Pan nad oedd darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol ar gael yn ysgol y plentyn, gofynnwyd i rieni a fyddent yn defnyddio darpariaeth o'r fath petai ar gael. Roedd rhyw awgrym y ceir galw heb ei fodloni am glybiau y tu allan i'r ysgol: dywedodd 83% o rieni â phlentyn 5-14 oed y byddent yn debygol o ddefnyddio darpariaeth o'r fath petai ar gael (48% yn debygol iawn, 36% yn debygol – tabl heb ei ddangos).

5.5 Rhesymau dros beidio â defnyddio unrhyw ofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf

Pan nad oedd rhieni wedi defnyddio gofal plant nac addysg y blynyddoedd cynnar yn y flwyddyn ddiwethaf, gofynnwyd iddynt am eu rhesymau dros hyn⁵⁰. I nifer o

⁵⁰ Ar y cyfan, dywedodd 8% o'r rhieni nad oeddent wedi defnyddio unrhyw ofal plant nac addysg feithrin ar gyfer unrhyw un o'u plant 0-14 oed yn y flwyddyn ddiwethaf

deuluoedd, ond nid pob un, roedd yn ymddangos mai mater o ddewis, ac nid cyfyngiad, oedd peidio â defnyddio gofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf. Y rheswm mwyaf cyffredin o bell dros beidio â defnyddio gofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf oedd “Byddai’n well gennyf ofalu am y plant fy hun”. Dywedodd cyfran sylweddol hefyd nad oedd angen iddynt fod oddi wrth eu plant yn aml, a/neu fod eu horiau gwaith yn cyd-fynd ag anghenion y plant. Dywedodd tuag un o bob pump nad oeddent yn defnyddio gofal plant am na allent ei fforddio, a nifer fach iawn o rieni a soniodd iddynt gael eu rhwystro gan broblemau â thrafnidiaeth, yr hyn a oedd ar gael, neu brofiadau gwael yn y gorffennol (Tabl 5.7 Rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf).

Tabl 5.7 Rhesymau dros beidio â defnyddio gofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf

Sail: Teuluoedd nad oeddent wedi defnyddio unrhyw ofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf

Rhesymau	%
Dewisiadau	
Byddai’n well gennyf ofalu am fy mhlentyn/fy mhlant fy hun	70
Anaml y mae angen i mi fod oddi wrth y plant	31
Mae fy oriau/amgylchiadau gwaith neu rai fy nghymar yn cyd-fynd ag anghenion y plant	12
Mae fy mhlentyn/fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain	5
Cyfyngiadau	
Ni allaf fforddio gofal plant	19
Mae angen gofal arbennig ar fy mhlant	3
Nid oes unrhyw ddarparwyr gofal plant y gallwn ymddiried ynddynt	3
Nid yw ansawdd y gofal plant yn ddigon da	2
Ni allaf ddod o hyd i le gofal plant gan fod y darparwyr lleol yn llawn	0
Byddai gennyf anawsterau trafndiaeth o ran mynd at ddarparwr	0
Rydw i wedi cael profiad gwael o ddefnyddio gofal plant yn y gorffennol	0
Rhesymau eraill	7
<i>Seiliau wedi’u pwysoli</i>	<i>50</i>
<i>Seiliau heb eu pwysoli</i>	<i>52</i>

I helpu i ddangos i ba raddau y caiff penderfyniadau rhieni eu llywio gan ddewis yn hytrach na chyfyngiadau, gofynnwyd i rieni nad oeddent wedi defnyddio gofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf a fyddai unrhyw ddarparwyr gofal plant anffurfiol ar gael iddynt petai eu hangen arnynt ar achlysur penodol a/neu yn rheolaidd. Dim ond 8% o’r rhieni nad oeddent wedi defnyddio dim gofal yn y flwyddyn ddiwethaf a ddywedodd nad oedd gofalwyr anffurfiol ar gael pe byddai eu hangen ar gyfer rhyw achlysur penodol. Fodd bynnag, dywedodd mwy (35%) na fyddai dim o’r gofalwyr anffurfiol a restrwyd ar gael petai angen gofal plant rheolaidd arnynt. Pan oedd gofal anffurfiol ar gael, ar gyfer achlysur penodol a gofal rheolaidd, neiniau a

theidiau, cyn-bartneriaid a pherthnasau eraill a oedd yn fwyaf tebygol o'i ddarparu. Roedd ffrindiau a chymdogion yn fwy tebygol o fod ar gael i roi gofal ar gyfer achlysur penodol (18%) na gofal plant rheolaidd (8%, gweler Tabl 5.8 Y gofal anffurfiol).

Tabl 5.8 Y gofal anffurfiol a oedd ar gael

Sail: Teuluoedd nad oeddent wedi defnyddio unrhyw ofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf

Gofal anffurfiol ar gael...	...ar gyfer achlysur penodol	...ar gyfer gofal plant rheolaidd
	%	%
Cyn-bartner	21	17
Neiniau a theidiau	48	30
Brawd neu chwaer hŷn	11	9
Perthynas arall	26	10
Ffrind / cymydog	18	8
Dim	8	35
<i>Seiliau wedi'u pwysoli</i>	<i>50</i>	<i>49</i>
<i>Seiliau heb eu pwysoli</i>	<i>52</i>	<i>51</i>

Hefyd, gofynnwyd i rieni nad oeddent wedi defnyddio dim gofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf a fyddai amrywiaeth o ffactorau'n eu hannog i ddechrau defnyddio gofal plant ffurfiol. I'r rhan fwyaf o'r rhai nad oeddent yn defnyddio unrhyw ofal, roedd yn ymddangos nad oedd dim newidiadau i ddarpariaeth gofal plant a allai newid eu meddwl gan nad oedd angen gofal plant ffurfiol arnynt (77%). I'r gweddill, y ffactor mwyaf cyffredin oedd cael gofal plant fforddiadwy (crybwyllwyd hyn gan 7% o'r rheini nad oeddent yn defnyddio unrhyw ofal plant). Soniodd llai na 5% am hyblygrwydd, yr hyn a oedd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol, gwybodaeth, ansawdd ac agosrwydd (Tabl 5.9 Newidiadau a fyddai'n ei gwneud yn haws i deuluoedd ddefnyddio gofal ffurfiol).

Tabl 5.9 Newidiadau a fyddai'n ei gwneud yn haws i deuluoedd ddefnyddio gofal ffurfiol

Sail: Teuluoedd nad oeddent wedi defnyddio unrhyw ofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf

Newid sydd ei angen i ddechrau defnyddio gofal ffurfiol	%
Gofal plant mwy fforddiadwy	7
Darparwr gofal plant yn agosach at ble'r ydw i'n byw	3
Gofal plant o well ansawdd	3
Mwy o hyblygrwydd o ran pryd mae gofal ar gael	2
Mwy o ofal plant ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol	2
Mwy o wybodaeth am y gofal plant ffurfiol sydd ar gael	1
Arall	10
Dim un o'r rhain – nid oes angen defnyddio gofal plant	77
<i>Seiliau wedi'u pwysoli</i>	<i>50</i>
<i>Seiliau heb eu pwysoli</i>	<i>52</i>

5.6 Rhesymau dros beidio â defnyddio addysg feithrin ar gyfer plant 0-2 flwydd oed

O ystyried budd posibl addysg y blynyddoedd cynnar i blant ifanc (Sylva et al. 2004; Smith et al. 2009) a'r cyfraniad y gall gofal plant ei wneud tuag at hwyluso cyflogaeth mamau, edrychwn nawr ar rieni â phlant 0-2 flwydd oed nad oeddent wedi defnyddio unrhyw addysg feithrin yn yr wythnos ddiwethaf, gan adrodd am y rhesymau pam yr oedd y rhieni hyn wedi gwneud y dewis hwnnw. Roedd cyfanswm o 61% o'r plant 0-2 flwydd oed a ddewiswyd heb ddefnyddio unrhyw addysg feithrin yn yr wythnos ddiwethaf. Roedd ychydig dros hanner (55%) y plant hyn heb ddefnyddio unrhyw ddarparwyr o gwbl yn yr wythnos ddiwethaf, roedd 38% wedi defnyddio darparwyr anffurfiol yn unig, roedd 4% wedi defnyddio darparwyr ffurfiol (megis gwarchodwyr plant) yn unig a 3% wedi defnyddio darparwyr ffurfiol ac anffurfiol (tabl heb ei ddangos).

Dewis peidio â defnyddio addysg feithrin yr oedd y rhan fwyaf o'r teuluoedd, er ei fod ar gael. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod eu plentyn yn rhy ifanc neu nodi'n uniongyrchol ei bod yn well ganddynt gadw'r plentyn gartref, naill ai o ddewis y rhiant neu am fod y plentyn wedi bod yn anhapus mewn addysg feithrin. Dim ond 10% o'r teuluoedd hyn a soniodd am eu gallu i fforddio gofal plant, a 5% a gyrybwyllodd broblemau o ran yr hyn a oedd ar gael (Tabl 5.10 Rhesymau dros beidio â defnyddio addysg feithrin ar gyfer plant 0-2 oed).

Tabl 5.10 Rhesymau dros beidio â defnyddio addysg feithrin ar gyfer plant 0-2 oed

Sail: Teuluoedd ble'r oedd y plentyn a ddewiswyd yn 0-2 oed a heb fod yn defnyddio addysg feithrin

Rhesymau	%
Plentyn yn rhy ifanc	74
Dewis personol	32
Problemau â chost	10
Yr hyn sydd ar gael – llawn neu ar restr aros	5
Rheswm arall	10
<i>Seiliau wedi'u pwysoli</i>	<i>69</i>
<i>Seiliau heb eu pwysoli</i>	<i>67</i>

5.7 Crynodeb

Os yw rhieni i wneud dewis cytbwys am ofal plant, mae angen iddynt allu cael gafael ar wybodaeth gyfredol a chywir am yr holl ofal plant sydd ar gael yn yr ardal leol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw pob rhiant yn teimlo bod gwybodaeth dda ar gael iddynt, ac efallai y bydd rhieni yn y grwpiau mwyaf difreintiedig mewn cymdeithas yn arbennig yn cael trafferth canfod y wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Dywedodd 68% o rieni eu bod wedi defnyddio un neu ragor o ffynonellau gwybodaeth am ofal plant yn y flwyddyn ddiwethaf. Ymhlith y rhai a oedd wedi defnyddio gwybodaeth, roedd y rhan fwyaf wedi dibynnu ar wybodaeth gan y bobl / sefydliadau yr oeddent yn cwrdd â nhw yn rheolaidd yn eu bywyd bob dydd, yn arbennig ar lafar gan ffrindiau / perthnasau ac, i'r rhai â phlant oedran ysgol,

gwybodaeth a ddarparwyd gan eu hysgol. Crybwyllwyd Awdurdodau Lleol ac Ymwelwyr Iechyd fel ffynhonnell gwybodaeth gan 10% o rieni, a chrybwyllodd 6% eu canolfan Cychwyn Cadarn / Dechrau'n Deg / Canolfan Blant Integredig. Roedd oddeutu un o bob pump o rieni (21%) yn gyfarwydd â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) ac roedd ychydig dan hanner y rhain (9% o'r holl rieni) wedi ei ddefnyddio.

Roedd cyswllt cryf rhwng bod wedi cael gafael ar wybodaeth, a'r defnydd o ofal plant - roedd y teuluoedd hynny nad oeddent yn defnyddio darpariaeth ffurfiol yn llai tebygol o fod wedi cael gafael ar wybodaeth. Yn ei dro, roedd hyn yn golygu bod y grwpiau hynny yr oedd yn hysbys eu bod yn defnyddio cyfraddau is o ofal ffurfiol, yn arbennig teuluoedd incwm isel, yn llai tebygol o geisio gwybodaeth am ofal plant.

Roedd ychydig dan hanner y rhieni (47%) yn ansicr a oedd digon o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn eu hardal. Credai 30% nad oedd digon o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg a chredai 28% nad oedd digon o ddarparwyr dwyieithog.

Gwelsom ym Mhennod 2 fod nifer gymharol uchel o deuluoedd yn defnyddio gofal y tu allan i'r ysgol. Ymhlith y teuluoedd hynny nad oeddent wedi defnyddio clwb y tu allan i'r ysgol, dywedodd 21% nad oedd eu hysgol yn cynnig clybiau y tu allan i'r ysgol. Gwelwyd rhywfaint o dystiolaeth o alw nad oedd yn cael ei fodloni - roedd 83% a ddywedodd nad oedd eu hysgol yn cynnig darpariaeth y tu allan i'r ysgol ar hyn o bryd, yn dweud y byddent yn defnyddio darpariaeth o'r fath pe byddai ar gael. Dewis personol oedd y prif reswm dros beidio â defnyddio'r gwasanaethau hyn pan oeddent ar gael, yn aml am nad oedd y plant yn dymuno mynd neu am fod amgylchiadau'r teulu yn golygu nad oedd angen defnyddio gofal o'r fath ar hyn o bryd. Roedd lleiafrif o deuluoedd yn dewis peidio â defnyddio darpariaeth o'r fath oherwydd problemau gyda chost, amseru neu hygrychedd.

Ychydig iawn o rieni a oedd heb ddefnyddio gofal plant o gwbl yn y flwyddyn ddiwethaf (8% o'r holl deuluoedd). Lle nad oeddent wedi defnyddio gofal plant, roedd hyn yn aml oherwydd bod gan deuluoedd blant hyn oedran ysgol neu oherwydd ei bod yn well ganddynt ofalu am eu plant eu hunain. O'r rhain, dywedodd oddeutu un o bob pump (19%) nad oeddent yn defnyddio gofal plant am na allent ei fforddio. O ganlyniad, i'r mwyafrif o deuluoedd nad oeddent wedi defnyddio gofal plant ffurfiol yn y flwyddyn ddiwethaf, nid oedd yn ymddangos bod unrhyw newidiadau posibl i ddarpariaeth gofal plant a allai newid eu meddwl. O ran gofal anffurfiol, dywedodd y rhan fwyaf o'r teuluoedd hyn (92%) fod gofal anffurfiol ar gael iddynt pe byddai ei angen ar gyfer achlysuron penodol, ond dywedodd llai ohonynt (65%) fod gofal anffurfiol ar gael ganddynt i helpu yn rheolaidd.

Roedd rhieni plant iau (0-2 oed) nad oeddent wedi defnyddio addysg feithrin yn priodoli eu penderfyniad i ddewis personol yn bennaf, ac roedd y rhan fwyaf yn mynegi dewis pendant i gadw eu plentyn gartref gyda nhw. Dim ond lleiafrif a soniodd am broblemau gyda chost (10%) neu'r graddau yr oedd gofal plant ar gael (5%).

5.8 Barn rhieni am eu gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar

5.9 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn rhoi adroddiad ar resymau rhieni dros ddefnyddio gofal plant ffurfiol a darparwyr y blynyddoedd cynnar a'u sylwadau ar eu darpariaeth. Mae hefyd yn ystyried a yw rhieni yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gyda'u plant gartref - ac i ba raddau y mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu hybu gan ddarparwyr. Cyflawnir yr holl waith dadansoddi gan ddefnyddio data ar gyfer y plentyn a ddewiswyd (h.y. un plentyn a ddewiswyd ar hap ym mhob teulu)⁵¹. Gan fod anghenion dysgu a gofal plant hŷn ac iau yn wahanol, mae'r bennod hon yn trafod plant cyn ysgol ac oedran ysgol ar wahân lle mae maint seiliau yn ddigon mawr. Diffinnir y gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp hwn gan oedran (waeth a ydynt yn mynychu'r ysgol ai peidio), lle diffinnir plant cyn ysgol fel 0-4 oed a phlant oedran ysgol fel 5-14 oed.

Mae'r bennod yn ystyried:

- Y rhesymau pam fod rhieni yn dewis eu darparwr, ac a yw'r rhesymau hyn yn amrywio yn dibynnu ar oedran y plentyn neu statws gwaith y teulu (adran 6.2);
- Pa sgiliau academaidd a chymdeithasol y mae eu prif ddarparwr yn eu hannog, ym marn y rhieni (adran 6.3);
- Barn rhieni am yr adborth y mae eu darparwr yn ei roi iddynt (adran 6.4);
- A yw darparwyr yn annog rhieni i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gartref, a thybiaethau rhieni o ran a oes ganddynt ddigon o amser i gyflawni'r gweithgareddau amrywiol (adran 6.5);
- Y gwasanaethau eraill sydd ar gael gan y prif ddarparwr ffurfiol ac y manteisir arnynt, a pha un a hoffai rhieni i wasanaethau ychwanegol i deuluoedd fod ar gael (adran 6.6).

5.10 Y prif reswm dros ddewis darparwyr ffurfiol

Mae amrywiaeth o resymau pam y gallai rhiant ddewis darparwr penodol: gallent fod yn ymarferol, megis cost neu gyfleustra, neu'n gysylltiedig ag ansawdd neu ba mor ddibynadwy yw'r darparwr. Mae'r adran hon yn adrodd pam y penderfynodd rhieni ddefnyddio eu prif ddarparwr ffurfiol⁵² (sylwer y gallai'r rhesymau hyn fod yn ddewisiadau cadarnhaol neu'n ddewisiadau a wnaed oherwydd rheidrwydd y sefyllfa). Trwy gydol yr adran, rydym wedi grwpio'r rhesymau hyn dan nifer o themâu:

- Roedd 'ffactorau economaidd' yn cynnwys ystyriaethau'n ymwneud â chymhellion ariannol neu ba mor fforddiadwy yw'r ddarpariaeth;
- Roedd 'ffactorau cyfleustra' yn ymwneud â'r ffaith fod y ddarpariaeth yn cyd-fynd ag oriau gwaith y rhieni, a/neu ei bod yn hawdd ei chyrraedd;

⁵¹ Gofynnwyd y cwestiynau arolwg a drafodir yn y bennod hon am y plentyn a ddewiswyd yn unig, er mwyn lleihau hyd y cyfweiliad.

⁵² Safbwynt yr arolwg oedd mai'r prif ddarparwr ffurfiol oedd y darparwr a ddefnyddiwyd am y mwyaf o amser gan y plentyn a ddewiswyd yn ystod yr wythnos gyfeirio. Fodd bynnag, gallai'r rhieni newid hynny os oeddent yn teimlo bod eu prif ddarparwr ffurfiol yn wahanol.

- Roedd 'y gofal a roddid' yn cynnwys rhieni a oedd eisiau darparwr serchog neu rywun â'r hyfforddiant cywir;
- Roedd 'enw da'r darparwr' yn cynnwys rhieni yn dewis darparwr roeddent yn ymwybodol bod ganddo enw da neu un a argymhellwyd iddynt;
- Grŵp o atebion penodedig eraill nad ydynt yn cyd-fynd â'r categorïau yw 'Eraill e.e. cysylltiadau teuluol', er enghraifft: y darparwr yn aelod o'r teulu, neu fod y rhiant eisiau i'r plentyn dderbyn gofal gartref.

Roedd y canlynol ymhlith y rhesymau eraill nad oeddent yn cyd-fynd ag unrhyw grŵp penodol: y gellid addysgu'r plentyn tra'i fod yn derbyn gofal; y gallai'r plentyn gymysgu â phlant eraill; y gallai'r rhieni ymddiried yn y darparwr; mai dewis y plentyn oedd y darparwr; neu fod brawd neu chwaer hŷn y plentyn wedi mynd at y darparwr. Nodir pob un o'r rhain fel rhesymau ar wahân, yn hytrach na mewn grŵp. Dywedodd rhai rhieni hefyd nad oedd unrhyw ddewisiadau eraill ar gael iddynt.

Mae Tabl 5.11 yn dangos mai'r prif ystyriaethau i rieni oedd: enw da'r darparwr (46%), fel y gallai'r plant gymysgu (44%), oherwydd y gofal a roddid (42%), a chyfleustra (42%).

Roedd oedran y plentyn hefyd yn ffactor allweddol yn y prif ddarparwr a ddewiswyd gan y rhan fwyaf o rieni. Roedd rhieni plant cyn ysgol yn fwy tebygol o fod wedi dewis mwyafrif y rhesymau, o gymharu â rhieni plant oedran ysgol. Yn benodol, roedd ffactorau fel enw da, cynnig cyfle i blant gymysgu, y gofal a roddid a galluogi plant i gael eu haddysgu yn fwy tebygol o gael eu nodi gan rieni â phlant cyn ysgol na'r rhai â phlant oedran ysgol. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod plant cyn ysgol yn derbyn mwy o oriau gofal plant fel rheol (gweler Pennod 2) a'r ffaith nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn llawn amser yn orfodol eto. Daeth i'r amlwg mai dewis darparwr oherwydd dewis eu plentyn yw'r unig ffactor a nodwyd yn fwy cyffredin gan rieni plant oedran ysgol (21%) na'r rhai â phlant cyn ysgol (1%).

Tabl 5.11 Y prif reswm dros ddewis prif ddarparwr ffurfiol, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant a ddefnyddiodd ddarparwr ffurfiol yn ystod yr wythnos gyfeirio

Rhesymau rhieni	Oedran y plentyn		
	Cyn ysgol %	Oedran ysgol %	Cyfanswm %
Enw da'r darparwr	67	32	46
Fel y gallai'r plentyn gymysgu	63	29	44
Y gofal a roddid	56	32	42
Cyfleustra	49	37	42
Ymddiriedaeth	42	34	38
Fel y gellid addysgu'r plentyn	56	17	33
Aeth brawd neu chwaer hŷn yno	23	13	17
Ffactorau economaidd	16	10	13
Dewis y plentyn	1	21	13
Dim dewis arall	5	5	5
Arall (e.e. cysylltiadau teuluol)	10	13	12
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>107</i>	<i>146</i>	<i>253</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>115</i>	<i>147</i>	<i>262</i>

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng teuluoedd a oedd yn gweithio a theuluoedd nad oeddent yn gweithio, o ran pam fod rhieni yn dewis eu prif ddarparwr ffurfiol (gweler Tabl C6.1 yn Atodiad C). Roedd gwahaniaethau arwyddocaol i'w gweld rhwng y grwpiau hyn yn arolwg Lloegr ar y llaw arall (Smith et al. 2010), ac felly mae'n bosibl mai'r rheswm am y diffyg cysylltiad yma yw'r ffaith fod y sail o deuluoedd nad oeddent yn gweithio yn fach.

Mae dadansoddiad o'r canfyddiadau hyn ar gyfer plant 0-2 flwydd oed a 3-4 blwydd oed ar gael yn Tabl C6.2 yn Atodiad C).

5.11 Barn rhieni am y sgiliau a anogir gan eu prif ddarparwr ffurfiol

Mae'r adran hon yn ystyried y mathau o sgiliau academaidd (annog plant i fwynhau darllen er enghraifft) a sgiliau cymdeithasol (fel sgwrsio ag eraill) y mae eu prif ddarparwr yn ceisio eu datblygu, ym marn y rhieni. Mae'r holl waith dadansoddi yn yr adran hon yn canolbwyntio ar warchodwyr plant a darparwyr grŵp ffurfiol, fel dosbarthiadau meithrin, cylchoedd chwarae, dosbarth derbyn, meithrinfeydd dydd a chlybiau y tu allan i'r ysgol.

Sgiliau Academaidd

Yn yr adran hon, byddwn yn adrodd ar sgiliau academaidd i blant cyn ysgol yn unig. Mae plant oedran ysgol yn datblygu eu sgiliau academaidd yn yr ysgol yn bennaf, ac felly nid oes fawr o ddisgwyl i'w darparwyr gofal plant eu hannog i ddatblygu sgiliau academaidd. Ar y llaw arall, gall darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar ddechrau adeiladu sail sgiliau academaidd plant cyn ysgol.

Yn wir, mae darparwyr addysg y blynyddoedd cynnar yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn y cyswllt hwn ac mae gwaith ymchwil yn dangos y gall addysg gynnar fod o gymorth i wella canlyniadau plant (e.e. Sylva et al. 2004; Smith et al 2009).

Mae Tabl 6.2 yn dangos bod prif ddarparwyr y mwyafrif llethol o blant cyn ysgol yn addysgu amrywiaeth o sgiliau academaidd iddynt, a dim ond 3% nad oedd unrhyw un o'r sgiliau a restrir yn cael eu haddysgu iddynt (yn ôl eu rhieni). Y sgil academaidd mwyaf cyffredin a nodwyd oedd mwynhau darllen (88%), rhywbeth a grybwyllwyd gan lawer o rieni plant cyn ysgol iau a hŷn. Roedd yr ail sgil academaidd mwyaf cyffredin a nodwyd - adnabod llythrennau, geiriau, rhifau neu siapiau - yn fwy tebygol o gael ei nodi gan rieni plant cyn ysgol hŷn (y rhai 3-4 blwydd oed, 97%) na rhieni plant cyn ysgol iau (y rhai 0-2 flwydd oed, 66%). Fodd bynnag, nid yw hyn yn syndod o ystyried bod y tasgau hyn yn anoddach yn academaidd ac felly'n fwy addas i blant cyn ysgol hŷn.

Tabl 6.2 Sgiliau academaidd a anogir gan y prif ddarparwr, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant cyn ysgol yr oedd eu prif ddarparwr yn ddarparwr grŵp ffurfiol neu'n warchodwr plant

	Oedran y plentyn		
	0-2	3-4	Cyfanswm
	%	%	%
Sgiliau a anogwyd			
Mwynhau llyfrau	[85]	90	88
Adnabod llythrennau, geiriau, rhifau neu siapiau	[66]	97	86
Darganfod am iechyd neu hylendid	[74]	93	86
Darganfod am anifeiliaid neu blanhigion	[76]	89	84
Darganfod am bobl neu leoedd o gwmpas y byd	[56]	78	70
Ddim yn siŵr	[7]	2	3
Dim o'r rhain	[7]	1	3
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	39	70	109
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	44	73	117

Dywedodd ychydig yn llai na hanner y rhieni â phlant 3-4 blwydd oed bod eu prif ddarparwr yn rhoi llyfrau i'w plentyn eu darllen gartref o leiaf unwaith yr wythnos, a dywedodd bron i ddau o bob deg (17%) eu bod yn derbyn llyfrau bron pob diwrnod a bron i dri o bob deg eu bod yn derbyn llyfrau unwaith neu ddwywaith yr wythnos (29%, gweler Tabl).

Tabl 5.12 Pa mor aml y mae plant yn dod â llyfrau gan y darparwr gartref i edrych arnynt/eu darllen gyda'u rhieni

Sail: Plant 3-4 blwydd oed yr oedd eu prif ddarparwr yn ddarparwr grŵp ffurfiol neu'n warchodwr plant

Pa mor aml	%
Bob diwrnod/ y rhan fwyaf o ddiwrnodau	17
Unwaith neu ddwywaith yr wythnos	29
Unwaith bob pythefnos	4
Unwaith y mis / bob 2 fis	3
Unwaith bob 3 neu 4 mis	0
Unwaith bob 6 mis	2
Unwaith y flwyddyn neu lai	1
Yn amrywio gormod	2
Byth	43
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	69
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	72

Sgiliau cymdeithasol

Wrth ystyried sgiliau cymdeithasol, lle'r ystyriwyd plant cyn ysgol ac oedran ysgol, dywedodd y rhieni fod mwyafrif y darparwyr ffurfiol yn annog eu plant i ddatblygu sgiliau cymdeithasol. Roedd hyn yn arbennig o wir i blant cyn ysgol (100% o gymharu ag 87% o blant oedran ysgol, gweler Tabl 6.4). O'r sgiliau y gofynnwyd amdanynt, roedd rhieni yn fwyaf tebygol o nodi bod eu plant yn cael eu hannog i chwarae gyda phlant eraill (82%), i ymddwyn yn dda (72%) ac i wrando ar eraill (71%).

Tabl 5.13 Sgiliau cymdeithasol a anogir gan y prif ddarparwr, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant yr oedd eu prif ddarparwr yn ddarparwr grŵp ffurfiol neu'n warchodwr plant

Sgiliau a anogwyd	Oedran y plentyn		
	Cyn ysgol %	Oedran ysgol %	Cyfanswm
Chwarae gyda phlant eraill	96	71	82
Ymddygiad da	89	59	72
Gwrando ar eraill ac oedolion	90	56	71
Bod yn annibynnol a gwneud dewisiadau	81	56	67
Mynd i'r afael â thasgau beunyddiol	86	37	58
Mynegi syniadau a theimladau	78	38	55
Ddim yn siŵr	2	6	4
Dim o'r rhain	0	13	7
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>109</i>	<i>144</i>	<i>253</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>117</i>	<i>144</i>	<i>261</i>

5.12 Barn rhieni am yr adborth y mae eu darparwr yn ei gynnig

Mae'r adran hon yn trafod barn rhieni am yr adborth y mae eu prif ddarparwr ffurfiol yn ei roi iddynt am eu plentyn. Mae adborth yn cynnwys adroddiadau ysgrifenedig, cael gweld gwaith peintio ac arlunio, ac adborth ar lafar gan ddarparwyr. Rydym yn ymdrin â'r ddulliau a ddefnyddir i roi adborth i rieni a pha mor aml y'i rhoddir, ac a yw rhieni yn derbyn gwybodaeth am y gweithgareddau y mae eu plentyn wedi bod yn cymryd rhan ynddynt.

Mae Tabl 6.5 yn cymharu'r adborth y mae darparwyr yn ei roi i rieni plant cyn ysgol ac oedran ysgol. Dywedodd bron i bob un o rieni plant cyn ysgol eu bod yn derbyn adborth gan eu darparwyr (96%). Mae hyn yn cymharu â dim ond 74% o rieni â phlant oedran ysgol. Mae'n debygol mai'r rheswm am hyn yw bod y rhan fwyaf o blant cyn ysgol yn mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar, ac y disgwylir i'r rhain gynnig rhywfaint o adroddiadau ffurfiol ar ddatblygiad y plant (fel ysgolion) gan fod ganddynt gylch gwaith addysgol. Ar y llaw arall, nid dyma'r achos i'r mathau o ddarparwyr a fynychir gan blant oedran ysgol (darparwyr y tu allan i'r ysgol fel rheol, gweler Pennod 2). Y ffordd fwyaf gyffredin i ddarparwyr roi adborth i rieni yw aelodau staff yn sgwrsio â rhieni am ddatblygiad eu plant (69%), a'r ail fwyaf cyffredin yw trwy luniau, darluniadau a phethau eraill y mae'r plant yn dod adref â hwy (47%).

Tabl 5.14 Dulliau a ddefnyddir gan ddarparwyr ffurfiol i roi adborth i rieni, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant yr oedd eu prif ddarparwr yn ddarparwr grŵp ffurfiol neu'n warchodwr plant

Dull o roi adborth	Oedran y plentyn		
	Cyn ysgol %	Oedran ysgol %	Cyfansw m
Siarad ag aelodau staff am ddatblygiad y plentyn	85	56	69
Lluniau, darluniadau a phethau eraill y mae'r plentyn dod adref â hwy	82	20	47
Nosweithiau rhieni/cyfarfod	52	29	39
Lluniau, darluniadau a phethau eraill a arddangosir yn y safle	65	12	35
Adroddiadau ysgrifenedig a baratoir gan aelodau staff	53	19	33
Eraill	4	5	5
Dim o'r rhain	4	26	16
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>107</i>	<i>141</i>	<i>248</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>115</i>	<i>140</i>	<i>255</i>

Mae Tabl 6.6 yn canolbwyntio ar rieni a ddywedodd eu bod yn siarad ag aelodau staff am ddatblygiad eu plentyn, ac yn trafod pa mor aml yr oedd rhieni yn derbyn y math hwn o adborth. Roedd cyfran lawer uwch o rieni plant cyn ysgol yn derbyn adborth yn aml gan eu ddarparwr o gymharu â rhieni plant oedran ysgol. O ystyried y cyfrannau oedd yn derbyn adborth unwaith neu ddwywaith yr wythnos neu fwy, gwelir bod rhieni yn derbyn adborth mor aml â hyn ar gyfer 86% o blant cyn ysgol ond dim ond 55% o blant oedran ysgol.

Tabl 5.15 Pa mor aml y mae rhieni yn siarad ag aelodau staff y darparwr am ddatblygiad eu plant, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant yr oedd eu prif ddarparwr yn ddarparwr grŵp ffurfiol neu'n warchodwr plant ac y siaradai eu rhieni ag aelodau staff am eu datblygiad (ac eithrio dosbarth derbyn ar gyfer plant oedran ysgol)

Pa mor aml	Oedran y plentyn		
	Cyn ysgol %	Oedran ysgol %	Cyfanswm %
Bob diwrnod/ y rhan fwyaf o			
ddiwrnodau	52	29	41
Unwaith neu ddwywaith yr wythnos	34	26	31
Unwaith bob pythefnos	10	5	8
Unwaith y mis / bob 2 fis	2	21	11
Unwaith bob 3 neu 4 mis	2	8	5
Unwaith bob 6 mis	0	2	1
Unwaith y flwyddyn neu lai	0	0	0
Yn amrywio gormod	0	6	3
Byth	0	2	1
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>91</i>	<i>79</i>	<i>170</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>96</i>	<i>81</i>	<i>177</i>

Gofynnwyd i rieni hefyd pa mor aml yr oedd eu darparwyr yn rhoi gwybodaeth iddynt am y gweithgareddau yr oedd eu plant wedi bod yn cymryd rhan ynddynt (gweler Tabl C6.3 yn Atodiad C).

5.13 Gweithgareddau y mae plant wedi cymryd rhan ynddynt a gweithgareddau dysgu gartref

Yn yr adran hon, rydym yn ystyried a yw rhieni yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gartref gyda'u plant cyn ysgol. Mae gweithgareddau dysgu gartref yn cynnwys pethau fel: darllen llyfrau, adrodd hwiangerddi, peintio a chwarae gemau. Mae'r gweithgareddau hyn yn bwysig ac mae astudiaethau amrywiol yn dangos bod plant y mae eu rhieni yn cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiadol gyda hwy yn cyrraedd lefelau uwch o ddatblygiad gwybyddol na phlant sy'n cyflawni'r gweithgareddau hyn gyda'u rhieni yn llai aml (CMPO 2006, Melhuish et al. 2008, Sammons et al. 2004, Sylva et al. 2004). Yma, rydym yn ystyried a yw rhieni yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn gyda'u plant. Rydym hefyd yn adrodd i ba raddau y mae rhieni yn dweud bod eu darparwr ffurfiol wedi eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gartref gyda'u plant.

Mae Tabl 6.7 yn dangos sylwadau rhieni ar faint o amser sydd ganddynt i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dysgu gartref gyda'u plant 2-5 oed. Roedd mwyafrif llethol y rhieni yn hyderus bod ganddynt yn bendant, neu'n fwy na thebyg, ddigon o amser i gymryd rhan yn y gweithgareddau dysgu gartref hyn. Er enghraifft, roedd cyfanswm o 84% o rieni yn credu bod ganddynt yn bendant, neu'n fwy na thebyg, ddigon o amser i ddarllen gyda'u plant, roedd 82% yn credu bod ganddynt ddigon o amser i chwarae gemau adnabod llythrennau, geiriau,

rhifau a siapiau, a dywedodd 85% fod ganddynt ddigon o amser i chwarae gemau dan do ac yn yr awyr agored. Yn gyffredinol, dim ond cyfrannau isel iawn o rieni a ddywedodd ei bod yn bendant nad oes ganddynt ddigon o amser i gyflawni'r tasgau dysgu gartref hyn gyda'u plant.

Tabl 6.7 Barn rhieni am ba mor aml y maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gartref gyda'u plant

Sail: Yr holl blant 2-5 oed

	Pa mor aml				<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>Sail heb ei phwysoli</i>
	Digon yn bendant %	Digon mae'n debyg %	Dim digon mae'n debyg %	Dim digon yn bendant %		
Edrych ar lyfrau neu ddarllen straeon	57	27	13	3	157	162
Adrodd hwiangerddi neu ganu caneuon	59	26	12	3	156	161
Chwarae gemau adnabod llythrennau, geiriau, rhifau neu siapiau	51	31	14	3	157	162
Peintio neu arlunio gyda'ch gilydd	48	27	20	5	157	162
Chwarae gemau dan do neu awyr agored	49	36	13	2	156	161

DS. Canrannau rhes

Dywedodd 69% o rieni plant 3-4 blwydd oed bod eu prif ddarparwr ffurfiol yn rhoi gwybodaeth iddynt am weithgareddau dysgu gartref y gallant eu cyflawni gyda'u plant. Mae hyn yn awgrymu eu bod yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn y cyswllt hwn.

5.14 Gwasanaethau eraill sydd ar gael gan ddarparwyr gofal plant

Sefydlwyd sawl menter bolisi ddiweddar yng Nghymru â'r nod o sicrhau bod mwy o wasanaethau integredig ar gael i deuluoedd a phlant; mae gan Dechrau'n Deg ffrwd sy'n canolbwyntio ar gynyddu cymorth ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta wedi'u gwerthuso'n dda; nod Canolfannau Plant Integredig yw darparu addysg, gofal plant, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau iechyd integredig; ac mae Ysgolion Bro yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau i gynorthwyo i ddiwallu anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach (gweler Pennod 1). Er mwyn asesu i ba raddau y mae'r gwasanaethau hyn ar gael ac a yw rhieni yn manteisio arnynt, gofynnwyd i rieni sy'n defnyddio darparwr grŵp ffurfiol (e.e. dosbarthiadau meithrin, cylchoedd chwarae, meithrinfeydd dydd a chlybiau y tu allan i'r ysgol) am unrhyw wasanaethau ychwanegol sydd ar gael gan eu darparwr.

Dyweddodd 78% o rieni oedd â phlentyn cyn ysgol ac yr oedd eu prif ddarparwr ffurfiol yn ddarparwr grŵp, nad oedd unrhyw wasanaethau ychwanegol ar gael yno (Tabl 6.8). Lle'r oedd gwasanaethau ychwanegol ar gael, y mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau a nodwyd oedd cyrsiau neu hyfforddiant (10%) a gwasanaethau iechyd i deuluoedd (9%). Gwasanaethau cwnsela, cyngor ar swyddi, a chymorth i ddod o hyd i ofal plant oedd y lleiaf cyffredin – nodwyd bob un o'r rhain gan 1% o rieni yn unig.

Tabl 6.8 Gwasanaethau a oedd ar gael i rieni gan eu prif ddarparwr ffurfiol, yn ôl y math o ddarparwr

Sail: Plant cyn ysgol yr oedd eu prif ddarparwr yn ddarparwr grŵp ffurfiol

Gwasanaethau sydd ar gael	%
Cyrsiau neu hyfforddiant	10
Gwasanaethau iechyd i deuluoedd	9
Sesiynau rhiant neu warchodwr plant a phlentyn	8
Cyngor neu gymorth i rieni	6
Dosbarthiadau rhianta	5
Gwasanaethau cwnsela	1
Cyngor ar swyddi neu yrfaedd	1
Cymorth i ddod o hyd i ofal plant ychwanegol	1
Gwasanaethau eraill	1
Dim gwasanaethau ar gael	78
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>232</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>239</i>

Nid yw'r nifer fach o wasanaethau sydd ar gael yn syndod o ystyried y gyfran fach o deuluoedd a ddywedodd bod eu darparwyr yn rhan o Ganolfan Blant Integredig (2% o deuluoedd a oedd yn defnyddio darpariaeth ffurfiol, gweler Tabl C6.4).

Hefyd, wrth ystyried pwysigrwydd y nifer gymharol fach hon o wasanaethau ychwanegol sydd ar gael, mae'n bwysig ystyried sut mae hyn yn cymharu â'r galw am wasanaethau ychwanegol ymhlith teuluoedd, a'r nifer sy'n manteisio arnynt. Mae Tabl 6.9 yn dangos bod y nifer sy'n manteisio ar wasanaethau yn isel hefyd. Er enghraifft, dim ond 1% o rieni plant cyn ysgol a oedd yn defnyddio gwasanaethau iechyd i deuluoedd mewn gwirionedd, er mai hwn oedd un o'r gwasanaethau a oedd ar gael yn fwyaf cyffredin.

Tabl 5.16 Gwasanaethau gan eu prif ddarparwr ffurfiol a ddefnyddiwyd gan rieni, yn ôl y math o ddarparwr

Sail: Plant cyn ysgol yr oedd eu prif ddarparwr yn ddarparwr grŵp ffurfiol

Gwasanaethau sydd ar gael	%
Dosbarthiadau rhianta	3
Cyngor ar swyddi neu yrfaoedd	2
Cyngor neu gymorth i rieni	1
Gwasanaethau iechyd i deuluoedd	1
Gwasanaethau cwnsela	1
Cyrsiau neu hyfforddiant	0
Sesiynau rhiant neu warchodwr plant a phlentyn	0
Cymorth i ddod o hyd i ofal plant ychwanegol	0
Gwasanaethau eraill	1
Ni ddefnyddiwyd unrhyw wasanaethau	15
Dim gwasanaethau ar gael	78
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	232
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	239

Mae Tabl 6.10 yn dangos bod y galw am wasanaethau yn fwy na'r hyn a oedd ar gael a'r defnydd a wnaed ohonynt. Er enghraifft, roedd Tabl 6.8 yn dangos bod gwasanaethau iechyd ar gael i 9% o deuluoedd gan eu prif ddarparwr ffurfiol, a dim ond 1% o rieni oedd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn (Tabl 6.9). Fodd bynnag, mae Tabl 6.10 yn dangos y byddai 19% o rieni plant cyn ysgol wedi hoffi cael gwasanaethau iechyd. Gellir gweld y patrwm hwn ar draws gwasanaethau eraill, megis cyrsiau neu hyfforddiant a sesiynau rhiant a phlentyn. Gallai hyn awgrymu bod rhieni yn goramcangyfrif y tebygolrwydd y byddent yn defnyddio'r gwasanaethau hyn pe baent ar gael.

Tabl 6.10 Gwasanaethau yr hoffai rhieni eu defnyddio yn eu prif ddarparwr ffurfiol, yn ôl y math o ddarparwr

Sail: Plant cyn ysgol yr oedd eu prif ddarparwr yn ddarparwr grŵp ffurfiol

Gwasanaethau sydd ar gael	%
Gwasanaethau iechyd i deuluoedd	19
Cyrsiau neu hyfforddiant	15
Cyngor neu gymorth i rieni	12
Cymorth i ddod o hyd i ofal plant ychwanegol	11
Sesiynau rhiant neu warchodwr plant a phlentyn	9
Dosbarthiadau rhianta	7
Cyngor ar swyddi neu yrfaoedd	6
Gwasanaethau cwnsela	3
Gwasanaethau eraill	1
Ni fyddwn yn hoffi defnyddio unrhyw wasanaethau nad ydynt ar gael ar hyn o bryd	55
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	239
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	246

5.15 Crynodeb

Roedd rhieni a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol fwyaf tebygol o ddewis darparwr gofal plant oherwydd enw da'r darparwr (46%), fel bod plant yn gallu cymysgu (44%) ac oherwydd y gofal a roddid (42%) e.e. rhywun a oedd yn serchog neu wedi'i hyfforddi'n dda. Roedd hyn yn berthnasol, waeth a oedd y gofal plant ar gyfer plant cyn ysgol neu blant oedran ysgol. Ar gyfer grwpiau cyn ysgol ac oedran ysgol, dim ond cyfran fechan o rieni a ddywedodd nad oedd ganddynt ddewis ynglŷn â pha ddarparwr i'w ddefnyddio.

Dywedodd bron pob rhiant â phlant cyn ysgol fod eu darparwr yn helpu eu plentyn i ddatblygu sgiliau e.e. adnabod llythrennau, geiriau, rhifau neu siapiau. Wrth edrych ar y sgiliau cymdeithasol yr oedd y darparwyr yn eu hannog e.e. chwarae â phlant eraill neu ymddwyn yn dda, roedd darparwyr plant cyn ysgol yn fwy tebygol na darparwyr plant oedran ysgol o annog y rhain.

Dywedodd rhieni plant cyn ysgol a phlant oedran ysgol mai siarad â staff oedd y ffordd fwyaf cyffredin o gael adborth gan eu darparwr. Fodd bynnag soniodd rhieni â phlant cyn ysgol am hyn yn fwy aml na rieni â phlant oedran ysgol. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw bod plant cyn ysgol yn bennaf yn mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar sydd â chyfrifoldeb addysgol ac felly bod disgwyl iddynt gynnig rhyw fath o adroddiad am ddatblygiad y plant (yn yr un modd ag ysgolion). Dywedodd rhieni plant cyn ysgol eu bod yn siarad yn fwy aml â darparwyr ynglŷn â sut yr oedd eu plentyn yn dod yn ei flaen a'r gweithgareddau yr oedd eu plentyn wedi cymryd rhan ynddynt, na rhieni plant oedran ysgol. Efallai mai'r rheswm am hyn yw y bydd plant hŷn yn mynychu addysg orfodol, y byddant felly mewn gofal plant yn llai aml, ac o ganlyniad y bydd angen llai o adborth ar rieni gan ddarparwyr gofal plant.

Dywedodd y rhan fwyaf o rieni â phlant 2-5 oed eu bod yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu gyda'u plant gartref.

Yn gyffredinol, nid oedd rhyw lawer o wasanaethau ychwanegol ar gael gan ddarparwyr cyn ysgol ffurfiol sy'n darparu gofal mewn grwpiau, gyda 78% o rieni â phlant cyn ysgol yn dweud nad oedd unrhyw wasanaethau ychwanegol ar gael gan eu darparwr. Hefyd, nid oedd rhyw lawer o deuluoedd yn manteisio ar wasanaethau eraill gan ddarparwyr lle'r oeddent ar gael. Fodd bynnag, pan ofynnwyd pa wasanaethau y byddent yn eu defnyddio pe byddent ar gael, soniodd rhieni am nifer o wasanaethau. Gwasanaethau iechyd, cyrsiau neu hyfforddiant a chynghor a chymorth i rieni a grybwyllwyd yn fwyaf aml. Roedd y galw hwn am wasanaethau yn uwch na lefel y gwasanaethau a oedd ar gael a'r defnydd a wnaed ohonynt. Gall hyn awgrymu bod rhieni'n goramcangyfrif y tebygolrwydd y byddent yn defnyddio'r gwasanaethau hyn pe byddent ar gael.

6 Defnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol

6.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r gofal plant a ddefnyddiwyd gan rieni yn ystod gwyliau'r haf yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n canolbwyntio ar deuluoedd â phlant oedran ysgol⁵³ gan mai'r teuluoedd hyn sydd angen gwneud trefniadau gwahanol yn ystod gwyliau'r ysgol yn aml. Yn y bennod hon, rydym yn ystyried:

- Y mathau o ddarparwyr gwyliau a ddefnyddiwyd gan deuluoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a sut mae hyn yn cymharu â defnydd yn ystod y tymor (adran 6.2);
- Y gwahaniaethau yn y defnydd o ofal yn ystod y gwyliau rhwng teuluoedd a phlant â gwahanol nodweddion ac amgylchiadau (adran 7.3);
- Y rhesymau pam roedd teuluoedd yn defnyddio darpariaeth wyliau benodol (adran 6.4), a;
- Faint dalwyd gan deuluoedd am ofal plant yn ystod y gwyliau (adran 6.5).

Rydym hefyd yn adrodd ar farn rhieni am y gofal plant sydd ar gael iddynt yn ystod y gwyliau ac a gawsant unrhyw anawsterau yn trefnu gofal yn ystod y gwyliau (adrannau 7.6 a 7.7). Mae rhan olaf y bennod hon yn ystyried teuluoedd a ddewisodd beidio â defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau ac yn archwilio eu rhesymau dros hyn (adran 7.8).


6.2 Defnydd teuluoedd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol

Mae Ffigur 6.1 yn dangos y defnyddiwyd gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol gan hanner y teuluoedd â phlant oedran ysgol (51%). Roedd rhieni yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio darpariaeth anffurfiol yn unig (31%) na darpariaeth ffurfiol yn unig (10%) yn ystod y gwyliau. Defnyddiodd 9% o deuluoedd gymysgedd o ddarpariaethau anffurfiol a ffurfiol i ddiwallu eu hanghenion gofal plant yn ystod y gwyliau. Defnyddiodd cyfran fechan iawn (1%) wahanol fathau o ddarpariaethau, er enghraifft gweithgareddau hamdden a chwaraeon, neu fathau 'eraill' o ofal plant na ellid eu dosbarthu fel gofal ffurfiol neu anffurfiol, gweler Pennod 1, adran 1.3.

⁵³ Ein diffiniad safonol o blant oedran ysgol yn yr adroddiad hwn yw plant sy'n 5-14 oed, waeth faint yw oedran y plant sy'n mynychu'r ysgol mewn gwirionedd. Fodd bynnag, o ystyried yr amcanion a nodwyd ar gyfer y bennod hon, rydym wedi diffinio plant oedran ysgol yn wahanol – fel plentyn sy'n 6-14 oed, neu'n 4-5 oed ac mewn addysg amser llawn neu ran-amser.

Ffigur 6.1 Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau yn ôl y math o ddarpariaeth

Sail: Yr holl deuluoedd â phlant oedran ysgol



Ffynhonnell: Tabl C7.1 yn Atodiad C

Mae Tabl 6.1 yn dangos sut mae defnydd gofal plant teuluoedd yn ystod y gwyliau yn cymharu â'u defnydd yn ystod y tymor. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod mwy o deuluoedd yn defnyddio gofal anffurfiol na gofal ffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol, waeth pa fath o ofal plant roeddent yn ei ddefnyddio yn ystod tymor yr ysgol. Er enghraifft, o ystyried teuluoedd a ddefnyddiodd ddarpariaeth ffurfiol yn ystod tymor yr ysgol, defnyddiodd 41% o'r teuluoedd hyn ofal anffurfiol yn ystod y gwyliau a defnyddiodd 24% ofal ffurfiol (ni ddefnyddiodd 46% ofal plant o gwbl).

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau pendant rhwng y gofal plant a ddefnyddiwyd gan deuluoedd yn ystod tymor yr ysgol ac yn ystod y gwyliau:

- Fe wnaeth dros hanner y teuluoedd â phlant oedran ysgol a oedd yn defnyddio gofal plant yn ystod tymor yr ysgol, hefyd ddefnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol (56%), ond ni wnaeth 44% o deuluoedd a ddefnyddiodd ofal plant yn ystod tymor yr ysgol, ddefnyddio unrhyw ofal yn ystod y gwyliau;
- Defnyddiodd ychydig dros hanner y teuluoedd a ddefnyddiodd ddarparwyr ffurfiol yn ystod tymor yr ysgol, ddarpariaeth anffurfiol yn ystod y gwyliau hefyd (51%);
- Dim ond chwarter (24%) y teuluoedd a ddefnyddiodd ddarparwyr ffurfiol yn ystod tymor yr ysgol, a oedd hefyd yn defnyddio darpariaeth ffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol;

- Roedd dros un o bob tri (37%) o deuluoedd nad oeddent yn defnyddio unrhyw ofal plant yn ystod tymor yr ysgol, yn defnyddio rhyw fath o ofal plant yn ystod y gwyliau. Mae hyn yn dangos bod cyfran fawr o deuluoedd sy'n defnyddio gofal plant yn ystod tymor yr ysgol ond nad ydynt yn defnyddio darpariaeth yn ystod y gwyliau, ond bod galw gan gyfran sylweddol o deuluoedd eraill am ofal plant yn ystod y gwyliau yn unig.

Tabl 6.1 Defnydd o ofal plant yn ystod tymor yr ysgol o gymharu â gwyliau'r ysgol

Sail: Yr holl deuluoedd â phlant oedran ysgol

Defnydd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol	Defnydd o ofal plant yn ystod tymor yr ysgol			Ni ddefnyddir unrhyw ofal plant
	Unrhyw ofal plant %	Ffurfiol %	Anffurfiol %	%
Unrhyw ofal plant	56	54	61	37
Ffurfiol	22	24	22	9
Anffurfiol	42	41	51	32
Ni ddefnyddir unrhyw ofal plant	44	46	39	63
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>366</i>	<i>277</i>	<i>212</i>	<i>109</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>400</i>	<i>322</i>	<i>226</i>	<i>111</i>

6.3 Defnydd plant o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol

Mae'r adran hon yn disgrifio'r mathau o ddarparwyr a fynychwyd gan blant yn ystod gwyliau'r ysgol ac yn cymharu'r rhain â'r rhai yn ystod tymor yr ysgol. Mae'n ystyried sut mae plant o wahanol oeddrannau yn defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng teuluoedd mewn gwahanol amgylchiadau (e.e. incwm yr aelwyd a statws gwaith), rhwng rhanbarthau a rhwng ardaloedd o ran eu hamddifadedd cymharol. Ar gyfer y dadansoddiadau hyn, rydym yn canolbwyntio ar gyfran y *plant* sy'n derbyn gofal yn ystod y gwyliau yn hytrach na chyfran y *teuluoedd* gan y bydd hyn yn ein galluogi i reoli ar gyfer maint y teulu (cynrychiolir pob teulu gan un plentyn yn unig) ac felly gallwn weld effeithiau nodweddion eraill y teulu a'r plentyn yn fwy eglur⁵⁴.

Mae Tabl 6.2 yn dangos bod 47% o blant oedran ysgol wedi mynychu rhyw fath o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, o gymharu â 66% yn ystod tymor yr ysgol. Y prif wahaniaeth rhwng tymor yr ysgol a gwyliau'r ysgol yw bod plant yn llawer mwy tebygol o dderbyn gofal gan ddarparwyr ffurfiol yn ystod tymor yr ysgol (42%) nag yn ystod gwyliau'r ysgol (15%).

⁵⁴ Pan gynhelir dadansoddiadau ar lefel teuluoedd, mae maint y teulu yn effeithio ar y dadansoddiadau, oherwydd mai dim ond un cyfle sydd gan deuluoedd ag un plentyn i "sgorio" fel defnyddwyr gofal plant yn ôl newidynnau defnydd gofal plant ar lefel deuluol, mae gan deuluoedd â mwy nag un plentyn gynifer o gyfleoedd i sgorio ag y sydd ganddynt o blant yn y teulu. Gan fod cydberthynas rhwng maint teulu a nodweddion eraill y teulu a'r plentyn (e.e. incwm), mae'n dylanwadu ar y berthynas rhwng nodweddion eraill y teulu a'r plentyn a'r defnydd o ofal plant.

Yn benodol, roedd cyfran y plant sy'n defnyddio clybiau ar ôl ysgol/brecwast ar safle'r ysgol yn gostwng yn aruthrol yn ystod y gwyliau (1% o gymharu â 30% yn ystod tymor yr ysgol). Mae'n debygol bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o ddarparwyr yn cau yn ystod gwyliau'r ysgol (gweler adran 7.8). Cefnogir y ffaith bod 1% o blant yn dal i fynychu'r darparwyr hyn yn ystod gwyliau'r ysgol gan waith ymchwil a ganfuodd bod clybiau ar ôl ysgol ar agor am gyfartaledd o 42 wythnos y flwyddyn, er mai 38 wythnos sydd mewn blwyddyn ysgol arferol (Kinnaird 2007).

Tabl 6.2 Defnydd o ofal plant yn ystod tymor yr ysgol a gwyliau'r ysgol

Sail: Yr holl blant o oedran ysgol

Defnydd o ofal plant	Tymor/ Gwyliau	
	Tymor ysgol %	Gwyliau %
Unrhyw ofal plant	66	47
Gofal plant ffurfiol ac addysg y blynyddoedd cynnar	42	15
Clwb neu weithgaredd brecwast/ar ôl ysgol, ar safle'r ysgol	30	1
Clwb neu weithgaredd brecwast/ar ôl ysgol, oddi ar safle'r ysgol	4	1
Clwb gwyliau	0	10
Gwarchodwr plant	2	2
Nani neu 'au pair'	0	-
Gofal plant anffurfiol	38	38
Cyn-bartner	8	7
Taid neu nain	24	28
Brawd neu chwaer hŷn	5	5
Perthynas arall	4	7
Ffrind neu gymydog	4	7
Arall		
Hamdden/chwaraeon	12	2
Darparwr gofal plant arall	4	2
Dim gofal plant wedi'i ddefnyddio	34	53
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>444</i>	<i>444</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>439</i>	<i>439</i>

Mae Tabl 6.2 hefyd yn dangos bod cyfran sylweddol o blant (10%) wedi mynychu darparwr sy'n darparu'n benodol ar gyfer adeg y gwyliau (clwb/cynllun gwyliau). Fel arall, gwarchodwr plant oedd y darparwr ffurfiol yr oedd plant oedran ysgol yn fwyaf tebygol o fynd atynt yn ystod gwyliau'r ysgol (2%).

Nid oedd unrhyw wahaniaeth o ran y defnydd o ddarparwyr anffurfiol yn gyffredinol rhwng y gwyliau a thymor yr ysgol (38% yr un); fodd bynnag, mae'r tabl yn dangos bod 24% o blant yn derbyn gofal gan eu taid neu nain yn ystod tymor yr ysgol, ond bod hyn yn wir i 28% o blant yn ystod y gwyliau. Er nad oedd y cynnydd hwn yn sylweddol o ran data Cymru, canfuwyd tueddiad tebyg yn nata Lloegr (Smith et al.

2010). Mae hyn yn awgrymu bod teidiau a neiniau yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran darparu gofal plant yn ystod y gwyliau i deuluoedd â phlant oedran ysgol, gan roi help llaw o bosibl pan nad yw trefniadau teuluoedd ar gyfer tymor yr ysgol ar gael yn ystod y gwyliau neu lle mae rhieni yn gweithio yn ystod oriau ysgol ac angen gofal plant pan fydd yr ysgol ar gau yn unig. Yn wir, mae'r canfyddiadau yn adran 6.4 yn dangos bod wyth o bob deg plentyn (81%) yn derbyn gofal gan ddarparwyr anffurfiol fel teidiau a neiniau a pherthnasau eraill am resymau economaidd.

Defnyddiwyd perthnasau eraill a ffrindiau neu gymdogion yn llawer llai aml na theidiau a neiniau – dim ond 7% o blant oedd yn derbyn gofal gan y darparwyr hynny. Fodd bynnag, roedd mwy o blant yn derbyn gofal gan berthnasau eraill, ffrindiau neu gymdogion yn ystod y gwyliau nag yn ystod tymor yr ysgol (7% o gymharu â 4%).

Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau yn ôl oedran y plant

Mae Tabl 6.3 yn dangos nad oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng plant mewn gwahanol grwpiau oedran, o ran y defnydd o ofal plant *yn gyffredinol* yn ystod y gwyliau. Fodd bynnag, roedd oedran plant yn gysylltiedig â derbyn darpariaeth ffurfiol – roedd plant 8-11 mlwydd oed yn fwy tebygol o fod wedi mynychu darparwyr ffurfiol na phlant iau neu hŷn (21% o blant 8-11 oed o gymharu â 14% o blant 5-7 oed a 9% o blant 12-14 oed). Yn benodol, er bod 9% o blant 5-7 oed a 5% o blant 12-14 oed wedi mynychu clwb gwyliau, roedd y ffigur yn sylweddol uwch – 16% - ar gyfer plant 8-11 oed.

O ran darpariaeth anffurfiol, mae gwaith ymchwil yn Lloegr wedi dangos bod plant oedran ysgol yn fwy tebygol o dderbyn gofal gan frodyr neu chwiorydd hŷn yn ystod y gwyliau na phlant oedran ysgol iau (Smith et al. 2010). Mae'r un duedd yn amlwg yma (2%, 5% a 9% o'r ieuengaf i'r hynaf) ond nid yw'n arwyddocaol yn ystadegol (oherwydd bod y sampl yn llai mae'n debyg).

Tabl 6.3 Defnydd o ddarparwyr gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ôl oedran y plentyn

Sail: Yr holl blant oedran ysgol

Defnydd o ofal plant	Oedran y plentyn a ddewiswyd			Cyfanswm %
	5 - 7 %	8 - 11 %	12 - 14 %	
Unrhyw ofal plant	44	52	46	47
Gofal plant ffurfiol ac addysg y blynyddoedd cynnar	14	21	9	15
Clwb neu weithgaredd brecwast/ar ôl ysgol/, ar safle'r ysgol	1	1	1	1
Clwb neu weithgaredd brecwast/ar ôl ysgol, oddi ar safle'r ysgol	0	2	0	1
Clwb gwyliau	9	16	5	10
Gwarchodwr plant	5	2	1	2
Nani neu 'au pair'	1	1	0	-
Gofal plant anffurfiol	35	40	39	38
Cyn-bartner	6	8	6	7
Taid neu nain	27	29	26	28
Brawd neu chwaer hŷn	2	5	9	5
Perthynas arall	6	10	4	7
Ffrind neu gymydog	4	9	8	7
Dim gofal plant wedi'i ddefnyddio	56	48	54	53
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>115</i>	<i>161</i>	<i>131</i>	<i>444</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>124</i>	<i>148</i>	<i>129</i>	<i>439</i>

Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau yn ôl amgylchiadau teuluoedd

Mae Tabl 6.4 yn dangos sut mae defnydd plant o ofal plant yn ystod y gwyliau yn amrywio yn ôl eu hamgylchiadau teuluol fel incwm, math o deulu, maint y teulu a statws gwaith. Nid yw Tabl 6.4 yn dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran y defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau, rhwng plant mewn cartrefi â rhieni sy'n gwpl a'r rhai mewn cartrefi unig riant. Fodd bynnag, roedd plant o gartrefi cyplau lle'r oedd y ddau riant yn gweithio yn fwy tebygol o dderbyn gofal plant yn ystod y gwyliau – a gofal anffurfiol yn ystod y gwyliau yn benodol – na phlant mewn cartrefi cyplau lle'r oedd un riant yn unig neu ddim un ohonynt yn gweithio.

Tabl 6.4 Defnydd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol yn 2009, yn ôl nodweddion teuluoedd

Sail: Yr holl blant oedran ysgol

Defnydd o ofal plant	Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau			Sail wedi'i phwysoli	Sail heb ei phwysoli
	Unrhyw fath o ofal plant	Gofal plant ffurfiol	Gofal plant anffurfiol		
	%	%	%		
Pob teulu	47	15	38	444	439
Math o deulu					
Cwpl	49	17	38	314	314
Unig riant	44	11	38	130	125
Statws gwaith y teulu					
Cwpl – y ddau'n gweithio	58	20	49	204	207
Cwpl – un yn gweithio	33	14	19	78	79
Cwpl – y naill na'r llall yn gweithio	[26]	[10]	[13]	32	28
Unig riant – yn gweithio	48	10	44	67	65
Unig riant – ddim yn gweithio	39	12	31	64	60
Incwm blynyddol y teulu					
Dan £10,000	[38]	[15]	[28]	45	43
£10,000-£19,999	40	12	28	135	127
£20,000-£29,999	41	16	30	93	92
£30,000-£44,999	49	14	43	64	67
£45,000+	69	22	61	93	95
Nifer y plant					
1	55	15	46	123	130
2	48	17	39	193	198
3+	38	13	28	129	111

Roedd plant o deuluoedd incwm uwch yn fwy tebygol o dderbyn gofal yn ystod y gwyliau yn gyffredinol, ac roeddent hefyd yn fwy tebygol o dderbyn gofal plant gan ddarparwyr anffurfiol yn ystod y gwyliau (gweler Tabl 6.4).

O ran nifer y plant yn yr aelwyd, mae Tabl 6.4 yn dangos tuedd lle mae plant mewn teuluoedd â thri neu fwy o blant yn ymddangos yn llai tebygol o dderbyn gofal yn ystod y gwyliau yn gyffredinol – a gofal anffurfiol yn ystod y gwyliau yn arbennig. Er nad yw'r duedd yn Tabl 6.4 yn arwyddocaol yn ystadegol, canfuwyd y berthynas hon mewn darnau eraill o waith ymchwil (Smith et al. 2010) a gallai fod yn gysylltiedig â'r ffaith ei bod yn fwy tebygol nad yw rhieni yn y teuluoedd hynny'n gweithio.

Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau yn ôl rhanbarth ac amddifadedd ardal

Mae Tabl 7.5 yn dangos sut mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y gwyliau yn cymharu â phlant sy'n byw mewn gwahanol ranbarthau yn Lloegr. Mae'r ganran sy'n manteisio ar ofal yn ystod y gwyliau yng Nghymru yr un fath â Lloegr, ac felly mae defnydd o ofal plant yng Nghymru yng nghanol yr amrediad o ranbarthau Lloegr - derbyniodd 47% o blant yng Nghymru ofal yn ystod y gwyliau o gymharu â 43%-52% o blant ym mhob rhanbarth ond un yn Lloegr (Llundain yw'r eithriad sydd â'r ganran gyffredinol leiaf yn derbyn gofal - 31%).

Tabl 6.5 Defnydd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ôl rhanbarth

Sail: Yr holl blant oedran ysgol

Rhanbarth	Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau				
	Unrhyw fath o ofal plant %	Gofal plant ffurfiol %	Gofal plant anffurfiol %	Sail wedi'i phwysoli	Sail heb ei phwysoli
Cymru	47	15	38	444	439
Lloegr	45	18	33	5014	4746
- Y Gogledd-orllewin	48	14	42	253	265
- Y Gogledd-ddwyrain	45	17	35	688	670
- Swydd Efrog a Humber	43	12	34	513	516
- Dwyrain Canolbarth Lloegr	49	21	36	408	406
- Gorllewin Canolbarth Lloegr	43	17	31	548	535
- Y Dwyrain	47	19	35	569	553
- Llundain	31	16	18	759	582
- Y De-ddwyrain	51	24	36	813	766
- Y De-orllewin	52	18	42	463	453

DS: Ffynhonnell data Lloegr – Smith et al. (2010)

Gan ddefnyddio'r Mynegai Amddifadedd Lluosog, gwelir patrwm yn Tabl 6.6 bod mwy o blant yn derbyn gofal plant mewn ardaloedd â llai o amddifadedd, ac i'r gwrthwyneb mewn ardaloedd â mwy o amddifadedd. Mae'r patrwm hwn yn arbennig o gryf o ystyried y defnydd o ddarpariaeth anffurfiol yn ystod y gwyliau. Er bod y tabl yn dangos y patrwm hwn ar gyfer y defnydd o ddarpariaeth ffurfiol hefyd, nid oedd y gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol. Fel y trafodwyd ym Mhennod 2, mae'n debygol bod cyswllt rhwng cyfraddau cyflogaeth is mewn ardaloedd o amddifadedd, a'r ffaith bod llai o blant yn yr ardaloedd hyn yn derbyn gofal plant yn ystod y gwyliau.

Tabl 6.6 Defnydd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ôl amddifadedd ardal

Sail: Yr holl blant oedran ysgol

Amddifadedd ardal	Defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau				
	Unrhyw fath o ofal plant %	Gofal plant ffurfiol %	Gofal plant anffurfiol %	Sail wedi'i phwysoli	Sail heb ei phwysoli
Pob ardal	47	15	38	444	439
Cwintel 1af – amddifadedd lleiaf	66	19	56	79	80
2il cwintel	51	21	41	83	88
3ydd cwintel	52	12	47	89	86
4ydd cwintel	37	13	26	75	79
5ed cwintel – amddifadedd mwyaf	34	13	23	118	106

6.4 Rhesymau am ddefnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau


Yn yr adran hon, rydym yn dychwelyd i ystyried defnydd *teuluoedd* o ofal plant, a'u rhesymau dros ddewis defnyddio gofal yn ystod y gwyliau (gallai rhieni enwi mwy nag un rheswm)⁵⁵. Yn gyffredinol, roedd 71% o rieni yn defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau am resymau economaidd (e.e. fel y gallent fynd i'r gwaith, gweithio oriau hirach neu astudio/derbyn hyfforddiant) a nodwyd rhesymau datblygiad neu fwynhad plant gan 59% (gweler Ffigur 6.2). Dywedodd llawer llai o rieni (17%) eu bod yn ei ddefnyddio am resymau personol (e.e. fel y gallent fynd i siopa, cadw apwyntiadau).

Mae Ffigur 6.2 yn dangos sut roedd y rhesymau hyn dros ddefnyddio gofal yn ystod y gwyliau yn amrywio rhwng rhieni a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol ac anffurfiol. Rhieni a oedd yn defnyddio gofal anffurfiol oedd y mwyaf tebygol o grybwyll ffactorau economaidd am ddewis eu gofal plant (81%) o gymharu â rhesymau'n ymwneud â'r plentyn (55%) neu'r rhieni (17%). Roedd rhieni a oedd yn defnyddio darpariaeth ffurfiol yn llai tebygol o grybwyll ffactorau economaidd na

⁵⁵ Sylwer mai dim ond i deuluoedd â phlant oedran ysgol y gofynnwyd y cwestiynau hyn – ond lle'r oedd gan deuluoedd blant cyn ysgol ac oedran ysgol mae'n bosibl y gallai rhai o'u rhesymau dros ddefnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau fod yn berthnasol i blentyn cyn ysgol yn unig e.e. bod eu plant cyn ysgol yn mwynhau mynd i'r cylch chwarae.

rhieni oedd yn defnyddio gofal anffurfiol (66% o gymharu ag 81%) ac yn hytrach roedd yn ymddangos bod rhesymau'n ymwneud â'r plentyn yn bwysicach yn gymharol (71% o gymharu â 55%). Nid oedd unrhyw wahaniaeth pwysig rhwng y defnydd o ofal plant ffurfiol neu anffurfiol am resymau'n ymwneud â'r rhieni (17% a 19%). Felly ceir rhywfaint o dystiolaeth bod y defnydd o ddarparwyr anffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol yn fwy cysylltiedig ag anghenion economaidd rhieni, tra bod buddion i'r plentyn yn bwysicach o safbwynt defnyddio darparwyr ffurfiol.

Ffigur 6.2 Rhesymau rhieni dros ddefnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ôl y math o ofal plant



Ffynhonnell: Tabl C7.2 yn Atodiad C

Mae Tabl 6.7 yn dangos yn fwy manwl beth oedd rhesymau teuluoedd dros ddefnyddio gofal plant ffurfiol ac anffurfiol yn ystod y gwyliau. Fel y trafodwyd uchod, ac fel y gellid bod wedi rhagweld, cyflogaeth (gallu gweithio, neu weithio oriau hirach) fyddai'r pwysicaf o'r rhesymau economaidd dros ddefnyddio gofal plant – nododd 66% gyflogaeth yr ymatebwr a 32% gyflogaeth ei gymar. Dim ond cyfran fach o ymatebwyr a ddywedodd hefyd eu bod yn defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau er mwyn astudio neu dderbyn hyfforddiant (4%), a 3% er mwyn chwilio am gyflogaeth. Pan nododd y rhieni resymau yn ymwneud â'r plentyn, roedd mwynhad a hamdden yn llawer pwysicach nag ystyriaethau addysgol o ran y defnydd cyffredinol o ofal plant yn ystod y gwyliau (49% a 28% o gymharu â 12%). Fel y disgrifir uchod, mae rhesymau'n ymwneud â'r plentyn yn bwysicach yn gymharol o ran y defnydd o ddarpariaeth ffurfiol na darpariaeth anffurfiol. Mae Tabl 6.7 yn dangos sut mae hyn yn gysylltiedig â chymhellion rhieni o ran datblygiad addysgol eu plant (nododd 26% hyn fel rheswm dros ddefnyddio darpariaeth ffurfiol, o gymharu â 2% ar gyfer y defnydd o ddarpariaeth anffurfiol) ac o ran galluogi eu plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden (47% ar gyfer y defnydd o ddarparwyr ffurfiol a 13% ar gyfer y defnydd o ddarparwyr anffurfiol).

Tabl 6.7 Rhesymau manwl rhieni dros ddefnyddio darparwyr gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ôl y math o ofal plant a ddefnyddiwyd

Sail: Yr holl deuluoedd â phlant oedran ysgol sy'n defnyddio'r mathau o ofal plant

	Darpariaeth ffurfiol %	Darpariaeth anffurfiol %	Unrhyw fath o ofal plant %
Rhesymau economaidd	66	81	71
Fel y gallwn i weithio/gweithio oriau hirach	54	75	66
Fel y gallai fy nghymar weithio/gweithio oriau hirach	26	37	32
Fel y gallwn i chwilio am waith	2	4	3
Fel y gallai fy nghymar chwilio am waith	0	1	1
Fel y gallwn i astudio/derbyn hyfforddiant	6	3	4
Fel y gallai fy nghymar astudio/derbyn hyfforddiant	0	2	1
Datblygiad/mwynhad y plentyn	71	55	59
Ar gyfer datblygiad addysgol y plentyn	26	2	12
Mae'r plentyn yn hoffi treulio amser gyda'r darparwr	41	46	49
Gallai'r plant gymryd rhan mewn gweithgaredd hamdden	47	13	28
Amser rhieni	19	17	17
Fel y gallai'r rhiant ofalu am y cartref/plant eraill	9	3	6
Fel y gallai'r rhiant fynd i siopa/cadw apwyntiadau/ cymdeithasu	9	13	13
Rheswm arall	4	7	7
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>92</i>	<i>189</i>	<i>244</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>104</i>	<i>192</i>	<i>258</i>

Mae rhesymau manwl teuluoedd dros ddefnyddio gofal plant ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer eu plant oedran ysgol yn ystod tymor yr ysgol ar gael yn Tabl C7.3 yn Atodiad C.

6.5 Talu am ofal plant yn ystod y gwyliau

Gofynnwyd i rieni a oedd yn defnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, pa un a godwyd arnynt am y gwasanaeth. Roedd y rhan fwyaf o rieni yn talu eu darparwyr ffurfiol (77%), ond prin oedd y rhieni a oedd yn talu am ofal anffurfiol yn ystod y

gwyliau (8%, tabl heb ei ddangos). Mae hyn yn gyson â chanfyddiadau o ran talu am ofal plant yn ystod tymor yr ysgol (Pennod 5).

£20 oedd y swm cymedr a dalwyd y dydd fel rheol am ddarpariaeth ffurfiol yn ystod y gwyliau, a £18 oedd y canolrif. I roi'r ffigurau hyn yn eu cyd-destun, roedd teuluoedd yn defnyddio darpariaeth ffurfiol yn ystod y gwyliau am 7 awr y diwrnod (7 awr oedd y cymedr a'r canolrif)⁵⁶.

6.6 Gofal plant a oedd ar gael yn ystod y gwyliau


Mae'r adran hon yn ystyried y gofal plant a oedd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol gan gynnwys: pa mor hawdd yw hi i deuluoedd sy'n gweithio drefnu gofal yn ystod y gwyliau, a yw darparwyr ffurfiol ar agor am ddigon o amser yn ystod y gwyliau, a pha mor hawdd fyddai i deuluoedd wneud trefniadau eraill pe na bai eu darparwr yn ystod y gwyliau ar gael.

Pa mor hawdd oedd hi i rieni sy'n gweithio ddod o hyd i ofal yn ystod y gwyliau

Dywedodd 24% o rieni a oedd yn gweithio ac a oedd â phlant oedran ysgol mai yn ystod tymor yr ysgol yn unig yr oeddent yn gallu gweithio (tabl heb ei ddangos). Gofynnwyd i rieni â phlant oedran ysgol *nad oeddent* yn gallu gweithio yn ystod tymor yr ysgol *yn unig* ba mor hawdd neu anodd oedd trefnu gofal plant ar gyfer gwyliau'r ysgol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni hyn fod trefnu gofal plant yn ystod y gwyliau yn "hawdd" neu'n "hawdd iawn" (62%) ac roedd 14% o'r farn nad oedd yn hawdd nac yn anodd (Ffigur 7.3). Fodd bynnag, dywedodd 23% o rieni bod trefnu gofal plant yn ystod y gwyliau yn "anodd" neu'n "anodd iawn".

Ffigur 6.3 Pa mor hawdd/anodd yw trefnu gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol

Sail: Yr holl deuluoedd â phlant oedran ysgol lle nad oedd rhieni yn gallu gweithio yn ystod tymor yr ysgol yn unig



Ffynhonnell: Tabl C7.4 yn Atodiad C

⁵⁶ 1.47 oedd gwall safonol y gost gymedrig a 0.46 oedd gwall safonol nifer cymedrig yr oriau y dydd.

A oedd digon o oriau ar gael gyda darparwyr ffurfiol ai peidio

Gofynnwyd i rieni a oedd wedi defnyddio darparwyr ffurfiol yn ystod y gwyliau, pa un a oedd eu darparwyr ar gael am ddigon o amser yn ystod y gwyliau (Tabl 7.8). Lle'r oedd rhieni yn defnyddio mwy nag un darparwr ffurfiol, gofynnwyd am faint yr oedd pob un ar gael, ac yna cyfrif a oedd eu holl ddarparwyr ffurfiol, rhai ohonynt, neu ddim ohonynt ar gael am ddigon o amser yn ystod y gwyliau. Mae Tabl 7.8 yn dangos y dywedodd y rhan fwyaf o rieni eu bod yn fodlon ar faint oedd eu darparwyr ffurfiol ar gael yn ystod y gwyliau - dywedodd 73% bod eu holl ddarparwyr ar gael am ddigon o amser yn ystod y gwyliau. Fodd bynnag, rhannol wir yn unig oedd hyn i rai rhieni, gan iddynt nodi bod rhai o'u darparwyr ar gael am gyfnod boddhaol ac eraill yn anfodddhaol (12%). Dywedodd lleiafrif sylweddol o rieni nad oeddent yn fodlon ar faint yr oedd unrhyw un o'r darparwyr ffurfiol yr oeddent yn eu defnyddio ar gael (16%).

Tabl 6.8 Pa un a oedd y darparwyr ffurfiol a ddefnyddiwyd gan deuluoedd ar gael am ddigon o amser yn ystod gwyliau'r ysgol

Sail: Yr holl deuluoedd â phlant oedran ysgol a oedd wedi defnyddio darparwyr ffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol

	%
Roedd yr holl ddarparwyr ar gael am ddigon o amser yn ystod y gwyliau	73
Roedd rhai darparwyr ar gael am ddigon o amser yn ystod y gwyliau	12
Nid oedd unrhyw ddarparwyr ar gael am ddigon o amser yn ystod y gwyliau	16
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	92
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	104

Tybiaethau o ba mor hawdd y byddai dod o hyd i ddarpariaeth arall yn ystod y gwyliau

Gofynnwyd hefyd i rieni a oedd wedi defnyddio darpariaeth yn ystod y gwyliau pa mor hawdd fyddai dod o hyd i ddarparwyr eraill pe na bai eu darparwyr yn ystod y gwyliau ar gael yn y dyfodol. Dywedodd y mwyafrif (64%) "na fyddai'n hawdd" dod o hyd i ddarparwyr eraill yn lle unrhyw un o'r darparwyr roeddent yn eu defnyddio (tabl heb ei ddangos). Dywedodd 36% y byddai'n "hawdd" neu'n "hawdd iawn" dod o hyd i ddarparwyr eraill yn hytrach na phob un neu rai o'r darparwyr yr oeddent yn eu defnyddio yn ystod y gwyliau.

6.7 Barn rhieni am y gofal plant a ddefnyddiwyd yn ystod gwyliau'r ysgol

Mae Tabl 6.9 yn dangos barn rhieni am ansawdd y gofal plant sydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol, a'u tybiaethau o ran pa mor hyblyg a fforddiadwy yw gofal plant yn ystod y gwyliau. Dangosir y sylwadau hyn ar wahân ar gyfer rhieni sy'n defnyddio: gofal ffurfiol yn ystod y gwyliau, gofal anffurfiol yn ystod y gwyliau yn unig a dim gofal plant yn ystod y gwyliau, gan fod barn rhieni am ofal plant yn aml yn gysylltiedig â'u patrwm defnydd (Smith et al. 2010).

Yn gyffredinol, roedd ychydig dros hanner (52%) o rieni yn "cytuno'n gryf" neu'n "cytuno" eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal plant a oedd ar gael yn eu hardal

leol. Roedd ychydig yn llai na hanner yr holl deuluoedd (47%) yn fodlon ar eu gallu i ddod o hyd i ofal hyblyg yn ystod y gwyliau. Dywedodd 38% o deuluoedd nad oedd unrhyw broblemau o ran dod o hyd i ofal plant fforddiadwy yn ystod y gwyliau.

Fodd bynnag, yr ochr arall i hyn yw bod 21% o rieni yn bendant nad oeddent yn fodlon ar ansawdd y gofal plant a oedd ar gael yn ystod y gwyliau. Dywedodd 25% o rieni eu bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i ofal yn ystod y gwyliau a oedd yn ddigon hyblyg i ddiwallu eu hanghenion, a dywedodd 34% eu bod yn cael trafferth dod o hyd i ofal plant y gallent ei fforddio yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae hyn yn awgrymu, o safbwynt rhieni, bod cryn dipyn i'w wneud o ran sicrhau darpariaeth gofal plant yn ystod y gwyliau sy'n hyblyg, fforddiadwy ac o ansawdd uchel, a bod hyn yn achosi anawsterau i nifer sylweddol o rieni.

Roedd rhieni nad oeddent wedi defnyddio unrhyw ofal yn ystod y gwyliau yn llai tebygol o fynegi barn am ansawdd a chost - dywedodd 39% nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad ynglŷn ag ansawdd yn Tabl 6.9, a 38% am y datganiad ynglŷn â chost⁵⁷. Mae'n bwysig cydnabod bod o leiaf cyfran o'r rhai nad ydynt yn defnyddio gofal yn ystod y gwyliau yn gwneud hynny gan nad oes ei angen arnynt. Byddai hyn yn esbonio pam fod darnau eraill o waith ymchwil wedi canfod bod rhieni nad oeddent yn defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau yn llai tebygol o nodi anawsterau o ran hyblygrwydd a chost y ddarpariaeth na rhieni a oedd yn defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau (Smith et al. 2010). Mae'r un patrwm yn amlwg yn Nhabl 7.9 ond nid yw'n arwyddocaol yn ystadegol (er enghraifft, nododd 32% o rieni a oedd heb ddefnyddio unrhyw ofal plant yn ystod y gwyliau, eu bod wedi'i chael yn anodd dod o hyd i ofal fforddiadwy yn ystod y gwyliau, o'i gymharu â 47% o rieni a oedd wedi defnyddio darpariaeth ffurfiol yn ystod y gwyliau). Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad yw'r anawsterau a nodwyd gan rieni a oedd heb ddefnyddio unrhyw ofal plant yn ystod y gwyliau yn bwysig, gan fod y grŵp o deuluoedd nad oeddent wedi defnyddio unrhyw ofal plant yn ystod y gwyliau yn debygol o gynnwys rhai teuluoedd lle'r oedd galw a rhai lle nad oedd galw am ofal plant yn ystod y gwyliau.

⁵⁷ Mae'r duedd o ran hyblygrwydd yn debyg ond nid yw'n arwyddocaol yn ystadegol.

Tabl 6.9 Barn rhieni am ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ôl defnydd o ofal plant yn ystod y gwyliau

Sail: Yr holl deuluoedd â phlant oedran ysgol

		A ddefnyddiwyd gofal plant yn ystod y gwyliau			Yr holl deuluoedd
		Defnyddiwyd darparwyr ffurfiol	Defnyddiwyd darparwyr anffurfiol yn unig	Heb ddefnyddio unrhyw ofal plant yn ystod y gwyliau	
Sylwadau rhieni		%	%	%	%
<i>Rwy'n fodlon ar ansawdd y gofal plant sydd ar gael i mi yn ystod gwyliau'r ysgol</i>	Cytuno'n gryf	23	35	13	22
	Cytuno	39	31	25	30
	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	14	18	39	28
	Anghytuno	15	13	15	15
	Anghytuno'n gryf	9	3	8	6
<i>Rwy'n cael trafferth dod o hyd i ofal yn ystod y gwyliau sy'n ddigon hyblyg i ddiwallu fy anghenion</i>	Cytuno'n gryf	15	9	7	9
	Cytuno	13	19	14	16
	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	20	21	36	28
	Anghytuno	42	37	26	33
	Anghytuno'n gryf	10	13	17	14
<i>Rwy'n cael trafferth dod o hyd i ofal plant y gallaf ei fforddio yn ystod gwyliau'r ysgol</i>	Cytuno'n gryf	15	16	13	14
	Cytuno	32	14	19	20
	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	15	20	38	28
	Anghytuno	30	34	21	27
	Anghytuno'n gryf	8	16	9	11
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>		92	152	232	475
<i>Sail heb ei phwysoli</i>		104	154	250	507

O ystyried barn rhieni yn ôl eu statws gwaith (gweler Tabl C7.5 yn Atodiad C), cyplau lle'r oedd y ddau riant yn gweithio oedd fwyaf bodlon ar ansawdd y gofal plant a oedd ar gael yn ystod y gwyliau (61%). Roedd cyfrannau'r cyplau lle'r oedd un rhiant yn gweithio ac unig rieni a oedd yn gweithio a ddywedodd eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal plant yn ystod y gwyliau yn debyg (47% a 51%), ond

roedd cyfrannau'r cyplau lle nad oedd yr un o'r ddau riant yn gweithio a rhieni sengl nad oeddent mewn cyflogaeth yn sylweddol is - 39% a 32%. Unwaith eto, efallai fod hyn yn adlewyrchu diffyg galw.

O droi at rieni a oedd yn gweithio, gofynnwyd iddynt a oeddent yn gallu dod o hyd i ofal plant yn ystod y gwyliau a oedd yn cyd-fynd â'u horiau gwaith. Yn gyffredinol, roedd hanner y teuluoedd (51%) yn cytuno y gallent ddod o hyd i ofal yn ystod y gwyliau a oedd yn cyd-fynd â'u horiau gwaith (Tabl 7.10). Daeth tuedd i'r amlwg lle'r oedd teuluoedd a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol yn ystod y gwyliau yn ymddangos yn arbennig o debygol o gael trafferth dod o hyd i ofal plant a oedd yn cyd-fynd â'u horiau gwaith. Nid oedd y duedd yn arwyddocaol yn ystadegol, ond canfuwyd y patrwm hwn mewn darnau eraill o waith ymchwil hefyd (Smith et al. 2010).

Tabl 6.10 Barn rhieni sy'n gweithio am oriau gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ôl y defnydd o ofal plant

Sail: Yr holl deuluoedd â phlant oedran ysgol lle'r oedd yr ymatebwr yn gweithio

Barn rhieni a oedd yn gweithio	Defnyddiwyd darparwyr ffurfiol %	Defnyddiwyd darparwyr anffurfiol yn unig %	Heb ddefnyddio unrhyw ofal plant yn ystod y gwyliau		Yr holl deuluoedd %
			Defnyddiwyd darparwyr anffurfiol yn unig %	Heb ddefnyddio unrhyw ofal plant yn ystod y gwyliau %	
<i>Rwy'n gallu dod o hyd i ofal yn ystod y gwyliau sy'n cyd-fynd a'm horiau gwaith/ (fy oriau gwaith i a'm cymar)</i>	Cytuno'n gryf	6	20	13	14
	Cytuno	47	40	28	37
	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	13	17	41	26
	Anghytuno	22	19	13	17
	Anghytuno'n gryf	11	3	6	6
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>		66	120	129	315
<i>Sail heb ei phwysoli</i>		73	115	136	324

Gofynnodd yr arolwg hefyd a fyddai rhieni sy'n gweithio yn cynyddu eu horiau gwaith pe bai gofal yn ystod y gwyliau (a) yn rhatach neu (b) pe bai ar gael am fwy o oriau y diwrnod.

Dywedodd ychydig dros hanner y rhieni (54%) y byddent yn cadw eu horiau gwaith yr un fath *pe bai gofal yn ystod y gwyliau yn rhatach*, er i 21% ddweud y byddent yn cynyddu eu horiau gwaith (tabl heb ei ddangos). Nid oedd 25% yn cytuno nac yn anghytuno y byddai gofal plant mwy fforddiadwy yn golygu y byddent yn cynyddu eu horiau gwaith.

O ran y cwestiwn a fyddai cael gofal plant *ar gael am fwy o oriau y diwrnod* yn ystod y gwyliau yn effeithio ar yr oriau mae rhieni yn eu gweithio, unwaith eto, dywedodd dros hanner y rhieni (59%) y byddent yn cadw eu horiau yr un fath. Dywedodd 15% o rieni a oedd yn gweithio y byddent yn cynyddu eu horiau gwaith, ac nid oedd 25% yn cytuno nac yn anghytuno (tabl heb ei ddangos). Mae'r ffigurau hyn yn dynodi bod y gofal plant sydd ar gael yn ystod y gwyliau, a chost y gofal hwnnw, yn effeithio ar allu lleiafrif sylweddol o rieni i weithio rhagor o oriau.

6.8 Teuluoedd nad oeddent yn defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar deuluoedd nad oeddent yn defnyddio unrhyw ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol a'r rhesymau dros hyn. Yn gyntaf, holwyd rhieni nad oeddent yn defnyddio unrhyw ofal plant yn ystod y gwyliau, pa mor debygol oeddent o ddefnyddio gofal yn ystod y gwyliau pe gellid dod o hyd i ofal addas. Dywedodd 40% y byddai hyn yn eu gwneud yn "debygol" neu'n "debygol iawn" o ddefnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau (tabl heb ei ddangos).

Fel y dangosir yn adran 6.2 (Tabl 6.1), dim ond 24% o deuluoedd a oedd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol yn ystod y gwyliau, ac a oedd hefyd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol yn ystod tymor yr ysgol. Gofynnwyd i rieni a oedd yn defnyddio darparwyr ffurfiol yn unig yn ystod tymor yr ysgol, pa un a oedd unrhyw un o'u darparwyr yn aros ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol: dywedodd 22% eu bod, dywedodd 1% bod rhai yn aros ar agor ond dywedodd 48% nad oedd unrhyw un o'u darparwyr ffurfiol yn ystod tymor yr ysgol ar agor yn ystod y gwyliau (tabl heb ei ddangos)⁵⁸. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu y gwelir lefel sylweddol o alw heb ei fodloni am ddarpariaeth yn ystod y gwyliau, ymhlith y teuluoedd hynny a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol yn ystod tymor yr ysgol ond nid yn ystod y gwyliau. Awgrymir hefyd y gellid bodloni'r galw hwn pe bai darparwyr ffurfiol yn ystod tymor yr ysgol yn aros ar agor yn ystod y gwyliau.

6.9 Crynodeb

Ychydig dros hanner y teuluoedd â phlant oedran ysgol a oedd yn defnyddio gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol (51%), ac roeddent yn fwy tebygol o ddefnyddio darparwyr anffurfiol yn unig (31%) na darparwyr ffurfiol yn unig (10%) neu gymysgedd o ddarpariaeth ffurfiol ac anffurfiol (9%).

Roedd rhai gwahaniaethau nodedig rhwng defnydd teuluoedd o ofal plant yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd 44% o deuluoedd a oedd yn defnyddio gofal plant yn ystod y tymor, ddim yn gwneud hynny yn ystod gwyliau'r ysgol; ac roedd 37% o deuluoedd nad oeddent yn defnyddio gofal plant yn ystod y tymor, yn defnyddio rhywfaint o ofal yn ystod y gwyliau. Y prif wahaniaeth rhwng y tymor a'r cyfnod gwyliau oedd bod plant yn llawer mwy tebygol o dderbyn gofal gan ddarparwyr ffurfiol yn ystod y tymor (42%) nag yn ystod y gwyliau (15%). Clybiau a chynlluniau gwyliau oedd y ffurf fwyaf cyffredin ar ofal plant ffurfiol yn ystod y gwyliau (10%). O ran gofaluwyr anffurfiol, roedd neiniau a theidiau yn chwarae rhan bwysig mewn darparu gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol (roedd 28% o blant yn derbyn gofal gan nain a thaid yn ystod y gwyliau).

⁵⁸ Hefyd, nid oedd 28% o deuluoedd yn siŵr a oedd eu darparwyr yn aros ar agor yn ystod y gwyliau.

Roedd y defnydd o ofal plant ffurfiol yn ystod gwyliau'r ysgol yn amrywio yn ôl nodweddion y plant ac amgylchiadau eu teulu. Roedd y rhai a oedd yn llai tebygol o dderbyn gofal ffurfiol yn ystod y gwyliau yn cynnwys: plant hŷn oedran ysgol (h.y. y rhai 12 – 14 oed), plant o deuluoedd nad oeddent yn gweithio, plant mewn cartrefi incwm is, a phlant a oedd yn byw mewn ardaloedd diffreintiedig.

Defnyddiodd dros ddwy ran o dair o rieni (71%) ofal plant yn ystod y gwyliau am resymau economaidd. Rhoddodd 59% o rieni resymau'n ymwneud â datblygiad neu fwynhad y plant, a rhoddodd 17% resymau'n ymwneud â'r modd yr oedd y ddarpariaeth yn rhoi amser iddynt wneud pethau eraill (e.e. siopa, cadw apwyntiadau). Roedd rhesymau rhieni dros ddefnyddio gofal yn ystod y gwyliau yn amrywio yn dibynnu ar y mathau o ofal plant a ddefnyddid, h.y. roedd rhesymau'n ymwneud â datblygiad a mwynhad y plant yn tueddu i fod yn fwy pwysig wrth ddefnyddio darparwyr ffurfiol, tra bod rhesymau economaidd yn chwarae rhan bwysicach pan oedd rhieni'n defnyddio darpariaeth anffurfiol.

Roedd mwyafrif (62%) o rieni plant oedran ysgol a oedd yn gweithio yn ystod gwyliau'r ysgol yn credu ei fod yn "hawdd" neu'n "hawdd iawn" ei drefnu. Fodd bynnag, credai 23% ei bod yn "anodd" neu'n "anodd iawn". Pan ofynnwyd i rieni a oedd wedi defnyddio darpariaeth ffurfiol pa mor hawdd y byddai hi, yn eu barn nhw, i ganfod darparwyr eraill pe na byddai eu darparwyr arferol ar gael, credai'r mwyafrif (64%) na fyddai'n hawdd.

Roedd safbwyntiau rhieni ar ansawdd, hyblygrwydd a pha mor fforddiadwy yr oedd gofal yn ystod y gwyliau yn awgrymu bod nifer o rieni yn teimlo nad oedd y ddarpariaeth sydd ar gael yn ddigonol yn yr agweddau hyn. Dywedodd ychydig dros hanner y rhieni (52%) eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal plant a oedd ar gael, ond dywedodd un o bob pump (21%) nad oeddent. Dywedodd un o bob tri (34%) iddynt brofi anawsterau wrth chwilio am ofal plant y gallant ei fforddio yn ystod gwyliau'r ysgol, a dywedodd chwarter (25%) iddynt gael problemau wrth ganfod gofal yn ystod y gwyliau a oedd yn ddigon hyblyg i ddiwallu eu hanghenion.

Yn olaf, gan ganolbwyntio ar deuluoedd nad oeddent yn defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau, dywedodd 40% y byddent yn debygol o ddefnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau os oedd ar gael. Lle'r oedd rhieni'n defnyddio darparwyr ffurfiol yn unig yn ystod y tymor ond nid yn ystod y gwyliau, dywedodd ychydig dan hanner (48%) nad oedd eu darparwyr ar gael yn ystod y gwyliau. Awgryma'r ffigurau hyn fod lefel sylweddol o alw heb ei fodloni ar gyfer darpariaeth gwyliau, ymhlith y teuluoedd hynny a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol yn ystod y tymor ond nid yn ystod y gwyliau. Gellid bodloni'r galw hwn trwy i ddarparwyr ffurfiol yn ystod y tymor aros ar agor yn ystod y gwyliau.

7 Mamau, gofal plant a gwaith

7.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon, rydym yn ystyried y berthynas rhwng gofal plant a gwaith. Rydym yn canolbwyntio yn y rhan fwyaf o'r bennod ar famau a oedd mewn swydd gyflogedig ar adeg yr arolwg. Mae'r bennod yn cychwyn gyda darlun cyffredinol o batrymau cyflogaeth mamau er mwyn dangos i ba raddau y mae'r rhain wedi newid ers 2004 (adran 8.2). Mae'r adrannau dilynol yn trafod y ffactorau sydd wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i symud i'r farchnad lafur ac o waith rhan-amser i waith amser llawn (adran 8.3). Nesaf, byddwn yn ystyried yr amryw ffactorau cydgysylltiedig sy'n llywio penderfyniadau mamau i fynd allan i weithio - gan gynnwys dylanwadau ariannol, cyfeiriadedd gwaith, i ba raddau y mae cyflogaeth sy'n ystyriol o deuluoedd ar gael, a'u gallu i gael gafael ar ofal plant (adran 8.4). Mae adran 8.5 yn trafod trefniadau gwaith delfrydol mamau. Rydym yn archwilio wedyn y mamau hynny a oedd yn gweithio ac yn astudio, a'r trefniadau gofal plant sy'n gwneud hyn yn bosibl (adran 8.6). I gloi, byddwn yn ystyried mamau nad oeddent wedi'u cyflogi ar adeg yr arolwg ac yn archwilio pa ffactorau wnaeth llywio eu penderfyniadau i aros gartref a pheidio â gweithio ar yr adeg hon (adran 8.7).

Mae gwaith ymchwil blaenorol wedi dangos bod cyswllt rhwng profiadau cyflogaeth mamau a'r dewisiadau sydd ar gael iddynt, a pha un a oes ganddynt gymar ai peidio. Mae hyn yn rhannol oherwydd y ffaith bod gan famau sydd ar eu pen eu hunain lefelau addysgol a galwedigaethol is ar gyfartaledd na mamau â chymar. Mae'r sefyllfa wannach hon yn y farchnad lafur yn golygu y gall mamau sengl wynebu mwy o anawsterau wrth geisio sicrhau swydd a dod o hyd i gyflogaeth sy'n ystyriol o deuluoedd (Bell et al. 2005; Butt et al. 2007; La Valle et al. 2008; Swyddfa'r Cabinet 2008). Mae mamau sengl yn llai tebygol na mamau â chymar o allu dibynnu ar dad eu plant fel ffynhonnell gofal plant, a gall hyn effeithio ar eu penderfyniadau a'u profiadau o ran cyflogaeth. Gwaethygir y broblem hon gan yr anawsterau, sy'n ymwneud â chost yn bennaf, y mae unig rieni yn eu hwynebu wrth gael gafael ar wasanaethau gofal plant (Bell et al. 2005, Butt et al. 2007; La Valle et al. 2008; Kazimirski et al. 2008). Am y rhesymau hyn, yn y bennod hon, rydym yn archwilio profiadau a phenderfyniadau mamau sy'n unig rieni a mamau â chymar ar wahân, oni bai fod maint y samplau yn rhy fach i wneud hyn.

Mae cyrhaeddiad addysgol a lefel alwedigaethol yn ddau ffactor pwysig sy'n llywio profiadau yn y farchnad lafur a dewisiadau o ran cyflogaeth. Trafodir y ffactorau hyn yn gryno yn y bennod hon, a cheir dadansoddiad manylach yn Atodiad C.


Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar famau. Felly mae aelwydydd tadau sy'n unig rieni (2% o'r sampl, 9 achos) wedi'u hepgor o'r dadansoddiad. Hefyd, gan na ellid ond cynnwys cwestiynau'n gofyn am agweddau, dylanwadau a rhesymau pan mai'r fam a oedd yn ymateb, mae teuluoedd dau riant lle'r oedd y tad yn ymateb wedi'u hepgor o fwyafrif y dadansoddiad hefyd (mae'n rhain yn 4% o'r sampl, 22 achos).

7.2 Darlun cyffredinol o batrymau gwaith mamau

Mae Ffigur 7.1 yn dangos y newidiadau i gyflogaeth mamau ers arolwg gofal plant blaenorol Cymru yn 2004. Mae'r ffigur yn dangos bod cyfran uwch o famau mewn

cyflogaeth, wrth i gyfran y mamau nad ydynt yn gweithio ostwng o 41% yn 2004, i 34% yn yr arolwg hwn.

Ffigur 7.1 Newidiadau i gyflogaeth mamau, 2004-2009



Ffynhonnell: Tabl C8.1 yn Atodiad C.

Fel y dangosir yn Tabl 7.1, yn 2009, roedd mamau â chymar yn fwy tebygol o fod yn gweithio (72%) na mamau sengl, (52%). Mae hyn yn cymharu â 65% o famau â chymar a 43% o famau sy'n unig rieni a oedd yn gweithio yn 2004 (tabl heb ei ddangos).

Tabl 7.1 Cyflogaeth mamau, yn ôl y math o deulu

Sail: Yr holl famau

Statws gwaith	Math o deulu		Yr holl famau %
	Mamau â chymar %	Mamau sengl %	
Mam yn gweithio'n amser llawn	35	21	31
Mam yn gweithio'n rhan-amser (1-15 awr/wythnos)	9	6	8
Mam yn gweithio'n rhan-amser (16-29 awr/wythnos)	29	25	28
Mam ddim yn gweithio	28	48	34
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>418</i>	<i>164</i>	<i>582</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>433</i>	<i>149</i>	<i>582</i>

Roedd 67% o famau a oedd yn gweithio yn gweithio oriau annodweddiadol (Tabl 7.2). Diffiniwyd oriau annodweddiadol fel gweithio'n gynnar yn y bore a/neu fin nos yn ystod yr wythnos 'fel rheol' neu 'weithiau', a/neu 'fel rheol' neu 'weithiau' ar unrhyw adeg o'r penwythnos.

Y patrymau gwaith annodweddiadol mwyaf cyffredin oedd gweithio fin nos ac roedd 51% o famau yn gweithio ar ôl 6pm fel rheol neu weithiau. Dilynwyd hyn yn agos gan waith ar ddydd Sadwrn – roedd 48% o famau yn gweithio ar ddydd

Sadwrn fel rheol neu weithiau. Roedd gweithio boreau (cyn 8am) neu ar ddydd Sul yn llai cyffredin - roedd 28% o famau yn gweithio boreau a 35% ar ddydd Sul. Roedd patrymau gwaith annodweddiadol yr un mor gyffredin i bob pwrpas ymhlith mamau â chymar a mamau sy'n unig rieni, ac nid oedd unrhyw wahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ddau fath o deulu.

Tabl 7.2 Oriau gwaith annodweddiadol, yn ôl y math o deulu


Sail: Mamau mewn swyddi cyflogedig

	Math o deulu		Yr holl famau
	Mamau â chymar	Mamau sy'n unig rieni	
Oriau gwaith annodweddiadol	%	%	%
Unrhyw oriau annodweddiadol fel rheol neu weithiau	68	60	67
Cyn 8am fel rheol neu weithiau	29	28	28
Ar ôl 6pm fel rheol neu weithiau	53	45	51
Dydd Sadwrn fel rheol neu weithiau	49	44	48
Dydd Sul fel rheol neu weithiau	37	27	35
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>302</i>	<i>85</i>	<i>386</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>302</i>	<i>70</i>	<i>372</i>

Gofynnwyd i famau a oedd yn gweithio oriau annodweddiadol fel rheol neu weithiau pa un a oedd gweithio'r oriau annodweddiadol hyn wedi achosi problemau gyda'u trefniadau gofal plant. Dangosir y canfyddiadau yn Ffigur 8.2. Dywedodd 36% o famau a oedd yn gweithio cyn 8am, a 37% o famau a oedd yn gweithio ar ôl 6pm eu bod yn cael trafferth gyda'u trefniadau gofal plant ar yr adegau hyn. Fel y dangosir yn Ffigur 8.2, yn gyffredinol, crybwyllodd llai o famau eu bod yn cael problemau gyda'r gofal plant gofynnol ar gyfer gweithio ar y penwythnos na gweithio yn gynnar yn y bore neu fin nos; dywedodd 19% fod gweithio ar ddydd Sadwrn yn achosi problemau a dywedodd 20% yr un fath am weithio ar ddydd Sul.

Ffigur 7.2 Pa un a oedd oriau gwaith annodweddiadol yn achosi problemau gyda gofal plant

Sail: Yr holl famau a oedd yn gweithio gwahanol oriau annodweddiadol



Ffynhonnell: Tabl C8.2 yn Atodiad C.

7.3 Symud i weithio ac o oriau rhan-amser i oriau amser llawn

Gofynnwyd i famau a oedd wedi cynyddu eu horiau gwaith o ran-amser i amser llawn⁵⁹ neu wedi cychwyn gwaith cyflogedig ar ryw adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf⁶⁰ beth arweiniodd at eu penderfyniad i wneud hynny. Cyflwynir eu hatebion yn Nhabl 8.3. Dywedodd y grŵp mwyaf (30%) eu bod wedi gwneud y newid hwn am eu bod wedi dod o hyd i swydd a oedd yn eu galluogi i gyfuno gwaith â'u cyfrifoldebau gofalu. Nodwyd rhesymau eraill gan gyfran lai o famau: gwnaeth 22% y newid oherwydd swydd newydd neu ddyrchafiad, 12% oherwydd bod eu plant wedi dechrau'r ysgol, dywedodd 12% mai sefyllfa ariannol y teulu a arweiniodd at y penderfyniad ac roedd 10% eisiau annibyniaeth ariannol. Gellir gweld yr amrywiaeth eang o ffactorau a lywiodd benderfyniadau mamau i weithio neu gynyddu eu horiau trwy nifer y ffactorau eraill yn Nhabl 8.3; nodwyd y ffactorau eraill gan lai na 10% o famau⁶¹.

⁵⁹ Hynny yw, symud o weithio llai na 30 awr yr wythnos i 30 awr yr wythnos neu fwy, gwnaeth 16 o famau y newid hwn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (3% o'r sampl).

⁶⁰ Dechreuodd 57 o famau weithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf (10% o'r sampl).

⁶¹ Archwilir y gwahaniaethau rhwng y mamau hynny a symudodd o gyflogaeth ran-amser i gyflogaeth amser llawn, a'r rhai a ddechreuodd weithio yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf yn Arolwg Gofal Plant Lloegr 2009 (Smith et al. 2010). Roedd maint y seiliau yn yr arolwg hwn yn rhy fach i ganiatáu hyn.

Tabl 7.3 Rhesymau dros ddechrau swydd gyflogedig neu symud i weithio'n amser llawn, yn ôl y math o deulu

Sail: Yr holl famau a ddechreuodd weithio neu a newidiodd o waith rhan-amser i waith amser llawn, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf

Rhesymau dros ddechrau swydd gyflogedig neu symud i waith amser llawn	%
Dod o hyd i swydd a oedd yn fy ngalluogi i gyfuno gwaith a phlant	30
Swydd newydd/dyrchafiad	22
Plentyn/plant yn dechrau'r ysgol	12
Sefyllfa ariannol (e.e. partner yn colli swydd)	12
Eisiau annibyniaeth ariannol	10
Eisiau cael allan o'r tŷ	6
Plentyn/plant yn ddigon hen i dderbyn gofal plant	5
Teulu ar gael/yn barod i helpu gyda gofal plant	5
Plentyn/plant yn ddigon hen i ofalu amdano'i hun/amdanynt eu hunain	4
Wedi gorffen astudio/hyfforddiant/addysg	3
Dod yn gymwys i dderbyn credydau treth	2
Daeth gofal plant priodol ar gael	2
Dod yn gymwys i dderbyn math arall o gymorth ariannol gyda chost gofal plant	1
Arall ⁶²	23
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>77</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>73</i>

7.4 Dylanwadau ar benderfyniadau mamau i fynd allan i weithio

Mae Tabl 8.4 yn dangos sut y gwnaeth gwahanol fathau o drefniadau gofal plant gynorthwyo mamau i fynd allan i weithio. Holwyd mamau am amrywiaeth o drefniadau sy'n gysylltiedig â gofal plant, gan gynnwys gwasanaethau ffurfiol a gofal plant a ddarperir gan berthnasau, ffrindiau a chyn-bartneriaid.

Dywedodd 45% o famau fod y ffaith i'w plant gychwyn mewn addysg amser llawn wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i fynd allan i weithio. Mae hyn yn cyd-fynd â gwaith ymchwil blaenorol (Brewer a Paull, 2006) sy'n dangos cysylltiad rhwng cyflogaeth mamau a'r ffaith bod eu plant mewn addysg. Roedd cael plentyn yn cychwyn yr ysgol yn fwy tebygol o fod yn ffactor a oedd yn galluogi mamau sy'n unig rieni i weithio (52%) na mamau â chymar (43%).

Fel y trafodir yn y penodau blaenorol, mae llawer o deuluoedd yn defnyddio gofal plant anffurfiol ac amlygir hyn yn Tabl 7.4: dywedodd 47% o famau fod y gofal

⁶² Mae 'Arall' yn cynnwys rhai categorïau sy'n berthnasol i un o'r grwpiau yn unig, fel gorffen absenoldeb mamolaeth, iechyd wedi gwella, busnes cyflogwr/hunan-gyflogaeth yn gofyn am oriau amser llawn.

plant a ddarperir gan berthnasau yn eu galluogi i fynd allan i weithio a dywedodd 16% fod eu ffrindiau yn darparu gofal plant.

Roedd y rhesymau eraill y soniodd mamau amdanynt fel bod yn eu galluogi i fynd i weithio yn cynnwys y ffaith bod gofal plant dibynadwy ar gael iddynt (45%), bod â gofal plant o ansawdd da (35%), bod â gofal plant sy'n cyd-fynd ag oriau gwaith (34%) a bod â gofal plant rhad neu am ddim (29%).

I gloi, roedd rhianta shifft mewn teuluoedd dau riant yn ffactor a oedd yn galluogi mamau i fynd i weithio e.e. dywedodd 21% o famau â chymar eu bod yn gweithio pan roedd eu cymar ar gael i ddarparu gofal plant, a dywedodd 19% bod y trefniadau gofal plant yn cyd-fynd ag oriau gwaith eu cymar.

Tabl 7.4 Trefniadau gofal plant a wnaeth gynorthwy mamau i fynd allan i weithio, yn ôl y math o deulu

Sail: Mamau mewn swydd gyflogedig

	Math o deulu		
	Mamau â chymar %	Mamau sy'n unig rieni %	Yr holl famau %
Trefniadau gofal plant a alluogodd mamau i fynd allan i weithio			
<i>Yr holl famau</i>			
Perthnasau'n cynorthwyo gyda gofal plant	45	54	47
Plant yn yr ysgol	43	52	45
Gofal plant dibynadwy	44	48	45
Gofal plant o ansawdd da	37	27	35
Gofal plant yn cyd-fynd ag oriau gwaith	37	25	34
Gofal plant rhad/am ddim	29	28	29
Ffrindiau'n cynorthwyo gyda gofal plant	14	23	16
Cymorth gyda chostau gofal plant trwy gredydau treth	8	11	9
Plant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain	7	12	8
Cyflogwr yn darparu/talu am ofal plant	2	1	2
<i>Mamau â chymar</i>			
Cymar yn cynorthwyo gyda gofal plant	21	amh.	amh.
Gofal plant yn cyd-fynd ag oriau gwaith y cymar	19	amh.	amh.
Y fam yn gweithio pan nad yw'r cymar yn gweithio	12	amh.	amh.
Cyflogwr cymar yn darparu/talu am ofal plant	0	amh.	amh.
<i>Mamau sy'n unig rieni</i>			
Tad y plentyn/plant yn cynorthwyo gyda gofal plant	amh.	20	amh.
Arall	1	0	1
Dim o'r rhesymau hyn	10	0	8
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	289	85	373
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	289	70	359

Dangosir y dylanwadau eraill ar benderfyniad mamau i fynd i weithio yn Tabl 7.5. Mae'n eglur mai ffactorau ariannol yw rhai o'r dylanwadau a nodir amlaf ar benderfyniad menywod i weithio, ac angen ariannol yn benodol – nodwyd y rheswm hwn gan 70% o famau mewn swyddi cyflogedig – a'r dymuniad i fod yn annibynnol yn ariannol, a nodwyd gan 47%. Dywedodd ychydig dros chwarter y mamau (27%) fod yr angen parhaus i gyfrannu at eu pensiwn yn rheswm iddynt weithio. Roedd y ffactorau ariannol hyn yn amrywio yn ôl y math o aelwyd, ac

roedd mamau sy'n unig rieni yn fwy tebygol o grybwyll rheidrwydd ariannol fel rheswm dros weithio (82%) na mamau â chymar (66%).

Roedd cyfres arall o resymau a roddodd mamau'n aml dros fynd i weithio yn canolbwyntio ar eu cyfeiriadedd gwaith. Mwynhau gweithio oedd y mwyaf cyffredin o'r rhesymau hyn, a dywedodd 71% o famau â chymar a mamau sy'n unig rieni ei fod yn ffactor. Fodd bynnag, roedd mamau sy'n unig rieni yn fwy tebygol o nodi y byddent yn teimlo'n ddi-werth heb swydd (37%) na mamau â chymar (20%). Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a ddangoswyd gan waith ymchwil cynharach, bod rhai mamau sy'n unig rieni yn teimlo ei bod yn llai derbynol yn gymdeithasol iddynt fod yn ddi-waith gan y byddai hyn yn golygu dibynnu ar fudd-daliadau'r wladwriaeth (Bell et al. 2005). Mae hefyd yn adlewyrchu gwaith ymchwil sy'n dangos bod mamau mewn cartrefi mwy difreintiedig yn fwy tebygol o nodi y byddent yn teimlo'n ddi-werth heb swydd na mamau mewn cartrefi llai difreintiedig (Speight et al. 2010).

Tabl 7.5 Dylanwadau ar benderfyniadau mamau i fynd allan i weithio, yn ôl y math o deulu

Sail: Mamau mewn swydd gyflogedig

Dylanwadau ar benderfyniad mamau i fynd allan i weithio	Math o deulu		
	Mamau â chymar %	Mama u sy'n unig rieni %	Yr holl famau %
<i>Yr holl famau</i>			
Mae angen yr arian arnaf i	66	82	70
Rwy'n hoffi cael fy arian fy hun	47	45	47
Mae angen i mi barhau i gyfrannu at fy mhensiwn	29	19	27
Rwy'n mwynhau gweithio	71	71	71
Rwyf eisiau cael allan o'r tŷ	22	33	24
Byddwn yn teimlo'n ddi-werth heb swydd	20	37	24
Byddai fy ngyrfa yn dioddef pe bawn yn cymryd seibiant	22	10	19
Gallaf weithio oriau hyblyg	25	11	22
Nid oes yn rhaid i mi weithio yn ystod gwyliau'r ysgol	20	19	20
Gallaf weithio o gartref rywfaint o'r amser	12	9	11
Gallaf weithio o gartref y rhan fwyaf o'r amser/drwy'r amser	6	1	5
<i>Mamau â chymar</i>			
Gall fy nghymar weithio oriau hyblyg (cwpl yn unig)	5	amh.	amh.
Gall fy nghymar weithio o gartref rywfaint o'r amser	4	amh.	amh.
Gall fy nghymar weithio o gartref y rhan fwyaf o'r amser/drwy'r amser	2	amh.	amh.
Nid oes rhaid i'm cymar weithio yn ystod gwyliau'r ysgol	1	amh.	amh.
Arall	1	amh.	amh.
Dim o'r rhesymau hyn	2	amh.	amh.
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	289	85	373
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	289	70	359

Mae cyfres derfynol o resymau dros weithio yn canolbwyntio ar ba un a oes cyflogaeth sy'n ystyriol o deuluoedd ar gael, er enghraifft, yr hawl i wneud cais i weithio'n hyblyg. Mae Tabl 8.5 yn dangos bod cyfran sylweddol o famau wedi crybwyll cyflogaeth sy'n ystyriol o deuluoedd - nodwyd y cyfle i weithio oriau hyblyg gan 22%, nodwyd y ffaith eu bod yn cael gweithio yn ystod tymor yr ysgol gan 20% ac roedd 11% yn gallu gweithio gartref am rywfaifnt o'r amser. Mae gwaith ymchwil diweddar wedi amlygu'r ffaith bod mamau sy'n unig rieni yn llai tebygol o allu manteisio ar drefniadau sy'n ystyriol o deuluoedd na mamau â chymar, rhywbeth sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod mamau sy'n unig rieni yn fwy tebygol o fod mewn galwedigaethau incwm is, sy'n llai tebygol o gynnig trefniadau ystyriol o deuluoedd (La Valle et al. 2008). Dangosir hyn hefyd yn Nhabl 8.5, lle mae mamau sy'n unig rieni yn llai tebygol o allu manteisio ar oriau gweithio hyblyg na mamau â chymar (11% o gymharu â 25%).

Ceir rhai gwahaniaethau i'r graddau yr oedd cyfeiriadedd gwaith, ystyriaethau ariannol a threfniadau sy'n ystyriol o deuluoedd yn galluogi mamau â gwahanol lefelau o gyrhaeddiad addysgol i weithio. Er enghraifft, roedd mamau â mwy o addysg – hynny yw, y rhai â chymwysterau safon A neu uwch – yn fwy tebygol o nodi eu bod yn gweithio gan fod angen iddynt gyfrannu at eu pensiynau (37%) na mamau â llai o addysg, 14%-24%, gweler Tabl C8.5 yn Atodiad C).

Mae'n ymddangos bod gan famau â mwy o addysg ymrwymiad cryfach i gyfeiriadedd gwaith na mamau â llai o addysg: dywedodd 32% o famau â mwy o addysg y byddai eu gyrfaedd yn dioddef pe na baent yn gweithio, o gymharu â 7% o famau â llai o addysg. Hefyd, roedd mamau â mwy o addysg yn fwy tebygol o nodi bod y gallu i fanteisio ar drefniadau sy'n ystyriol o deuluoedd wedi dylanwadu ar eu penderfyniadau i weithio, a dywedodd 18% o'r mamau â mwy o addysg eu bod yn gallu gweithio o gartref rhywfaifnt o'r amser neu drwy'r amser, o gymharu â 2%-7% o famau â llai o addysg.

7.5 Trefniadau gweithio delfrydol

Gofynnwyd i famau a oedd mewn swyddi cyflogedig beth fyddai eu trefniadau gwaith delfrydol (Tabl 7.6):

- dywedodd 45% y byddai'n well ganddynt roi'r gorau i weithio ac aros gartref i ofalu am y plant;
- dywedodd 65% y byddent yn hoffi gweithio llai o oriau⁶³;
- dywedodd 15% y byddent yn hoffi cynyddu eu horiau gwaith pe bai gofal plant dibynadwy, cyfleus, fforddiadwy o ansawdd da ar gael.

Roedd trefniadau gweithio delfrydol yn debyg ar gyfer mamau sy'n unig rieni a mamau â chymar (gweler Tabl 8.6). Hefyd, nid oedd unrhyw wahaniaethau wrth gymharu mamau â gwahanol lefelau addysg a galwedigaeth (gweler Tabl C8.7 a Thabl C8.8 yn Atodiad C).

⁶³ Gallai'r cyfanswm fod yn wahanol i gyfanswm y rhifau unigol yn y tabl oherwydd talgrynnu.

Tabl 7.6 Sylwadau ar drefniadau gweithio delfrydol, yn ôl strwythur y teulu

Sail: Mamau mewn swydd gyflogedig

	Strwythur y teulu		
	Mamau chymar %	Mama â u sengl %	Yr holl famau %
Trefniadau gweithio delfrydol			
<i>Pe bawn i'n gallu fforddio rhoi'r gorau i weithio, byddai'n well gen' i aros gartref a gofalu am y plant</i>			
Cytuno'n gryf	27	18	25
Cytuno	20	22	20
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	19	12	18
Anghytuno	26	44	30
Anghytuno'n gryf	8	5	7
<i>Pe gallwn ei fforddio, byddwn yn gweithio llai o oriau er mwyn gallu treulio mwy o amser yn gofalu am fy mhlant</i>			
Cytuno'n gryf	39	29	37
Cytuno	27	36	29
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	14	16	14
Anghytuno	18	15	17
Anghytuno'n gryf	3	4	3
<i>Pe gallwn i drefnu gofal plant o ansawdd da a oedd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn fforddiadwy, byddwn yn gweithio mwy o oriau</i>			
Cytuno'n gryf	3	5	3
Cytuno	11	13	11
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	19	19	19
Anghytuno	45	41	44
Anghytuno'n gryf	22	23	22
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	289	85	373
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	289	70	359

7.6 Mamau sy'n astudio

Dywedodd 16% o famau eu bod yn astudio neu'n derbyn hyfforddiant ar adeg yr arolwg. Gallwn weld yn Nhabl 8.7 mai'r ffaith bod perthnasau ar gael i gynorthwyo

gyda gofal plant a bod â gofal plant dibynadwy a nodwyd amlaf fel ffactorau a ddylanwadodd ar benderfyniad mamau i astudio (29% ar gyfer y ddau). Yn ogystal â hynny, nodwyd y ffaith bod eu plant yn yr ysgol gan dros chwarter y mamau a oedd yn astudio (27%). Nodwyd rhesymau eraill yn ymwneud â gofal plant gan tua un o bob pump o'r mamau hyn, ac yn fwyaf nodedig y ffaith bod gofal plant o ansawdd da ar gael (21%), cymorth ffrindiau (21%) a bod â gofal plant rhad neu am ddim (19%).

Mewn teuluoedd dau riant, roedd y cymar hefyd yn cyfrannu at alluogi mamau i astudio. Er enghraifft, dywedodd 26% eu bod yn gallu astudio gan fod eu cymar yn cynorthwyo gyda gofal plant, ac roedd 22% o famau yn astudio pan nad oedd eu cymar yn gweithio.

Tabl 7.7 Trefniadau gofal plant sy'n cynorthwyo mamau i astudio

Sail: Mamau a oedd yn astudio

Trefniadau gofal plant sy'n cynorthwyo mamau i astudio	%
<i>Yr holl famau</i>	
Cymorth perthnasau gyda gofal plant	29
Gofal plant dibynadwy	29
Plant yn yr ysgol	27
Gofal plant o ansawdd da	21
Ffrindiau'n cynorthwyo gyda gofal plant	21
Gofal plant rhad/am ddim	19
Gofal plant sy'n cyd-fynd ag oriau astudio	14
Plant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain	5
Coleg yn darparu/talu am fy ngofal plant i gyd/rhywfaint ohono	2
<i>Mamau â chymar</i>	
Cymar yn cynorthwyo gyda gofal plant	26
Yn astudio pan nad yw'r cymar yn gweithio	22
Gofal plant yn cyd-fynd ag oriau gwaith cymar	11
Arall	2
Dim o'r rhesymau hyn	22
<i>Sail wedi'i phwysoli (yr holl famau)</i>	90
<i>Sail wedi'i phwysoli (mamau mewn cwpl)</i>	60
<i>Sail heb ei phwysoli (yr holl famau)</i>	84
<i>Sail heb ei phwysoli (mamau mewn cwpl)</i>	56

7.7 Mamau nad oeddent mewn swyddi cyflogedig

I gloi, rydym yn ystyried y mamau hynny nad oeddent mewn swyddi cyflogedig ar adeg yr arolwg⁶⁴. Dangoswyd y datganiad canlynol i famau nad oeddent mewn cyflogaeth a gofynnwyd iddynt ymateb, gan ddefnyddio graddfa 5 pwynt: *“pe bawn i'n gallu trefnu gofal plant o ansawdd da a oedd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn fforddiadwy, byddai'n well gen' i fynd allan i weithio”*. Roedd 47% o'r mamau hyn yn cytuno â'r datganiad, roedd 34% yn anghytuno ac nid oedd 18% yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad (tabl heb ei ddangos).

Mae Tabl 7.8 yn dangos y rhesymau sy'n gysylltiedig â phlant a gofal plant a roddwyd gan famau dros aros gartref. Bod eisiau aros gartref gyda'u plant oedd y rheswm a roddwyd gan y nifer fwyaf o famau (42%), er bod mamau â chymar yn fwy tebygol o grybwyll hyn (52%) na mamau sy'n unig rieni (28%). Dywedodd ychydig yn llai na chwarter y mamau (24%) nad oeddent yn gweithio am fod eu plant yn rhy ifanc, ac roedd mamau â chymar a mamau sy'n unig rieni yr un mor debygol o gynnig y rheswm hwn. Nododd lleiafrif sylweddol o famau fod problemau yn cael gafael ar ofal plant yn eu rhwystro rhag gweithio. Yn fwyaf nodedig, dywedodd 16% fod diffyg gofal plant rhad/am ddim a fyddai'n ei gwneud yn werth chweil i weithio, dywedodd 11% fod diffyg gofal plant fforddiadwy o ansawdd a dywedodd 8% fod diffyg gofal plant ar gael ar adegau addas. Yn gyffredinol, dywedodd 26% o famau nad oeddent yn gweithio oherwydd un neu fwy o'r rhesymau *gofal plant* a restrir yn Tabl 7.8⁶⁵.

⁶⁴ Nid oedd 34% o'r holl famau yng nghartrefi'r ymatebwyr yn gweithio ar adeg yr arolwg (gweler Tabl 7.1).

⁶⁵ Roedd y rhain yn cynnwys mamau a oedd wedi dewis un neu fwy o'r canlynol: diffyg gofal plant rhad/am ddim sy'n ei gwneud yn werth chweil gweithio; diffyg gofal plant fforddiadwy o ansawdd da; diffyg gofal plant ar adegau addas; diffyg gofal plant o ansawdd da; diffyg gofal plant dibynadwy; diffyg gofal plant yn yr ardal leol.

Tabl 7.8 Rhesymau'n ymwneud â gofal plant dros beidio â gweithio, yn ôl y math o deulu

Sail: Mamau nad oeddent mewn swyddi cyflogedig ac eithrio'r rhai ar absenoldeb mamolaeth a'r rhai â salwch hirdymor/anabledd

Rhesymau'n ymwneud â gofal plant dros beidio â gweithio	Math o deulu		
	Mamau â chymar %	Mama u sy'n unig rieni %	Yr holl famau %
Rwyf eisiau aros gyda'm plentyn/plant	52	28	42
Plentyn/plant yn rhy ifanc	26	22	24
Diffyg gofal plant rhad/am ddim a fyddai'n ei gwneud yn werth chweil i weithio	17	14	16
Byddai'r plentyn/plant yn ddioddef pe bawn yn mynd allan i weithio	13	9	11
Diffyg gofal plant fforddiadwy o ansawdd da	8	15	11
Mae gan y plentyn/plant salwch hirdymor/anabledd/anghenion arbennig ac mae angen llawer o sylw arno/arnynt	10	11	10
Diffyg gofal plant ar adegau addas	7	9	8
Diffyg gofal plant o ansawdd da	5	7	6
Diffyg gofal plant dibynadwy	3	8	5
Diffyg gofal plant yn yr ardal leol	3	0	2
Rhesymau eraill	6	7	7
Dim o'r rhesymau hyn	23	30	26
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	83	66	149
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	96	66	162

O ystyried y ffactorau eraill a ddylanwadodd ar benderfyniadau mamau i aros gartref (Tabl 7.9), fe welwn fod amrywiaeth o resymau pam nad yw mamau yn cymryd rhan yn y farchnad lafur. O ran rhesymau economaidd, y prif rwystr rhag gweithio a nodwyd gan famau oedd eu bod yn teimlo na fyddent yn gallu ennill digon i'w gwneud yn werth chweil (27%).

Dywedodd cyfran sylweddol o famau fod diffyg trefniadau gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd yn eu rhwystro rhag gweithio. Dywedodd ychydig dan un o bob tair na allent ddod o hyd i swydd ag oriau addas (31%) ac nid oedd 9% yn gallu dod o hyd i swydd y gallent ei chyfuno â magu plant.

Dywedodd lleiafrif arwyddocaol o famau nad oeddent mewn cyflogaeth am resymau yn gysylltiedig â pha mor gyflogadwy oeddent, megis dim digon o gymwysterau (16%) a diffyg cyfleoedd am swyddi (15%). Nid oedd 8% o famau yn

gweithio am eu bod yn gofalu am ffrind anabl, sâl neu hen a dywedodd 16% nad oeddent yn gweithio am eu bod yn sâl neu'n anabl eu hunain.

Tabl 7.9 Rhesymau dros beidio â gweithio, yn ôl y math o deulu

Sail: Mamau nad oeddent mewn swydd gyflogedig

	Math o deulu		Yr holl famau %
	Mamau â chymar %	Mamau sy'n unig rieni %	
Rhesymau dros beidio â gweithio			
<i>Yr holl famau</i>			
Ni fyddwn yn ennill digon i'w gwneud yn werth chweil i weithio	22	33	27
Byddwn yn colli budd-daliadau	7	11	9
Digon o arian	7	3	5
Diffyg swyddi ag oriau addas	25	39	31
Swydd yn rhy anodd i'w chyfuno â magu plentyn/plant	14	3	9
Ni allaf weithio oriau anghymdeithasol/ar benwythnosau	8	8	8
Dim llawer o gymwysterau	12	21	16
Diffyg cyfleoedd swyddi	9	23	15
Nid yw cael swydd yn bwysig iawn i mi	3	2	3
Wedi bod allan o waith yn rhy hir	4	2	3
Salwch neu anabledd	16	15	16
Gofalu am unigolyn anabl	8	8	8
Astudio/derbyn hyfforddiant	4	13	8
Ar absenoldeb mamolaeth	7	1	4
Gofalu nid gweithio yw swyddogaeth y fenyw	4	1	3
Wedi ymddeol	3	0	2
Rwy'n sâl (salwch dros dro)	0	2	1
<i>Mamau â chymar</i>			
Swydd priod/cymar yn rhy anodd	12	amh.	amh.
Rhesymau eraill	17	8	13
Dim o'r rhain	8	9	8
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>107</i>	<i>79</i>	<i>186</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>120</i>	<i>79</i>	<i>199</i>

7.8 Crynodeb

Nododd yr arolwg fod cyflogaeth ymhlith mamau wedi cynyddu o 59% yn 2004 i 66% yn 2009. Dywedodd mwyafrif y mamau eu bod yn gweithio oriau annodweddiadol ar ryw amser yn ystod yr wythnos (67%), er bod hyn yn bennaf yn golygu gweithio ar ddyddiau Sadwrn a gyda'r nos. Dywedodd lleiafrif sylweddol o famau fod gweithio oriau annodweddiadol wedi achosi problemau gyda gofal plant.

O ran mamau a oedd wedi dechrau swydd gyflogedig yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf neu a oedd wedi cynyddu eu horiau o fod yn rhan-amser i amser llawn, y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd dros wneud hynny oedd eu bod wedi llwyddo i gael gwaith a oedd yn eu galluogi i gyfuno gwaith a gofalu.

Dengys y canfyddiadau ar drefniadau gofal plant fod i ba raddau yr oedd gofal anffurfiol ar gael, camau bywyd plant a chael gofal plant dibynadwy i gyd yn ffactorau a oedd yn galluogi mamau i fod mewn cyflogaeth. Fel y disgwyliwyd, roedd tadau'r plant, yn ogystal â pherthnasau eraill a ffrindiau, yn chwarae rhan mewn cynorthwyo mamau i sicrhau a chadw swyddi cyflogedig.

Cyfeiriwyd at ystyriaethau ariannol yn aml ymysg y ffactorau eraill a oedd yn dylanwadu ar gyflogaeth mamau: soniodd cyfran sylweddol o famau am anghenraid ariannol fel ffactor yn ymwneud â'u cyflogaeth (70%), ac roedd hyn yn fwy cyffredin ymhlith mamau heb gymar (82% o'i gymharu â 66% o famau oedd â chymar). Roedd cyfeiriadedd gwaith hefyd yn ddylanwad pwysig, gyda nifer sylweddol o famau yn dweud eu bod yn mwynhau gweithio. O'i gymharu â ffactorau eraill, mae'n ymddangos bod cyflogaeth sy'n gweddu i deuluoedd wedi chwarae rhan lai mewn galluogi mamau i weithio. Mae hyn yn arbennig o wir am famau heb gymar, a gall adlewyrchu'r ffaith ei bod yn anodd sicrhau'r trefniadau hyn yn hytrach na'r ffaith nad oes galw amdanynt.

Roedd cyfran fechan o famau yn astudio (16%) ac, fel y gwelwyd gyda'r rhai a oedd yn gweithio, roedd camau bywyd y plant, y graddau yr oedd gofal plant dibynadwy ar gael, a darpariaeth gofal plant gan berthnasau i gyd yn ffactorau allweddol a oedd yn galluogi mamau i astudio.

Dengys y canfyddiadau ynglŷn â threfniadau gweithio delfrydol yr hoffai lleiafrif sylweddol o famau roi'r gorau i weithio i ddod yn ofalwyr llawn amser, tra byddai mwyafrif bach yn hoffi lleihau eu horiau gweithio.

Yn ôl y dadansoddiad o famau nad oeddent mewn cyflogaeth, mae cyfran sylweddol wedi crybwyll bod gofal plant yn ffactor a oedd yn eu rhwystro rhag gweithio. Gwelwyd bod ystyriaethau ariannol yn dylanwadu ar benderfyniadau lleiafrif sylweddol o famau i aros allan o waith, gydag ychydig dros chwarter y mamau yn dweud na fyddent yn ennill digon o arian i gyfiawnhau mynd i weithio.

8 Casgliadau

8.1 Cyflwyniad

Yn y bennod olaf hon, rydym yn canolbwyntio ar y prif themâu sy'n deillio o ganfyddiadau Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru yn 2009. Byddwn yn trafod:

- Addysg y blynyddoedd cynnar i blant tair a phedair blwydd oed (adran 9.2);
- Gofal plant y tu allan i'r ysgol i blant oedran ysgol (adran 9.3);
- Gofal plant yn ystod y gwyliau i blant oedran ysgol (adran 9.4);
- Gofal plant anffurfiol (adran 9.5);
- Cyflogaeth mamau (adran 9.6).

8.2 Addysg y blynyddoedd cynnar i blant tair a phedair blwydd oed

Cyflwynwyd yr hawl i addysg y blynyddoedd cynnar am ddim fel rhan o'r strategaeth i wella canlyniadau i blant, gan y dangoswyd bod lleoliadau o ansawdd uchel yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell, ar y pryd ac yn ddiweddarach mewn bywyd (Melhuish et al. 2008, Sammons et al. 2004, Sylva et al. 2004, Smith et al. 2009). Mae'r rhaglen hon wedi llwyddo i raddau helaeth, o ran y niferoedd sydd wedi manteisio ar y cyfle, ac mae 95% o blant 3 a 4 blwydd oed cymwys bellach yn derbyn rhai oriau o addysg y blynyddoedd cynnar.

Rydym yn dod i rai casgliadau yma ynglŷn â'r canlynol:

- Sut mae rhieni yn defnyddio addysg y blynyddoedd cynnar ynghyd â mathau eraill o ofal plant;
- Pa swyddogaeth y mae rhieni yn teimlo sydd gan ddarparwyr y blynyddoedd cynnar i ddatblygu sgiliau addysgol a chymdeithasol eu plant.

Roedd hanner y plant tair a phedair blwydd oed yn mynd at ddarparwr y blynyddoedd cynnar (e.e. dosbarth meithrin, dosbarth derbyn neu feithrinfa ddydd) a darparwr gofal plant arall - gofalwr anffurfiol fel taid a nain fel rheol. Felly, ar hyn o bryd, mae llawer o rieni â phlant tair a phedair blwydd oed yn dygymod â'u hanghenion gofal plant trwy ddefnyddio gwahanol ddarparwyr. Mae canolrif yr oriau y mae plant 3-4 blwydd oed yn eu treulio gyda darparwyr y blynyddoedd cynnar mewn canolfannau (fel ysgolion meithrin, meithrinfeydd dydd a cylchoedd chwarae) yn fwy na'r hawl i addysg y blynyddoedd cynnar am ddim fel rheol (canolrif o 22.1 awr). Mae'n eglur felly bod cyfran uchel o rieni yn defnyddio (ac felly angen mae'n debyg) mwy o oriau o addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant nag sydd ar gael am ddim.

Mae'r arolwg yn dangos pa mor bwysig yw addysg y blynyddoedd cynnar i rieni o ran datblygiad addysgol a chymdeithasol eu plant. Dywedodd 53% o rieni plant 3-4 blwydd oed eu bod yn dewis eu prif ddarparwr ffurfiol fel y gallai eu plant gymysgu â phlant eraill a gwnaeth 55% eu dewis am eu bod yn dymuno i'w plant gael eu haddysgu. Pan ofynnwyd iddynt am feysydd datblygiad penodol, dywedodd mwyafrifoedd mawr o rieni bod eu darparwr wir yn cynorthwyo eu plant i ddatblygu'n academiaidd ac yn gymdeithasol e.e. trwy eu cynorthwyo i adnabod llythrennau, geiriau a rhifau, neu eu hannog i chwarae gyda phlant eraill. Mae llawer o ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar hefyd yn cyflawni swyddogaeth

o ran annog rhieni i gynorthwyo eu plant i ddatblygu, trwy gynghori ar y mathau o weithgareddau y gall rhieni gymryd rhan ynddynt gyda'u plant gartref.

8.3 Gofal plant y tu allan i'r ysgol i blant oedran ysgol

Gwnaed mwy o ddefnydd o ofal plant ffurfiol ac addysg y blynyddoedd cynnar yn ystod tymor yr ysgol yn 2009 o gymharu â 2004, ac roedd y rhan fwyaf o'r newid hwn yn deillio o'r ffaith bod mwy o deuluoedd yn defnyddio gwasanaethau y tu allan i'r ysgol (megis clybiau brechwast ac ar ôl ysgol). Mae'r cynnydd hwn yn deillio'n rhannol o newidiadau i ddull yr arolwg, ond mae'n debyg ei fod hefyd yn adlewyrchu newid gwirioneddol rhwng 2004 a 2009. Mae Strategaeth Gofal Plant Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005) yn cydnabod pwysigrwydd darpariaeth y tu allan i'r ysgol i blant ac i rieni ac yn datgan yr ymrwymiad i gefnogi datblygiad perthynas lawer agosach rhwng ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Felly, o ystyried swyddogaeth gofal y tu allan i'r ysgol yn ystod tymor yr ysgol yn 2009:

- Pa gyfran o blant oedran ysgol oedd yn defnyddio gweithgareddau y tu allan i'r ysgol a phwy oedden nhw?
- Pam oedden nhw'n defnyddio darpariaeth y tu allan i'r ysgol? A oeddent yn ei fynychu fel gofal plant i alluogi rhieni i weithio neu fel gweithgareddau cadarnhaol yr oeddent wedi gwneud dewis cadarnhaol i'w mynychu er mwynhad neu ddatblygiad?

Yn yr arolwg, defnyddiwyd darpariaeth y tu allan i'r ysgol ar safle'r ysgol gan 29% o deuluoedd â phlant 0-14 oed, ac oddi ar safle'r ysgol gan 4%. Ledled Cymru, roedd 87,000 o deuluoedd wedi defnyddio clwb y tu allan i oriau ysgol ar safle'r ysgol ac roedd 13,000 wedi defnyddio un oddi ar safle'r ysgol. Ymhlith plant oedran ysgol, y clybiau hyn oedd y math mwyaf cyffredin o ofal plant, ac roedd cyfrannau'r plant a oedd yn mynychu clybiau y tu allan i'r ysgol ar safle'r ysgol yn sylweddol uwch na'r cyfrannau a oedd yn mynd at warchodwyr plant, ac ychydig yn uwch na chyfrannau'r plant a oedd yn derbyn gofal gan eu teidiau a'u neiniau. Mae'n ymddangos bod y clybiau hyn yn darparu ar gyfer plant ysgol ar draws yr ystod oedran y mae'r arolwg yn ei chwmpasu (h.y. hyd at 14 oed). Fodd bynnag, roedd mwy o blant ysgol gynradd yn mynd i glybiau y tu allan i'r ysgol na phlant ysgol uwchradd - efallai gan y gall plant ysgol uwchradd dreulio rhywfaint o amser yn y dydd ar eu pennau eu hunain, neu oherwydd ei bod yn anodd cael plant yn eu harddegau i gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r ysgol (Cummings et al. 2007). Serch hynny, roedd un o bob pump o blant 12-14 oed wedi bod i glwb ar safle'r ysgol yn ystod yr wythnos gyfeirio.

O ran rhesymau teuluoedd dros ddefnyddio clybiau y tu allan i oriau ysgol, mae canolrif yr oriau yr oedd eu plant yn mynychu a'r rhesymau dros fynychu yn awgrymu mai'r brif swyddogaeth a gyflawnir ar hyn o bryd yw darparu gweithgareddau cadarnhaol i blant, ac roedd gofal plant yn swyddogaeth roeddent yn ei chyflawni i leiafrif o'u defnyddwyr. 2.2 awr oedd canolrif yr oriau yr oedd plant yn eu treulio mewn clwb ar safle'r ysgol ac er bod 38% yn mynychu'r clwb y tu allan i oriau ysgol unwaith yr wythnos yn unig, dim ond 17% oedd yn mynychu bum gwaith yr wythnos. Hefyd, er bod lleiafrif o blant yn mynychu gweithgareddau y tu allan i'r ysgol i hwyluso cyflogaeth rhieni (e.e. 26% o'r plant a oedd yn defnyddio gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn unig) roedd tua thri o bob pedwar

yn defnyddio'r gweithgareddau hyn er lles neu fwynhad y plentyn (e.e. 79% o'r plant a oedd yn defnyddio gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn unig).

Gallwn gynnig rhywfaint o dystiolaeth o'r arolwg i ateb cyfres arall o gwestiynau ynglŷn â'r ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol sydd ar gael a pha un a yw'n fforddiadwy – ac yn sgil hynny ynglŷn â galw heb ei fodloni – hynny yw:

- A yw gofal y tu allan i'r ysgol yn cael ei gynnig am bris y gall rhieni ei fforddio?
- A yw ar gael yn gyffredinol i bob teulu?
- A oes galw heb ei fodloni am ofal y tu allan i'r ysgol?

O ran y mater cyntaf, mae'n ymddangos mai dim ond pedwar o bob deg rhiant yr oedd eu plant yn mynychu darpariaeth y tu allan i'r ysgol oedd yn talu tuag ato o gwbl, a phan roedd rhieni yn talu, £6 yr wythnos yn unig oedd canolrif y gost.

Gan droi at y ddarpariaeth a oedd ar gael, roedd yn galonogol bod wyth o bob deg rhiant nad oeddent yn defnyddio gofal y tu allan i'r ysgol, yn dweud ei fod ar gael pe byddent am ei ddefnyddio. Hefyd, lle nad oedd teuluoedd yn defnyddio'r gofal y tu allan i'r ysgol a oedd ar gael, roedd hyn yn gyffredinol am nad oeddent angen neu eisiau'r ddarpariaeth hon - *ar y cyfan* nid oedd hyn oherwydd bod ffactorau megis cost, oriau agor neu diffyg lleoedd yn eu rhwystro rhag defnyddio'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, dywedodd llawer o rieni y byddent yn defnyddio gwasanaethau y tu allan i'r ysgol pe byddent ar gael iddynt (83%), gan awgrymu rhyw lefel o alw heb ei fodloni.

8.4 Defnydd o ofal plant anffurfiol

Mae ffrindiau a pherthnasau yn parhau i gyflawni swyddogaeth flaenllaw o ran darparu gofal plant; yn 2009, roedd 46% o blant wedi derbyn gofal gan ofalwyr anffurfiol yn ystod yr wythnos gyfeirio, sy'n debyg iawn i ffigur 2004. Y gofalwr anffurfiol mwyaf cyffredin yn 2009 oedd teidiau a neiniau'r plant - roedd un o bob tri theulu yn elwa o gymorth teidiau a neiniau gyda gofal plant yn ystod yr wythnos gyfeirio. Yma, rydym yn ystyried:

- Pwy gafodd fudd o'r gofal anffurfiol hwn?
- Pa swyddogaeth y mae gofal anffurfiol yn ei gyflawni?

Yn yr wythnos gyfeirio yn ystod tymor yr ysgol, derbyniodd 139,000 o deuluoedd yng Nghymru gymorth gyda gofal plant gan eu ffrindiau neu eu teulu, a neiniau a theidiau a ddarparodd y cymorth hwn i 95,000 o deuluoedd. Roedd plant iau yn arbennig o debygol o dderbyn gofal gan eu neiniau a'u teidiau – gofalwyd am 43% o blant 3-4 blwydd oed ganddynt yn ystod yr wythnos gyfeirio. Fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o blant oedran ysgol hefyd yn derbyn gofal plant gan eu teidiau a'u neiniau yn ystod tymor yr ysgol ac yn ystod y gwyliau.

Roedd teuluoedd a oedd yn gweithio yn arbennig o debygol o ddefnyddio teidiau a neiniau fel gofalwyr plant, ac mae pwysigrwydd gofal anffurfiol i gefnogi cyflogaeth rhieni yn thema sy'n ymddangos dro ar ôl tro trwy gydol yr Arolwg Gofal Plant. Mae mamau sy'n gweithio yn nodi'n aml bod y ffaith bod gofalwyr anffurfiol ar gael yn ffactor sy'n eu galluogi i weithio. Er enghraifft, mae'n ymddangos bod llawer o famau sy'n gweithio yn defnyddio gofal anffurfiol i ategu'r oriau o ofal plant a

dderbynnir gan ddarparwyr ffurfiol fel dosbarthiadau meithrin, meithrinfeydd dydd a darparwyr y tu allan i'r ysgol. Gallwn weld hyn yn achos plant cyn ysgol a phlant oedran ysgol gan fod plant a oedd yn mynychu cyfuniad o fathau o ofal plant (e.e. gofal plant anffurfiol a gofal y blynyddoedd cynnar mewn canolfan, neu ofal plant anffurfiol a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol) yn arbennig o debygol o fod yn defnyddio gofal plant am resymau economaidd; roedd yn llai cyffredin i ofal anffurfiol gael ei ddefnyddio er budd neu fwynhad plant. Cynyddir gwerth economaidd y gofal plant a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol gan y ffaith mai dim ond cyfran fechan o rieni oedd yn talu am y gofal hwn (4%). Fodd bynnag, gwnaeth 38% o rieni ryw fath o daliad ar wahân i arian i'w gofalwyr anffurfiol megis anrheg, gofalu am eu plant hwy yn eu tro, neu wneud rhyw ffafr arall.

8.5 Gofal plant yn ystod y gwyliau i blant oedran ysgol

Mae tystiolaeth o Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru yn dangos yr anghenion amrywiol sydd gan deuluoedd â phlant oedran ysgol am ofal yn ystod y gwyliau. Er enghraifft, mae'n ymddangos bod ar rai teuluoedd angen gofal plant yn ystod y gwyliau ond nid yn ystod tymor yr ysgol (pan fo'r plant yn yr ysgol y rhan fwyaf o'r dydd) – roedd 37% o deuluoedd nad oeddent yn defnyddio gofal plant yn ystod tymor yr ysgol yn gwneud hynny yn ystod gwyliau'r ysgol. Ar y llaw arall ceir teuluoedd eraill sy'n defnyddio gofal plant yn ystod tymor yr ysgol, ond nad oes arnynt angen, neu nad ydynt yn dymuno, defnyddio gofal plant yn ystod y gwyliau. Roedd 44% o deuluoedd a oedd yn defnyddio gofal plant yn ystod tymor yr ysgol ddim yn defnyddio unrhyw ofal plant yn ystod y gwyliau.

Yn yr adran hon, rydym yn darparu tystiolaeth i ateb y cwestiynau canlynol am ddarpariaeth gofal plant mewn grŵp yn ystod y gwyliau a gweithgareddau cadarnhaol yn ystod y gwyliau:

- Pa gyfran o blant oedran ysgol sy'n derbyn gofal yn ystod y gwyliau? A ydynt yn ei ddefnyddio er eu mwynhad eu hunain neu fel gofal plant tra bod eu rhieni'n gweithio?
- A oes ar fwy o deuluoedd angen gofal yn ystod y gwyliau na'r nifer sy'n gallu cael gafael arno? Beth sy'n rhwystro pobl rhag cael gafael ar ofal yn ystod y gwyliau?
- A yw'r gofal sydd ar gael yn ystod y gwyliau yn diwallu anghenion y teuluoedd sy'n ei ddefnyddio neu sydd eisiau ei ddefnyddio?

Roedd 15% o blant oedran ysgol wedi derbyn gofal plant ffurfiol yn ystod y gwyliau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chlybiau gwyliau oedd y gwasanaeth mwyaf cyffredin yn ystod y gwyliau. Fodd bynnag, roedd llawer mwy o blant ysgol gynradd nag o blant ysgol uwchradd yn defnyddio gofal ffurfiol yn ystod y gwyliau. Roedd yn llawer mwy cyffredin i ddefnyddio gofal anffurfiol yn ystod y gwyliau, ac roedd 38% o blant oedran ysgol yn derbyn gofal gan ofalwyr anffurfiol – ac yn enwedig teidiau a neiniau – yn ystod y gwyliau; nid oedd hyn yn amrywio ar gyfer plant o wahanol oedrannau. Mae'n ymddangos bod y gwahanol fathau o ofal yn ystod y gwyliau yn cyflawni gwahanol swyddogaethau - defnyddir gofal ffurfiol yn bennaf er budd a mwynhad plant a defnyddir gofal plant anffurfiol yn bennaf fel y gall rhieni weithio.

Mae'n amlwg bod clybiau yn ystod y gwyliau yn cyflawni swyddogaeth fwy na gofal plant yn unig i lawer o blant. Ond, fel gofal plant i rieni sy'n gweithio, nid yw'r gwasanaethau sydd ar gael yn bodloni'r galw bob amser ar hyn o bryd. Mae

lleiafrifoedd sylweddol o rieni yn dweud eu bod yn ei chael yn anodd dod o hyd i ofal plant yn ystod y gwyliau sy'n diwallu eu hanghenion ac y gallant ei fforddio. Dywedodd pedwar o bob deg o rieni a oedd heb ddefnyddio unrhyw ofal yn ystod y gwyliau y byddent yn 'debygol' neu'n 'debygol iawn' o wneud hynny pe gellid dod o hyd i rywbeth addas. Dywedodd hanner y rhieni a oedd yn defnyddio eu darparwyr ffurfiol yn ystod tymor yr ysgol yn unig, nad oeddent ar agor yn ystod y gwyliau. Dywedodd tua chwarter y rhieni a oedd yn defnyddio clybiau y tu allan i'r ysgol yn ystod y tymor nad oedd eu darparwyr ffurfiol ar agor am ddigon o oriau yn ystod y gwyliau. Yn ogystal â hyn, roedd rhai o'r rhieni a oedd wedi defnyddio gofal yn ystod y gwyliau yn teimlo bod y gost neu'r oriau agor yn golygu nad oeddent yn gweithio gymaint o oriau ag y byddent yn dymuno (21% yn crybwyll y gost a 15% yr oriau).

Wedi dweud hynny, i'r rhai a oedd wedi trefnu gofal yn ystod y gwyliau, roedd yn cyflawni swyddogaeth nad oedd rhieni'n credu y gellid ei chyflawni fel arall. Dywedodd dros chwech o bob deg o'r rhai a oedd yn defnyddio darpariaeth ffurfiol yn ystod y gwyliau na fyddai'n hawdd dod o hyd i wasanaeth yn ei le. Mae'n ymddangos mai'r brif her i bolisi yw cefnogi darpariaeth yn ystod y gwyliau sy'n cyd-fynd ag anghenion amrywiol plant a'u teuluoedd.

8.6 Cyflogaeth mamau

Un agwedd bwysig ar bolisi'r llywodraeth yn ddiweddar fu lleihau tlodi plant trwy gynyddu cyflogaeth mamau. Mae'r Arolwg Gofal Plant yn dangos cysylltiad eglur rhwng gofal plant a chyflogaeth mamau ac felly gall y canfyddiadau ddatblygu ein dealltwriaeth yn y ffyrdd canlynol:

- Ffactor pa mor bwysig yw gofal plant ym mhenderfyniad mamau i weithio?
- Pa ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar benderfyniadau mamau o ran cyflogaeth?

Mae'r ffaith bod gofal plant fforddiadwy, o ansawdd da ar gael yn cyflawni swyddogaeth bwysig i alluogi llawer o famau i weithio ac astudio. Er enghraifft, hwyluswyd cyflogaeth 45% o famau a oedd yn gweithio gan ofal plant dibynadwy, tra bod gofal plant o ansawdd da yn bwysig i 35% a gofal plant am ddim/rhad yn bwysig i 29%. Er y gall gofal plant ffurfiol ddiwallu'r angen hwn, gwelsom yn gynharach fod gofal anffurfiol yn cyflawni swyddogaeth bwysig o'r safbwynt hwn. Dywedodd bron i hanner y mamau a oedd yn gweithio mai un o'r ffactorau a oedd yn eu cynorthwyo i weithio oedd y cymorth a ddarperir gan berthnasau, a dywedodd 16% yr un fath am y cymorth a ddarperir gan ffrindiau. Gan y darperir gofal anffurfiol gan deidiau a neiniau yn aml, mae'r canlyniadau hyn yn tanlinellu pa mor bwysig yw cefnogi teidiau a neiniau fel y gallant barhau i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Fodd bynnag, nid yw'r dewis o ddefnyddio gofalwyr anffurfiol ar gyfer gofal plant ar gael i bob rhiant - dywedodd 35% o rieni a oedd heb ddefnyddio gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, nad oedd ganddynt unrhyw ffrindiau na theulu a fyddai'n gallu darparu gofal plant iddynt yn rheolaidd. Gall hyn beri problemau, gan y gall diffyg gofal plant fforddiadwy/addas rwystro mamau rhag gweithio, yn yr un modd ag y gall y ffaith bod gofal plant priodol ar gael hwyluso eu cyflogaeth. Dywedodd lleiafrif sylweddol o famau nad oeddent yn gweithio gan na allent ddod o hyd i ofal plant rhad neu am ddim a fyddai'n ei gwneud yn werth chweil i weithio (16%) a/neu gan na allent ddod o hyd i ofal plant o ansawdd da am bris y gallent

ei fforddio (11%). Dywedodd cyfanswm o chwarter (26%) o famau nad oeddent yn gweithio oherwydd darpariaeth gofal plant annigonol. Hefyd, nododd hanner y mamau nad oeddent yn gweithio eu bod yn awyddus iawn i weithio, gan ddweud y byddai'n well ganddynt weithio pe gallent ddod o hyd i ofal plant cyfleus, dibynadwy, fforddiadwy o ansawdd da. O'r herwydd, mae'n allweddol bwysig bod y llywodraeth yn parhau i roi cefnogaeth i sicrhau bod gofal plant o ansawdd da ar gael ar gael am bris y gellir ei fforddio, er mwyn i lawer o famau allu cymryd rhan yn y farchnad lafur.

Wrth gwrs, un ffactor yn unig sy'n hwyluso cyflogaeth yw'r gallu i gael gafael ar ofal plant. Gall cyfnod bywyd plant – fel y ffaith eu bod yn cychwyn yn yr ysgol – fod yn sbardun i famau ddechrau cyflogaeth neu gynyddu eu horiau gwaith gan fod yr ysgol yn gyfrifol amdanynt am lawer o'r diwrnod gwaith wedyn. Dywedodd 45% o famau sy'n gweithio bod y ffaith bod eu plant yn yr ysgol yn eu galluogi i weithio, a gall presenoldeb plant yn yr ysgol weithio'n arbennig o dda i famau y mae eu swyddi yn cyd-fynd â thymor yr ysgol a gwyliau. Roedd ychydig dan chwarter o famau sy'n gweithio'n gallu dewis gweithio yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Hefyd, gwelsom mai'r prif ffactor a oedd yn galluogi mamau i ddechrau cyflogaeth neu gynyddu eu horiau gwaith oedd dod o hyd i swydd a fyddai'n eu galluogi i gyfuno gwaith â gofalu. Dengys hyn unwaith eto pa mor allweddol yw natur y swydd i hwyluso cyflogaeth mamau. Roedd rhai agweddau penodol ar swyddi menywod a oedd yn hwyluso eu cyflogaeth yn cynnwys: gallu gweithio oriau hyblyg neu gyfleoedd i weithio gartref – ac mae'r enghreifftiau hyn yn ffordd cadarnhaol i gyflogwyr gyfrannu at gynorthwyo mamau yn y gweithle.

8.7 Teuluoedd sy'n profi anfantais

Mae'n bwysig sicrhau bod yr un cyfle ar gael i bawb dderbyn gofal plant fforddiadwy er mwyn cefnogi canlyniadau i blant o gefndiroedd difreintiedig (gan y dangoswyd bod addysg y blynyddoedd cynnar yn arbennig o fuddiol i blant difreintiedig e.e. Sylva et al. 2004, Smith et al. 2009) ac o ran hwyluso cyflogaeth mamau. Rydym yn ystyried yma:

- I ba raddau y mae gofal plant ar gael i bob teulu – gan gynnwys y rhai difreintiedig?
- Beth ellid ei wneud i leihau anghydraddoldeb?

Mae'n eglur o'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn bod plant difreintiedig yn llai tebygol o dderbyn gofal plant na'u cymheiriaid mwy cefnog. Er enghraifft, mae'r rhai sy'n llai tebygol o dderbyn gofal plant yn cynnwys: plant o deuluoedd nad ydynt yn gweithio, y rhai o deuluoedd incwm isel, plant mewn teuluoedd mwy, a'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf yn y wlad. I raddau, mae hyn yn adlewyrchu angen y teuluoedd hynny am ofal plant; gan mai rhesymau economaidd sy'n ysgogi llawer o deuluoedd i ddefnyddio gofal plant, mae diweithdra yn gysylltiedig â defnydd is o ofal plant, a hynny'n ddealladwy. Fodd bynnag, mae'n eglur hefyd nad yw diweithdra a defnydd is o ofal plant yn ddewis cadarnhaol i lawer o deuluoedd. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu'r ffaith bod ffactorau'n eu rhwystro rhag defnyddio gofal plant a rhag ymuno â'r farchnad lafur.

Mae'r ffaith bod cynifer o deuluoedd yn manteisio ar addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar am ddim i blant 3 a 4 blwydd oed (95%) yn awgrymu bod anghydraddoldeb yn llai o broblem ar gyfer y grŵp oedran hwn ac yn dangos llwyddiant y polisi cyffredinol hwn. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r ffaith bod

cynifer wedi manteisio ar yr hawl yn Lloegr (92%) wedi cael gwared ar anghydraddoldeb yno, ac mae'n ymddangos bod cysylltiad cryf rhwng y ffaith bod llai o bobl mewn grwpiau difreintiedig wedi manteisio ar y hawl, a'r ffaith eu bod yn llai ymwybodol o'r hawl hwnnw (Speight et al. i'w gyhoeddi). Mae maint llai'r sampl yng Nghymru yn ein hatal rhag cynnal dadansoddiad o'r fath o ddata Cymru. Fodd bynnag, mae'r wers o sicrhau bod gwybodaeth am yr hawl yn cael ei dosbarthu'n barhaus ac yn briodol, hefyd yn berthnasol yng nghyd-destun Cymru.

Os yw gofal plant am fod yn hygyrch, mae'n eglur bod angen i rieni gael gwybod sut i ddod o hyd i ofal plant a derbyn y wybodaeth angenrheidiol er mwyn gallu dewis rhwng darparwyr (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2005). Amlygodd y canfyddiadau ym Mhennod 5 fod teuluoedd difreintiedig a theuluoedd mwy cefnog yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth gwahanol. Yn benodol, er bod y teuluoedd i gyd gyda'i gilydd yn fwyaf tebygol o dderbyn gwybodaeth am ofal plant ar lafar, roedd teuluoedd incwm is yn fwy tebygol o dderbyn gwybodaeth gan y Ganolfan Byd Gwaith. Mae hyn yn peri pryder, oherwydd bod rhieni yn gyffredinol fodlon ar eu ffynonellau gwybodaeth, ond yn llai bodlon ar y wybodaeth a dderbyniwyd trwy'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae hyn yn awgrymu bod lle i wella o ran dosbarthu gwybodaeth.

Cyfeiriadau

- Bell, A., Finch, N., La Valle, I., Sainsbury, R. a Skinner C. (2005) *A question of balance: lone parents, childcare and work*, Adroddiad Ymchwil 230 yr Adran Gwaith a Phensiynau. Leeds: 'Corporate Document Services'.
- Brewer, M. a Paull, G. (2006) *Newborns and new schools: critical times in women's employment*, Adroddiad Ymchwil 308 yr Adran Gwaith a Phensiynau. Leeds: 'Corporate Document Services'.
- Bryson, C., Kazimirski, A. a Southwood, H. (2006a) *Childcare and Early Years Provision in Wales: A Study of Parents' Use, Views and Experience*, Dogfen Wybodaeth Rhif: 006-06 yr Adran Hyfforddiant ac Addysg.
- Bryson, C., Kazimirski, A. a Southwood, H. (2006b) *Childcare and Early Years Provision: A Study of Parents' Use, Views and Experience*, Adroddiad Ymchwil 723 yr Adran Hyfforddiant ac Addysg. Nottingham: 'DfES Publications'.
- Butt, S., Goddard, K., La Valle, I. a Hill, M. (2007) *Childcare Nation? Progress on the Childcare Strategy and Priorities for the Future*. Llundain: 'Daycare Trust'.
- Swyddfa'r Cabinet (2008) *Families in Britain: an evidence paper*. Llundain: Swyddfa'r Cabinet, Yr Uned Strategaeth.
- Tim Ymchwil CMPO (2006) *Up to 7: Family Background and Child Development Up to Age 7 in the Avon Longitudinal Survey of Parents and Children (ALSPAC)*, Prifysgol Bryste.
- Cummings, C., Dyson, A., Muijs, D., Papps, I., Pearson, D., Raffo, C., Tiplady, L., Todd, L. a Crowther D. (2007) *Evaluation of the Full Service Extended Schools Initiative: Final Report*, Adroddiad Ymchwil RR852 yr Adran Hyfforddiant ac Addysg. Prifysgol Manceinion.
- Deville, J. C. a Sarndal, C. E. (1992) 'Calibration estimators in survey sampling', *Journal of the American Statistical Association*, Cyf. 87, tud. 376-382.
- 'Grandparents Plus' (2009) *Rethinking Family Life: exploring the role of grandparents and the wider family*. Llundain: 'Grandparents Plus'.
- Kazimirski, A., Smith, R., Butt, S., Ireland, E., a Lloyd, E. (2008) *Childcare and Early Years Survey 2007: Parents' Use, Views and Experiences*, Adroddiad Ymchwil RR025 yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Nottingham: 'DfES Publications'.
- Kinnaird, R. (2007) *2006 Childcare and Early years Providers Surveys: Out of School Providers*, DCSF Adroddiad Ymchwil RW013 yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. Nottingham: 'DfES Publications'.
- La Valle, I., Clery, E. a Huerta, M. C. (2008) *Maternity rights and mothers' employment decisions*, Adroddiad Ymchwil 496 yr Adran Gwaith a Phensiynau. Leeds: 'Corporate Document Services'.
- Melhuish, E. C., Phan, M. B., Sylva, K., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I. a Taggart, B. (2008) 'Effects of the home learning environment and preschool centre experience upon literacy and numeracy development in early primary school', *Journal of Social Issues*, 64, 1, tud. 95-114.
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2010) *Statistics Bulletin*. Ystadegau'r Farchnad Lafur, Ionawr 2010 <http://www.statistics.gov.uk/pdfdir/lmsuk0110.pdf>

Sammons, P., Elliot, K., Sylva, K., Melhuish, E., Siraj-Blatchford, I. a Taggart, B. (2004) 'The impact of pre-school on young children's cognitive attainments at entry to reception', *British Educational Research Journal*, 30, 5, tud. 691-712.

Smith, R., Purdon, S., Schneider, V., La Valle, I., Wollny, I., Owen, R., Bryson, C., Mathers, S., Sylva, K. a Lloyd E. (2009) *Early Education Pilot for Two Year Old Children Evaluation*. Adroddiad Ymchwil Rhif DCSF-RR134 yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

Smith, R., Poole, E., Perry, J., Wollny, I. Reeves, A., Coshall, C., d'Souza, J. a Bryson, C. (2010) *Childcare and Early Years Survey of Parents 2009*. Adroddiad Ymchwil Rhif DfE-RR054 yr Adran Addysg.

Speight, S., Smith R., a Lloyd, E. (i'w gyhoeddi) *Towards Universal Early Years Provision: Analysis of Take-up by Disadvantaged Families from Recent Annual Childcare Surveys*. Adroddiad Ymchwil yr Adran Addysg.

Speight, S., Smith, R., La Valle, I., Schneider, V., Perry, J., Coshall, C. a Tipping S. (2009) *Childcare and Early Years Survey of Parents 2008*. Adroddiad Ymchwil Rhif DCSF-RR136 yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

Speight, S., Smith, R. a Lloyd, E., gyda Coshall, C. (2010) *Families experiencing multiple disadvantage: their use of childcare and views on childcare provision*. Adroddiad Ymchwil Rhif DCSF-RR191 yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd.

Ystadegau ar gyfer Cymru (2010)

<http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/document.aspx?ReportId=14125>

Sylva, K., Melhuish, E. C., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I. a Taggart, B. (2004) *The Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) Project: Final Report – A Longitudinal Study Funded by the DfES 1997-2004*, Adroddiad Ymchwil SSU/FR/2004/01 Cychwyn Cadarn. Nottingham: 'DfES Publications'.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Strategaeth Gofal Plant Cymru: Ar gyfer Plant y Mae Gofal Plant*. Dogfen Wybodaeth Rhif: 047-05 yr Adran Hyfforddiant ac Addysg.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Canllawiau Deddf Gofal Plant 2006 – Canllawiau i Awdurdodau Lleol*. Cylchlythyr Rhif: 013/2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Strategaeth Tlodi Plant Cymru*.

<http://cymru.gov.uk/consultations/childrenandyoungpeople/cpstrategy/?lang=cy>

Nodweddion yr ymatebwyr**Rhyw**

Menyw oedd bron pob rhiant a atebodd yr holiadur ar gyfer yr arolwg hwn (95%).

Oedran

37 oedd oed cymedrig yr ymatebwyr a 39 oedd oed cymedrig eu cymar. Mae Tabl A.1 yn dangos bandiau oedran yr ymatebwyr yn ôl y math o deulu, ac yn dangos bod yr ymatebwyr mewn teuluoedd oedd yn gyplau yn dueddol o fod yn hŷn nag ymatebwyr a oedd yn unig riant.

Tabl A.1 Oedran yr ymatebwr, yn ôl y math o deulu

Sail: Yr holl deuluoedd

Oedran	Math o deulu		
	Teulu cwpl %	Unig riant %	Cyfanswm %
20 ac iau	1	1	1
21-30	19	33	23
31-40	46	36	43
41-50	29	25	28
51+	4	5	5
Cymedr	37	36	37
<i>Seiliau wedi'u phwysoli</i>	<i>418</i>	<i>173</i>	<i>591</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>433</i>	<i>158</i>	<i>591</i>

Statws priodasol

Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr yn briod ac yn byw gyda'u cymar (52%) (Tabl A.2). Roedd 32% o ymatebwyr yn sengl. Mae'r categori hwn yn cynnwys unigolion a oedd yn cyd-fyw.

Tabl A.2 Statws priodasol

Sail: Yr holl deuluoedd

Statws priodasol	%
Priod ac yn byw gyda gŵr/gwraig	52
Sengl (erioed wedi priod)	32
Wedi ysgaru	11
Priod ac wedi gwahanu oddi wrth ŵr/gwraig	3
Gweddw	1
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>592</i>

Cymwysterau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y cymhwyster academaidd uchaf iddynt ei dderbyn, a chanfuwyd bod ymatebwyr mewn teuluoedd unig riant yn dueddol o fod â chymwysterau is nag ymatebwyr mewn teuluoedd cyplau (Tabl A.3). Roedd llai o unig rieni wedi ennill Graddau Anrhydedd a Meistri nag ymatebwyr mewn teuluoedd cyplau ac roedd mwy o unig rieni nag ymatebwyr mewn teuluoedd cyplau heb unrhyw gymwysterau academaidd.

Tabl A.3 Cymwysterau, yn ôl y math o deulu

Sail: Yr holl deuluoedd

Cymhwyster uchaf	Math o deulu		
	Teulu cwpl %	Unig riant %	Cyfanswm %
TGAU gradd D-G / TAU gradd 2-5 / SCE			
O Graddau (D-E) / SCE	5	11	7
TGAU gradd A-C / llwyddiant TAG lefel			
O / TAU gradd 1 / SCE O	29	30	29
TAG safon A / SCE <i>Higher</i> Graddau (A-C)	8	12	9
Tystysgrif Addysg Uwch	7	6	7
Gradd sylfaen	1	1	1
Gradd Anrhydedd (e.e. BSc, BA, BEd)	18	5	14
Gradd Meistri (e.e. MA, PGDip)	8	2	6
Doethuriaethau (e.e. PhD)	1	0	1
Cymwysterau academaidd eraill	6	4	5
Dim	17	28	20
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>419</i>	<i>173</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>434</i>	<i>158</i>	<i>592</i>

Nodweddion teuluoedd

Maint yr aelwyd

4 o bobl oedd y maint cymedrig yr aelwydydd, 2 o bobl oedd yr aelwyd leiaf ac roedd gan y fwyaf 9 o bobl.

Nifer y plant 0-14 oed yn yr aelwyd

Roedd gan 49% o deuluoedd un plentyn 0-14 oed (Tabl A.4), roedd gan 37% ddau o blant, ac roedd gan 14% dri neu fwy o blant. Roedd unig rieni yn dueddol o fod â llai o blant na theuluoedd cyplau.

Tabl A.4 Nifer y plant y plant yn yr aelwyd, yn ôl y math o deulu

Sail: Yr holl deuluoedd

Nifer y plant	Math o deulu		
	Teulu cwpl %	Unig riant %	Cyfanswm %
1	46	56	49
2	39	32	37
3+	15	11	14
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>419</i>	<i>173</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>434</i>	<i>158</i>	<i>592</i>

Roedd gan ychydig dros hanner y teuluoedd yn yr arolwg (55%) blant oedran ysgol yn unig (Tabl A.5). Roedd gan tua un o bob pump blant cyn ysgol a phlant oedran ysgol (21%) ac roedd gan chwarter blant cyn ysgol yn unig (25%).

Tabl A.5 Presenoldeb plant cyn ysgol a phlant oedran ysgol yn yr aelwyd, yn ôl y math o deulu

Sail: Yr holl deuluoedd

Oedran y plant yn yr aelwyd	Math o deulu		
	Teulu cwpl %	Unig riant %	Cyfanswm %
Plant cyn ysgol yn unig (0-4 oed)	26	21	25
Plant cyn ysgol ac oedran ysgol	22	17	21
Plant oedran ysgol yn unig (5-14 oed)	51	62	55
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>419</i>	<i>173</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>434</i>	<i>158</i>	<i>592</i>

Incwm yr aelwyd

Mae Tabl A.6 yn dangos incwm blynyddol teuluoedd⁶⁶, ac yn dangos bod unig rieni yn yr arolwg hwn yn dueddol o ddod o gartrefi tlotach o gymharu â theuluoedd cyplau.

⁶⁶ Mae 18 o deuluoedd nad oes gennym ddata incwm ar eu cyfer. Mae'r teuluoedd hyn wedi'u hepgor o'r tabl hwn.

Tabl A.6 Incwm blynyddol teuluoedd, yn ôl y math o deulu

Sail: Yr holl deuluoedd

Incwm	Math o deulu		
	Teulu cwpl %	Unig riant %	Cyfanswm %
Hyd at £9,999	3	32	12
£10,000-19,999	22	48	30
£20,000-29,999	25	15	22
£30,000-44,999	20	3	15
£45,000 neu fwy	30	1	22
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>406</i>	<i>167</i>	<i>574</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>420</i>	<i>154</i>	<i>574</i>

Statws gwaith teuluoedd

Mae Tabl A.7 yn dangos statws gwaith teuluoedd. Roedd cyfran fawr o'r ymatebwyr o deuluoedd cyplau lle'r oedd y ddau riant yn gweithio (47%) neu lle'r oedd un riant yn gweithio (18%). Fodd bynnag, mewn 20% o deuluoedd, nid oedd neb yn gweithio (roedd 14% yn deuluoedd unig riant nad oeddent yn gweithio ac roedd 6% yn deuluoedd cyplau lle nad oedd yr un o'r ddau riant yn gweithio).

Tabl A.7 Statws gwaith teuluoedd

Sail: Yr holl deuluoedd

Statws gwaith teuluoedd	%
Cwpl – y ddau'n gweithio	47
Cwpl – un yn gweithio	18
Cwpl – yr un o'r ddau yn gweithio	6
Unig riant yn gweithio	15
Unig riant nad yw'n gweithio	14
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>592</i>

Deiliadaeth

Dangosir deiliadaeth y teulu yn Tabl A.8. Yn gyffredinol, y ddwy ddeiliadaeth fwyaf cyffredin oedd prynu'r adeilad gyda morgais neu fenthyciad (53%) a rhentu'r adeilad (36%). Roedd mwyafrif y teuluoedd a oedd yn cynnwys cwpl wrthi'n prynu eu lle preswyl gyda chymorth morgais neu fenthyciad (65%), tra bod y rhan fwyaf o unig rieni yn rhentu (66%, gweler Tabl A.8).

Tabl A.8 Statws deiliadaeth, yn ôl y math o deulu*Sail: Yr holl deuluoedd*

Deiliadaeth	Math o deulu		
	Teulu cwpl %	Unig riant %	Cyfanswm %
Prynu gyda chymorth morgais neu fenthyciad	65	23	53
Rhentu	24	66	36
Perchen yn llwyr	10	6	9
Byw'n ddi-rent (yn nhŷ perthynas/ffrind)	1	3	2
Talu cyfran o rent a chyfran o forgais (cydberchnogaeth)	1	1	1
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>419</i>	<i>173</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>434</i>	<i>158</i>	<i>592</i>

Car ar gael

Roedd ymatebwyr a oedd mewn perthynas yn fwy tebygol o fod â thrwydded yrru gyfredol (79%) na'r ymatebwyr hynny a oedd yn unig rieni (54%). O'r ymatebwyr hynny a oedd â thrwyddedau gyrru, roedd car ar gael i'r mwyafrif - 97% o deuluoedd cyplau a theuluoedd unig riant.

Nodweddion y plant a ddewiswyd

Mae'r adran hon yn trafod nodweddion y plentyn a ddewiswyd ar hap ym mhob teulu.

Rhyw

Dewiswyd nifer cyfartal bron o fechgyn a merched (52% bechgyn; 48% merched).

Oedran

Roedd oedranau'r plant wedi'u rhannu ar draws pob categori oedran (Tabl A.9).

Tabl A.9 Oedran y plentyn a ddewiswyd, yn ôl y math o deulu

Sail: Yr holl blant

Oedran y plentyn a ddewiswyd	Math o deulu		
	Teulu cwpl %	Unig riant %	Cyfanswm %
0-2	20	10	20
3-4	13	15	13
5-7	18	22	18
8-11	27	27	27
12-14	21	26	21
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>432</i>	<i>160</i>	<i>432</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>434</i>	<i>158</i>	<i>434</i>

Grŵp ethnig

Roedd mwyafrif y plant a ddewiswyd yn yr arolwg yn rhai Gwyn Prydeinig (89%) (Tabl A.10).

Tabl A.10 Ethnigrwydd y plentyn a ddewiswyd, yn ôl y math o deulu

Sail: Yr holl blant

Ethnigrwydd	Math o deulu		
	Teulu cwpl %	Unig riant %	Cyfanswm %
Gwyn Prydeinig	89	89	89
Gwyn Gwyddelig	0	1	-
Gwyn Arall	3	3	3
Gwyn a Charibiaidd	0	1	-
Gwyn a Du Affricanaidd	0	0	0
Gwyn ac Asiaidd	2	1	1
Cymysg arall	2	2	2
Indiaidd	-	1	-
Pacistanaidd	1	1	1
Bangladeshaid	-	0	-
Asiaidd Arall	-	0	-
Caribiaidd	-	0	-
Affricanaidd	-	1	-
Du Arall	0	1	-
Tsieineaidd	0	1	-
Arall	3	1	2
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>432</i>	<i>159</i>	<i>591</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>434</i>	<i>157</i>	<i>591</i>

Anghenion addysgol arbennig ac anableddau

Roedd gan 8% o'r plant a ddewiswyd angen addysgol arbennig, ac roedd gan 16% o'r plant a ddewiswyd nam, salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor.

Tabl A.11 Anghenion addysgol arbennig neu anableddau'r plentyn a ddewiswyd, yn ôl y math o deulu

Sail: Yr holl blant

	Math o deulu		
	Teulu cwpl	Unig riant	Cyfanswm
AAA	%	%	m
Mae gan y plentyn AAA	7	9	8
Mae gan y plentyn nam, salwch neu anabledd corfforol neu feddyliol hirdymor	15	18	16
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>430</i>	<i>160</i>	<i>591</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>433</i>	<i>158</i>	<i>591</i>

Amddifadedd ardal

Gan ddefnyddio'r Mynegai Amddifadedd Lluosog, gallwn weld bod y sampl yn amrywio ar draws pob ardal, o ran pa mor gefnog ydyw (Tabl A.12).

Tabl A.12 Amddifadedd ardal yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog

Sail: Yr holl deuluoedd

Amddifadedd ardal	%
Cwintel 1af – amddifadedd lleiaf	17
2il gwintel	19
3ydd cwintel	20
4ydd cwintel	18
5ed cwintel – amddifadedd mwyaf	25
<i>Sail wedi'i phwysoli</i>	<i>592</i>
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>592</i>

B.1 Cynnwys yr holiadur a'r cyfweliad

Arolwg Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru (2009) yw'r ail mewn cyfres a ddechreuodd yn 2004 (Bryson et al. 2006a)⁶⁷.

Roedd y cyfweliadau yn yr arolwg yn cymryd 46 munud ar gyfartaledd ac roeddynt yn cynnwys cwestiynau ynglŷn â defnydd y teulu o ofal plant yn yr wythnos gyfeirio yn ystod y tymor (sef yr wythnos fwyaf diweddar yn ystod y tymor) ac yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ogystal â manylion y taliadau am y gofal plant hwn, a dyddiadur presenoldeb llawn ar gyfer un plentyn yn y teulu. Dewiswyd y plentyn hwn ar hap gan y rhaglen gyfrifiadurol, a gofynnwyd i'r rhieni ddarparu gwybodaeth fanwl am y prif ddarparwr gofal plant a ddefnyddiwyd ar gyfer y plentyn a ddewiswyd. Gofynnwyd i'r rhieni hefyd am eu safbwyntiau cyffredinol ynglŷn â gofal plant a'r rhesymau dros ddefnyddio darparwyr penodol. Roedd yr holiadur hefyd yn casglu gwybodaeth ynglŷn â gweithgaredd economaidd y sawl a oedd yn ymateb, ynghyd â gweithgaredd economaidd y cymar, os yn berthnasol. Os nad oedd y cymar yno neu os oedd yn amharod i gymryd rhan, gallai'r ymatebwr ateb ar ei ran. Casglwyd gwybodaeth gymdeithasol-ddemograffig hefyd.

Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb yn wyneb ar liniadur, gan ddefnyddio dull cyfweld personol gyda chymorth cyfrifiadur (CAPI). Defnyddiwyd Blaise i raglennu'r CAPI. Darparwyd cyfres o gardiau dangos a chalendr wythnosol fel cymorth wrth gyfweld.

Gallai'r bobl a oedd yn ymateb ofyn am gael cyfweliad yn Gymraeg, a digwyddodd hynny mewn dwy sefyllfa yn unig.

Roedd y cyfweliad yn gyffredinol yn cynnwys y meysydd pwnc canlynol.

I bob teulu:

- Defnydd o ofal plant yn yr wythnos gyfeirio yn ystod y tymor ac yn y flwyddyn ddiwethaf;
 - Mathau o ddarparwyr a ddefnyddiwyd ar gyfer pob plentyn;
 - Defnydd o glybiau y tu allan i'r ysgol a'r galw amdanynt (i deuluoedd â phlant o oedran ysgol);
 - Defnydd o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol yn y flwyddyn ddiwethaf (i deuluoedd â phlant oedran ysgol);
 - Defnydd o'r oriau am ddim o addysg y blynyddoedd cynnar i blant 3 a 4 blwydd oed;
 - Ymwybyddiaeth o gredydau treth a chymorthdaliadau, a'r hyn a dderbynnir;
 - Ffynonellau gwybodaeth am ofal plant lleol;
 - Barn ynglŷn ag a oes digon o leoedd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn yr ardal leol;
 - Trefniadau gofal plant a gwaith.
- *Ar gyfer un plentyn a ddewiswyd ar hap:*
 - Cofnod manwl o'r gofal plant a fynychwyd yn ystod y wythnos gyfeirio;

⁶⁷ Yn ychwanegol, mae cyfres gyfochrog o Arolygon Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar wedi ei chynnal gyda rhieni yn Lloegr yn 2004, 2007, 2008 a 2009.

- Manylion y prif ddarparwr ar gyfer y plentyn a ddewiswyd;
 - Rhesymau dros ddewis y prif ddarparwr;
 - Sgiliau a anogir gan y darparwr;
 - Gwasanaethau ychwanegol a gynigir gan y prif ddarparwr.
- *Manylion dosbarthiad yr holl deuluoedd:*
 - Cyfansoddiad yr aelwyd;
 - Nodweddion cymdeithasol-ddemograffig (e.e. ethnigrwydd, cymwysterau, incwm);
 - Hanes gwaith y rhieni dros y ddwy flynedd ddiwethaf (gan gynnwys oriau gwaith annodweddiadol a pha un a achosodd hyn broblemau o ran gofal plant);
 - Dosbarthiad plant yn ôl anghenion addysgol arbennig ac anabledd neu salwch hir dymor;
 - Daliadaeth tai;
 - Manylion cyswllt y darparwyr gofal plant a chwestiynau gweinyddol.

B.2 Samplu

Poblogaeth darged Arolwg Gofal Plant Cymru oedd rhieni plant dan 15. Dewiswyd y sampl o'r cofnodion Budd-dal Plant gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi. Mae Budd-dal Plant yn fudd-dal cyffredinol y mae cyfradd uchel o'r boblogaeth yn ei derbyn (tua 98%), sy'n golygu bod cofnodion y Budd-dal Plant yn ffrâm samplu cynhwysfawr iawn. Mae cofnodion y Budd-dal Plant yn cynnwys gwybodaeth am y plentyn y gwneir y cais ar ei ran; mae hyn yn golygu y gellir nodi pa aelwydydd sy'n gymwys wrth samplu, sy'n gwneud gwaith maes yn fwy cost effeithiol.

Caiff nifer fechan o'r rhai sy'n derbyn Budd-dal Plant (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel derbynwyr) eu hepgor o'r ffrâm samplu cyn i'r sampl gael ei ddethol. Nodir yr eithriadau yn unol â gweithdrefnau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi ac mae'r rhesymau'n cynnwys; marwolaeth plentyn, achosion lle bo'r plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu wedi ei roi i'w fabwysiadu, achosion lle nad yw'r plentyn yn byw yn yr un cyfeiriad â'r sawl sy'n ei hawlio, ac achosion lle bo unrhyw lythyru wedi bod rhwng y derbynydd a'r Ganolfan Budd-dal Plant (oherwydd na ellir canfod y rheswm am y llythyru ac y gall fod yn sensitif).

Cafodd achosion eraill eu hepgor oherwydd y comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru werthusiad o "Dechrau'n Deg", gyda sampl o blant rhwng 5 a 14 mis. Cytunwyd na fyddai rhieni sy'n byw mewn ardaloedd a ddewiswyd ar gyfer yr arolwg Dechrau'n Deg yn cael ei dewis ar gyfer sampl Arolwg Gofal Plant Cymru os oedd ganddynt blant yn yr ystod oedran hwn. Gan fod y gwerthusiad Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, roedd yn rhaid ystyried hynny wrth samplu a hefyd wrth bwysoli'r data ar gyfer ei ddadansoddi.

Dethol derbynwyr

Dewiswyd sampl o dderbynwyr mewn dau gam. Ar y cam cyntaf, samplwyd 32 Uned Samplu Sylfaenol⁶⁸. Samplwyd hwy gyda thebygolrwydd a oedd yn gymesur

⁶⁸ Grwpiau o ardaloedd allbwn sylweddol oedd Unedau Samplu Sylfaenol. Cafodd ardaloedd allbwn sylweddol a oedd yn cynnwys llai na 250 o dderbynwyr eu gosod mewn grŵp gydag

â'r nifer amcangyfrifedig o dderbynwyr cymwys. (Roedd nifer y derbynwyr yn wybyddus, ond ni ellid ond amcangyfrif nifer y derbynwyr cymwys gan nad oedd yn wybyddus faint o dderbynwyr ym mhob ardal a oedd yn gymwys ar gyfer y gwerthusiad Dechrau'n Deg, ac a oedd felly'n anghymwys ar gyfer Arolwg Gofal Plant Cymru). Gor-samplwyd Unedau Samplu Safonol a oedd yn cynnwys ardaloedd Dechrau'n Deg ychydig gan y cytunwyd na fyddai derbynwyr yn yr ardaloedd hynny'n cael eu dewis os oedd ganddynt blentyn rhwng 5 a 14 mis.

Yn yr ail gam, roedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn samplu derbynwyr. Dewiswyd derbynwyr gyda thebygolrwydd cymesur â nifer y plant rhwng 0 a 14 mlwydd oed yr oeddynt yn derbyn budd-daliadau ar eu cyfer. Roedd y cynllun samplu yn golygu y gallai derbynwyr a oedd yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg gael eu samplu, ond pe byddent yn cael eu dethol, ni fyddent yn cael eu hanfon at y cyfwelwyr.

Ar ôl i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi ddychwelyd y sampl, dilëwyd y derbynwyr a oedd yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg a dewiswyd sampl ar hap o 28 o dderbynwyr o'r rhai a oedd yn weddill ar gyfer y prif sampl. Cyfanswm y sampl a anfonwyd oedd 896 o dderbynwyr.

Dewis plant

Ym mhob aelwyd a oedd yn ymateb, dewiswyd un plentyn ar hap gan y rhaglen CAPI (dewiswyd o'r holl blant rhwng 0 a 14 mlwydd oed). Y plentyn hwn oedd canolbwynt y cwestiynau am y dyddiadur presenoldeb. Roedd y weithdrefn dethol aelwydydd yn caniatáu i unrhyw fabanod a anwyd ers dechrau'r gwaith maes gael eu cynnwys yn y sampl; fel arall byddai'r plant hyn wedi eu hepgor⁶⁹.

B.3 Cysylltu ag ymatebwyr

Oherwydd y defnyddiwyd cofnodion Budd-dal Plant i ddethol y sampl, roedd gan y cyfwelwyr fanylion cyswllt yr unigolion a enwir. Yr unigolyn a enwir yn y sampl oedd y sawl sydd wedi ei restru fel derbynnydd y Budd-dal Plant yn yr aelwyd honno. Er y gofynnwyd i'r cyfwelwyr olrhain yr unigolyn a enwir, nid hwnnw o reidrwydd oedd y sawl yr oedd angen ei gyfweld. Yr ymatebwyr hynny a oedd yn gymwys i'w cyfweld oedd y rhai a oedd yn bennaf gyfrifol neu'n gyfrifol ar y cyd am wneud penderfyniadau am unrhyw ofal plant yr oedd y plentyn/plant yn y cartref wedi ei dderbyn, o bosibl. Cynhaliwyd yr holl gyfweiliadau gan gyfwelwyr NatCen.

Derbyniodd pob unigolyn a samplwyd lythyr ym mis Medi 2009, yn cyflwyno'r arolwg ac yn caniatáu o leiaf pythefnos iddynt ymateb er mwyn gwrthod cymryd rhan. Dim ond achosion pan na ddewisodd yr ymatebwr dynnu'n ôl ar y cam hwn a dderbyniwyd i gael eu cyfweld. Anfonodd y cyfwelwyr lythyron ymlaen llaw at yr unigolion a samplwyd yn eu hardaloedd, gan ymweld â'r cyfeiriadau rai dyddiau wedyn.

ardaloedd allbwn sylweddol cyfagos er mwyn lleihau clystyru. Ymdriniwyd â hwy wedyn fel un ardal at ddibenion y samplu a'r gwaith maes.

⁶⁹ Ni fydd plant cyntaf anedig a anwyd ar ôl dechrau'r gwaith maes yn cael eu cynnwys, a bydd hyn yn golygu na fydd y sampl yn gynrychiadol o'r holl blant dan 6 mis oed. Gallai hyn gyflwyno ychydig bach o ogwydd i'r sampl.

Rhodddwyd cyfarwyddiadau i'r cyfwelwyr ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer olrhain pobl a oedd wedi symud tŷ ers i'r cofnodion Budd-dal Plant gael eu diwedddaru ddiwethaf. Os oedd y cyfwelwyr yn gallu canfod cyfeiriad newydd yr unigolyn a enwir, a bod ef neu hi yn dal i fyw yn yr ardal, gofynnwyd i'r cyfwelydd barhau â'r broses gan ddefnyddio'r cyfeiriad newydd. Os nad oedd y cyfeiriad newydd bellach yn lleol i'r cyfwelydd, roedd yr achos yn cael ei neilltuo i gyfwelydd arall, pan oedd hynny'n bosibl.

B.4 Cyfarwyddyd

Cyn dechrau'r gwaith maes, treuliodd yr holl gyfwelwyr ddiwrnod llawn yn derbyn cyfarwyddyd dan arweiniad tîm ymchwil NatCen. Roedd y cyfarwyddyd yn cynnwys cyflwyniad i'r arolwg a'i amcanion, esboniad o'r sampl a'r gweithdrefnau ar gyfer cysylltu ag ymatebwyr, diffiniadau llawn o ofal plant ffurfiol ac anffurfiol, ac ymarfer cyfweiliad ffug, a oedd wedi ei gynllunio i gynorthwyo'r cyfwelwyr i ymgyfarwyddo â'r cwestiynau a llif yr holiadur. Roedd yr holl sesiynau cyfarwyddo hefyd yn cynnwys trafodaeth ynglŷn â chynnal ymchwil gyda rhieni, materion sensitif a gwybodaeth ymarferol.

B.5 Cyfraddau ymateb y gwaith maes

Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2009 yn nhymor yr hydref i ysgolion. Cafodd 896 o gyfeiriadau eu cynnwys yn y sampl a chyrraedd y cam tynnu'n ôl. Wedi cyfnod hwn, anfonwyd cyfanswm o 844 o gyfeiriadau at y cyfwelwyr ac anfonwyd llythyrau i'r gyfeiriadau hyn ymlaen llaw.

Er mwyn sicrhau bod y cyfraddau ymateb terfynol yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio diffiniadau cyson ar draws yr holl arolygon, mae NatCen wedi dechrau defnyddio Codau Canlyniad Safonol yn ddiweddar. Cyfradd ymateb gyffredinol arolwg gofal plant 2009 yn y maes gan ddefnyddio Codau Canlyniad Safonol oedd **67%**, gweler Tabl B.1. Mae'r ffigur hwn yn adlewyrchu cyfran y cyfweiliadau cynhyrchiol yn yr holl gyfeiriadau cymwys a anfonwyd at y cyfwelwyr. Cyfradd ymateb gyffredinol yr holl gyfeiriadau yng ngwmpas yr astudiaeth oedd **70%**. Mae'r cyfraddau ymateb gwahanol i'r arolwg yn y maes wedi eu crynhoi yn Nhabl B.2 hefyd.

Tabl B.1 Ffigurau ymateb yr arolwg

		Poblogaeth yng ngwmpas yr astudiaeth %	Poblogaeth yng nghwmpas y gwaith maes %
Sampl llawn cyn y cam tynnu'n ôl	896		
Anghymwys	7		
Dim plant o oedran perthnasol	3		
Anghymwys arall ⁷⁰	4		
Sampl cymwys	889	100	
Tynnu'n ôl cyn i'r gwaith maes ddechrau	45	5	
Sampl cymwys – anfonwyd at y cyfwelwyr	844	95	100
Dim cyswllt	89	10	11
Ymatebwr wedi symud	79		
Dim cyswllt am reswm arall	10		
Rhai a wrthododd	150	17	18
Gwrthod i'r swyddfa	32		
Gwrthod i'r cyfwelydd	111		
Gwrthod gwybodaeth ynglŷn â chymhwysedd	7		
Anghynhyrchiol arall	13	1	2
Yn sâl gartref yng nghyfnod yr arolwg	11		
Anawsterau iaith	1		
Anghynhyrchiol arall	1		
Cyfweliadau cynhyrchiol	592	67	70
Cyfweliad llawn – unig riant	158		
Cyfweliad llawn – cyfweld y cymar wyneb yn wyneb	130		
Cyfweliad llawn – cyfweld y cymar ar ei ran	278		
Cyfweliad llawn – cymar anghynhyrchiol	25		
Cyfweliad rhannol	1		

⁷⁰ Mae hwn yn cyfeirio at gyfeiriadau annilys (er enghraifft, cyfeiriadau nad oeddynt yn eiddo preswyl, sefydliadau cymunedol, ac eiddo heb ei adeiladu hyd yn hyn/wrthi'n cael ei adeiladu).

Tabl B.2 Ffigurau ymateb y gwaith maes

Sail: Yr holl rieni na ddewisodd dynnu'n ôl yn ystod y cyfnod tynnu'n ôl

	%
Cyfradd ymateb gyffredinol	70
Cyfradd ymateb lawn	70
Cyfradd gydweithredu	78
Cyfradd gyswllt	89
Cyfradd wrthod	18
Cyfradd gymhwysedd	99

Glynnwyd at fesurau rheoli ansawdd safonol NatCen yn y maes, yn yr arolwg hwn. Mae goruchwyliwr yn mynd gyda phob cyfwelydd ar gyfer diwrnod llawn o waith yn y maes ddwywaith y flwyddyn, sy'n golygu y bydd tua 10% o'r cyfwelwyr wedi eu goruchwyllo yn ystod yr arolwg penodol hwn. Hefyd, mae Uned Rheoli Ansawdd NatCen yn ôl-archwilio un cyfweliad ym mhob deg. Gwneir yr ôl-archwilio dros y ffôn pan fo hynny'n bosibl neu drwy'r post. Heblaw am ddiolch i'r ymatebwr am gymryd rhan, defnyddir y galwadau hyn i sicrhau bod gweithdrefnau amrywiol wedi eu cynnal yn gywir a pha un a oedd y cyfwelydd wedi gwneud argraff dda. Ni ddatgelwyd unrhyw broblemau sylweddol wrth ôl-archwilio'r arolwg hwn ac roedd yr adborth ynglŷn â'r cyfwelwyr yn gadarnhaol dros ben.

B.6 Neilltuo codau a golygu data

Mae'r rhaglen CAPI yn sicrhau y dilynir y llwybr cywir drwy'r holiadur ac mae'n archwilio ystod y data, gan atal gwerthoedd annilys rhag cael eu bwydo i'r rhaglen. Mae hefyd yn archwilio ar gyfer cysondeb, gan ofyn i'r cyfwelwyr ailedrych ar atebion nad ydynt yn gyson â'r wybodaeth a ddarparwyd yn gynt yn y cyfweliad. Mae'r archwiliadau hyn yn caniatáu i'r cyfwelwyr ofyn am egluhad a holi'r ymatebwr yn uniongyrchol ynglŷn ag unrhyw anghysondeb yn y data, ac fe'u defnyddiwyd yn helaeth yn yr holiadur.

Neilltuwyd cod i'r data a gasglwyd yn ystod y cyfweliadau ac fe'i golygwyd. Roedd y prif dasgau neilltuo cod/golygu yn cynnwys:

- 1) Neilltuo cod i'r wybodaeth am gyflogaeth yn unol â dosbarthiadau diwydiannol a galwedigaethol safonol – SIC (2003) a SOC (2000) – ac yn unol ag NS-SEC;
- 2) Neilltuo cod i'r atebion 'arall' (gwneir hyn pan fod ymatebwr yn rhoi ateb sy'n wahanol i'r rhai sydd eisoes â chod; cofnodir yr ateb hwn air am air yn ystod y cyfweliad a neilltuir cod iddo yn ystod y cam codio gan ddefnyddio'r rhestr gwreiddiol o ymatebion sydd eisoes â chod ac weithiau codau ychwanegol sydd ar gael i swyddogion codio yn unig);
- 3) Darllen y nodiadau a gadwodd y cyfwelwyr yn ystod y cyfweliadau.

Tîm o swyddogion codio sy'n neilltuo'r codau ac mae tîm Gweithrediadau NatCen yn eu rheoli. Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r codwyr ynglŷn â'r arolwg a rhoddwyd cyfle

iddynt fynd trwy enghreifftiau. Os nad oedd y swyddog codio na'r tîm gweithrediadau'n gallu datrys ymholiad, roedd yn cael ei gyfeirio at y tîm ymchwil.

Ar ôl glanhau'r gyfres ddata, sefydlwyd y ffeil ddadansoddi o newidynnau deilliannol a newidynnau ar sail y cwestiynau yn SPSS, a labelwyd codau'r holl gwestiynau ac atebion. Crewyd y tablau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad yn SPSS a chynhaliwyd profion arwyddocâd gan ddefnyddio gorchmynion arolwg yn SPSS 15.0 a STATA 10.0.

B.7 Dilysu darparwyr

Dilyswyd y dosbarthiadau a ddefnyddiodd ymatebwyr ar gyfer eu darparwyr gofal plant, er mwyn gwella cywirdeb y dosbarthiadau. Roedd yr archwiliadau hyn wedi eu cyfyngu i ddarparwyr a ddefnyddiwyd yn yr wythnos gyfeirio yn ystod y tymor (yn hytrach na'r flwyddyn gyfan), gan mai'r rhain oedd canolbwynt y rhan fwyaf o'r dadansoddi. Yn ystod y prif arolwg, gofynnwyd i'r rhieni nodi ym mha ddosbarth yr oedd y darparwyr gofal plant yr oeddynt yn eu defnyddio i ofalu am eu plant (e.e. ysgol feithrin, cylch chwarae ac ati). O ystyried y gallai rhai rhieni fod wedi camddosbarthu'r darparwyr yr oeddynt yn eu defnyddio, cysylltwyd â'r darparwyr dros y ffôn, pan oedd hynny'n bosibl, a gofynnwyd iddynt ddosbarthu'r math o ddarpariaeth yr oeddynt yn ei chynnig i blant o wahanol oedrannau.

Darparwyr grŵp ffurfiol yn unig y cysylltwyd â hwy. Maent fel a ganlyn:

- Ysgol feithrin;
- Dosbarth meithrin cysylltiedig ag ysgol gynradd neu ysgol fabanod;
- Dosbarth derbyn cysylltiedig ag ysgol gynradd neu ysgol fabanod;
- Ysgol ddydd neu feithrinfa neu uned arbennig ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Arbennig
- Meithrinfa ddydd;
- Cylch chwarae neu gylch cyn ysgol neu cyfrwng Cymraeg;
- Clwb brecwast/clwb neu weithgaredd ar ôl ysgol

Dechreuodd y broses o ddilysu darparwyr trwy gymryd data o'r cyfweiliad CAPI ynglŷn â'r darparwyr a ddefnyddiwyd, ac ynglŷn â'r dosbarth y rhoddwyd hwy ynddo gan y rhiant. Dim ond mewn achosion pan y cytunodd y rhieni i ganiatáu i NatCen gysylltu â'u darparwyr y gwnaethpwyd hyn. Roedd pob darparwr yn parhau i fod yn gysylltiedig â chyfweiliad y rhiant er mwyn gallu eu cymharu a'u cyfuno yn hwyrach â'r prif ddata o brif gyfweiliad y rhiant.

Derbyniwyd gwybodaeth am 568 o leoliadau o'r data cyfweiliad. Gan y gallai gwahanol rieni fod wedi defnyddio'r un darparwr, roedd y wybodaeth gyswllt ar gyfer y darparwr hwnnw o bosibl yr un peth. Yn hynny o beth, sicrhawyd i ddechrau nad oedd manylion yn cael eu dyblygyu ar y rhestr ddarparwyr, a gwnaethpwyd hynny'n awtomatig ac â llaw. Cafwyd gwared ar ddarparwyr wrth eu dilysu hefyd oherwydd rhifau ffôn anghyflawn neu annilys. Cafwyd gwared ar gyfanswm o 337 o ddarparwyr.

Cynhyrchwyd rhestr lawn o 231 o ddarparwyr gyda rhifau ffôn dilys, a rhoddwyd cyfarwyddiadau i gyfwelwyr ffôn. Roedd y cyfweiliadau gyda'r darparwyr yn cymryd tua pum munud, ac roeddynt yn cwmpasu: ystod oedran y plant a oedd yn mynd at y darparwr, y gwasanaethau a ddarperir, y sefydliad sy'n gyfrifol am ariannu'r

gwasanaethau, a pha un a oedd y darparwr yn gysylltiedig â lleoliad gofal integredig neu'n rhan o un ohonynt. Cafwyd cyfweiliadau cynhyrchiol gyda 202 o ddarparwyr, sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 87%.

Wedi hynny, cymharwyd data'r archwiliadau ffôn a chyfweiliadau'r rhieni. Er y cwblhawyd cyfran sylweddol o'r archwiliadau hyn yn awtomatig, edrychwyd ar rai achosion â llaw. Mae tabl B.3 yn dangos dosbarthiad y rhieni o'i gymharu â'r dosbarthiad terfynol wedi'r holl archwiliadau.

Tabl B.3 Dosbarthiad darparwyr cyn ac ar ôl eu dilysu

Sail: Yr holl ddarparwyr sefydliadol ffurfiol a nododd y rhieni

Math o ddarparwyr	Dosbarthi	Dosbarthiad
	ad y rhieni	terfynol ar ôl yr holl archwiliadau
	%	%
Ysgol feithrin	5	3
Dosbarth meithrin cysylltiedig ag ysgol gynradd neu ysgol fabanod	11	12
Dosbarth derbyn	11	12
Ysgol ddydd neu feithrinfa neu uned arbennig ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Arbennig	1	1
Meithrinfa ddydd	9	9
Cylch chwarae neu cyn ysgol neu cyfrwng Cymraeg	7	7
Clwb brecwast/clwb neu weithgaredd ar ôl ysgol	56	56
<i>Sail heb ei phwysoli</i>	<i>568</i>	<i>568</i>

B.8 Pwysoli

Rhesymau dros bwysoli

Roedd tri cham i'r weithdrefn bwysoli; y cyntaf oedd diddymu gogwydd a oedd yn deillio o'r modd y cynlluniwyd y sampl, a'r ail a'r trydydd cam oedd diddymu gogwydd oherwydd diffyg ymateb neu hepgoriad differol.

Roedd sampl Arolwg Gofal Plant Cymru wedi ei gynllunio i gynrychioli poblogaeth y plant ar y cofnodion Budd-dal Plant, yn hytrach na phoblogaeth y rhai sy'n derbyn Budd-dal Plant. Mae'r nodwedd hon yn golygu bod gogwydd yn y sampl tuag at aelwydydd â mwy o blant ynddynt; felly mae angen pwysoli'r data cyn y gellir dadansoddi'r data ar lefel aelwydydd mewn unrhyw ffordd. Bydd pwysoliadau dethol hefyd yn cywiro tebygolrwydd dethol ar gyfer achosion pan oedd nifer y plant yn y ffrâm samplu yn wahanol i nifer y plant a ganfuwyd yn yr aelwyd ar adeg y cyfweiliad.

Defnyddiwyd ail gam pwysoli i gywiro oherwydd derbynwyr na wnaethant ymateb, a cham pwysoli olaf (a elwir yn bwysoliad calibradu) i gywiro gwahaniaethau oherwydd i bobl gael eu hepgor o'r ffrâm samplu⁷¹ a siawns ar hap yn y broses ddewis.

Bydd y sampl yn cael ei ddadansoddi ar lefel yr aelwydydd ac ar lefel y plant, felly bydd dau bwysoliad terfynol; pwysoliad aelwydydd ar gyfer dadansoddiadau ar lefel aelwydydd a phwysoliad plant ar gyfer dadansoddi'r data a gasglwyd ynglŷn â'r plant a ddewiswyd.

Pwysoliadau dethol

1) Pwysoliad dethol aelwydydd

Mae cynllun y sampl yn golygu bod aelwydydd sy'n cynnwys nifer fawr o blant cymwys yn fwy tebygol o gael eu cynnwys yn y sampl, gan fod derbynwyr yn cael eu dethol gyda thebygolrwydd a oedd yn gymesur â nifer y plant cymwys yr oeddynt yn hawlio Budd-dal plant ar eu cyfer. Mewn rhai aelwydydd, gallai oedolion gwahanol fod yn hawlio Budd-dal Plant ar gyfer gwahanol blant yn yr aelwyd⁷². Yn yr enghreifftiau hyn, gellid dethol yr aelwydydd trwy unrhyw un o'r derbynwyr yn y ffrâm samplu, felly roedd tebygolrwydd bod yr aelwyd yn cael ei dethol yn gyfartal â chyfanswm y plant cymwys yn yr aelwyd, wedi'i bwysoli.

Pwysoliad dethol aelwydydd pob aelwyd, w_1 , yw cilydd tebygolrwydd dethol yr aelwyd. Roedd gan aelwydydd mawr bwysoliadau dethol bach, ac roedd gan aelwydydd bach bwysoliadau mwy.

$$w_1 = 1/Pr(h)$$

2) Pwysoliad diffyg ymateb a phwysoliad aelwydydd cyn calibradu

Defnyddiwyd model atchweliad logistaidd er mwyn modelu diffyg ymateb. Canfuwyd bod y tebygolrwydd bod derbynwyr yn ymateb i'r arolwg yn dibynnu ar gyflwr yr ardal (roedd derbynwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd a ddisgrifir yn bennaf fel rhai da yn fwy tebygol o ymateb na'r rhai hynny mewn ardaloedd llai da), a pha un a oedd yr aelwyd mewn ardal wledig neu drefol. (Roedd derbynwyr mewn ardaloedd trefol yn llai tebygol o ymateb). Roedd modelu atchweliad logistaidd yn caniatáu i ni ystyried hyn a lleihau unrhyw ogwydd a achoswyd oherwydd derbynwyr na wnaethant ymateb.

Cyfrifwyd pwysoliad diffyg ymateb (w_{NR}) fel cilydd y tebygolrwydd ymateb a fodelwyd. Roedd pwysoliad aelwydydd cyn calibradu (w_h) yna yn lluoswm y pwysoliad diffyg ymateb a'r pwysoliad dethol aelwydydd (w_1)

$$w_h = w_{NR} * w_1$$

3) Pwysoliad dewis plant

⁷¹ Gweler adran B.2 am ddisgrifiadau o'r rhai a gafodd eu hepgor.

⁷² I gyfrifo'r pwysoliadau dethol, rydym wedi rhagdybio bod yr holl blant yn byw yn yr un aelwyd â'r oedolyn sy'n derbyn eu Budd-dal Plant. Roedd yn ofynnol i ni ragdybio hynny gan nad oedd y cofnodion Budd-dal Plant yn dangos aelwydydd; roedd y cofnodion yn dangos plant a derbynwyr yn unig. Os rhagdybir hyn, yna mae tebygolrwydd aelwyd o gael ei dewis dan ein cynllun yn gyfartal â nifer y plant cymwys yn yr aelwyd honno, pa bynnag dderbynnydd a dewiswyd yn ystod y broses samplu. I'r mwyafrif helaeth o achosion bydd y rhagdybiaeth hon yn wir.

Ym mhob aelwyd a ymatebodd, dewiswyd un plentyn ar hap yn ystod y cyfweliad. Y plentyn hwn oedd canolbwynt adran fanwl yr holiadur ar ofal plant. Roedd plant yn gymwys os oeddynt yn 14 blwydd oed neu'n iau ar adeg y cyfweliad.

Roedd tebygolrwydd plentyn o gael ei ddewis yn gyfartal â chilydd nifer y plant cymwys yn yr aelwyd. Mae'r pwysoliad dewis plant (w_2) yn wrthdro i'r tebygolrwydd dewis plentyn.

$$w_2 = 1/Pr(c)$$

Fel a nodwyd eisoes, rhagdybiwyd bod yr holl blant yn yr aelwyd yn byw gyda'r oedolyn a oedd yn hawlio eu Budd-dal Plant.

4). *Pwysoliad plant cyn calibradu*

Cyfrifwyd y pwysoliad plant cyn calibradu (w_c) wedyn fel lluoswm y pwysoliad aelwydydd (w_h) a'r pwysoliad dewis plant (w_2).

$$w_c = w_h * w_2$$

Calibradu

Cam olaf y weithdrefn bwysoli oedd addasu'r pwysoliadau gan ddefnyddio pwysoliad calibradu (Deville a Sarndal 1992). Nod y pwysoliadau calibradu oedd cywiro unrhyw wahaniaethau rhwng y sampl (wedi ei bwysoli) a gafwyd a'r proffil poblogaeth a achoswyd trwy hepgor achosion o'r ffrâm samplu cyn samplu, a siawns ar hap yn y broses ddethol.

